A ddywed byth yn llawn
Am ras ein Ceidwad cu ?
Ei waed fe rodd o'i gariad gwiw,
I gànu'r lleiddiaid dua'u lliw.

4 Mae cariad yn ei wedd
At wael golledig fyd ;
Cyflawnder llym a hedd
Yn ymgusanu 'nghyd ;
f Trugaredd a gwirioned pur
Yn ymddisgleirio yn ei gur.—Amen.

ALMA. 8.7.8.7.4.7.



36

An.

mf 1 WELE, ganwyd y Messïah,
Dyma'r hyfryd foreu ddydd ;
Awn i Fethle'm gyda'r Doethion,
Gwelwn Ef â golwg ffydd :
Cyd-addolwn,
Wele Dduw yn natur dyn.

2 Wele Enw mawr Rhyfeddol,
Wele'r Ior, tragwyddol yw !
Clywch angylion yn clodfori,
Duw yn ddyn, a dyn yn Dduw :
T'wysog heddwch,
Yn y preseb gwelwyd Ef.

f 3 Holl blant Sïon, gorfoleddwch,
A chydgenwch newydd gân,
Heddyw ganwyd i chwi Geidwad,
'R hwn a gaed trwy'r Ysbryd Glân :
Cenwch iddo,
Nes dadseinio'r nefoedd faith.—Amen.

DUSSELDORF. 8.7.8.7. D. MENDELSSOHN.



37 A. G.

mf 1 O DDYFNDEROEDD iachawdwriaeth !
Dirgelwch mawr duwioldeb yw—
Duw y duwiau wedi ymddangos
Yng nghnawd a natur dynol ryw :
Dyma'r Person a ddyoddefodd
Yn ein lle ddigofaint llawn,
A chyfiawnder waeddodd, "Gollwng
Ef yn rhydd, mi gefais iawn."

2 Dyma'r Brawd a anwyd ini
Erbyn c'ledi a phob clwy' ;
Ffyddlawn ydyw, llawn tosturi—
Haeddai gael ei foli'n fwy :
Rhyddhäwr caethion, Meddyg cleifion,
Ffordd i Sïon union yw ;
Ffynnon loew, bywyd meirw—
Arch i gadw dyn yw Duw.

mp 3 Dedwydd fydd tragwyddol orphwys
O bob llafur yn y man,
Yng nghanol môr o ryfeddodau,
Heb un gwaelod byth na glan :
cr Caffael mwy fynediad helaeth
I drigfanau Tri yn Un,
f Dwfr i nofio heb fyn'd trwyddo—
Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn.—
Amen.

MONTGOMERY. M. H. STANLEY.



38 AN.

mf 1 O'R nefoedd daeth, ar foreu clir,
Newyddion da i Fethle'm dir,
Fod ini wedi ei eni un
Yn gadarn Dŵr i gadw dyn.

2 Rhyfeddod pob rhyfeddod yw
Gwel'd Iesu'n ddyn, ac eto'n Dduw,
Ar liniau Mair yn faban gwan—
Yn Dduw presennol ym mhob man !

3 Os rhyfedd gan angylion nef
Oedd gwel'd ei bur ddyndeb Ef,
Mae myrdd o ryfeddodau mwy
Yn rhinwedd glân ei farwol glwy'.

Boed y gogoniant iddo'n lân,
Trwy nef a llawr, gan fawr a mân :
I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân,
Un Duw o hyd yn ddiwahân.—Amen.

ADESTE FIDELES. 6.6.10.5.6.7.7.11.



39 *E. L.*

f 1 O DEUWCH, ffyddloniaid,
Gan lon orfoleddu ;
O deuwch. O deuwch i Fethlehem :
Ganwyd, chwi welwch,
Frenin yr angylion :
p O deuwch ac addolwn—
p O deuwch ac addolwn—
f O deuwch ac addolwn ein Harglwydd Dduw.

f 2 Y gwir Dduw o wir Dduw
Llewyrch o Lewyrch,
Y gwir ddyn a anwyd o Forwyn bur ;
Duw cenedledig,
Ac nid gwneuthuredig.
p O deuwch, &c.

f 3 Cydganed angylion
Lawen Haleluia ;
Cydganed holl gôr y nefolaidd lu,
ff "Gogoniant i Dduw
Yn y goruchafion."
p O deuwch, &c.

f 4 Am hyny i'r Iesu
'R hwn a anwyd *heddyw* [ini],
Boed mawredd, a gallu, a gogoniant ;
Yn gnawd y gwnaethpwyd
Gair y Tad tragwyddol.
p O deuwch ac addolwn—
p O deuwch ac addolwn—
f O deuwch ac addolwn ein Harglwydd Dduw.—
Amen.

MENDELSSOHN. 7au. 8llin. F. MENDELSSOHN.



40

E. R.

f 1 CLYWCH lu'r nef yn seinio'n un,
Henffych eni Ceidwad dyn ;
p Heddwch sydd rhwng nef a llawr,
Duw a dyn sy'n un yn awr :
f Dewch, bob cenedl is y rhod,
Unwch â'r angylaidd glod ;
ff Bloeddiwch oll, â llawen drem,
Ganwyd Crist ym Methlehem !
Clywch lu'r nef yn seinio'n un,
Henffych eni Ceidwad dyn !

f 2 Crist, Tad tragwyddoldeb yw,
A dysgleirdeb wyneb Duw ;
Cadarn Ior a ddaeth ei Hun,
Gwnaeth ei babell gyda dyn !

p Wele Dduwdod yn y cnawd !
cr Dwyfol Fab i ddyn yn frawd !
f Duw yn ddyn, fy enaid gwel !
Iesu, ein Immanuel !
ff Clywch lu'r nef yn seinio'n un,
Henffych eni Ceidwad dyn !

f 3 Henffych ! T'wysog heddwch yw ;
Henffych ! Haul Cyfiawnder gwiw ;
Bywyd ddwg, a goleu ddydd,
Iechyd yn ei esgyll sydd ;
Rhoes i lawr ogoniant nef ;
Fel nas trengom, ganwyd Ef ;
Ganwyd Ef, o ryfedd drefn !
Fel y genid ni drachefn.
ff Clywch lu'r nef yn seinio'n un,
Henffych eni Ceidwad dyn !—Amen.

WINCHESTER OLD.

M.C.



41

P.

mf 1 YR BOREU hwn, trwy buraf hedd,
Gwir sain gorfoledd sydd
Yn mhlith bugeiliaid gwael eu bri,
Cyn iddi dori'r dydd.

2 Gwrandawed pob pechadur gwan,
Sy'n plygu dan ei bla,
Angylion nef â'u llef yn llon,
Yn dwyn newyddion da.

3 I Fethle'm Judah, dyma'r dydd
Daeth newydd da o'r ne'—
Duw ymddangosodd yn y cnawd,
Ein Brawd yn dlawd ei le.

4 O wele'r Bod sy'n dal y byd,
Yn fud ar lin ei fam !
Newydd ei eni'n nawdd i ddyn,
Yn hŷn nag Abraham.

f 5 Rhyfeddwn byth, tra byddwn byw
Ddaioni Duw i ddyn :
Yr Iesu'n aberth roes i ni
Trwy noddeq Tri yn Un.—Amen.

42

W.

1 YM mhlith holl ryfeddodau'r nef,
Hwn yw y mwyaf un—
Gwel'd yr anfeidrol ddwyfol Fod
Yn gwisgo natur dyn.

2 Llewyrchu mae ei Dduwdod mawr
Drwy'r oll o'i werthfawr waith ;
Gan seintiau yn a than y nef,
Rhyfeddir Ef yn faith.

3 Mae'n rhyfedd mewn digofaint maith
Yn erbyn pechod cas ;
Myrdd mwy rhyfeddol yw ei waith
Yn iachawdwriaeth gras.

4 Ni chaiff fod eisieu byth, na thrai,
Tra seren yn y nef,
Ar neb o'r rhai a ro'nt eu pwys
Ar ei gyfiawnder Ef.

5 Doed y truciniaid yma 'nghyd,
Yn lluoedd heb ddim rhi' ;
Cânt eu diwallu oll yn llawn
O ras y nefoedd fry.

6 Fe ylch ein beiau i ffwrdd â'i waed,
Fe'n càna oll yn wŷn ;
Fe'n dwg o'r anial maith i maes,
I ganu ar Sïon fryn.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

Ni chafodd Brenin nef **(57).** Wele'r Hwn sydd Hollgyfoethog **(156)** Wele, cawsom y Messïah **(293)**

Dydd Gwyl Sant Stephan.

GOBAITH. 8.7.8.7. D. Alaw Gymreig.



43

E. R.

mf 1 PAN y'n poenir gan elynion
Tra yn tystio dros y gwir,
mp Arglwydd, cyfod ein golygon
I oleuni'r nefol dir;
Anfon beth o bur ddisgleirdeb
A gogoniant gwlad yr hedd,
I lewyrchu ar ein gwyneb,
A goleuo byd a bedd.

2 Dyro'th Ysbryd i'n sancteiddio,
A'n meddiannu oll yn lân,
Dysg in' garu a bendithio
Ein gelynion fawr a mân;
cr Er i'th Eglwys mewn cystuddiau
Gael ei mathru gan y byd,
Ffrydied cariad Crist o'i chlwyfau
Yn afonydd glân o hyd.

mf 3 Dyro ini ffydd i graffu,
Megys Stephan, tua'r nef,
Nes cael golwg lawn at Iesu—
Golwg fel a gafodd ef –
Ffyddiog edrych arno'n eiriol
Drosom ar y ddeheu law,
Er ein dwyn yn waredigol
Ato'i Hun i'r ochr draw.—Amen.

Dydd Gwyl Sant Joan Efengylwr.

MUNICH. 7.6.7.6. D. Lutheran Chorale.



44

E. R.

mp 1 TYDI, yr hwn breswyli
Y tragwyddoldeb mawr,
O anfon nef oleuni
I'th Eglwys ar y llawr—
Goleuni dy ddoethineb
I gafarwyddo'i gwaith,
Goleuni gwedd dy wyneb
Yn gysur ar ei thaith.

cr 2 Moes in' oleuni'th gariad,
A phur sancteiddrwydd glân,
I nefoleiddio'n teimlad,
Ac i wresogi'n cân,
Nes byddo i'th Eglwys gyfan,
Pan ddelo gofid trist,
Gael gorphwys megys Ioan
Ar fynwes Iesu Grist.

p 3 O am gael nes cymdeithas
A'r Tad a'r Mab trwy ffydd,
Ac ymarweddiad addas
I deyrnas nef bob dydd;
Gan rodio mewn goleuni
Trwy leidiog lwybrau byd,
A gwaed yr Oen yn golchi
Ein beiau oll i gyd.

mf 4 Goleuni y gwirionedd
O gam i gam fel hyn
A'n harwain yn y diwedd
I sanctaidd Sïon fryn,
Lle mae goleuni bywyd
Tragwyddol byth mewn hoen
Yn taenu môr o wynfyd
O wyneb Duw a'r Oen.—Amen.

PENGWERN.

8.8.8.8.8.8.

J. A. Lloyd (o Aberth Moliant).



45

N.

mf 1 PA dafod dyn all draethu'n llawn,
Neu dafod seraph uwch ei ddawn,
Ddyfnderoedd cariad Iesu glân?
Er llenwi'r ddaiar faith a'r nef
Gan adsain mawl ei gariad Ef,
Mae'n lletach, dyfnach, uwch na'u cân.

mp 2 O, serch didrai! O, gariad rhad!
Mil mwy na chariad mam na thad;
Pa dâl am dano byth a wnawn?
Am iti'n gynta'n caru ni,
Grist, carwn ninnau'n ol Dydi;
Gwna ni o'th gariad oll yn llawn.

mp 3 Nesâf at fwrdd ei Swper Ef,
Ymborthaf ar ddanteithion nef,
Yng nghyda 'mrodyr ar y llawr;
Gan ddysgwyl cyfranogi fry
Yng nghariad-wledd ei nefol dŷ,
A'm "pwys ar fynwes" Iesu mawr.

mp 4 Dyddyfna, Iesu, f'enaid tlawd
Oddiwrth ddeniadau'r byd a'r cnawd,
A ffrwyna'm nwydau drwg bob un;
O hoclia 'nghariad wrth dy groes,
A gwna fi, tra parhao f'oes,
Yn "ddysgybl anwyl" it' dy Hun.—
Amen.

Diwedd Blwyddyn.

BABYLON STREAMS. M. H. CAMPIAN.



46

AN.

mp 1 BLYNYDDAU'N hoes, o un i un,
Sy'n ffoi fel cysgod gwag, neu lun ;
Heb orphwys, 'r ydym oll o hyd
Yn myn'd yn nes i'r bythol fyd.

2 Hyd yma'n cynnorthwyodd Duw,
Ac o'i drugaredd 'r ŷm yn fyw :
Pechodau'r flwyddyn hon, O Dad,
Dilea'n llwyr, a maddeu'n rhad.

3 O dyro nerth i fyw trwy ffydd,
Gad rodio'n fwy fel plant y dydd ;
A nertha ni 'ddiweddu'n gwaith
Cyn myn'd i'r tragwyddoldeb maith.—Amen.

WINCHESTER NEW. M. S. Hamburgher Mus. Handbuch, 1690.



47

B. F.

mf 1 CLODFORWN fyth ein Harglwydd Ion,
Am ei fendithion odiaeth ;
Profasom hyd y fynyd hon
Ei ofal tirion, helaeth.

mf 2 Bob haf a gauaf 'r ŷm yn cael
Ei anwyl hael ddaioni ;
A cha'dd o hyd y flwyddyn hon
A'i roddion ei choroni.

mp 3 Nis gwyddom eto beth a ddaw
Wrth deithiaw mewn tywyllwch ;
cr Ein cysur yw fod Crist o'n rhan,
I'n tywys trwy'r anialwch.

p 4 Bendithia ni, O Dduw, yn awr
A dirfawr nefol lwyddiant ;
cr A phlana ni'n blanigion hardd
Ar fyr yng ngardd gogoniant.—Amen.

Diwedd Blwyddyn.

ARENIG. M. 8. BREIGEL. Cyng. J. H. ROBERTS, Mus. Bac



48

D. J.

mf 1 AETH heibio eto flwyddyn gron,
Mae arall bron â [wedi] gwawrio ;
Holl oesoedd byd, o dro i dro,
O do i do, ânt heibio.

mp 2 Mae'r byd ysbrydol, ddydd a nos,
Yn agos, agos atom ;
Nid oes ond llen marwoldeb brau
A dyr yr angau rhyngom.

mp 3 Mi glywaf lais, O alwad gref !
Uwch, uwch mae'r llef yn galw ;
"Pwy â i'r bedd yn nesaf un ?
Ai fi fy hun fydd hwnw ?"

mp 4 O f'cnaid, cais cyn angeu glas,
Sancteiddiol ras i'th buro ;
cr Cais wir adnabod Prynwr byd,
Mae bywyd bythol ynddo.—Amen.

LLANFACHES. 8.7.8.7. D. W. C. T. & C. Book. Ton Gymreig. Awdwr An.



49

W.

1 NID oes derfyn ar flynyddau
Yn y wlad a welaf draw ;
Nid yw myrdd o oesoedd hirion
Yno'n unig ond lled llaw ;
Sylwedd ydyw'r oll sy'n dyfod—
Oll sy'n dyfod sy'u parhau,
Pethau gwych heb eu cymmysgu
Gaf ar fyrder eu mwynhau.

2 Yno erys fy nedwyddwch,
Heb gymmysgu, fyth yn un ;
Digyfnewid Gwrthddrych cariad
Fella caraid pur ei hun :
'Run fydd Duw i dragwyddoldeb—
Môr o gariad heb ddim trai ;
Fel Efe bydd fy hapusrwydd—
Ffrwd lifeiriol yn parhau.

3 Yno llenwir fy nymuniad,
Er ei faint ac er ei gri,
Fy holl wagder wneir i fyny
Gyda'r Duwdod—Un yn Dri ;
Mi gaf yfed o ffynnonau
Gwir ddedwyddwch, a'm dyfrhau
A dadguddiad pur o fywyd,
A llawenydd i barhau.—Amen

Hefyd y canlynol :—

O Dangos im', fy Arglwydd Ner (301). Cofiwn beunydd yn ein bywyd (304)

Dechreu Blwyddyn.

ST. GEORGE. M. B. H. J. Gauntlett.



50

E. E.

1 DROS flwyddyn eto'n awr,
Trwy nodded Un yn Dri,
Arbedol ŷm, a chododd gwawr
Un newydd arnom ni.

2 Er hir ddiffrwytho tir
Y Pen-gwiullanydd mawr,
A bloedd cyfiawnder uwch ein pen
I dori'r pren i lawr;

3 Hyd yma llwyddo wnaeth
Ei ddwys eiriolaeth Ef,
Uwch gwaedd ein pechod o bob rhyw,
Er uched yw eu llef.

4 'R ŷm eto yn mwynhau
Ei rad driniaethau'n hael;
Trwy rin y rhai'n, O dyger ni
I ffrwytho yn ddiffael.

5 A phan y delo'r awr
I'n tori lawr o'n lle,
O byddwn fel gwinwydden lawn,
Yn addfed iawn i'r ne'.—Amen.

EVERTON. 8.7.8.7. D. Henry Smart.



CWYNFAN PRYDAIN. 8.7.8.7. D. Hen Alaw Gymreig.
Cyng. W. M. Rose ts. Wrexham.



51

R. W.

1 WELE eto un yn yr hagor
O flynyddau f' einioes frau,
O fy enaid, wedi darfod—
Mae'r ddiweddaf yn nesäu!
Nid oes yma hir arosfa,
Rhed fy nyddiau yn ddigoll,
Ac fe all y flwyddyn yma
Fod i mi'r ddiweddaf oll!

2 Deffro, f'enaid, yn ddifrifol—
Gyda gofal dwys yn awr,
Ystyr, tra parhao'th amser,
Feithder tragwyddoldeb mawr!
Beth yw sylfaen dy ddysgwyliad
Am fwynhau tragwyddol hedd!
Beth yw d' obaith am y gwynfyd
Sy'n y byd tu draw i'r bedd!

3 Dal yn gadarn dy grediniaeth,
Dod dy obaith ar dy Dduw
Ymddibyna hefyd beunydd
Ar ei ras tra byddech byw,
Gyda sel, anturia'n wrol
Yn dy yrfa nefol gu,
Nes cyrhaeddyd mewn siriolded
Barthau anfarwoldeb fry.—Amen.

Hefyd y canlynol:—
Aeth heibio eto flwyddyn gron (48).

Dydd Enwaediad Crist.

TRALLWM. M. S. J. A. Lloyd, 1846.



52

N.

1 CYSSEGRODD Crist, â'i waed ei Hun,
Dydd cynta'n blwyddyn newydd;
Cadwn e'n wyl i gofio glân
Ddyoddefaint cynta'n Prynydd.

2 'Roedd dafnau gwaed enwaediad Crist
Yn wystl o'i drist farwolaeth;
Ernes o'r gwaed a ffrydiai'n lli'
Ar Galfari'n fwy helaeth.

3 Trwy waed cyssegrodd Ef ei oes
O'i gryd i groes ei angau:
Trwy ddwfr ac arwydd glân y groes
Cyssegrwyd ein hoes ninnau.

4 Enwaedwyd Crist, yr addfwyn Oen,
I ddyoddef poen ein beiau;
Bedyddiwyd ninnau i ddwyn y groes
Ar hyd ein hoes fel yntau.

5 Enwaeda'n calon, Arglwydd Dduw,
Rho ysbryd briw cystuddiol;
Enwaeda'n clustiau i wrando'n glau,
Dan grynu, d' eiriau nefol.—Amen.

CEYLON. 7.6.7.6. D. Leon. Schroeter.



53

E. R.

1 YR hwn a roes enwaediad
I Abraham a'i had,
Yn arwydd o dderbyniad
Eu ffydd, er cyfiawnhâd,
Gymmerodd ei enwaedu
Ei hun yn Faban gwiw,
O dan yr enw Iesu,
Yn Geidwad dynol ryw.

2 Aeth trwy enwaediad gwaedlyd
I ddeddfle euog ddyn,
Cymmerodd yn ei febyd
Ein hachos arno'i Hun;
Boddlonodd holl ofynion
Cyfiawnder pur y ne',
Nes marw dan yr hoelion,
Yn aberth yn ein lle.

3 Enwaeda, Iesu grasol,
Ein drwg galonau ni,
A lladd bob nwyd anianol
Sydd groes i'th gyfraith Di;
Dal ni yn dy gyfammod,
A golch ni yn dy waed,
Nes diosg holl gorff pechod,
A'i fathru dan ein traed.—Amen.

Yr Ystwyll.

EPIPHANY HYMN. 11.10.11.10. J. F. Thrupp, 1848.



RUSSIA. 11.10.11.10.



54 *An.*

mf 1 LOEWAF o'r ser sydd yn britho'r ffurfafen,
Gwasgar y t'wyllwch, a gwawried y dydd :
Seren y Dwyrain, Rhagflaenydd yr Heulwen,
Dwg ni i'r fan lle mae'r Baban yng nghudd.

p 2 Gwelwch mor isel ei ben yn y preseb,
Oerwlith fel perlau'n dysgleirio ar ei gryd ;
cr Moled angylion mewn lletty cyn waeled,
f Frenin, Creawdwr, a Cheidwad y byd.

mf 3 A dalwn ni iddo y goreu o'n trysor,
Llysiau o Edom yn offrwm i'n Duw ?
Gemau o'r mynydd, a pherlau o'r dyfnfor,
Myrr o'r anialdir, ac aur o Peru ?

mf 4 Ofer ag aur mynem brynu'i fendithion,
Ofer ag anrheg orhardd-deg a hael ;
Gwell ganddo gywir addoliad y galon,
Gwell gan yr Iesu yw gweddi y gwael.—Amen.

LEWES. 8 7 8.7.4.7 J Randall, Mus.Doc., 1715—1799.



MANNHEIM. 8.7.8.7.4.7. Alaw Ellunynig.



55

M. R.

mf 1 PERAIDD ganodd ser y borau
Pan y ganwyd Brenin nef;
Doethion a bugeiliaid hwythau
Ddaethant i'w addoli Ef;
cr Gwerthfawr drysor
Yn y preseb, Iesu gaed.

2 Dyma y newyddion hyfryd
Draethwyd gan angylion Duw—
Fod y Ceidwad wedi'i eni
I golledig ddynol ryw;
cr Ffyddlawn gyfaill,
Bechaduriaid, molwn Ef.

3 Testyn cân yr holl brophwydi,
Seren Jacob, Had y Wraig,
Seilo Judah, Gwreiddyn Jesse,
'R hwn ysiga ben y ddraig:
cr Iachawdwriaeth
I drueiniaid drwyddo ddaeth.

mf 4 Tad tragwyddol yw ei Enw,
T'wysog y tangnefedd yw;
Crewr mawr y bydoedd ydyw,
A Chynnaliwr dynol ryw:
f Hollalluog,
di Daeth i farw yn ein lle.—Amen.

DARWELL. 6.6.6.6.8.8. J Darwell.



Yr Ystwyll.



56

AN.

mf 1 Y SEREN fore sydd
Yn ymlid draw y nos,
Gan droi yn oleu ddydd,
Dywyllwch llawer oes ;
f Genedloedd, trowch, a phawb sydd drist,
I edrych ar ddysgleirdeb Crist.

2 Gwyn fyd y dydd y daeth
Yr Iesu mwyn i'r byd :
Taleithiau daiar faith,
Cydlawenhewch i gyd :
f Dadseinier byth Hosanna'n bêr
I'r Hwn a breswyl uwch y ser.

3 Dysgleiried dwyfol ras
Dros holl derfynau'r byd ;
Diflaned pechod cas
Trwy gyrau hwn i gyd :
f Cyduned pob creadur byw
Ar nefol dôn i foli Duw.—Amen.

MOSCOW 6.6.4.6.6.6.4. GIARDINI.



57

H. a N.

mf 1 NI chafodd Brenin nef,
Y dydd y ganwyd Ef,
Un cartref gwych !
cr O ! 'r fath ryfeddod fawr,
Etifedd nef a llawr
A gaed cyn tori'r wawr
Yn lletty'r ych !

mf 2 Ond cododd goleu mawr
Ar deulu daiar lawr,
Yn awr o'r nef ;
Am lawer oes fe fu
Yn gaeth luosog lu,
Dan gysgod angeu du,
Nes ganwyd Ef.

mp 3 Am Grist a'i farwol glwy'
Mae'r son yn myned drwy
Ororau maith :
cr Y mae'r Efengyl lân,
Fel pur angerddol dân,
Yn hedeg yn y blaen,
I blith pob iaith.

f 4 Daw'r amal dir fel gardd,
Yn llawn rhosynau hardd,
Ardderchog wedd !
Y ddaiar a fydd lawn
O bob rhinweddol ddawn,
Ac yn flodeuog iawn
Mewn gras a hedd.—Amen.

Yr Ystwyll.

INNOCENTS. 7au. WEBBE.



58

T. J.

mf 1 WELE'R dydd yn gwawrio draw,
Amser hyfryd sydd gerllaw ;
Daw'r Cenedloedd yn gytûn
I ddyrchafu Mab y Dyn.

2 Gwelir teyrnas Iesu mawr
Yn ben moliant ar y llawr ;
Gwelir tŷ ein Harglwydd cu
Goruwch y mynyddoedd fry.

3 Gwelir pobloedd lawer iawn
Yn dylifo ato'n llawn ;
Cyfraith Iesu gadwant hwy
Ac ni ddysgant ryfel mwy.

f 4 Yna clywir yn y nef,
Fawl i'r Oen ag uchel lef :—
ff "Aeth teyrnasoedd mawr eu bri,
Oll yn eiddo'n Harglwydd ni."—Amen.

EMYN NADOLIG (neu COBURG). 7au. 8llin. H.R.H. The Late PRINCE CONSORT.



ABERYSTWYTH. 7au. 8llin. Dr. Parry.



59

M. D.

mp 1 SER y nos yn lluaws mawr
Yn tryfritho'r wybren sydd,
Un er hyny a rydd wawr
I bechadur ofnus prudd ;
Er y rhoddir clod i Dduw
Gan bob seren, gan bob gem,
Un sy'n dangos Ceidwad byw,
f Seren ddysglaer Bethlehem.

mp 2 Bûm ar eigion terfysg llym,
Noson ddu, heb ganfod glan,
cr Gwynt a thònau â'u holl rym
Ruthrent ar fy llestr gwan ;
di Pan i'r dwfn ar suddo i lawr,
Pan oedd Augeu'n hyll ei drom,
Dyna'r pryd cyfododd gwawr
p Seren ddysglaer Bethlehem.

mf 3 Hi'm harweiniodd yn ddigoll,
Gan wasgaru ofnau'r bedd,
Dyg fi o'r ystormydd oll
I dawelaf bôrthladd hedd :
f Canaf wedi dyfod trwy
Ddyfnder profedigaeth lem,
Canaf yn oes oesoedd mwy,
p Seren, Seren Bethlehem.—Amen.

YSCEIFIOG. 8.7.8.7. D. W. C. T. & C. Book. Ton Gymreig. Awdwr An.



60

P. J.

1 DYMA'R dyddiau wedi gwawrio,
Clywir llais yr udgorn mawr—
Llais Efengyl fwyn yn seinio
Dros holl barthau daiar lawr :
Y mae'r swper heddyw'n barod,
Allan aed cenadon hedd ;
A chymheller pawb i ddyfod—
Mae cyflawnder yn y wledd.

2 Rheded afon iachawdwriaeth
I ardaloedd pella'r byd ;
Lliied dros bob anial diffaeth,
I ffrwythloni rhai'n i gyd :
Trigia dreigiau a'u gorweddfa
Ddônt yn gyfle cyrs a brwyn ;
A'r bwystfilod fu'n dyfetha,
Gwelir hwythau fel yr ŵyn.—Amen.

2 Goleu seren fawr a welwyd
Draw yn y dwyreiniol fyd,
Hon ymlwybrai trwy'r ffurfafen,
Gan ymdynu 'mlaen o hyd ;
Safodd fry uwch caerau Bethle'm,
Fel rhyw gyfeiriedig nod
At y Person mwya'i urddas
Aned yn y byd erioed.

3 Weithian mae yn seren oleu
Yn ffurfafen Eglwys Dduw ;
Mae'n oleuni i'r Cenedloedd,
Mae'n oleuni pob dyn byw :
Gwelir hi yn amlwg, amlwg,
Nid gan gnawd, ond llygad ffydd ;
Hi yw seren oleu Jacob,
Hi yw'r seren fore ddydd.

61

AN.

1 GWEDI edrych, gwedi dysgwyl,
Trwy yr oesau foreu draw,
Am ddyfodiad y Pryniawdwr
Ydoedd bron â bod gerllaw ;
Cafwyd Ef ar diroedd Canaan,
Yng nghyflawnder gras y nef ·
Gobaith cyrau pell y ddaiar
A'i thrigolion ydoedd Ef.

4 Eiu Hiachawdwr ydyw'r seren,
Mae'n goleuo'r dydd a'r nos ;
Mae yn ymlid y cymylau
Ffwrdd o lwybrau plant y groes ;
Ac ar lan yr afon dònog,
Gwlad cysgodau du yr hwyr,
Y mae goleu'r seren danbaid
Yn eu hymlid oll yn llwyr.—Amen.

FRENCH. M. C. Sallwyr Ysgotaidd.



62

W.

mf 1 AM Iesu Grist a'i farwol glwy'
Boed miloedd mwy o son ;
cr A d'weded pob creadur byw
Mai teilwng ydyw'r Oen.

mf 2 Aed son am waed yr Oen ar led
Y ddaiar faith i gyd ;
Gwybodaeth bur a chywir gred
Ymdaened dros y byd.

3 Fe ddaw'r blynyddoedd pur i ben
Pan d'wyno Efengyl gras
Fel haul dysglaerwen yn y nen
O gylch y ddaiar las.

f 4 Ac mi ddysgwyliaf hyfryd wawr
Boreuddydd Jubili,
Pan ddelo holl dylwythau'r llawr
I deithio i Galfari.—Amen.

REGENT SQUARE. 8.7.8.7.4.7. H. Smart.



63

E. L.

f 1 HALELUIA yr anwylaf
O bêr odlau pur y nef ;
Haleluia 'r dôn felusaf
Genir ag angylaidd lef :
Hyn yw adsain
mf Swn telynau aur y nef.

f 2 Haleluia, mewn gorfoledd
Medd yr Eglwys ddedwydd fry ;
Haleluia, byth heb ddiwedd,
Dyrchwch fawl, chwi saint, yn hy ;
mp Ninnau gaethion,
Pryd cawn ganu gyda chwi?

mp 3 Haleluia, cân dedwyddwch,
Nid yw gymhwys ar y llawr
Haleluia. ochain tristwch
Sydd fwy gweddus ini 'nawr,
p Pan yn dyoddef
Dan drwm bwys ein cystudd mawr.

mp 4 Ond ein gweddi daer fydd mwyach,
Dirion Dad, tu yma i'r bedd,
cr Ar in' gael dy bur gyfeillach,
A gwir olwg ar dy wedd :
f Haleluia
Wedyn canwn byth mewn hedd.—Amen.

Yr Ystwyll.

JERUSALEM. M.C.D.



ST. MATTHEW. M.C.D. Dr. Croft.



Yr Ystwyll.



64

AN. a J. W.

f 1 PE welir Sïon fel y wawr,
Er gwaeled yw ei gwedd,
Yn d'od i'r lan o'r cystudd mawr,
'Nol agor pyrth y bedd;
Heb glaf na chlwyfun yn eu plith
Yn ddysglaer fel yr haul,
Yn y cyfiawnder dwyfol pur
A gaed yn Adda'r Ail.

2 Aed mawl a gweddi'r saint i'r lan,
Fel pêr aberthau byw,
A boed serchiadau Sïon wan
Ar dân yn moli Duw:
Mewn gemwaith aur bydd hon cyn hir,
Heb dristwch, cur, na phoen,
Yn canu am goncwest fawr a gaed
Trwy werthfawr waed yr Oen.

3 Yn awr i'r Tad, mewn cariad cu,
Yr hardd gyfiwynir hon,
Heb arni un brycheuyn du,
Yn briodasferch lon:
Dadseinia'r holl eangder fry,
Gan ryw soniarus lef,
Pan fyddys yn ei harwain hi
I mewn i lvs y nef.—Amen.

MEIRIONYDD. 7.6.7.6. D. Alaw Gymreig.



65

A. G.

1 O ARGLWYDD Dduw Rhagluniaeth,
Ac iachawdwriaeth dyn,
Tydi sy'n llywodraethu
Y byd a'r nef dy Hun;
Yng ngwyneb pob caledi,
Y sydd neu eto ddaw,
Dod gadarn gymhorth imi
I lechu yn dy law.

2 O am gael ffydd i edrych
Gyda'r angylion fry,
I fôr yr iachawdwriaeth,
Dirgelwch ynddo sy;
Dwy natur mewn un Person
Yn gysson yno gaed—
Anfeidrol a thragwyddol
Yw rhinwedd dwyfol waed.

3 O f'enaid, gwel addasrwydd
Y Person Dwyfol hwn,
Anturia iddo'th fywyd,
A bwrw arno'th bwn;
Mae'n ddyn i gydymdeimlo
A'th holl wendidau i gyd;
Mae'n Dduw i fynu'r orsedd
Ar Ddiafol, cnawd, a byd.—Amen.

Hefyd y canlynol:—

Teg wawriodd arnom ddydd (161). Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen (163).
Daw miloedd ar ddarfod am danynt (325).

Septuagesima.

ARCADELT.

7.6.7.6. D.

JACQUES ARCADELT, 1500—1570.



LLANGLOFFAN.

7.6.7.6. D.

Alaw Gymreig.
D. LEWIS.



Septuagesima.



66

H. a N.

1 BU'R enwog bererinion,
Hen weision doethion Duw,
Ar hyd y byd enbydus,
Helbulus gynt yn byw ;
Trwy ffydd yr ymdeithiasant
Tra buont yn y byd,
Ac felly buont feirw,
Gan gadw'r ffydd i gyd.

2 Dysgwylient hwy am ddinas
Ag iddi urddas wiw,
Pen-saer ac Adeiladydd
Y dedwydd le yw Duw ;
Mewn ffydd y buont feirw,
Yn enw'r Iesu mawr,
Ar ol eu hymdaith sanctaidd
A llariaidd ar y llawr.

3 Dangosent wrth ymdeithio
Eu bod yn ceisio gwlad—
Amgenach gwlad yn drigfan,
Na Chanaan a'i mwynhâd ;
A'u Harglwydd a'u harddelodd,
Ni chywilyddiodd Ef,
Darparodd iddynt ddinas,
Un addas yn y nef.—Amen.

67

W

mp 1 O YSBRYD pur nefolaidd,
Cyn'r elwyf lawr i'r bedd,
Trwy ryw athrawiaeth hyfryd
Gad imi brofi'th hedd :
cr Maddeuant ! O maddeuant !
Maddeuant cyfan, rhad,
Yw'r cyntaf peth wy'n geisio
Yr awron yn y gwaed.

mf 2 O ras didrai, diderfyn !
Tragwyddol ei barhâd !
Yng nghlwyfau'r Oen fu farw
Yn unig mae iachâd !
f Iachâd oddi wrth euogrwydd,
Iachâd o ofnau'r bedd ;
A chariad wedi ei wreiddio
Ar sail tragwyddol hedd !

mp 3 O Ysbryd sancteiddiolaf
Anadla arna'i lawr,
O'r cariad anchwiliadwy
Sy 'nghalon Iesu mawr :
cr Trwy haeddiant Oen Calfaria,
Ac yn ei glwyfau'n rhad,
f 'Rwy'n dysgwyl pob rhyw ronyn
O burdeb gan fy Nhad.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

Haleluia yr anwylaf (63). Bod gogoneddus wyt. O Dduw (165). Haleluia, mawl i'r Iesu (332).

Quinquagesima.

EDINBURGH. 8.7.8.7. D. Hen Alaw. SIR F. A. G. OUSELEY.



TANYCASTELL. 8.7.8.7. D. J. JONES, Talsarn. Cyng. J. JENKINS, Mus. Bac., Cantab.





68

H.

mf 1 "FELLY carodd" Duw wrthddrychau
Anhawddgara' erioed a fu,
"Felly carodd" fel y rhoddodd
Anwyl Fab ei fynwes gu ;
p Nid arbedodd, ond traddododd
Ef tros ein pechodau i gyd,
cr Taro'r Cyfaill, arbed gelyn,
f "Felly carodd Duw y byd."

mf 2 "Felly carodd," gan dosturio
'N rhad wrth hunan-ddamniol ddyn,
"Felly carodd" yn anfeidrol
Deilwng byth o hono'i Hun :
p Er arbediad gwrthryfelwyr,
Gwnaeth ei Fab yn aberth drud,
cr Maddeu iddynt a'u cofleidio,
f "Felly carodd Duw y byd."

mf 3 "Felly carodd," ond ni ddichon
I angylion nef y nef
Draethu i oesoedd tragwyddoldeb
Led a hyd ei gariad Ef ;
cr Dyfnach yw na dyfnder daiar,
Uwch na'r nefoedd fawr i gyd,
Rhaid yw tewi gyda dwedyd,
ff "Felly carodd Duw y byd."

mf 4 "Felly carodd," hyfryd newydd,
Aed ar aden awel gref,
Nes i'w adsain gyrhaedd clustiau
Pob pechadur dan y nef ;
cr "Felly carodd," "felly carodd,"
Seinied pob creadur byw,
f Fel bo i'r dylanwad nerthol
ff Danio'r byd â chariad Duw.—Amen.

69

W.

f 1 DRAW mi wela'r nos yn darfod,
Draw mi welaf oleu'r dydd
Yn dysgleirio dros y bryniau—
Melus yn y man a fydd ;
Ffy gelynion pan ddêl goleu,
Nis gall pechod, er ei rym
A'i holl wreiddiau yn fy natur,
Sefyll Haul Cyfiawnder ddim.

2 Yn y rhyfel mi arosaf,
Yn y rhyfel mae fy lle ;
Boed fy ngeneu wrth y ddaiar,
Boed fy llygaid tua'r ne' :
Doed y goncwest pryd y delo,
Dysgwyl wrth fy Nuw a wnaf,
Nes o'r diwedd wel'd yn trengu
Bechod, 'r hwn oedd bron fy lladd.—
Amen.

Y Garawys.

HENRYD. 8.7.8.7. D. J. A. Lloyd (o Aberth Moliant).



70

N.

mp 1 PAN ymblygom wrth dy orsedd,
Arglwydd Iesu, clyw ein llef;
Madden ini, bechaduriaid,
Eiriol drosom yn y nef:
Trwy'r hyn oll a ddyoddefaist
Yma'n addfwyn erom ni,
p Gwared, Arglwydd, ni'n ddaionus,
Erglyw lef ein Litani.

mp 2 Trwy dy ddirgel lân Gnawdoliaeth,
Er ein mwyn fel tirion Frawd;
Trwy dy sanctaidd Enedigaeth,
Mewn amgylchiad gwael a thlawd;
Trwy dy Ympryd yn yr anial,
Trwy dy Fedydd yn y lli',
p Gwared, Arglwydd, ni'n ddaionus,
Erglyw lef ein Litani.

pp 3 Trwy dy Grog a'th Ddyoddefaint,
Trwy dy Angeu drud a'th waed,
cr Trwy dy Godiad a'th Esgyniad
O lawr bedd i lys y Tad;
mf Trwy Ddyfodiad dy Lân Ysbryd,
Fel y trigai gyda ni,
p Gwared, Arglwydd, ni'n ddaionus,
Erglyw lef ein Litani.—Amen.

71

W. M.

1 DDUW tragwyddol, holl-gyfoethog,
Mae dy gariad yn parhau,
Ti faddeui i rai euog
Sy'n galaru am eu bai ;
Crea ynom galon newydd
A drylliedig, drwy dy ras,
Fel y teimlom ing a chystudd
Am ein holl bechodau cas.

2 Genyt Ti y mae trugaredd
A maddeuant llawn i'w cael,
Byth ni phalla dy ddigonedd,
Nertha a diwalla'r gwael :
Tra'n cyfaddef ein trueni,
Gwrando ni, O Dad, yn awr,
Estyn lwyr ollyngdod ini
Er mwyn haeddiant Iesu mawr.—Amen.

HERNLEIN. 7au.



72

An.

mp 1 DEUGAIN nydd a deugain nos
Yn yr anial temtiwyd Di ;
Deugain nydd a deugain nos
Yr ymprydiaist drosom ni.

2 Tanllyd ydoedd haul y dydd,
Gwlith y nos yn oer a thrwm ;
Ac ym mysg gwylltfilod rhydd,
Llawr y graig fu'th wely llwm.

3 Ninnau ddysgwn, er dy fwyn,
Rywfaint o'th ddysgybliad trist ;
Nerth drwy ympryd gawn i ddwyn
Gofid fel gofidiau Crist.

4 Cnawd ac ysbryd llesg a ball
Dau demtasiwn Satan hyf ;
Ti a drechaist lid y Fall—
Yn dy nerth mae'r gwan yn gryf.

mf 5 Felly cawn ni ddwyfol hedd,
Cysur a llawenydd mawr ;
Ac angylion claer eu gwedd
I'n gwas'naethu ddônt i lawr.

mp 6 Cadw ni, Waredwr gwir,
Wrth dy ystlys, yn dy dŷ ;
cr Cawn ar ol yr ympryd hir,
f Gadw Pasc tragwyddol fry.—Amen.

LLYDAW. 7.6.7.6. D. Hen Alaw Lydawig.



73

D. T.

1 ANFEIDROL, fyth anfeidrol,
Yw cariad Iesu gwiw ;
A ddichon ei amgyffred,
Rhaid fod ei hun yn Dduw ;
Nid oes na sant na seraph,
O'r ddaiar faith i'r nef,
All ddweyd yn llawn am dano,
Na'i berffaith gynnwys ef.

2 Rhyfeddol oedd y cariad
Át wael golledig ddyn ;
Rhy fach o le i'w gynnwys
Oedd mynwes Duw ei hun :
Fe redodd yn llifeiriol
O'r nefoedd wen i lawr ;
Mae fel y môr yn esgyn
I'r nefoedd eto'n awr.

3 Un olwg ar yr Iesu
Ar fynydd Calfari,
A dyr y galed galon
Anfoddlon ynof sy ;
Dystawa'r holl daranau,
A'r bygythiadau gaed ;
Fe gwymp enogrwydd pechod
I waelod môr o waed.—Amen.

74

Aw.

p 1 O GWRANDO, Arglwydd grasol,
Ar lef pechadur gwan,
Mae ef yn edifeiriol
Yn ceisio d'od i'r lan ;
Er cymmaint yw ei feiau,
O Arglwydd, clyw ei gri,
Er mwyn y dyoddefiadau
Ar groesbren Calfari

2 Galaru'r wyf am bechod
A wnes yn d' erbyn Di,
Ac erfyn am gael cynnnod
Drwy aberth Calfari :
O Arglwydd, gwrando'm gweddi,
Erglyw fy ngwaedd a'm cri,
Er mwyn yr iawn roed iti
Ar groesbren Calfari.

3 Dan bwys fy mai 'rwy'n cwynfan,
'Rwy'n griddfan yn ddi-daw ;
Euogrwydd buchedd aflan
Sy'n llenwi'm bron â braw :
O Arglwydd, maddeu imi ;
O clyw fy ngwaedd a'm cri,
Er mwyn yr iawn roed iti
Ar groesbren Calfari.

4 Er amled yw fy meiau,
Mae digon yn y gwaed
I olchi n lân fy mriwiau
I gyd o'm pen i'm traed :
O Arglwydd, hon yw'r afon
A ylch f' aflendid i ;
O golch fi'n nyfroedd gloewon
Rhinweddol Calfari.—Amen.

75

M. R.

p 1 PECHADUR wyf, O Arglwydd,
Yn curo wrth dy ddor ;
Erioed mae dy drugaredd
Diddiwedd yn ystôr :
Er iti faddeu beiau
Rifedi'r tywod mân,
mf Gwn fod dy hen drugaredd
Lawn cymmaint ag o'r blaen.

mf 2 Dy hen addewid rasol
A gadwodd rif y gwlith
O ddynion wedi'u colli,
A gân am dani byth :
Er cael eu mynych glwyfo
Gan bechod is y nen,
cr Iachëir eu dyfnion glwyfau
A dail y bywiol bren.

mf 3 Gwasgara'r tew gymylau
Oddiyma i dŷ fy Nhad ;
cr Dadguddia imi beunydd
Yr iachawdwriaeth rad ;
A dywed air dy Hunan
Wrth f'enaid clwyfus, trist,
Dy fod yn maddeu'm beiau
Yn haeddiant Iesu Grist. —Amen.

Y Garawys.

PERSIA. M. S. W. Ammonius. O Lyfr Tonau Cynnulleidfaol, I. Gwyllt.



BRYNHYFRYD. M. S. Cyng. gan y Parch. W. Ellis.



76

W.

mp 1 P'LE trof fy wyneb, Arglwydd cu,
Ond atat Ti dy hunan?
I'ob peth gweledig, 'thâl ef ddim
Ond gwneuthur imi riddfan.

mf 2 Mi nesaf atat eto'n nes,
Pa les im' ddigaloni?
cr Mae son am danat Ti 'mhob man
Yn codi'r gwan i fyny.

mf 3 Dysgwyl yr wyf, a hyn bob cam,
Fel gwyliwr am y borau;
Gael profi grym dy nefol ras,
I'm dwyn o'm hadgas feiau.

mp 4 O dwg fy enaid llesg i'r lan,
I'r man 'rwyt Ti'n preswylio;
cr Wrth deithio'r anial maith yn hir,
'Rwyf wedi gwir ddiffygio.—Amen.

77

R. W.

f 1 MAE'R gwaed a redodd ar y groes
O oes i oes i'w gofio:
Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn
I ddweyd yn iawn am dano.

f 2 Prif destyn holl ganiadau'r nef
Yw, "Iddo Ef" a'i haeddiant;
A dyna sain telynau glân,
Ar uchaf gân gogoniant.

mf 3 Mae hynod rinwedd gwaed yr Oen,
A'i boen, wrth achub enaid,
cr Yn seinio'n uwch ar dannau'r nef
Na hyfryd lef seraphiaid.

mf 4 'Mhen oesoedd rif y tywod mân,
Ni bydd y gân ond dechreu;
cr Rhyw newydd wyrth o'i angeu drud
A ddaw o hyd i'r goleu.

5 Ni thraethir maint anfeidrol werth
Ei aberth yn dragywydd;
Er treulio myrdd o oesoedd glân,
Ni bydd y gân ond newydd.—Amen.

LUTTERWORTH. 8.7.8.7.4.7.



78

M. R.

mp 1 OS trwy lawer o gystuddiau
Rhaid im' eto fyn'd ym mlaen,
mf Yn dy allu af trwy'r dyfroedd,
Yn dy allu af trwy'r tân :
f Noddfa imi
Bydd dy Hunan, Arglwydd mawr.

mf 2 Dal fy ysbryd yn y rhyfel,
Dal fy llygaid arnat Ti ;
cr Tan dy gysgod gallaf ymladd,
A gorchfygu uffern ddu :
f Mi orchfygaf
Os ymladdaf yn dy law.

mf 3 Tan dy gysgod, Graig yr Oesoedd,
Yn hyderus gallaf fyw ;
F' unig noddfa dan y nefoedd
cr Yw dy gael Di imi'n Dduw :
f Digon imi
Yw dy wyneb yn y glyn.—Amen.

79

S. R.

1 DAGRAU'R Cristion yw y perlau
Goreu geir gan Dduw ei hun ;
Mwy eu gwerth na phob trysorau,
Rhed i'w derbyn bob yr un ;
Mewn costrelau
Maent yng nghadw ganddo Ef.

2 Eu cymmysgu wneir â'r dagrau
Gynt a gollai Iesu Grist,
Pan yr wylodd dros dref Salem
O dosturi calon drist :
Cadw'r dagrau,
Er eu gwel'd o hyd mae'r Iou.

3 Drwy ei ddagrau gwel y Cristion
Ambell dro ei goron wiw ;
Ond fe'i cenfydd yn eglurach
Pan eu sychir gan ei Dduw :
Dywed wrtho,
"Paid ag wylo, wele Fi."—Amen.

ROCKINGHAM. M. H. Dr. Miller.



80

W.

p 1 WRTH edrych, Iesu, ar dy groes,
A meddwl dyfnder d' angeu loes,
cr Pryd hyn 'rwyf yn dibrisio'r byd,
A'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.

p 2 Na'd fi ymddiried tra b'wyf byw
Ond yn dy angeu Di, fy Nuw ;
cr Dy boenau a dy farwol glwy'
Gaiff fod yn ymffrost imi mwy.

mf 3 Myfi aberthaf i dy glod
Bob eilun sydd o dan y rhod ;
Ac wrth fyfyrio ar dy waed,
Fe gwymp pob delw dan fy nhraed.

p 4 Gwelwch yn nwylaw 'Mhrynwr pur,
Ac yn ei draed Ef, hoelion dur ;
Edrychwch ar y waewffon
Yn tori'r archoll dan ei fron !

5 Dyma lle'r ydoedd ar brydnawn
Rasusau yn dysgleirio'n llawn :
Mil o rinweddau yn gytûn
Yn prynu'r gwrthgiliedig ddyn.

6 Poen a llawenydd dan y loes,
Tristwch a chariad ar y groes ;
P'le bu rhinweddau fel y rhai'n
Erioed o'r blaen dan goron ddrain ?—
Amen.

81

W.

mp 1 PECHADUR wyf, da gŵyr fy Nuw,
Llawn o archollion o bob rhyw,
Ac arnaf eisieu gwaed y groes
Bob mynyd awr o'r dydd a'r nos.

mp 2 Yng nghanol cyfyngderau caeth,
A myrddiwn o ofidiau maith,
p O Grist, gad im' roi pwys fy mhen
I orphwys ar dy fynwes wen.

p 3 O cofia fi ger bron y Tad,
Gan eiriol yno werth dy waed ;
cr O dadleu'n awr yng nghanol ne'
I Ti roi'th fywyd yn fy lle.

mf 4 Gad imi dreulio'm dyddiau i gyd
I edrych ar dy wyneb pryd ;
Difyrwch f'oes, o awr i awr,
Fo caru fy Eiriolwr mawr.

p 5 O cofia fi pan f'wy'n y bedd,
A chasgl fy llwch i'r lan mewn hedd ;
cr Ac arddel fi'n y farn a ddaw,
f A dod fi ar dy ddeheu law.—Amen.

BANGOR. M. C. Alaw Gymreig.



82

P. J.

mp 1 PECHADUR wyf, y dua'n fyw,
Trugaredd yw fy nghri ;
Gostwng dy glust, a'm llefain clyw :
p O Arglwydd, cofia fi.

2 Y mae tosturi fel y môr,
Heb fesur ynot Ti ;
O'th ras sy'n annherfynol 'stôr,
p O Arglwydd, cofia fi.

3 Boddlonodd Crist y nef yn llawn
Ar fynydd Calfari ;
Er mwyn ei berffaith, ddwyfol iawn,
p O Arglwydd, cofia fi.

4 Fy anwireddau mawr a mân
Yn llwyr darostwng Di ;
I'm puro trwy yr Ysbryd Glân,
p O Arglwydd, cofia fi.—Amen.

83

E. V.

mf 1 'RWY'N wael fy ngwedd a du fy lliw,
Nid yw fy mriw'n gwelläu ;
cr Af at y Meddyg mawr ei fri
Sy'n gadarn i iachäu.

mf 2 Af dan fy nghlwyfau ato'n nes
I gael fy esmwythäu ;
cr Mae Ef, os afiach ydwyf fi,
Yn gadarn i iachäu.

mf 3 Er bod y pen yn glwyfus oll,
A'm harcholl yn dyfnhau,
cr Crist yw y Meddyg dâl i mi—
Mae'n gadarn i iachäu.

mf 4 Y gwanaf un o'r gweiniaid wyf,
Dan bwys fy nghlwy'n llesgäu ;
cr Ond nerth a rydd i rai dirym—
Mae'n gadarn i iachäu.

mf 5 Rhyw don ar don, a chroes ar groes,
Fy einioes sy'n tristäu ;
cr Er hyn nid anobeithiaf ddim—
Mae'n gadarn i iachäu.—Amen

84

W.

1 MI dafla'm baich i lawr i gyd
Trwy rinwedd Dwyfol loes ;
Euogrwydd, fel mynyddau'r byd,
Dry'n ganu wrth y groes.

2 Dan bob cystuddiau fwy na mwy—
Rhuadau cnawd a byd—
Mae nerth i'w gael mewn marwol glwy'
I'w maddeu oll yng nghyd.

3 Mae angeu'r groes yn awr yn hy
Yn dadleu dros y gwan ;
Ac angeu fy Iachawdwr cu
Cyn hir a'm cwyd i'r lan.

4 Trwy angeu Crist daeth ini hedd,
A chymmod yn ei waed ;
A thrwy ei glwyfau dyfnion Ef
Caed ini lwyr iachâd.—Amen.

GWEDDI LUTHER. 8au. 6llin. LUTHER.





85

W.

mf 1 ARAID i gystudd garw'r groes
I ganlyn f'ysbryd ddydd a nos?
Os rhaid, gwna fi yn foddlawn iawn:
Tan ganu, gwna im' fyn'd ym mlaen,
Sef canu yn y dwr a'r tân
O foreu'm bywyd hyd brydnawn.

2 Mae brodyr imi aeth ym mlaen
Trwy ddyfnach dwr a phoethach tân,
Ac eto gorchfygasant hwy:
'D yw'r dyfroedd aethym trwyddynt ddim
Mewn lled a dyfnder, nerth a grym—
Paham yr ofnaf finnau mwy?

3 'Rwy'n cofio gair fy Iesu mawr,
Y doi'r Dyddanydd ata'i lawr,
Na chawn i farw o dristwch mwy:
O Dduw, cyflawna'th air i ben,
Rho im' Arweinydd is y nen
Ddangoso'r ffordd, iachao'm clwy'.—
Amen.

GWLADYS (neu ST. CELYNIN). 6.6.6.6.8.8.

Alaw Gymreig.



86

R. J.

1 AMYNEDD, nerth, a phwyll,
A brys didwyll bob dydd,
I deithio'r anial maith
Bob cam o'r daith trwy ffydd,
Sydd eisieu ar fy enaid gwan,
A'r Iesu'n briod ac yn rhan.

2 O'r dyfnder arno Ef
Cyfodaf lef i'r lan,
Mi welaf Iesu fry
O du fy enaid gwan;
Pob peth a geisier gan y Tad,
I'r tlawd a rydd o'r nef yn rhad.

3 O cofia, f'enaid, mwy,
Amynedd yn y gwaith
Sy'n eisieu 'nawr a ffydd,
Tra paro dydd dy daith:
Na thuchan mwy—yn gân cyn hir
Troir holl riddfanau'r anial dir.—Amen.

87

W.

mf 1 NI phery ddim yn hir
Y ddu dymmestlog nos;
Ni threfnwyd amser maith
I neb i gario'r groes:
f Mae'r hyfryd wawr sy'n tori draw
Yn dwyn fod boreu braf gerllaw.

mf 2 Mi welaf gwmwl du
Yn awr ym mron â ffoi,
A gwynt y gogledd sy
Ychydig bach yn troi:
f 'Nol tymmestl fawr, daw yn y man
Ryw hyfryd hin ar f'enaid gwan.

mp 3 Melusach tŷ fy Nhad,
Ar ol y 'storom fawr;
Po fwya'r croesau gaed,
Mae'n hawsach gado'r llawr:
f O hyfryd wel'd fydd yn y man,
Pob bryn a ddringais i i'r lan.—Amen.

Hefyd y canlynol:—

O euogrwydd fel mynyddau! (202).
Trugaredd a ddug o dir estron (204).
Gwnes addunedau fil (227).
Na thro dy wyneb, Arglwydd glân (239).
Erglyw, O Dduw, fy llefain i (240).
At Un a wrendy weddi'r gwan (241).
Trugaredd dod i mi (245)
Llawn o ofid, llawn o wae (250).

Sul y Blodau.

ST. THEODULPH. 7.6.7.6. D.



88 R. J.

mf 1 BYDD lawen iawn, ferch Sïon,
A chân am wiwlon wawr ;
Merch Salem deg, crechwena,
A gorfoledda'n awr ;
Y mae dy Frenin hynod
Yn dyfod atat, clyw,
Un cyfiawn ac Achubydd,
Dy hoff Waredydd yw.

2 Dyoddefa'n fwyn a thirion
I'th gadw, Sïon wan ;
Ar asyn mae i'w weled
Yn myned tua'r man ;
Mewn heddwch y teyrnasa,
Trwy rym ei gariad drud ;
Bydd Iesu a'i lywodraeth
Yn benaeth dros y byd.

3 I'r Brenin doeth tragwyddol,
Anfarwol fythol Fod,
Yr unig ddoeth Iachawdwr,
Ein Prynwr, byddo'r clod :
Dyrchefir yn dragywydd
Ei Enw yn y byd ;
Hosanna i Fab Dafydd
A fydd y gân o hyd.—Amen.

Hefyd y canlynol:—
Ym mlaen, ym mlaen, marchoga'n awr (210).

Y Dyoddefaint.

SALOME (neu ST. BEUNO). 8au. 8llin. Alaw Gymreig.





RHYL. 8au. 8llin. J. A. Lloyd (o Aberth Moliant).



89

T. L.

1 WRTH gofio'i riddfanau'n yr ardd—
Ei chwys yn ddefnynau o waed—
Aredig ar gefn oedd mor hardd,
Ei daro â chleddyf ei Dad ;
Ei arwain i Galfari fryn,
A'i hoelio ar groesbren o'i fodd —
Pa dafod all dewi am hyn !
Pa galon mor galed na thodd !

2 Cyflawnwyd y gyfraith i gyd, E. J.
Fe ddofwyd ei llid heb fy lladd ;
Cyfiawnder, wrth hir ofyn iawn,
Ei daliad yn gyflawn a ga'dd ;
Cyfiawnder a'r gyfraith sy'n awr
Yn edrych i lawr yn ddi-lid ;
Mae'r priodoliaethau, mewn hedd,
Yn gwaeddi "Trugaredd" i gyd.

3 Caed ffynnon o ddwr ac o waed
I olchi rhai duon eu lliw,
Ac hefyd hi redodd yn rhad
I'r ardal lle'r oeddwn yn byw :
Er cymmaint o rwystrau ga'dd hon
Grym arfaeth a'i gyrodd ym mlaen
I olchi tŷ Dafydd o'r bron—
Jerusalem hefyd yn lân.—Amen.

Y Dyoddefaint.

TREWEN. 8au. 8llin. D. Emlyn Evans. Allan o Gemau Mawl, D. Jenkins, Mus. Bac.



90

D. Js.

f 1 O GARIAD! O gariad mor rhad!
O foroedd o gariad mor fawr!
Mab uniganedig y Tad
Ddisgynodd o'r nefoedd i lawr:
Cymmerodd ei wneuthur yn gnawd,
Dynoliaeth a Duwdod yn un;
p Bu farw ar groesbren dan wawd,
Yn lle ei elynion ei Hun!

mf 2 Pob archoll ro'i dynion i'w gnawd,
Dylifai yn gariad trwy'r clwy';
Pan fwyaf ei ddirmyg a'i wawd,
Gwnai cariad dd'od allan fwy fwy:
Trwy'r clwyfau, yn rhedeg ar frys,
Gwir ffrydiau o gariad a gaed;
Llifeiriai yn gariad trwy'r chwys
A chariad a lifai trwy'r gwaed.

mf 3 Creulondeb llid dynion at Grist
Droes cariad i ddynion yn hedd;
Ei ddirmyg gofidus a thrist
Droes cariad i ddynion yn wledd:
Yr angeu ergydiodd y byd
At Iesu, mewn dig a drwg wŷn,
Droes cariad yn ol yr un pryd
Yn fywyd tragwyddol i ddyn.—Amen.

BEULAH. 8.8.8.6 D. Alaw Gymreig.



91

W. A.

1 O IESU mawr, pwy ond Tydi
A allai farw drosom ni,
A'n dwyn o warth i fythol fri?
Pwy all anghofio hyn?
Doed myrdd ar fyrdd o bob rhyw ddawn
I gydfawrhau'th anfeidrol iawn—
Y gwaith gyflawnaist un prydnawn
Ar fyth-gofiadwy fryn.

2 Nid yw y greadigaeth faith,
Na'th holl arwyddion gwyrthiol chwaith,
Yn gydbwys â'th achubol waith—
Yn marw i ni gael byw:
Rhyfeddod heb heneiddio mwy
Fydd hanes mawr dy farwol glwy',
Ni threiddia tragwyddoldeb drwy
Ddyfnderau cariad Duw.—Amen.

EIFIONYDD. 8.7.8.7. D. J. A. Lloyd (o Aberth Moliant).



92

H.

1 DYMA gariad fel y moroedd,
Tosturiaethau fel y lli' ;
T'wysog Bywyd pur yn marw,
Marw i brynu'n bywyd ni !
Pwy all beidio cofio am dano ?
Pwy all beidio canu'i glod ?
Dyma gariad nad ä'n anghof
Tra bo'r nefoedd wen yn bod.

2 Ar Galfaria yr ymrwygodd
Holl ffynnonau'r dyfnder mawr,
Torodd holl argaeau'r nefoedd
Oedd yn gyfain hyd yn awr :
Gras a chariad megys diluw
Yn ymdywallt yma 'nghyd ;
A chyfiawnder pur a heddwch
Yn cusanu euog fyd.—Amen.

Talodd yno swm dy ddyled,
Gwerthfawr waed ei galon friw ;
'R Oen diniwed yno'n marw—
Minnau'r euog yn cael byw.

2 Draw, ar gopa bryn Golgotha,
Bu'r ymladdfa fwya' 'rioed ;
'R Oen, heb gleddau na grym arfau,
'N sathru dreigiau dan ei droed :
Ef, mewn lludded mawr a syched,
Yn gorchfygu uffern lu ;
Eto ffynnon yn ei galon
I olchi'n wyn yr Ethiop du.

93

D. W. ÂC AN.

mp 1 O FY enaid, cwyd dy olwg,
Gwel yn amlwg ben y bryn,
Lle bu Iesu, 'r cyfaill ffyddlawn,
Dan yr hoelion dur cyn hyn ;

f 3 Wele Sinai a Chalfaria
Heddyw wedi d'od yng nghyd—
Sylwedd mawr yr holl gysgodau
Yn gwynebu'r dwyfol lid :
Dacw'r cleddyf wedi deffro—
Llyfrau'r ddeddf yn d'od ym **mlaen ;**
Dacw aur y gwaredigion
Wedi ei buro yn y tân.—Amen.

HYDER. 8.7.8.7.4.7. R. Ellis.



94

W.

mp 1 O NA b'ai cystuddiau f'Arglwydd
Yn fy nghalon yn cael lle ;
Pob rhyw loes a phob rhyw archoll,
Pob rhyw fflangell gafodd E ;
Fel bo i'm pechod
Gael ei glwyfo a'i wanhau.

2 O na byddai oriau'm bywyd
Yn ymborthi ar oriau'th boen,
Fel y gallwyf fi gydredeg
A chystuddiau'r addfwyn Oen ;
Fe gai'm pechod
Felly'n fuan golli'r dydd.

3 O cyfeiria Di fy llygaid
I gael gwel'd y cariad llawn
Lifodd allan fel y moroedd
Ar Galfaria un prydnawn ;
Gwel'd dy glwyfau
Yw hyfrydwch penaf f'oes.—Amen.

95

E. E.

mp 1 CLYWCH leferydd gras a chariad
O Galfaria'n seinio sydd ;
Wele'r cedyrn greigiau'n hollti,
Haul yn t'wyllu ganol dydd ;
"Fe orphenwyd,"
mf Dwys ddolefai'r Iesu mawr.

2 O! 'r trysorau anchwiliadwy
A gynnwysir yn y gair ;
Môr diderfyn o fendithion
I dylodion ynddo gair :
"Fe orphenwyd"—
Ni bydd eisieu aberth mwy.

f 3 Adgyweirier pob rhyw delyn
Trwy y ddaiar faith a'r nef,
Er cyd-daro'r anthem newydd
Heddyw a ddechreuodd Ef ;
ff "Fe orphenwyd"—
Dyma gân na dderfydd byth.—Amen.

96

W.

mf 1 MI feddyliais cawswn f'Arglwydd
Yng nghymdeithas mawrion byd ;
Ym mhlith lladron a llofruddion
Gwelais gynta'i wyneb pryd :
mp Ar y croesbren,
Nid yn llys un brenin gwych.

mf 2 Dacw lofrudd ar ei aswy,
Dacw leidr ar ei dde ;
p Draw fe'i hoeliwyd yn y canol—
Brenin daiar, Brenin ne' !
cr Mi appeliaf
At yr orsedd ar y groes.

mf 3 Ni raid esgyn fry i'r nefoedd,
Y mae'r nefoedd ar y pren ;
Plygai'r nefoedd at y ddaiar
Pan ogwyddai Ef ei ben :
p Minnau'r euog
Af am bardwn at y groes.—Amen.

GLAN ALWEN. 8.8.6. 8.8.6. ALFRED W. HUGHES.

97

W.

mp 1 YN Eden, cofiaf hyny byth,
Bendithion gollais rif y gwlith,
Syrthiodd fy nghoron wiw ;
cr Ond buddugoliaeth Calfari
Ennillodd fwy yn ol i mi,
f Mi ganaf tra b'wyf byw.

mp 2 Ar Galfari, yng ngwres y dydd,
Y caed y gwystl mawr yn rhydd,
p Trwy golli gwaed yn lli' ;
cr A thalodd Ef anfeidrol iawn,
Nes clirio llyfrau'r nef yn llawn
Heb ofyn dim i mi.

mp 3 Ffydd, dacw'r fan, a dacw'r pren
Yr hoeliwyd arno D'wysog nen,
Yn wirion yn fy lle :
f Y ddraig yssigwyd gan Dduw-ddyn,
Fe glwyfwyd dau, gorchfygodd Un,
p Ac Iesu oedd Efe.—Amen.

ST. JAMES. M. C. COURTEVILLE.



98

W.

mf 1 NIS gall angylion pur y nef,
A'u doniau aml hwy,
Fyth osod allan werthfawr bris
Anfeidrol, ddwyfol glwy'.

p 2 Dyoddefodd angeu, dygn boen,
A gofir tra bo'r nef ;
cr Fy nerth, fy nghyfoeth, a fy mraint,
A'm noddfa lawn yw Ef.

mp 3 Fe'm denodd i yn ddirgel iawn,
A dystaw, ar ei ol ;
Ac mewn afonydd dyfnion, llawn,
Fe'm cym'rodd yn ei gôl.

mf 4 Na foed fy mywyd bellach mwy
Yn eiddo i mi fy hun,
cr Ond treulier fy mynydau i gyd
Yn glod i'm Harglwydd cun.

mp 5 A gad im' brofi'th nefol hedd
Ym mhob anadliad pur ;
Ac felly myn'd o'r byd i'r bedd
Mewn hun nefolaidd wir.—Amen.

99

W. J.

f 1 YR iawn a dalwyd ar y groes
Yw sylfaen f'enaid gwan ;
Wrth bwyso arno ddydd a nos,
'Rwy'n dysgwyl d'od i'r lan.

mp 2 Fy meiau trymion, luoedd maith,
A waeddant tua'r nen ;
A thyna pam 'roedd rhaid i'm Duw
Ddyoddef ar y pren.

mp 3 Hwy a'th fradychodd, anwyl Oen,
Hwy oedd y goron ddrain ;
Hwy oedd y fflangell gadarn gref.
Hwy oedd yr hoelion main.

p 4 O madden'm bai, a chliria'n llwyr
F' euogrwydd oll i gyd ;
Ac na'd im' flino'th Ysbryd mwy
Tra byddwyf yn y byd.—Amen.

MEIRIONYDD. 7.6.7.6. D. Alaw Gymreig.



100

AN.

mf 1 CAED modd i faddeu pechod
A lle i guddio pen
Yng nghlwyfau dyfnion Iesu
p Fu'n gwaedu ar y pren :
f Anfeidrol oedd ei gariad,
Annhraethol oedd ei gur,
p Wrth farw dros bechadur
O dan yr hoelion dur.

mf 2 Daeth ini iachawdwriaeth
Drwy rinwedd gwaed ei groes ;
Cael ini bob cyfiawnder
Er mwyn ei farwol loes :
Y gyfraith lân droseddwyd
A ga'dd foddlonrwydd llawn ;
Cyfiawnder a foddlonwyd
Yn ei anfeidrol iawn.

mf 3 Un waith am byth oedd ddigon
I wisgo'r goron ddrain ;
Un waith am byth oedd ddigon
I ddyodde'r bicell fain :
Un aberth mawr gwirfoddol
Dawelodd ddwyfol lid ;
Un Iesu croeshoeliedig
Sy'n feddyg i'r holl fyd.—Amen.

101

W.

mf 1 O! ENW ardderchocaf
Yw enw marwol glwy' ;
Caniadau'r holl angylion
Fydd y fath enw mwy ;
Bydd yr anfeidrol ddyfais
O brynedigaeth dyn,
Gan raddau filoedd yno
Yn cael ei chanu'n un.

pp 2 Bechadur, gwel E'n sefyll
Yn llonydd ar y groes !
Clyw ddwys riddfanau'i enaid
Dan ddyfnder angeu loes !
cr O gwrando ei gwynfanau—
Mae pob ochenaid ddrud
Yn floedd yng nghlustiau'r nefoedd
Am faddeu beiau'r byd !

p 3 Gwel, ar y croesbren chwerw,
Gyfiawnder pur y né',
Doethineb a thrugaredd
Yn gorwedd mewn un lle !
cr A chariad anfesurol
Yn awr i gyd yn un,
Fel afon fawr lifeiriol
Yn rhedeg at y dyn !—Amen.

Hefyd y canlynol :—

Anfeidrol, fyth anfeidrol (73).
Mi dafia'm baich i lawr i gyd (84).
Nid oes noddfa mewn creadur (188).
Tragwyddol gariad Tri yn Un (191).
Yma mlaen, yma mlaen, marchoga'n awr (210).
Mae Crist a'i w'reiddiadau (223).
Ai am fy meiau i (270).
Mi gana am waed yr Oen (273).

Dydd Gwener y Croglith.

ALMA 8.7.8.7.4.7.



102

W.

mp 1 ARNAT, Iesu, boed fy meddwl,
Am dy gariad boed fy nghân ;
Dyged swyn dy ddyoddefiadau
Fy serchiadau oll yn lân :
cr Mae dy gariad
Uwch y clywodd neb erioed.

mp 2 Os agori Di fy llygaid
I gael gwel'd y cariad llawn
Lifodd allan fel y moroedd
Ar Galfaria un prydnawn,
cr Ti gai'r cwbl
Roddaist imi yn fy rhan.

mf 3 Mi ddysgwyliaf, doed a ddelo—
Deued boreu, deued nos,
Deued corwynt a thymmestloedd—
Nes cael profi gwaed y groes :
di Gwel'd dy glwyfau
Yw'r ddedwyddaf awr i mi.

mp 4 O na chawn ddifyru'm dyddiau
Llwythog dan dy ddwyfol groes,
A phob meddwl wedi ei g'lymu
Wrth dy Berson ddydd a nos :
Byw bob mynyd
p Mewn tanguefedd pur a hedd.—Amen.

ST. CROSS. M. H. Rev. J. B. Dykes.





103

W.

p 1 O ARGLWYDD, cofia'th angeu drud,
A'th boenau mawrion yn y byd ;
cr A dadleu hwy, ag uchel lef,
Dros f'enaid tlawd yng nghanol nef.

p 2 O cofia'th wae, a'th waed, a'th gur,
Ac ol yr hoelion llymion dur ;
Dy chwys i'r llawr yn ddafnau gwaed,
A'th glwyfau mawr o'th ben i'th draed.

mf 3 'Rwy'n d'od i 'mofyn am y gwaed,
'Rwy'n cwympo'n llaw trugaredd rad,
di 'Does weithred dda o'r eiddof fi
All roi im' hawl i'r nefoedd fry.—Amen.

104

E. R.

mp 1 O DEUWCH, wylwch gyda mi,
At ystlys Iesu dan ei loes ;
O, awn dan wylo â chwerw gri,
p Mae Crist ein Harglwydd ar y groes.

mp 2 Pa le mae'r dagrau drosto'n awr,
Dan wawd Iuddewon drwg eu moes ?
Mor fud, yng nghrog rhwng nef a llawr,
p Yw Crist ein Harglwydd ar y groes.

mp 3 Hoeliedig ddwylaw yw a thraed,
Ei syched llosg ddyfnhâ ei loes—
Ei lygaid ballant yn ei waed ;
p Mae Crist ein Harglwydd ar y groes.

mp 4 Saith waith llefarodd—seith-air cu—
p A dystaw deir-awr ing a loes
Ei dewi, 'n eiriol drosom fu ;
Mae Crist ein Harglwydd ar y groes.

p 5 O dan ei groes, mewn ffydd nesäwn,
Nes bo i'r gwaed, o'i ystlys roes,
pp Arnom ddyferu'n dyner iawn—
Gwaed Crist ein Harglwydd ar y groes.

cr 6 Drylliedig galon ; dagrau'n lli'
Gawn, ond eu ceisio ; felly moes
di I mi gan wylo'th garu Di
Oddefaist drosom ar y groes.—Amen.

DYMUNIAD.

M. S.

R. Williams.



105

D. S. E.

mf 1 YNG nghroes yr Iesu ymffrostio wnaf,
Drwy hon mi gaf orfoledd ;
cr Rhydd gysur pur wrth deithio'r glyn,
A choron yn y diwedd.

mf 2 Mae dirmyg Crist a'i groes i mi
Yn fwy o fri ac urddas
Na'r holl drysorau sy'n y byd,
A chyfoeth drud pob teyrnas.

mf 3 Yn ymyl croes fy Arglwydd mawr
Caf daflu lawr fy meiau ;
cr A dyrchu cân i'w Enw cu
Mewn llu o gyfyngderau.

f 4 Ac am ei aberth gwerthfawr Ef
Dadseinia nef y nefoedd,
O galon bur, ar ddwyfol dant,
Ogoniant yn oes oesoedd.—Amen.

Dydd Gwener y Groglith.

DORCAS. 2.8.8.8.8.8. Alaw Gymreig.



106

H. H.

mf 1 Y GROES
Yw etifeddiaeth fawr fy oes,
A'm grym i lynu dan bod loes ;
'Rwy'n gwel'd nad oes o dan yr haul
Neb gaf mewn cyfyngderau dwys,
I ddal fy mhwys, ond Adda'r Ail.

2 Ni ddaw
Na phoen na gofid, och na braw,
I neb o'r saint yr ochor draw ;
Dônt yn ei law i'r hyfryd wlad,
f I seinio cân dragwyddol mwy,
Am farwol glwy', yn nhŷ eu Tad.—Amen.

107

H. J.

mf 1 O TYN
Y gorchudd yn y mynydd hyn ;
Llewyrched Haul Cyfiawnder gwyn
O ben y bryn bu'r addfwyn Oen
Yn dyoddef dan yr hoelion dur,
O gariad pur, i mi mewn poen.

2 Pa le
Y gwnaf fy noddfa dan y nef,
Ond yn ei glwyfau dyfnion Ef ?
Y bicell gref aeth dan ei fron,
Agorodd ffynnon i'm glanhau,
'Rwy'n llawenhau fod lle yn hon.

3 Oes, oes,
Mae rhin a grym yng ngwaed y groes
I lwyr lanhau holl feiau f'oes :
cr Ei ddwyfol loes, a'i ddyfal lef,
Mewn gweddi drosof at y Tad,
Yw fy rhyddhâd a'm hawl i'r nef.—Amen.

WHITFORD. 7.6.7.6. D. J. A. Lloyd (o Aberth Moliant).





108

C. E.

mp 1 DWY fflam ar ben Calfaria
Gwrddasant yno 'nghyd—
cr Fflam cariad at bechadur,
di Fflam goch y dwyfol lid ;
mp A'u mwg yn dringo i fyny
Nes cuddio ser y nen,
p A'r Iesu rhwng y ddwy-fflam
Yn marw ar y pren.

mf 2 Mwy'r clod, a mwy yr enw,
A gaiff y nefoedd mwy,
Am gadw pryfyn marwol
Trwy rinwedd marwol glwy',
Na thrwy gyfiawnder perffaith
O'i eiddo ef ei hun,
Trwy gadw'r holl orch'mynion,
Erioed heb dori'r un.

3 Mwy rhyfedd y cyfiawnder,
Helaethach ydyw'r dawn
Sydd yn ufudd-dod Iesu
Ar Galfari brydnawn ;
Ca'dd deddf ei hanrhydeddu,
Rhoed coron ar ei phen,
di Pan redodd gwaed y Meichiau
p Yn ffrydiau ar y pren.—Amen.

109

J. T.

mf 1 HEDD a maddeuant gafwyd
Yng ngwerthfawr waed fy Nuw,
Pan ar y groes ei hoeliwyd
Am feiau dynol ryw :
Cyfiawnder a foddlonwyd,
A'r caethion roed yn rhydd,
Y ddyled fawr a dalwyd,
O caned perchen ffydd.

2 Trwy ffydd yng ngwaed yr Iesu,
Gorchfygodd Israel Duw
Holl uffern ddu a'i gallu,
Gelynion o bob rhyw :
f Bydd myrdd yn melus ganu
Am werthfawr waed yr Oen,
Yn nheyrnas y goleuni
Dros byth mewn hyfryd hoen.

3 O ! werthfawr waed y cymmod,
Gwaed Crist, yr Oen di-fai,
Sy'n golchi ymaith bechod
Yr holl grediniol rai ;
Mae'n eiriol dros droseddwyr
Yng nghanol nefoedd fry,
A Duw ei Hun yn gwneuthur
Ei babell gyda ni.

4 O ! ddedwydd waredigion,
Chwi blant y fendith fawr,
Gwir ddinasyddion Sïon,
Dyeithriaid ar y llawr,
f Cydseiniwch fawl Hosanna
Dros byth mewn hedd a hoen,
Gogoniant, Aleliwia
Am werthfawr waed yr Oen !—**Amen.**

Dydd Gwener y Croglith.

ST. LUKE. M. H. Johann Friedrich Lampe, 1746.



CLYNOG. M. H. Alaw Gymreig.



110

P. J.

mf 1 GORPHENWYD! medd ein Iesu mawr,
mp A'i fywyd roes o'i fodd i lawr:
mf Gorphenwyd, (*f*) do, fe gaed y dydd;
Fe dalwyd iawn—daw'r caeth yn rhydd.

f 2 Gorphenwyd cynghor Duw heb goll,
Y ddeddf a'r addewidion oll;
Cyflawnwyd nod y rhai'n i gyd
Yn Iesu, Prynwr mawr y byd.

f 3 Gorphenwyd! clywch y gair i gyd;
O hyfryd sain! amgylcha'r byd:
cr. Gorphenwyd! aed yr adsain lon
Trwy nef y nef a'r ddaiar gron.—Amen.

Dydd Gwener y Croglith.

MALVERN. 6.6.4.6.6.6.4.



111

T. J.

mf 1 A GORODD Iesu'n wir
Y ffordd i'r nefol dir,
Mae heddyw'n rhydd :
Maddeuant yn ei waed,
A chymmod llawn a gaed ;
Pob gelyn roir tan draed
'Tifeddion ffydd.

2 Mae heddyw afon gras
Yn llifo'r anial cras,
Yn ffrydiau pur ;
Doed aflan euog rai,
Sydd am gael maddeu'u bai,
I'r dyfroedd sydd heb drai—
Ei farwol gur.

3 Ei angeu ar y pren
Agorodd ddrysau'r nen,
Fe'n tyn o'n gwae :
O rhoddwn arno'n bryd,
A rhedwn ato i gyd,
Nes cyrhaedd uwch y byd,
I'r man lle mae.—Amen.

112

AN.

f 1 A GORWYD pyrth y nef
Trwy rin ei aberth Ef,
Calfaria mwy ;
Trysorau mawrion, drud,
Sy'n d'od, o hyd o hyd,
Yn rhad i euog fyd,
Calfaria mwy.

2 Mae miloedd ar y llawr
Yn canu'r anthem fawr,
Calfaria mwy ;
Mor hyfryd yw eu sain,
Am ol y goron ddrain,
A'r chwerw bicell fain,
Calfaria mwy.

3 Y gair "Gorphenwyd" yw
Sail ymffrost Eglwys Dduw,
Calfaria mwy ;
Ei air diweddaf Ef
Yw penaf dant y nef,
A chanant ag un llef,—
Calfaria mwy.

mf 4 Pan elo'r byd ar dân,
Calfaria fydd fy nghân,
Calfaria mwy ;
f Goruwch y fflamiau i gyd
Esgynaf i well byd
I ganu'n bêr o hyd,—
Calfaria mwy.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

Mae'r gwaed a redodd ar y groes (77).
Wrth edrych, Iesu, ar dy groes (80).
O wele'r Ceidwad mawr (160).
Ei fywyd pur i lawr (246).
Graig yr Oesoedd, ynot Ti (261).
Darparwyd iachawdwriaeth rad (262).
Mae ffordd gyfreithlon at y Tad (263).
Gwnaed concwest ar Galfaria fryn (268).
'Rwyf yma dan y tònau (278).
Myfi'r pechadur penaf (340).
I Galfaria trof fy wyneb (342).

Ac Emynau Y Dyoddefaint (89—101).

Y Pasc.

Aurora Lucis dum novae.

WAREHAM. M. H. KNAPP.



113

L. G.

mf 1 TRA byddo'r wawr o'r Dwyrain wen
Yn taenu boreu teg uwch ben,
Y byd i gyd mewn hyfryd hoen
A gân am godiad gwawr yr Oen.

2 Ein Ceidwad drwy ei aberth drud
Roes iawn dros bechod trwm y byd ;
Trwy rwyg y llen mae ffordd i lu
A rhyddid i'r cyssegroedd fry.

3 Y gronyn had roir yn y tir,
Ni ddichon aros yno'n hir ;
Cyn marw ym mron mae'n tarddu i'r lan,
A llawnder ŷd orchuddia'r fan.

mp 4 Nid colli'r corff a wneir, ond hau,
Pan arno byddo'r pridd yn cau ;
cr O byrth y bedd pan ddaeth Mab Duw,
Gwnaeth ffordd i'r marw i dir y byw.

mp 5 Hoeliedig gyda Christ ar groes,
Claddedig gyda Christ drwy'm hoes—
Ar ddelw Crist y daw ryw ddydd
cr Fy nghnawd yn fyw o'i wely pridd.

mp 6 Crist, dysg im' farw wrth dy fodd,
A dysg im' godi yr un modd ;
Dysg im' ddirmygu gwagedd byd,
A charu'n fwy y Trysor drud.

f 7 I'r Mab, drwy godi roddes hawl
I minnau godi, byddo'r mawl ;
Yng nghyd â'r Tad yn ddiwahân,
Yn Undod pur yr Ysbryd Glân.—Amen.

114

E. R.

mf 1 HWN yw yr hyfryd foreu ddydd
Y daeth ein Meichiau mawr yn
cr Cyd-lawenhaed pob enaid trist [rhydd ;
Y boreu dedwydd cododd Crist.

mf 2 Boddlonwyd holl ofynion llawn
Y gyfraith yn ei berffaith iawn ;
cr Caed cymmod dros bechadur trist,
Cyflawnwyd pobpeth—cododd Crist.

p 3 Goleuni ddaeth ar byrth y bedd—
Dynoliaeth bur, â newydd wedd,
A ddaw i'r lan o'r carchar trist
I fywyd dedwydd—cododd Crist.

f 4 Gwrandewch, y nefoedd—ddaiar, clyw—
Dy feirw eto fyddant fyw ;
Breswylwyr llwch marwolaeth drist,
Deffrowch a chenwch—cododd Crist.

mp 5 O Dduw, marweiddia'm chwantau cas,
A maddeu'm pechod trwy dy ras ;
A gwenu wnaf ar angeu trist,
Os huno gaf mewn ffydd yng Nghrist.—
Amen.

LLANFAIR. 7.4.7.4. D. Alaw Gymreig. Cyng. T. JONES.





EASTER HYMN.

7.4.7.4. D. Y Don Briodol.



115

B. F.

mf 1 HEDDYW cododd Crist o'r bedd, Hal.
Awdwr ein tragwyddol hedd, Hal.
Wedi'n prynu ar y pren, Hal.
I feddiannu'r nefoedd wen, Hal.

cr 2 Talodd Ef ein dyled fawr, Hal,
Rhyddion ydym ninnau'n awr, Hal.
Do, fe 'sigodd Had y Wraig, Hal.
Uffern ddu, a phen y ddraig, Hal.

mf 3 Fe bwrcasodd Iesu'n rhad, Hal.
A'i rinweddol werthfawr waed, Hal.
Deyrnas nefoedd deg i ni, Hal.
O mor ddrud ein braint a'n bri, Hal.

cr 4 Cawn ar fyr gyfarfod fry, Hal.
Gyda'r glân gadwedig lu, Hal.
f Lle mae holl drigolion nef, Hal.
Byth yn ei glodfori Ef, Hal.—**Amen.**

LOVELY. 6.6.6.6.8.8. J. D. Edwards. Cyng. M. W. Griffith, Mus.Bac.



116

J. T.

mf 1 'NOL marw Brenin hedd,
A'i eiddo i gyd yn brudd,
A'i roi mewn newydd fedd,
Cyfodai'r trydydd dydd :
f Boed hyn mewn cof gan Israel Duw,
Mae'r Oen a laddwyd eto'n fyw.

mf 2 Y Meichiau aeth yn rhydd,
'Nol rhoddi taliad llawn,
A Duw'n cyhoeddi sydd,
"Yn Hwn mi gefais iawn :"
f Gwnaeth ffordd yn rhydd i fyn'd at Dduw,
Mae'r Oen a laddwyd eto'n fyw.

mp 3 Galarwyr Sïon, sydd
A'ch taith trwy ddwr a thân,
Paham y byddwch brudd ?
Eich galar droir yn gân :
f O cenwch, etholedig ryw,
Mae'r Oen a laddwyd eto'n fyw.—Amen.

117

AN.

mf 1 CYFODODD Iesu'n wir,
Meddiannodd orsedd nef ;
Trysorau'r nefol dir
Sydd yn ei feddiant Ef :
f Mae'n llywydd cryf ar nef a llawr,
Ar angeu, bedd, ac uffern fawr.

2 Cynhesodd, do, â'i ddawn,
Oer wely llaith y bedd,
Gan ei bereiddio'n llawn
I etifeddion hedd :
Mae heddyw'n fyw, uwch poen a gwae—
Awn ar ei ol i'r man lle mae.

3 Mae'n henaf Frawd i ni,
Yn eiriol ar ein rhan—
Yn darpar uchel fri
I bawb o'i deulu gwan :
Awn ar ei ol i wely'r bedd,
Cawn godi'n iach mewn hyfryd hedd.

4 Mae ar ddeheulaw'r Tad,
Yn eiriol gyda grym,
Ar ddydd yr ing a'r gad,
Ym mhoethder rhyfel llym :
Ni chyll, ni chyll llu Sïon wan—
Mae Llywydd cadarn ar ei rhan.—Amen.

GOPSAL. 6.6.6.6.8.8. G. F. Handel.





118

R. W.

mf 1 CYFODODD Brenin hedd,
Iachawdwr dynol ryw,
cr Mewn gogoneddus wedd,
O'r tywyll fedd yn fyw :
f Ein bywiol Ben esgynodd fry
Goruwch pob llu tu draw i'r llen.

mf 2 O rwymau'r angeu caeth
Yn rhydd y daeth Mab Duw ;
cr Gorchfygu'r bedd a wnaeth
Mewn buddugoliaeth wiw :
Derbyniodd Ef bob gallu mawr
Trwy'r ddaiar lawr yn awr a'r nef.

f 3 Daw'r saint o lwch y bedd,
Ar wedd eu Priod cu,
I lawn dragwyddol wledd,
Mewn gwir orfoledd fry :
Dyrchafant draw o'r dyfnder cudd,
Cânt dd'od yn rhydd, mae'r dydd gerllaw

mf 4 Pan losgo'r ddaiar lawr,
A'i mawredd o bob rhyw,
f Fe genir am yr awr
Daeth Ef o'i fedd yn fyw :
Bydd cof am hon gan ddysglaer lu
Aneirif fry, byth ger ei fron.—Amen

SABBATH (neu PENLLYN). M. S. JOHN WILLIAMS.



119

R. W.

f 1 GOGONIANT byth i'r anwyl un
A dynodd golyn angau ;
cr Ysbeiliodd uffern fawr ei grym,
A rhyddion ydym ninnau.

f 2 Gorchfygodd Iesu ar brydnawn
Y ddraig a'i llawn gynllwynion ;
A'i waed a roddodd i'n glanhau,
A'n cânu ninnau'n wynion.

f 3 O dewch, angylion, pam na ddewch,
A chyd-chwarëwch eich tannau ;
A boed i sain Calfaria fryn
Ail-ennyn eich telynau.

f 4 Dadseinied rymus anthem gref
Organau'r nef ogoned,
cr I enw'r Duwdod yn y dyn—
Pob dawn yn un ennyned.—Amen.

120

E. W

1 MYFI yw'r adgyfodiad mawr,
Myfi yw gwawr y bywyd ; [Dduw,
Caiff pawb a'm cred, medd f'Arglwydd
Er trengu, fyw mewn eilfyd.

2 A'r sawl sy'n byw mewn ufudd gred
I mi, caiff drwydded nefol,
Na allo Angeu, brenin braw,
Ddrwg iddaw yn dragwyddol.

3 "Yn wir, yn wir," medd Gwir ei hun,
"Pob cyfryw ddyn sy'n gwrando
Fy ngair, gan gredu'r Tad a'm rhoes,
Mae didranc einioes iddo."

4 Na fyddwn anobeithiol drist
Am neb yng Nghrist a hunant,
O'r corff gorphwysant gydag Ef
Yng nghartref y gogoniant.—Amen.

ST. MAGNUS. M. C. J. Clark.

121

D. J.

f 1 BENDIGAID foreu, teg ei wawr,
Daeth Iesu mawr o'r bedd ;
Ca'dd fuddugoliaeth gyflawn gu
O'r carchar du ei wedd.

mf 2 Er gorwedd mewn dystawrwydd dro
Ym mro marwolaeth brudd,
Ein Prynwr nefol codi wnaeth
Pan ddaeth y trydydd dydd.

f 3 Nis gallai'r bedd nac uffern drist
Mo attal Crist i'r lan :
Disymmwth iawn daeth daiar gryn
I ddryllio'r gadwyn wan.

f 4 I'th enw mawr, ein Harglwydd mad,
Dyrchafwn ganiad hy,
A seiniwn oll Hosanna'n rhydd
Am ddydd ein Harglwydd cu.—Amen.

HAMBURGH. 8.7.8.7. D. J. Schop. Cyng. Dr. Filitz.



122

AN.

mf 1 WELE flaenffrwyth y cynauaf
Wedi cyrhaedd adre'n awr,
Wele ysgub y cyhwfan,
Ffrwyth pereiddiaf daiar lawr ;

cr Ernes yw i'n ffydd a'n gobaith,
Gwystl sicr y daw cyn hir
Holl gynauaf llafur Iesu
Adre'n llawn i'r nefol dir.

mf 2 Paid ag ofni'r bedd nac angeu,
Gristion, mae dy Iesu'n fyw ;
Ar ei gnawd a'i waed ymborthaist,
Lluniaeth anfarwoldeb yw ;
mp Hun fydd d' angeu, nid marwolaeth,
cr Ni fydd d' angeu ond ei lun ;
f Deffry Crist di'r dydd diweddaf
Ar ei ddelw hardd ei Hun.

f 3 Daw angylion nef y nefoedd
Yna i lawr yn dyrfa lân,
Dan addoli gwedd y Barnwr,
Oll o'i gylch fel cwmwl tân ;
Oll i'th hebrwng mewn gorfoledd
Fry drwy'r awyr draw i'r nef,
Lle cei byth fod yn eu cwmni,
Lle cei byth fod gydag Ef.—**Amen.**

ST. SIMON. 7.6.7.6. D. J. CRUGER, 1655.



123

M. R. ac AN.

mf 1 ER gwaetha'r maen a'r milwyr,
Fe gododd Iesu'n fyw ;
Daeth yn ei law alluog
A phardwn dynol ryw ;
cr Gwnaeth etifeddion uffern
Yn etifeddion nef ;
f Fy enaid, byth na thawed
A chanu iddo Ef.

f 2 Boed iddo'r holl ogoniant,
Iachawdwr mawr y byd ;
Mae arnaf rwymau i'w ganmawl,
Pe byddai pawb yn fud :
p Mae'n medru cydymdeimlo
A'r gwaela' o lwch y llawr,
A charu heb gyfnewid
I dragwyddoldeb mawr.

f 3 Tragwyddol glod i'r Cyfiawn
Fu farw dros fy mai ;
Fe adgyfodod eilwaith
O'r bedd i'm cyfiawnhau ;
mf Ar orsedd ei drugaredd
Mae'n dadleu yn y ne'
mp Ei fywyd a'i farwolaeth
Anfeidrol yn fy lle.—Amen.

124

W.

f 1 YR Iesu adgyfododd
Yn ogoneddus iawn ;
Daeth boreu teg a hyfryd
'Rol 'stormus ddu brydnawn :
Y gadwyn fawr a dorwyd
Ar wawr y trydydd dydd,
Gorchfygodd angeu'i hunan,
O'r carchar daeth yn rhydd.

mf 2 I'fyny daeth o Edom,
A'i wisg yn goch ei lliw,
Nis gall'sai un creadur
Mewn cadwyn gadw'm Duw ;
f Fe dorodd rym yr angeu,
Agorodd ddrysau'r bedd,
Palmantodd ffordd o'r ddaiar
I ganol gwlad yr hedd.

mf 3 Mi welaf yn ei fywyd
Y ffordd i'r nefoedd fry,
Ac yn ei angeu'r taliad
A roddwyd trosof fi ;
cr Yn ei esgyniad gwelaf
Drigfannau pur y nef,
A'r wledd dragwyddol berffaith
Gaf yno gydag Ef.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

Newyddion braf a ddaeth i'n bro (155). **Pwy welaf o Edom yn d'od (258).**

Y Dyrchafael.

EASTER HYMN. 7 au. W. H. Monk



125

R. W.

f 1 WELE Angeu llym ei gledd,
Wele agoriadau'r bedd,
Wele nef a daiar lawr
Dan awdurdod Iesu mawr. Haleluia!

2 Fry esgynodd Mab y Dyn
Trwy ei werthfawr waed ei Hun;
Dwyn tystiolaeth wnaeth y nef
I fawr werth ei aberth Ef. Haleluia!

3 Eistedd mae'n Cyfryngwr mawr
Ar orseddfa'r nef yn awr;
Yno'n dadleu'i angeu drud—
Iawn digonol dros y byd. Haleluia!

4 Prynedigaeth dynol ryw
A orphenodd Iesu gwiw:
Holl dylwythau daiar faith
Ganant mwy ei foliant maith. Haleluia!

VICTORY. 8.8.8.4. Palestrina.





126

G.

f 1 CYFODI wnaeth Tywysog Hedd,
Gorchfygodd uffern fawr a'r bedd,
Esgynodd i'w dragwyddol sedd.
Haleluia !

2 Agorwyd dysglaer byrth y nef,
Fe glywir gorfoleddus lef,
Fel swn y môr neu daran gref.
Haleluia !

3 Y fuddugoliaeth fawr a gaed,
dim Seraphiaid gwympant wrth ei draed,
A'r saint a olchwyd yn ei waed.
Haleluia !

4 Cymmerwn ein telynau'n awr
Oddi ar yr helyg prudd i lawr,
Ymunwn yn yr anthem fawr—
Haleluia !

5 Esgynodd Crist i entrych nef,
Pob glin a blyga iddo Ef,
Dyrchafwn y fuddugol lef—
Haleluia !

ff 6 Gogoniant fo yr uchel gân
Trwy'r nef a'r ddaiar heb wahân,
I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.
Haleluia !

KILMOREY. 7.6.7.6. D. J. A. Lloyd, leu.



127

R. R.

mf 1 YR Hwn gan ing fu'n chwysu
Y gwaed yn ddafnau mawr,
Y Gwr fu gynt yn trengu
Ar groes rhwng nef a llawr ;
Yr Un fu gynt yn gorwedd
Yn fud mewn dystaw fedd,
f Sydd heddyw ar yr orsedd
Mewn gogoneddus wedd.

f 2 Y Cadben mawr gyfodedd
Heb ofn na braw na brys,
Adeiniog lu y nefoedd
A'i dygant Ef i'w lys ;

ff Dyrchefwch, byrth, dyrchefwch !
Agorwch, ddrysau draw !
A Brenin y gogoniant
I'w ddwyfol lys a ddaw !

f 3 Nid preseb ac nid croesau,
Nid bedd na dirmyg mwy,
Nid llefain cryf na dagrau,
Na chwys na chlais na chlwy' ;
ff Gogoniant ar ogoniant,
Am ddyoddef is y nef,
Anrhydedd ac addoliant
Byth roddir iddo Ef.—Amen.

Y Dyrchafael.

ST. LEONARDS. M. C. H. Smart.



128

E. E.

f 1 DYRCHAFER Enw Iesu cu
Gan seintiau is y nen ;
A holl ancirif luoedd nef,
cr Coronwch Ef yn Ben.

mf 2 Angylion glân, sy'n gwylio'n gylch
Oddeutu'r orsedd wen—
Gosgorddion ei lywodraeth gref,
cr Coronwch Ef yn Ben.

mf 3 Hardd lu'r merthyri, sydd uwch law
Erlyniaeth, braw, na sen,
A llafar glod, ac uchel lef,
cr Coronwch Ef yn Ben.

mf 4 Yr holl brophwydi, 'nawr sy'n gwel'd
Y Meichiau mawr heb len,
A'r apostolion yn gyd-lef,
cr Coronwch Ef yn Ben.

f 5 Pob perchen anadl ym mhob man,
Dan gwmpas haul y nen—
Ar fôr a thir, mewn gwlad a thref,
ff Coronwch Ef yn Ben.—Amen.

129

G.

mf 1 DYRCHAFODD Crist o waelod bedd
Goruwch y nefoedd wen,
Lle'r eistedd ar orseddfainc hedd,
A'i goron ar ei ben.

mf 2 Ei glod a'i barch ni dderfydd mwy
Drwy faith dragwyddol oes ;
Am ddiystyru a myned trwy
Waradwydd angeu'r groes.

p 3 "Yr Oen a laddwyd, teilwng yw!"
Medd holl dafodau'r nef ;
Ac uned pob creadur byw
I'w foli ag uchel lef.

mf 4 Am iddo oddef marwol glwy'
A'n prynu trwy ei waed,
cr Caiff holl goronau'r nefoedd mwy
Eu bwrw wrth ei draed.

mf 5 Boed peraroglau'i enw drud
Yn llenwi daiar lawr :
cr A chladder enwau'r byd i gyd
p Yn Enw Iesu mawr.—Amen.

Hefyd y canlynol:—

Llais hyfryd rhad ras sy'n gwaeddi "Diangfa!" **(194)** Boed moliant Iesu mawr **(230)**.
Haleluia, mawl i'r Iesu **(332)**.

Y Sulgwyn.

ST. GABRIEL. 8.8.8.4. Sir F. A. G. Ouseley.





130

E. R.

mp 1 DUW, Tad y trugareddau, 'nawr
O tywallt o'r uchelder mawr,
I loni'th Eglwys ar y llawr,
p Yr Ysbryd Glân.

2 Duw Fab, Iachawdwr mawr y byd,
Yr hwn a'n prynaist ni mor ddrud,
O tywallt arnom oll i gyd
p Yr Ysbryd Glân.

3 Duw Ysbryd Glân, o disgyn Di,
Bywhâ Dy Eglwys, pura hi ;
A llenwa ein calonau ni
A nefol dân.

4 Iachâ y ddrylliog galon friw,
A golcha'r euog, du ei liw,
Yng ngwaed y pur Gyfryngwr gwiw,
p Dduw Ysbryd Glân.

5 Bracnara'r galed galon fas,
Diwreiddia chwyn ei nwydau cas,
A phlana ynddi hadau gras,
p Dduw Ysbryd Glân.

6 Pan ddelo temtasiynau byd,
Y cnawd, a'r Diafol, oll yng nghyd,
I'n blino, nertha ni bob pryd,
p Dduw Ysbryd Glân.—Amen.

ANGELS' SONG.

M. H. ORLANDO GIBBONS.



131

J. RS.

1 BYWHA dy waith, O Arglwydd mawr,
Dros holl derfynau daear lawr,
Trwy roi tywalltiad nerthol iawn
O'r Ysbryd Glân a'i ddwyfol ddawn.

2 Bywhâ dy waith o fewn ein tir,
Arddeliad mawr fo ar y gwir ;
Mewn nerth y bo'r Efengyl lawn
Er iachawdwriaeth llawer iawn.

3 Bywhâ dy waith o fewn dy dŷ,
A gwna dy weision oll yn hy ;
Gwisg hwynt â nerth yr Ysbryd Glân,
A'th air o'u mewn fo megys tân.

4 Bywhâ dy waith, O Arglwydd mawr,
Yn ein calonau ninnau'n awr ;
Er marwhau pob pechod cas,
A chynnydd i bob nefol ras.—Amen.

132

AN.

1 BYWYD y meirw, tyr'd i'n plith,
A thrwy dy Ysbryd arnom chwyth ;
Anadla'n rymus ar y glyn,
Fel byddo byw yr esgyrn hyn.

2 O tyred, anadl gref, fel gynt,
Yn awr oddiwrth y pedwar gwynt ;
Tyr'd, Ysbryd Glân, anadla Di
Ar esgyrn sychion megys ni.

3 Trwy bwrcas angeu Crist ein Pen,
Yr hwn fu'n dyoddef ar y pren,
Yr Ysbryd Sanctaidd oddi fry
Ddisgyno'n helaeth arnom ni.—Amen.

Y Sulgwyn.

ST. PAULINUS. M. S. W. ELLIS.



133

R. V.

mf 1 TYR'D, Ysbryd Glân, i'n c'lonau ni,
A dod d' oleuni nefol :
Tydi wyt Ysbryd Crist, dy ddawn
Sydd fawr iawn a rhagorol.

f 2 Llawenydd, bywyd, cariad pur,
Ydynt dy eglur ddoniau :
mf Dod eli i'n llygaid, fel i'th saint,
Ac enaint i'n gwynebau.

mf 3 Gwasgara Di'n gelynion trwch,
A heddwch dyro ini ;
Os t'wysog ini fydd Duw Ner,
Pob peth fydd er daioni.

mf 4 Dysg in' adnabod y Duw Dad,
Y gwir Fab rhad a Thithau ;
Yr un tragwyddol Dduw i fod,
Yn hynod Dri Phersonau.

f 5 Fel y molianner ym mhob oes
Y Duw a roes drugaredd :
Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân,
Da dadgan ei anrhydedd.—Amen.

134

R. V.

1 TYR'D, Ysbryd Glân, tragwyddol Dduw
Yr unrhyw a'r Tad nefol ;
A'r unrhyw hanfod a'r Mab rhad—
Duw cariad tangnefeddol.

2 Llewyrcha'n c'lonau ni â'th ras,
Fel l yddo gas in' bechu,
Ac ini, mewn sancteiddrwydd rhydd,
Bob dydd dy wasanaethu.

3 Tydi addewaist ddysgu, Ion,
Dy weision i lefaru,
Fel ym mhob man y caffo'n rhwydd
Yr Arglwydd ei foliannu.

4 O Ysbryd Glân, i'n c'lonau ni
Y gwir oleuni danfon :
A hefyd sel, tra bôm ni byw,
I garu Duw yn ffyddlon.—Amen.

TALYBONT. 7.6.7.6. D. Alaw Gymreig.
Cyng. J. H. ROBERTS, Mus.Bac., Cantab.



135

AN.

mp 1 O DDUW, rho im' dy Ysbryd—
Dy Ysbryd ddaw â gwres ;
Dy Ysbryd ddaw â'm henaid
I'r nefoedd wen yn nes ;
cr Dy Ysbryd sy'n goleuo,
Dy Ysbryd sy'n bywhau,
Dy Ysbryd sydd yn puro,
Sancteiddio, a glanhau.

mp 2 Dy Ysbryd sy'n dadguddio
Yr heirdd drysorau drud,
Na chenfydd llygad natur—
Cuddiedig iawn i'r byd :
cr Dy Ysbryd sydd yn ennyn
Cynhesol, nefol dân ;
mf Dy Ysbryd pur yn unig
Sydd yn melysu'm cân.

mp 3 Dy Ysbryd sydd yn cynnal
Y baban gwan ei ras,
Yn nerthu'r enaid egwan
Sy'n ofni colli'r maes ;
mf Dy Ysbryd sy'n gwasgaru
Pob cwmwl tywyll, du :
Gwna fi, trwy nerth dy Ysbryd,
Yn gadarn ac yn hy.—Amen.

ST. STEPHEN. M. C. W. JONES.



136

J. H.

p 1 O ANFON Di yr Ysbryd Glân,
Yn Enw Iesu mawr,
cr A'i weithrediadau megys tân,
O anfon Ef i lawr.

mp 2 Yn ol d' addewid fawr ei gwerth,
Tywallter oddi fry
cr Yr Ysbryd Sanctaidd gyda nerth,
I weithio arnom ni.

mf 3 O'i wir ewyllys deued Ef
I argyhoeddi'r byd,
Ac arwain etifeddion nef
Trwy'r anial maith i gyd.

p 4 Yn ol d' addewid, Iesu **mawr,**
cr Yr awron anfon Di
Y gwir Ddyddanydd yma **i lawr,**
p I aros gyda ni.—Amen.

Y Sulgwyn.

VERONA. 8.7.8.7.4.7. Alaw Eidalaidd. Cyng. J. H. Roberts, Mus.Bac., Cantab.



137

AN.

mf 1 IESU roes addewid hyfryd,
Cyn ei fyn'd i ben ei daith,
Yr anfonai Ef ei Ysbryd
I roi bywyd yn ei waith :
cr Dawn yr Ysbryd,
Digon i'r dysgyblion yw.

mf 2 Cofiodd Iesu ei addewid,
I'w chyflawnu yn ddiau :
Ar y Sulgwyn daeth yr Ysbryd,
Ac achubodd filoedd rai :
Enw'r Iesu
Felly ga'dd ogoniant mawr.

f 3 Mae digonedd cyflawn eto
Yn yr hen addewid wiw :
Boed i ninnau'n awr weddïo
Am ymweliad Ysbryd Duw ;
dí O tywallter
Ef yn helaeth arnom ni.

p 4 O Lân Ysbryd yr addewid,
Tyred yn dy ddawn dilyth,
Mae dy ras yn ddigyfnewid,
Gweithia'n rymus yn ein plith ;
cr Deffro'r Eglwys,
Achub, argyhoedda'r byd.—Amen.

Sul y Drindod.

NICEA. 11.13.12.10. J. B. Dykes.



138

AN.

f 1 SANCTAIDD, Sanctaidd, Sanctaidd, Dduw Hollgyfoethog,
Gyda'r wawr blygeiniol fry dyrchafwn i Ti gân ;
Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd, mawr wyt a thrugarog ;
Duw mewn Tri Pherson—Trindod ddiwahân.

Sul y Drindod.

f 2 Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd, dy holl saint a'th folant,
Bwriant eu coronau aur o flaen y fainc i lawr :
Engyl a seraphiaid glân a'th ogoneddant
Beunydd a byth i dragwyddoldeb mawr.

p 3 Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd, t'wyllwch a'th orchuddia,
Fel nas gall pechadur gwael ddim edrych ar dy wedd :
cr Sanctaidd wyt a chyfiawn, Arglwydd Dduw gorucha',
Ti biau'r clod, y mawl, y gras, a'r hedd.

f 4 Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd, Dduw hollgyfoethog,
Dy holl waith a'th fola Di mewn gogoneddus gân :
Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd, mawr wyt a thrugarog :
Duw mewn Tri Pherson—Trindod ddiwahân.—Amen.

CYNDDELW. 8.6.8.6.8.8.8.6. J. A. Lloyd (o Aberth Moliant).



139

E. J.

1 Mae'n llon'd y nefoedd, llon'd y byd,
Llon'd uffern hefyd yw ;
Llon'd tragwyddoldeb maith ei hun,
Diderfyn ydyw Duw ;
Mae'n llon'd y gwagle yn ddigoll,
Mae oll yn oll, a'i allu'n un,
Anfeidrol annherfynol Fod,
A'i hanfod ynddo'i Hun.

2 Un hunanfodol ydoedd Ef
Cyn llunio nef na llawr :
Yn nhragwyddoldeb maith yn ol,
Yn Dduw anfeidrol fawr :
Heb ddechreu dyddiau iddo'n bod,
Na diwedd einioes chwaith i dd'od,
Tragwyddol a rhyfeddol Fod—
Yn Drindod uniawn drefn.

3 Clyw, f'enaid tlawd, mae genyt Dad
Sy'n gwel'd dy fwriad gwan,
A Brawd yn eiriol yn y nef
Cyn codi'th lef i'r lan :
Cred nad diystyr gan dy Dad
Yw gwrandaw gwaedd dymuniad gwiw,
Pe byddai d'eneu yn rhy fud
I'w ddwedyd ger bron Duw.—Amen.

Sul y Drindod.

ENDSLEIGH. 7.6.7.6. D. O'r Italaidd.
Cyng. J. H. Roberts, Mus.Bac.



140

W.

1 FY Nuw, uwchlaw fy neall
Yw gwaith dy ddwylaw i gyd,
Rhyfeddod annherfynol
Sydd ynddynt oll yng nghyd:
Wrth weled dy ddoethineb,
Dy allu mawr, a'th fri,
Mi greda' am iachawdwriaeth
Yn hollol ynot Ti.

2 O f'enaid, gwel fath noddfa
Ddiysgog, gadarn, yw,
Ym mhob rhyw gyfyngderau,
Tragwyddol ras fy Nuw:
Ac yma boed fy nhrigfan,
A fy nhawelaf nyth,
Yn nyfnder cyfyngderau,
Sef dan dy aden byth.

3 Fe all i'r lan fy nghodi
O ddyfnder llwch y byd,
A gwneyd i bob drwg amcan
Droi er daioni i gyd;
Rhoi olew o lawenydd
Yn wastad ar fy mhen,
A'm dwyn trwy foredd dyfnion
I ganol nefoedd wen.—Amen.

141

AN.

mf 1 ER tori'r hen gyfammod
A wnaed rhwng dyn a Duw,
A syrthio i drueni
O bawb o ddynol ryw,
f Fe gaed cyfammod sicrach
Yn llaw Gwaredwr cryf—
Cyfammod yw a gyfyd
Ryw dyrfa fawr ddirif.

mf 2 Cyfammod hedd a luniwyd
Yn nhragwyddoldeb pell,
Rhwng Tad a Mab ac Ysbryd—
Nis gall'sai fod yn well:
f Cyfammod cr achubiaeth
I euog lwch y llawr:
Mae'n gadarn, wedi'i selio
p A gwaed Messiah mawr.

f 3 Cyfammod rhad tragwyddol
Yw dyfais gras y nef;
Nis gall na byd nac uffern
Byth ei ddirymu ef:
ff Pan ddiffydd haul a lleuad
Pan losgo daiar las,
mp Fe saif y ddyfais ddwyfol
Yn gryf gyfammod gras.—Amen.

TRALLWM. M. S. J. A. Lloyd, 1846.



142

H. a N.

f 1 GOGONIANT byth i'r dilyth Dad,
Am gariad mor ragorol ;
Anfonodd Ef ei Fab i'r byd
I'n dwyn i'r gwynfyd nefol.

2 Gogoniant bythol i Fab Duw,
Gwaredydd yw i'r eiddo ;
Mae'r Tad yn foddlawn ynddo byth,
Boed dilyth foliant iddo.

3 Gogoniant byth i'r Ysbryd Glân,
Sy'n rhoddi'r anian newydd ;
Arweinydd a Dyddanydd da
I'r seintiau yn dragywydd.

4 Gogoniant byth i'r Tri yu Un
Am gadw dyn colledig ;
Yn Sion lân moliannus yw
Un gwir Dduw bendigedig.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

Draw mi welaf ryfeddodau (182). Tragwyddol gariad Tri yn Un (191).

O Flaen Pregeth.

SARDIS. 8.7.8.7.6.7. Alaw Gymreig.



GWAHODDIAD. 8.7.8.7.6.7. Alaw Gymreig.



143

W.

mf 1 GOLWG, Arglwydd, ar dy wyneb
Sydd yn codi'r marw o'r bedd ;
Mae agoriad nef ac uffern
Yna i'w deimlo ar dy wedd ;
Gair dy ras, pur ei flas,
Egyr yma'n calon gas.

Arglwydd danfon dy leferydd
Heddyw yn ei rwysg a'i rym ;
Dangos fod dy lais yn gryfach
Nas gall dyn wrthsefyll ddim ;
Cerdd ym mlaen, nefol dân,
Cymmer yma feddiant glân.

3 Tyred bellach, tyr'd yn ebrwydd,
Ac anadla'r gwyntoedd cryf
Sydd yn nerthu'r pererinion
I wynebu'r gelyn hyf—
Yn gwneyd grym Satan llym
Mewn mynydyn fyn'd yn ddim.—Amen.

O Flaen Pregeth.

WESTMINSTER. M. C. JAMES TURLE.



144

R. W.

mp 1 O FRENIN nef a daiar lawr,
Mor werthfawr yw dy wedd ;
Rho ini brawf ar hyn o bryd
O'th nefol hyfryd hedd.

2 Goleua Di ein deall gwan
Yn mhob rhyw ran o'th waith ,
Dadguddia'n awr i'th anwyl blant
Dy fawr ogoniant maith.

3 Anwylaf Dad, O arddel Di
Y genadwri hon,
A llanwed gwir wybodaeth glau
Holl gyrau'r ddaiar gron.

4 O cryned, Arglwydd, ger dy fron
Dy holl elynion cas ;
A llwydda hefyd yma'n awr
Wirionedd mawr dy ras.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

O Arglwydd, dyrcha arnom **(6)**.
Mor werthfawr yw y Gair a ddaeth **(11)**.
Bywhâ dy waith, O Arglwydd mawr **(131)**.
'Rhwn sy'n gyru'r mellt i hedeg **(185)**.
O llefara, addfwyn Iesu **(217)**.
O Tyred, Arglwydd mawr **(228)**.

Ac Emynau YR YSGRYTHYR LAN **(145-149)**.

Yr Ysgrythyr Lan.

HANNAH. 8.7.8.7. D. Gan D. ROBERTS (Alawydd).





MORIAH. 8.7.8.7. D. Alaw Gymreig.



145

AN.

mf 1 DYMA Feibl anwyl Iesu,
Dyma rodd deheulaw Duw ;
Dengys hwn y ffordd i farw,
Dengys hwn y ffordd i fyw ;
Dengys hwn y codwm erchyll
Gafwyd draw yn Eden drist ;
f Dengys hwn y ffordd i fywyd
Trwy adnabod Iesu Grist.

mp 2 Yma rhedo'm myfyrdodau,
Ar drysorau gorau'r Gair ;
Dawn ac iechyd i fy ysbryd,
Grym a bywyd imi bair :
cr Mi anturiaf oll a feddaf
Ar y Gair cadarnaf gwiw ;
f Cwyd fi i fyny, ceidw f'enaid—
Mae fy nodded yn fy Nuw.—Amen.

146

W.

mf 1 GOLEU a nerthol yw dy eiriau,
Melus fel y diliau mêl,
f Cadarn fel y bryniau pwysig ;
Angeu'm Iesu yw eu sel ;
Rhai'n a nertha'm henaid gerdded
Dyrys, anial ffordd ym mlaen ;
Rhai'n a gynnal f'enaid egwan
Yn y dwr ac yn y tân.

mf 2 Holl bleserau maith y ddaiar,
Rhai a gais breninoedd byd—
Cyfoeth, rhwysg, gogoniant, mawredd,
A rhyw fyrdd o bethau 'nghyd—
f Byth ni cheisiaf tra fo bywyd,
Ddim ond edrych ar dy wedd—
mf Teimlo arwyddion hyfryd gariad,
Nes disgynwyf lawr i'm bedd.

mp 3 Gwedd dy wyneb sy'n rhagori
Ar drysorau'r India draw ;
p Mae awelon pur dy gariad
Yn dwyn gwobr yn eu llaw ;
mf Perffaith bleser heb ddim diwedd,
Perffaith gysur heb ddim trai,
f Yn y 'stormydd mawr cynddeiriog,
Yw yn unig dy fwynhau.—Amen.

ELLIOTT. 9.8.9.8. D. JOHN ELLIS, 1810. SIR JOHN GOSS.



147

M. R.

mf 1 O AGOR fy llygaid i weled
Dirgelwch dy arfaeth a'th Air;
Mae'n well imi gyfraith dy eneu
Na miloedd o arian ac aur:
cr. A'r ddaiar ar dân, a'i thrysorau,
Ond geiriau fy Nuw saif yr un:
f Y bywyd tragwyddol yw 'nabod
Fy Mhrynwr yn Dduw ac yn ddyn.

mf 2 Rhyfeddod a bery'n ddiddarfod
Yw'r ffordd a gymmerodd Efe
I achub pechadur colledig,
p Trwy farw ei Hun yn ei le;
f Fe safodd fy Mrenin ei Hunan,
Gorchfygodd awdurdod y ddraig;
Ein cadarn Waredydd ni ydyw—
ff O caned preswylwyr y graig.—Amen.

MISSIONARY. 7.6.7.6. D. DR. LOWELL MASON.



Yr Ysgrythyr Lan.



148

AN.

mp 1 O ARGLWYDD, dysg im' chwilio
I wirioneddau'r Gair,
cr Nes d'od o hyd i'r Ceidwad
Fu gynt ar liniau Mair :
f Mae Ef yn Dduw galluog—
Yn gadarn i iachäu ;
p Er cymmaint yw fy llygredd,
cr Mae'n ffynnon i'm glanhau.

f 2 Y clod, y nerth, a'r enw,
Anrhydedd, parch, a bri,
I'r Duwdod fo mewn Undod,
A'r Undod pur yn Dri :
ff Ei glod ehedo allan,
Ei glod anfeidrol Ef,
Trwy eang annherfynol
Fesurau maith y nef.—Amen.

ST. SEIRIOL. M. S.

IFAN WILLIAMS, 1770.
Cyng. W. J. HUGHES (o Aberth Moliant).



149

E. P.

mp 1 O ARGLWYDD Dduw, 'r hwn biau'r
Arddel dy faith wirionedd, [gwaith,
mf Fel bo i bechod o bob rhyw
Gael marwol friw o'r diwedd.

mf 2 Amlyga Di, O Arglwydd Ior
O fŵr i fŵr dy fawredd ;
A dangos i holl ddynol ryw
Mor union yw'th wirionedd.

mf 3 Llefara wrthym air mewn pryd ;
Dod ysbryd i dy garu ;
cr Dadguddia ini'r oedfa hon
Ogoniant person Iesu.

mf 4 Dysgwyliaf wrthyt uwch law neb,
Na thro dy wyneb ymaith ;
Bydd imi'n Dduw, yn Dad, yn Frawd,
Yn dirion iachawdwriaeth.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

Mor werthfawr yw y Gair y ddaeth (11). O Arglwydd gwynfydedig (22).

LAUSANNE. 8.7.8.7. C. Malan.



150

D. E.

f 1 HOFFI'R wyf dy lân breswylfa,
Arglwydd, lle'r addewaist fod ;
Nid oes drigfan debyg iddi
Mewn un man o dan y rhod.

mf 2 Teml yr Arglwydd sydd dŷ gweddi,
Lle i alw arnat Ti ;
Derbyn Dithau ein herfyniau
Pan weddiom yn dy dŷ.

3 Hoffi'r wyf dy lân fedyddfan,
Lle mae'r Ysbryd oddi fry
Yn bendithio'r gwan aelodau
Pan dderbynir hwynt i'th dŷ.

4 Hoffi'r wyf dy allor sanctaidd,
Yno cawn gysuron hael,
Bara'r bywyd—ymborth nefol—
Ini, bechaduriaid gwael.

5 Hoffi'r wyf wir Air y Bywyd,
Tystio mae am wlad yr hedd,
Lle mae gwynfyd yn ddiderfyn
I'w fwynhau tu draw i'r bedd.

f 6 Hoffi'r wyf ddadseinio'th foliant
Yn dy dŷ ag uchel lef :
p Arglwydd grasol, gwna ni'n addas
cr I'th glodfori yn y nef.—Amen.

BETHESDA. 8.7.8.7.4.7. Alaw Ellmynig.



151

H. a N.

mf 1 ARGLWYDD, tyn y llenı trymion
Sydd ar feddwl plant y byd,
Fel y gwelont degwch Sïon,
Ac y delont iddi i gyd ;
mp Hyfryd drigfa,
Yma mae preswylfa Duw.

mf 2 Cartref clyd, diogel, diwall,
Sydd i'w gael yn Eglwys Grist,
Ac nid oes un fangre arall
Rydd ryddhâd i enaid trist ;
Gelwir iddi
Tra mae ynddi eto le.

mp 3 O eneidiau gwynfydedig
Sydd yn Sïon bur yn byw,
cr Byddant hyfryd a chadwedig
Pan ddêl dydd digofaint Duw :
Brawd a Chyfaill
Iddynt fydd y Barnwr mawr.—Amen.

152

AN.

mf 1 PLANA'M corff a'i holl alluoedd,
Plana'm henaid oll o'r bron
Yn dy dŷ, a chyda'th bobl,
Tra b'wyf ar y ddaiar hon :
Cymmer feddiant
Cyflawn byth o honof mwy.

2 Yn dy deml gydag Anna,
Mi arosaf ddyddiau f'oes ;
Byth o'th dŷ ni cheisiaf ysgog,
Er ei myn'd yn dywell nos ;
Gwell bod yma'n
Cadw'r drws, na lle'n y byd.

3 Ar ol dysgwyl fel Simeon
Ddyddiau meithion, pwy a ŵyr
Na chaf wel'd dyddanwch Israel,
Megys yntau, yn yr hwyr :
di Os caf hyny,
p Mewn tangnefedd marw wnaf.—Amen.

MOUNT OF OLIVES. 8.7.8.7. D.



153

W.

f 1 O AM nerth i dreulio'm dyddiau
Yng nghynteddau tŷ fy Nhad ;
Byw yng nghanol y goleuni,
T'wyllwch obry dan fy nhraed :
cr Byw heb fachlud haul un amser,
Byw heb gwmwl, byw heb boen ;
Byw ar gariad anorchfygol,
Pur y croeshoeliedig Oen.

mf 2 Dyro olwg ar dy haeddiant,
Golwg ar dy deyrnas rad
Brynıwyd imi ac a seliwyd—
Seliwyd imi â dy waed ;
cr Rho im' gyrchu tuag ati,
Peidio byth â llwfrhau ;
Ar fy nhaith ni cheisiaf genyt
Ond yn unig dy fwynhau.

f 3 Gyda Thi mi af drwy'r fyddin,
Gyda Thi mi af drwy'r tân :
Nid ofnaf ymchwydd yr Iorddonen,
Ond i Ti fyn'd o fy mlaen :
Ti yw'm hamddiffynfa gadarn,
Ti yw'm Brenin a fy Nhad ;
Ti dy Hunan oll yn unig
Yw fy iachawdwriaeth rad.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

Dy babell Di mor hyfryd yw (12).
I'r Arglwydd cenwch lafar glod (154).
Un ydyw'r Eglwys oll (422).
Un sylfaen fawr yr Eglwys (423).

Cyffredinol.

HEN GANFED. M. H.



NEW SABBATH (At Emyn 155 yn unig). M. H.



154

E. P.

f 1 I'R Arglwydd cenwch lafar glod,
A gwnewch ufudd-dod llawen fryd;
Dewch o flaen Duw â pheraidd dôn,
Drigolion y ddaiar i gyd.

mp 2 Gwybyddwch mai'r Arglwydd sy Dduw,
A'n gwnaeth ni'n fyw fel hyn i fod:
cr Nid ni'n hunain—ei bobl ŷm ni,
A defaid rhi ei borfa a'i nod.

mf 3 O ewch i'w byrth â diolch brau,
Yn ei gynteddau molwch Ef;
cr Bendithiwch enw Duw hynod,
ff Rhowch iddo glod trwy lafar lef:

f 4 Can's da yw'r Arglwydd, Awdwr hedd,
Da ei drugaredd a dilyth:
A'i wirionedd, i ni a roes,
O oes i oes a bery byth.—Amen.

155

W.

f 1 NEWYDDION braf a ddaeth i'n bro,
Hwy haeddent gael eu dwyn ar go' ;
Fod Iesu wedi cario'r dydd,
Caiff carcharorion fyn'd yn rhydd.

mf 2 Mae Iesu Grist o'n hochr ni,
pp Fe gollodd Ef ei waed yn lli' ;
mf Trwy rinwedd hwn fe'n dwg yn iach
I'r ochr draw 'mhen gronyn bach.

mf 3 Wel, f'enaid, bellach c'od dy ben,
Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd wen ;
f Ein holl elynion sydd yn awr
Mewn cadwyn gan y Brenin mawr.—Amen.

MANNHEIM. 8.7.8.7.4.7. Alaw Ellmynig.



156

AN.

mf 1 WELE'R Hwn sydd hollgyfoethog
'Nawr yn dyfod yn dylawd ;
Gadael nefoedd a'i gogoniant,
Dyfod yma i wisgo cnawd :
Rhyfedd gariad,
Iesu Grist, ein hanwyl Frawd.

2 Wele foroedd o fendithion,
O, am brofi'u nefol flas ;
Ni bydd diwedd byth ar lawnder
Iachawdwriaeth dwyfol ras :
Dyma ddigon,
Rhoddwn glod i'n Harglwydd da.

3 Tlodion gaiff eu cyfoethogi
Trwy ei fawr dylodi Ef :
Rhai a gollwyd gaiff achubiaeth
Trwy ei iachawdwriaeth Ef :
Diolch iddo
Byth am dd'od i'n daiar ni.

f 4 Awn ym mlaen i geisio'r Iesu,
Tra y mae yn awr i'w gael ;
I rodfeydd ei ras mae'n dyfod,
Lle mae'n hynod iawn o hael :
Diolch iddo,
Byth fe wrendy gwyn y gwael.—Amen.

157

W. H.

mp 1 ARGLWYDD, paid â gadael imi
Ymfoddloni heb y gwir ;
Lamp heb olew a ddiffodda
Yn y trcial mawr cyn hir :
cr Rho im' olew
Yn fy llestr gyda'm lamp.

mf 2 Ond cael hyny, byddaf barod
Yna i ddyfod atat Ti
I gael gwledd, a llawenychu
Gyda theulu'r nefoedd fry :
p O am ddyfod
cr Yna i mewn cyn cau y drws !—Amen.

EDINBURGH. 8.7.8.7. D. Hon Alaw. Sir F. A. G. Ouseley.



158

W.

f 1 MARCHOG, Iesu, yn llwyddiannus,
Gwisg dy gleddyf ar dy glun,
Ni all daiar dy wrthsefyll,
Chwaith nac uffern fawr ei hun:
Mae dy Enw mor ardderchog,
Pob rhyw elyn gilia draw;
Mae rhyw arswyd trwy'r greadigaeth
Pan y byddost Ti gerllaw.

mp 2 Tyn fy enaid o'i gaethiwed,
Gwawried bellach foreu ddydd;
cr Rhwyga'n chwilfriw ddorau Babel,
Tyn y barau heiyrn yn rhydd:
f Gwthied caethion yn finteioedd
Allan megys tònau llif,
Torf a thorf, dan orfoleddu,
Heb na diwedd byth na rhif.

mf 3 Mi debygaf clywaf heddyw
Swn caniadau draw o bell,
Torf yn moli am waredigaeth,
Ac am ryddid llawer gwell:
cr Gynau gwynion yw eu gwisgoedd,
Palmwydd hyfryd yn eu llaw,
Mewn llawenydd a gogoniant
Ant i'r bywyd maes o law.—Amen.

PENMAEN. M. B. Awdwr An.
Cyng. gan M. W. Griffiths, Mus. Bac.



ST. MICHAEL. M. B.



159

G. R.

1 GRAS: O! 'r fath beraidd sain,
I'm clust hyfrydlais yw;
Hwn wna i'r nef berseinio byth,
A'r ddaiar oll a glyw.

2 Gras rhad a drefnodd ffordd
I wared euog fyd;
A gras a welir ym mhob rhan
O'r ddyfais hon i gyd.

3 Gras ddaeth â'm traed yn ol
I lwybrau'r nefoedd lân;
A chymhorth newydd rydd bob awr
Im' fyned yn y blaen.

4 Gras a gorona'r gwaith
Draw mewn anfarwol fyd;
A chaiff y clod a'r moliant byth
Gan luoedd nef yng nghyd.—Amen.

160

AN.

mf 1 O WELE'R Ceidwad mawr
A ddaeth i lawr o'r nef
I achub gwaelaidd lwch y llawr:
f Gogoniant iddo Ef.

mp 2 Bu farw yn ein lle
Ni, bechaduriaid gwael;
Mae pob cyflawnder ynddo E'
Sydd arnom eisieu'i gael.

mf 3 Ei 'nabod Ef yn iawn
Yw'r bywyd llawn o hedd;
A chael ei iachawdwriaeth lawn
Fydd yn dragwyddol wledd.

mp 4 Cael teimlo gwaed y groes
Yn dofi'r loes a'r cur,
cr A wnaeth i filoedd ym mhob oes
I seinio'r anthem bur.—Amen.

TREFDEYRN. 6.6.4.6.8.8.7.6. Alaw Gymreig. Cyng. J. H. Roberts, Mus. Bac.,Cantab.



161

G. R.

mf 1 TEG wawriodd arnom ddydd
A welwyd gynt trwy ffydd
Gan rai sy'n awr
O'r cystudd mawr yn rhydd ;
cr Ac os oedd dyled arnynt hwy
I foli'r Oen am farwol glwy',
f Mae'n dyled ni, Genedloedd,
Fil filoedd foli mwy.

mf 2 Trwy Grist a'i werthfawr waed
Y daeth maddeuant rhad
I ddynol ryw,
cr Iachawdwr gwiw a gaed ;
Ei fywyd pur a'i angeu loes,
A'i ddyoddefaint ar y groes,
A ddygo ein serchiadau
Tra paro dyddiau'n hoes.

mf 3 Yn nyfnder pob rhyw loes,
A gorthrymderau f'oes,
Fy nawdd a'm nerth
Yw Aberth mawr y groes ;
cr Ithinweddol haeddiant marwol glwy'
Yw'm cysur yn y byd tra b'wy',
A'm hunig ddigonoldeb
I dragwyddoldeb mwy —Amen.

162

R. E.

mf 1 O DEWCH, o fawr i fân,
Cyn delo'r diuw tân,
I'r arch mewn pryd
Fe lysg y byd yn lân :
cr O ddinas distryw brysiwch, ffowch !
Ar y gwastadedd nac ymdrowch ;
I sanctaidd fynydd Sïon,
O ddynion, pam na ddowch ?

mf 2 Yn awr, fy enaid, clyw ;
Yn awr yw amser Duw
Am gymmod teg—
Dy unig adeg yw :
f Dy alw di mae Iesu mawr—
O tyred, tyred ato'n awr ;
Rhydd fywyd yn dragywydd—
Mae'n Llywydd nef a llawr.—Amen.

ERFYNIAD. 10au. Alaw Gymreig.





FFIGYSBREN (neu **CLOD**). 10au. W. C. T. & C. Book. A aw Gymreig.



163

P. J.

1 CYN llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen,
Cyn gosod haul, na lloer, na ser uwchben,
Fe drefnwyd ffordd yng nghynghor Tri yn Un
I achub gwael, golledig, euog ddyn.

2 Trysorwyd gras, rhyw annherfynol 'stôr,
Yn Iesu Grist cyn rhoddi deddf i'r môr;
A rhedeg wnaeth bendithion arfaeth ddrud
Fel afon gref lifeiriol dros y byd.

3 Mae'r udgorn mawr yn seinio'n awr i ni
Ollyngdod llawn trwy'r Iawn ar Galfari;
Mawl ym mhob iaith trwy'r ddaiar faith a fydd
Am angeu'r groes, a'r gwaed a'n rhoes yn rhydd.—Amen.

164

E. J.

mf 1 CYFAMMOD hedd, cyfammod cadarn Duw,
Ni syfl o'i le, nid ïe a nage yw;
Cyfammod gwir, ni chyfnewidir chwaith;
Er maint eu pla, daw tyrfa i ben eu taith.

mf 2 Cyfammod rhad o drefniad Un yn Dri,
Hen air y llw a droes yn elw i ni;
cr Mae'n ddigon cryf i'n codi fyny'n fyw;
Ei rym o hyd yw holl gadernid Duw.

f 3 Cyfammod llawn, lle trefnwyd iawn i'r Ior
Cyn llunio llawr, un mynydd mawr, na môr;
Yn rhinwedd hwn myrddiynau ddônt yn rhydd,
A'n dyled yw moliannu Duw bob dydd.—Amen.

BRESLAU. M. H. Alaw Ellmynig



RIVAULX. M. H. J. B. Dykes.



165

D. S. E.

1 BOD gogoneddus wyt, O Dduw,
Dy orsedd, dyrchafedig yw ;
Pwy sydd ym mysg y duwiau i gyd
Yn debyg i Greawdwr byd ?

2 Mae'n marchog ar gymylau'r nen,
Gan daenu'r nefoedd megys llen ;
Tywyllwch tew o'i gylch y sydd,
Ond iddo Ef mae'n oleu ddydd.

3 Wrth nerth ei daran cryna'r byd,
Ei gerydd wna y môr yn fud ;
Mae iddo fraich nad oes a'i try,
Cadernid dwyfol iddi sy.

4 Mae'n fwy na llonaid nef a llawr,
Ardderchog yw ei Enw mawr ;
Mawrhydi a doethineb maith
Sydd yn coroni ei holl waith.—Amen.

166

AN.

f 1 WRTH orsedd y Jehofa mawr
Plyged trigolion byd i lawr ;
Gwybydded pawb mai Ef sydd Dduw,
Yr hwn sy'n lladd a gwneyd yn fyw.

2 A'i ddirfawr nerth, heb gymhorth dyn,
O'r pridd fe'n lluniodd bob yr un ;
Er in' fel defaid grwydro'n ffol,
I'w gorlan dygodd Ef ni'n ol.

3 I'th byrth â diolch-gân ni awn,
Cyfodi'n llef i'r nef a wnawn ;
Doed pobloedd o bob iaith sy'n bod
I lenwi'th dai â llafar glod.

4 D' arglwyddiaeth Di sydd dros y byd,
Tragwyddol yw dy gariad drud ;
Saif dy wirionedd heb osgoi
Pan beidio'r haul a'r lleuad droi.—Amen.

167

JS. H.

mp 1 O DDYDD i ddydd, o awr i awr,
'Rwy'n nesu i'r tragwyddolfyd mawr,
Ac yno byddaf cyn bo hir—
mf O, am gael etifeddu'r gwir!

mp 2 O groes i groes, o don i don,
Ymado wnaf â'r fuchedd hon;
Yn fuan af i byrth y bedd,
cr O, am gyrhaeddyd gwlad yr hedd!

mf 3 O nerth i nerth, o daith i daith,
Ymlwybraf drwy'r anialwch maith:
Nid yw'r Iorddonen ddim ym mhell,
O, am gyrhaeddyd gwlad sydd well!

mf 4 O fryn i fryn, o bant i bant,
Hwn ydyw llwybr blin y plant;
di Daw diwedd ar eu lludded llawn—
pp O, am gael gorphwys tawel iawn!—Amen.

ROCKINGHAM. M. H. DR. MILLER.



168

T. J.

mf 1 O IOR, preswylydd mawr y berth,
Y ffynnon fawr o ras a nerth;
mp Rho ynof lef, a chlyw fy nghwyn—
Dy iau a'th groes, dysg im' eu dwyn.

mf 2 Os rhaid im' beunydd ddwyn y groes,
Tra pery gyrfa fer fy oes,
mp O Arglwydd, dyro help dy fraich
I gynnal eiddil dan ei faich.

mp 3 Mewn cyfyngderau saf o'm plaid
Yn gadarn dŵr a nerth wrth raid;
Yn Dad, yn Frawd, yn Briod bydd
Hyd angeu, a thrwy fythol ddydd.

mf 4 Os Ti'm gadewi, Iesu mawr,
Y lleiaf peth a'm teifl i lawr;
cr Ond er y 'storm a'r tònau maith,
Dof yn dy law i ben fy nhaith.—Amen.

CAPEL CYNON. M. S. HUGH JONES.



169

E. P.

mf 1 O CYFOD bellach, trugarhâ,
O Dduw, bydd dda wrth Sïon ;
Mae'n amser wrthi drugarhau,
Fel dyma'r nodau'n union.

mp 2 Can's hoff iawn gan dy weision Di
Ei meini a'i magwyrau ;
Maent yn tosturio wrth ei llwch,
Ei thristwch a'i thrallodau.

f 3 Pan adeilader Sïon wych,
Bydd hon yn ddrych i'r gwledydd ;
Pan welir gwaith yr Arglwydd ne',
Y molir E'n dragywydd.

f 4 Hyn fydd pan gasglo pawb yng nghyd
Yn unfryd i'w foliannu ;
Yr holl deyrnasoedd ddônt yng ngŵydd
Yr Arglwydd i'w was'naethu.—Amen.

170

W.

mf 1 SANCTEIDDRWYDD im' yw'r Oen dinam,
'Nghyfiawnder a'm doethineb ;
Fy mhryniedigaeth o bob pla,
Fy Nuw i dragwyddoldeb.

2 O'i ystlys bur yn cwympo i lawr,
Yn afon fawr lifeiriol,
Hedd a maddeuant sy'n ddidrai,
Byth i barhau'n dragwyddol.

3 Dy wisg dy Hun, Gyfiawnder hael,
Sydd raid im' gael ym mlaenaf :
Nid oes ond ofni dan fy mron,
Nes caffwyf hon am danaf.

4 Rhaid imi gael pob gras, pob dawn,
O'th drysor llawn dy Hunan ;
Ac oni chaf, fy enaid prudd
A gyll y dydd yn gyfan.

5 Gwyn fyd y rhai dileaist eu bai,
Eu pechod a'u hanwiredd ;
Gan roi iddynt nerth, er cnawd a byd,
I bara hyd y diwedd.—Amen.

OXWICH. 7.6.7.6. D. T. R. MATTHEWS, 1826.





171

W.

mf 1 FY Nuw, fy addfwyn Iesu,
Boed clod i'th Enw byth ;
Doed dynion i dy foli,
Fel rhif y boreu wlith ;
f O, na bai gwellt y ddaiar
Yn delyn aur bob un,
Iganu byth yn beraidd
I Dduw am dd'od yn ddyn.

mf 2 O Iesu, pwy all beidio
Dy ganmol ddydd a nos,
p A phwy all beidio cofio
Dy ryfedd farwol loes ?
cr A phwy all beidio canu
Am iachawdwriaeth rad,
A gafodd deimlo gronyn
O rinwedd pur dy waed ?

mf 3 O Arglwydd, rho im' dafod
Na thawo ddydd na nos,
Ond canu heb ddiffygio
Am rinwedd gwaed y groes ;
cr Pob gair a ddêl o'm geneu,
Yn ddirgel ac ar g'oedd;
f Gaiff ddweyd fod Iesu hawddgar
A'i ddeddfau wrth fy modd.—Amen.

172

M. R.

f 1 AGORODD ddrws i'r caethion
I dd'od o'r cystudd mawr ;
mp A'i werthfawr waed fe dalodd
Eu dyled oll i lawr ;

f Nid oes dim damuedigaeth
I neb o'r duwiol had ;
Y gwaredigion ganant
Am rinwedd mawr ei waed.

mf 2 Wel, dyma'r Un sy'n maddeu
Pechodau rif y gwlith ;
'Does mesur ar ei gariad.
Na therfyn iddo byth ;
mp Mae'n 'mofyn lle i dosturio,
Mae'n hoffi trugarhau ;
Trugaredd i'r amddifaid
Sydd ynddo i barhau.

f 3 Teilwng yw'r Oen a laddwyd
O'r holl ogoniant mawr,
Trwy ganol nef y nefoedd,
Ac yma ar y llawr ;
Pan elo'r greadigaeth
Yn ulw gan y tân,
Teilyngdod Iesu drosof
Fydd fy nhragwyddol gân.

f 4 Fe genir, ac fe genir
Yn nhragwyddoldeb maith,
Os gwelir un pererin
Mor lleag ar ben ei daith—
cr A gurwyd mewn tymmestloedd,
A olchwyd yn y gwaed,
f A gànwyd, ac a gadwyd
Trwy'r iachawdwriaeth rad.—Amen.

ALLELUIA DULCE CARMEN. 8.7.8.7.4.7. M. Haydn.



CATHERINE. 8.7.8.7.4.7. D. Roberts (Alawydd).



173

W.

mf 1 IESU, Iesu, 'rwyt Ti'n ddigon,
'Rwyt Ti'n llawer mwy na'r byd ;
Mwy trysorau sy'n dy Enw
Na thrysorau'r India i gyd :
f Oll yn gyfan
Ddaeth i'm meddiant gyda'm Duw.

mf 2 Y mae gwedd dy wyneb grasol
Yn rhagori llawer iawn
Ar bob peth a welodd llygad
Ar hyd wyneb daiar lawn :
f Rhosyn Saron,
Ti yw tegwch nef y nef.

mf 3 Mi ddymunwn wel'd yn rhwygo
Holl gymylau mawr y nef,
I bechadur weled gronyn
O'i ogoniant hyfryd Ef:
f O dadguddia
Degwch gwedd dy wyneb-pryd.—Amen.

174

W.

mf 1 IESU, nid oes derfyn arnat,
Mae cyflawnder maith dy ras
Yn fwy helaeth, yn fwy dwfn,
Ganwaith nag yw'm pechod cas:
Byth yn anwyl
Meibion dynion mwy a'th gar.

mf 2 Mae angylion yn cael bywyd
Yn dy ddwyfol nefol hedd,
Ac yn sugno'u holl blesserau
Oddiwrth olwg ar dy wedd:
Byd o heddwch
Yw cael aros yn dy ŵydd.

mf 3 Ti faddeuaist fil o feiau
I'r pechadur gwaetha'i ryw;
mp Arglwydd, maddeu eto i minnau—
Ar faddeuant 'rwyf yn byw:
mf D' unig haeddiant
Yw'm gorfoledd a fy ngrym.

mp 4 Nid oes ddofa fy nghydwybod
Ond cyfiawnder mawr y nef,
Ac ni thâl rhoi aberth arall
Is y nefoedd iddo Ef:
p Maddeu, Arglwydd;
Gwrando'r griddfan ar y groes.—Amen.

175

W.

mf 1 NID oes bleser, nid oes degau,
Nid oes enw mewn un man,
Er ei fri a'i holl ogoniant,
Byth lesâ fy enaid gwan,
Ond fy Iesu—
Ef ei Hunan yw fy Nuw

mf 2 Mae deng myrddiwn o rinweddau
Dwyfol yn ei Enw pur;
Yn ei wedd mae tegwch rhagor
Nag a welodd môr na thir:
f Rhosyn Saron,
Oll yn hawddgar yw Efe.

f 3 Gwyn a gwridog yw fy Arglwydd,
Gwyn a gwridog yw ei wedd;
Brenin y breninoedd ydyw
Yma a thu draw i'r bedd:
Mae dy degwch
Wedi'm hennill ar dy ol.—Amen.

DISMISSION. 8.7.8.7. D. S. Webbe.



176

W.

mf 1 IESU, Ti wyt ffynnon bywyd,
Bywyd dedwydd i barhau ;
Pob cysuron is y nefoedd,
Ynot Ti dy Hun y mae :
f Nis gall croes na gwae na chystudd
Wneuthur niwed iddynt hwy
Gafodd nerth i wneyd eu noddfa
Yn dy ddwyfol farwol glwy'.

mf 2 Dyna'r man na ddaw euogrwydd,
Dyfais Satan fyth, na chwant ;
Awel nef sydd yno'n cadw
Pob rhyw ddrygau oll i bant :
f Nid oes rhuad môr na'i dònau,
Na thymmestloedd o un rhyw,
Ond rhyw bur dangnefedd hyfryd,
Yn archollion f'anwyl Dduw.

f 3 Dring, fy enaid, i'th orphwysfa,
Uwch y gwynt tymmestlog, oer
Maes o swn rhuadau'r llewod,
Maes o gyrhaedd tònau'r môr ;
Mi gaf yno, dan bob blinder,
Hyfryd dreulio'm dyddiau i maes,
Heb gael briw na chlais nac archoll
Gan ryw neb gelynion cas.—Amen.

177

AN.

mp 1 IESU, Cyfaill pechaduriaid,
Dyro im' i'th fynwes ffoi
Tra bo'r dyfroedd chwyrn yn llifo,
A'r tymmestloedd yn crynoi :
cr Cuddia fi, O Geidwad, cuddia,
Nes el heibio'r 'stormydd blin ;
mf Tywys f'enaid tlawd i'r porthladd,
Er mwyn d' Enw mawr dy Hun.

mf 2 Noddfa arall nid oes genyf,
Pwysa'm henaid arnat Ti ;
Paid â'm gadael im' fy hunan,
Cymhorth a chysura fi :
Cyfiawn ydwyt Ti a sanctaidd,
p Mi nid wyf ond llwyr ammhur ;
Drwg a llawn o bechod ydwyf,
cr Tithau'n llawn o ras a gwir.

mp 3 Gras digonol a geir ynot,
Gras i faddeu fy holl fai ;
cr Boed i'r ffrydiau pur, iachusol,
Oddiwrth bechod fy nglanhau
f Profi maith rinweddau'th gariad
Gaffwyf 'r ochr hon i'r bedd ;
Gwedi hyny dwg fi'n dawel
I Gaersalem lawn o hedd.—Amen.

178

JS. H.

mf 1 TYRED, Awdwr gras a rhinwedd,
Ennyn ynof nefol dân ;
Ffrydiau diball o drugaredd
Sydd yn gofyn uchel gân :
f Dysg im' seinio'r mwyn anthemau
Dery tannau'r nefol fyd ;
Gosod fi ar fryn y bryniau—
Bryn dy gariad pur a drud.

f 2 Canaf byth am ras yr Iesu,
Gras hyd yma'm daliodd i ;
Dysgwyl 'rwyf, o'th gariad tyner,
Dd'od cyn hir i'm cartref fry :
Iesu, a'm ceisiodd pan yn estron,
Dwg fy enaid caeth at Dduw ;
Ac i'm dwyn o law'm gelynion,
Talodd waed o ddwyfol ryw.

mf 3 O mor fawr i'th ras yw'm dyled
Beunydd, beunydd trwy fy oes ;
Boed i'th ras, fel cadwyn euraidd,
Byth fy rhwymo wrth dy groes :
mp Cofio'r gwaed a lifodd yno,
Cofio'th glwyfau, Iesu glân,
cr Cofio gras dy iawn anfeidrol,
Ennyn ynof fythol gân.—Amen.

ALEXANDER. 8.7.8.7. D. J. Roberts, Aberdare, 1824.



179

W.

mf 1 O IACHAWDWR pechaduriaid,
Sydd â'r gallu yn dy law,
Rho oleuni, hwylia'm henaid
Dros y cefnfor garw draw:
Gad i'r wawr fod o fy wyneb,
Rho fy enaid llesg yn rhydd,
Nes i'r heulwen ddysglaer godi,
Tywys fi wrth y sereu ddydd.

2 O ynfydrwydd, O ffolineb,
Im' erioed i roddi'm bryd
Ar un tegan, ar un pleser,
Welais eto yn y byd:
Y mae'r byd yn myned heibio,
A'i deganau o bob rhyw;
Tan y nef ni thâl ei garu
Wrthddrych arall ond fy Nuw.—Amen.

180

W.

mf 1 IESU, llawnder mawr y nefoedd,
Gwrando lef un eiddil, gwan,
Sydd yn gorwedd wrth dy orsedd
Ac yn codi ei lef i'r lan;
Mae'm gelynion heb rifedi
Yn fy nghuro o bob tu,
Ac nid oes a all fy achub,
Is y nefoedd, ond Tydi.

2 Yn dy haeddiant 'rwyf yn gyflawn,
Yn d'oleuni gwela'n glir,
Yn dy wisgoedd dwyfol, dysglaer,
Bydda'n ogoneddus bur;
Yn dy iachawdwriaeth gyflawn,
Er mor waned wyf yn awr,
Ceir fy ngweled i ryw ddiwrnod
Yn dysgleirio fel y wawr.

3 Dwed y gair, fy addfwyn Iesu,
Yna f'enaid lawenhâ—
Gair o addewid caf fy mhuro
O bob pechod, o bob pla;
mp Gwrendy f'enaid mewn dystawrwydd
Ar dy adlais dystaw, main,
f Ac fe neidia o orfoledd
Pan y clywo'th nefol sain.—Amen.

181

A. G.

mf 1 DYMA babell y cyfarfod,
Dyma gymmod yn y gwaed,
Dyma noddfa i lofruddion,
Dyma i gleifion Feddyg rhad;
cr Dyma fan yn ymyl Duwdod
I bechadur wneyd ei nyth,
A chyfiawnder pur y nefoedd
Arno'n siriol wenu byth.

mf 2 Ffordd a drefnwyd cyn bod amser
I ryddhau o ddrygau'r ddraig;
Mewn addewid gynt yn Eden
Fe gyhoeddwyd Had y Wraig;
cr Ffordd i gyfiawnhau'r annuwiol,
Ffordd i godi'r marw'n fyw,
Ffordd gyfreithlon i droseddwyr
I gael hedd a ffafr Duw.

mp 3 Lesg bererin gan ystormydd,
Cod dy olwg, gwel y wawr;
p 'R Oen yn gweini'r swydd gyfryngol
Mewn llaes wisgoedd hyd y llawr;
cr Gwregys euraidd o ffyddlondeb,
Wrth ei odrau clychau'n llawn;
f Llwyr faddeuant i droseddwyr
Trwy ei ddrud, anfeidrol iawn.—Amen.

AUSTRIA. 8.7.8.7. D. JOSEPH HAYDN.



TANYMARIAN. 8.7.8.7. D. E. STEPHENS.





182

W. G.

mf 1 DRAW mi welaf ryfeddodau
Dyfnion bethau Tri yn Un ;
Cyn bod Eden ardd, na chodwm,
Grasol fwriad Duw at ddyn :
cr Ethol Meichiau cyn bod dyled,
Trefnu Meddyg cyn bod clwy' ;
Caru gelyn heb un haeddiant ;
f Caiff y clod tragwyddol mwy.

mf 2 O dragwyddol iachawdwriaeth,
Yn yr arfaeth gafodd le
I gyfodi plant marwolaeth
I etifeddiaeth bur y ne' :
cr Cariad boreu, mor ddiddechreu
Ag yw hanfod Tri yn Un,
Yn cofleidio meibion Adda
Yn yr Alpha mawr ei Hun.—Amen.

183

S. R.

mf 1 GAD im' dreulio f'oriau, Arglwydd,
Tra b'wyf yn yr anial fyd,
Dan dy gysgod yn ddiogel—
Dyma noddfa dawel, glyd :
Rhedeg mwy ym mhob rhyw drallod
Wnaf i gysgod Had y Wraig ;
cr Hyd nes elo'r aflwydd heibio,
f Llechu wnaf yn "holltau'r Graig."

mp 2 Pan fo 'stormydd mawr yn codi,
Ac yn curo f'enaid gwan,
Yma bellach tro'f fy wyneb,
Dyma'r unig dawel fan :
Pan y toddo'r holl elfenau,
Ac y berwo tònau'r aig,
cr Pan fo anian yn ymddryllio,
f Canaf finnau'n "holltau'r Graig."—
Amen.

184

AN.

mf 1 SAIF breiniaeth fawr yr Iesu
A'i gorseddfa'n fythol lân ;
Saif ei heddwch yn dragywydd,
Saif ei chysur byth, a'i chân :
Hedd, maddeuant, meddyginiaeth,
Iachawdwriaeth ynddi gaed ;
Gras i fywyd sy'n teyrnasu,
Deddf yn gwenu yn y gwaed.

2 Saif heb siglo yn dragwyddol
Eiriau yr anfarwol Fod ;
Saif ei gynghor a'i gyfammod
Pan ddattodo rhwymau'r rhod ·
Teyrnas ydyw na ddiffana,
Rhodia'i deiliaid oll yn rhydd ;
A phan syrth gogoniant anian,
Harddwch hon yn fwyfwy fydd.—Amen.

185

C. E.

1 'RHWN sy'n gyru'r mellt i hedeg,
Ac yn rhodio brig y don,
Ac yn mesur holl ddyfnderau
Temtasiynau'r ddaiar hon—
'Rwyt Ti'n drech na'r gwynt a'r 'storom,—
Hwylia eiddil llesg ym mlaen,
Gyda'r awel deneu, effro,
O Galfaria, fel o'r blaen.

2 Na fydd, Arglwydd, fel pererin,
Yn ymdeithio yn y tir—
Yn llettya dim ond noswaith,
A myn'd ymaith amser hir :
Pam y byddi fel yn synu,
Neu wr cryf, heb achub dim ?
Cymmer d' allu anorchfygol,
Noetha eto'th gleddyf llym.

3 Hen agorwr beddau llygredd,
Codwr meirw, tyr'd ym mlaen,
Chwytha yn yr udgorn arian,
Concra drwy'r Efengyl lân :
Mae rhyw nerthoedd yn dy Enw,
Mae dy Ysbryd fel y tân ;
Rhwyga'r dwr, a llysg y rhwystrau,
Fel y fflamau'n myn'd ym mlaen.—Amen.

CYSUR. 5.5.11.5.5.11. Alaw Gymreig.



186

W.

mf 1 Y CYSUR i gyd
Sy'n llanw fy mryd,
Fod genyf drysorau uwch gwybod y byd ;
Ac er bod hwy 'nghudd,
Nas gwel neb ond ffydd,
cr Ceir eglur ddadguddiad o honynt ryw ddydd.

mf 2 'Rwy'n gweled bob dydd
Mai gwerthfawr yw ffydd,
Pan af i borth angeu fy angor a fydd :
f Mwy gwerthfawr im' yw
Na chyfoeth Peru,
Ei gwrthddrych a'm cynnal ddydd dial ein
Duw.—Amen.

187

AN.

mf 1 FY Iesu mwy fydd
Fy noddfa bob dydd,
O ddyfnder pydewau fe'm rhoddodd yn
rhydd :
Ni feddaf iachâd,
Un dim ond ei waed—
f Fy heddwch a'm haeddiant, fy nerth a'm
parhâd.

mf 2 Rhyw afon a gaed,
O ddwr ac o waed ; [rhad,
O'r orsedd ddysgleirdeg mae'n rhedeg yn
I wella fy mriw,
Fy meiau o bob rhyw,
f A chànu fy enaid, er dued ei liw.

f 3 Boed yma fyny fyny,
A'm bywyd i byth,
Yng nghlwyfau'r Oen tyner, a'i lawnder
dilyth ;
cr Ac yma caf fyw,
Er croesau o bob rhyw,
A'm henaid yn llawen dan aden fy Nuw.—
Amen.

ST. ASAPH. 8.7.8.7.4.7. Alaw Gymreig.



188

D. W.

mf 1 NID oes noddfa mewn creadur,
Rhaid ei chael yn nes i'r nef;
'R unig un i wael bechadur
Yw ei aberth gwerthfawr Ef:
f Mae'n ddigonol
Dros bechodau dynol ryw.

mp 2 Fe ddyoddefodd angeu creulon,
Dan yr hoelion ar y groes,
mf A gorchfygodd luoedd uffern
Trwy rinweddau'i farwol loes:
f Sain "Gorphenwyd"
Fyddo'n llenwi'r byd i gyd.

f 3 Mae afonydd mawrion ynddo
O drugaredd, gras, a hedd;
Er ein mwyn dyoddefodd angeu,
di Ac a aeth i lawr i'r bedd:
cr Cenir iddo
f Wedi'r elo'r byd ar dân.—Amen.

189

E. P.

mp 1 FEL y brefa'r hydd lluddedig
Am afonydd dyfroedd byw;
cr Felly hiraeth mawr fy enaid
Sydd am danat, O fy Nuw:
mf Gwir sychedig
Yw fy ysbryd am dy ras.

mp 2 Pam, fy enaid, y'th ostyngir?
Pam yr ymderfysgi c'yd?
cr Eto dod yn Nuw dy obaith,
A'i foliannu gei ryw bryd:
f Iachawdwriaeth
Ei wynebpryd fydd dy gân.

f 3 Eto'r Arglwydd a orchymmyn
Ei drugaredd foreu ddydd,
mp Ac am dani yn y cyfnos
Melus fy nghaniadau fydd:
f Duw fy einioes,
Caf ei ganmol cyn bo hir.—Amen.

DOMINUS REGIT ME.

M. S.

J. B. Dykes.



190

E. P.

1 YR Arglwydd yw fy Mugail clau,
Ni âd byth eisiau arnaf;
Gorwedd a gaf mewn porfa fras
Ar lan dwr gloewlas araf.

2 Fe goledd f'enaid, ac a'm dwg
'R hyd llwybrau diddrwg, cyfion:
Er mwyn ei Enw mawr di-lys,
Fe'm tywys ar yr union.

3 Pe rhodiwn i, nid ofnwn hyn,
Yn nyffryn cysgod angau,
Dy ffon a'th wialen ynt yn wir
Fy nghysur bob amserau.

4 Arlwyaist im' fy mwrdd yn fras,
Lle'r oedd fy nghas yn gweled:
I'm pen rhoist olew iraidd iawn,
A ffiol lawn i'w hyfed.

5 O'th nawdd y daw y doniau hyn
I'm canlyn byth yn hylwydd;
A minnau a breswyliaf byth
A'm nyth yn nhŷ yr Arglwydd.—
Amen.

191

R. W.

mf 1 TRAGWYDDOL gariad Tri yn Un
I gadw dyn colledig,
A ogoneddwyd ar y pren,
Gan Iesu bendigedig.

mp 2 Ei einioes lân a roes i lawr,
Tan bwys ein dirfawr bechod;
Fe brynodd ini wir ryddhâd
Trwy waed y rhad gyfammod.

mf 3 Trwy rinwedd pur ei aberth rhad,
Ger bron y Tad mae'n eiriol;
Yn haeddiant ei gyfryngdod Ef
Fe wrendy'n llef gystuddiol.

cr 4 Anfarwol gôr y nef i gyd
Yn hyfryd a'i moliannant;
f O llanwn ninnau yn ddi-drai
Y ddaiar â'i ogoniant.—Amen.

CHRISTMAS. 7.4.7.4. D. Alaw Gymreig.



192

W.

mf 1 GWYN a gwridog, hawddgar iawn,
Yw f'Anwylyd ;
Doniau'r nef sydd ynddo'n llawn,
Peraidd hyfryd ;
cr Daiar faith ac uchder nef
Fyth ni wela
Arall tebyg iddo Ef ;
f Haleluia.

mp 2 Dygodd f'enaid ar ei ol
Yn dra rhyfedd ;
Mi orphwysaf yn ei gôl
Hyd y diwedd :
cr Ffowch, greaduriaid o bob rhyw,
Mwy ni chara'
Wrthddrych arall ond fy Nuw ;
f Haleluia.

mf 3 Ynddo'i Hunan mae yn llawn
O bob trysorau—
Dwyfol berffaith, werthfawr iawn,
Am fy meiau ;
cr Gwir ddoethineb, hedd, a gras
Gwerthfawroca',
Nerth i hollol gario'r maes ;
f Haleluia.—Amen.

193

P. J.

mf 1 ANGEU ac eiriolaeth Crist
Yw'm gorfoledd ;
Hyn a ddwg i'm henaid trist
Lawn dangnefedd ;
Collai'r ddeddf ei damniol rym
Ar Galfaria ;
Dofwyd llid cyfiawnder llym ;
f Haleluia.

mf 2 Iesu yw difyrwch f'oes
Yn fy mlinfyd,
Ac ymffrostiaf yn ei groes
Dros fy mywyd ;
Dan ei gysgod, nos a dydd,
Gwnaf fy nhrigfa ;
cr Fy nhŵr cadarn byth a fydd ;
ff Haleluia.

mf 3 Mae fy Mhrynwr heddyw'n fyw,
Ac yn eiriol ;
Sail eiriolaeth drosof yw
Iawn digonol :
Ei waith ynof yn y man
A berffeithia ;
f Gorfoleddaf yn fy rhan ;
ff Haleluia.—Amen.

LLAIS HYFRYD. 11.11.12.12.12.12. W. C. T. & C. Book. Alaw Morafian.





194

D. C.

mf 1 LAIS hyfryd rhad ras sy'n gwaeddi "Diangfa!"
Yng nghlwyfau Mab Duw, bechadur, mae noddfa!
I olchi affendid a phechod yn hollol,
Fe redodd ei waed yn ffrydiau iachusol.
cr Haleluia i'r Oen bwrcasodd ein pardwn,
'Nol croesi'r Iorddonen drachefn ni a'i molwn.

mf 2 Ar angeu ac uffern ca'dd lawn fuddugoliaeth,
Ysbeiliodd holl allu'r tywyllwch ar unwaith!
Holl filwyr y groes gânt ynddo dangnefedd,
Fe'u harwain hwy'n sicr i berffaith orfoledd.
f Haleluia, &c.

mf 3 'Nol tirio yn iach i'r tawel anneddau,
Ni seiniwn ei glod ar euraidd delynau;
Trwy nefol ardaloedd ni a'i molwn byth bythol,
Wrth rodio ar lenydd yr afon dragwyddol.
f Haleluia, &c.—Amen.

CAERSALEM. 8.7.8.7.4.7. Alaw Gymreig.



195

M. R.

mf 1 DYMA Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai;
Dyma Un sy'n caru maddeu
I bechaduriaid mawr eu bai:
f Diolch iddo
Byth am gofio llwch y llawr.

mp 2 Hwn, fy enaid gwan, yw'r Ceidwad
Ddaeth i geisio'r pell yn ol;
cr Mae'n dwyn adref y colledig,
Dychwel y crwydredig ffol:
f Cenir iddo
Byth am waredigol ras.

mf 3 Mae'n rhoi bywyd ac ymgeledd
I rai'n gorwedd yn eu gwaed;
cr Gwisgo'r noeth, a golchi'r aflan,
Codi'r truan ar ei draed:
f Teilwng ydyw
O'r gogoniant oll am hyn.—Amen.

196

W.

mp 1 DAL fy llygad, dal heb wyro,
Dal ef ar d'addewid wir;
Dal fy nhraed heb gynnyg ysgog
Allan o dy gyfraith bur:
Boed d' orch'mynion
Imi'n gysur ac yn hedd.

mf 2 Mi feddyliais yn y boreu
Buaswn, amser maith cyn hyn,
Wedi maddeu fy mhechodau,
Ac yn canu ar Sïon fryn:
cr Swn y rhyfel
Ydyw'r lle 'rwyf eto'n byw.

mp 3 Mae rhyw hiraeth yn fy nghalon
Am ddiengu o dwrf y byd—
Gwel'd y dyddiau colla'i 'ngolwg
Ar bob tegan ynddo 'nghyd;
cr Cael ymborthi
Fyth ar sylwedd pur y nef.—Amen.

LLECHGYNFARWY. 8.7.8.7. D. E. Pughe.



LLAN-GAN. 8.7.8.7. D. Alaw Gymreig.



197

AR.

mf 1 YN dy waith y mae fy nywyd,
Yn dy waith y mae fy hedd ;
Yn dy waith dymunaf aros
Tra b'wy'r ochor hon i'r bedd :
Yn dy waith ar ol myn'd adref,
Trwy ofidiau rif y gwlith,
f Moli'r Oen fu ar Galfaria,
Dyna waith na dderfydd byth.

mf 2 Tynwn ddyfroedd wrth ein heisieu
O ffynnonau Brenin nef ;
Maent yn llawnion ac yn helaeth
O'i rad iachawdwriaeth Ef ;
f Dyma'r fan y mae cysuron
Pererinion yn y byd ;
Dyma felus wir orfoledd
Pur a hedd yn para o hyd.

mp 3 Melus ydyw Enw'r Iesu,
Enw gwerthfawroca' 'rioed—
cr Enw gorfydd i bob enw
Blygu'n isel wrth ei droed ;
Dyma'r Enw sy'n pereiddio
Fel yr enaint gwerthfawr drud ;
f Taenu wnelo'i beraroglau
Hyd nes llenwi conglau'r byd.—Amen.

198

W.

mf 1 O NA chlywn yr udgorn arian
Rywbryd yn rhoi bloedd i maes,
Yn cyhoeddi i'm henaid llwythog
Heddwch a maddeuol ras :
O na ddeuai nerth i waered,
Fel llifeiriant mawr ei rym,
Fel na allai'm nwydau penaf
Bellach ei wrthsefyll ddim.

2 Mi rown fydoedd maith, pe meddwn,
Am gael gweled tori i lawr
Bethau ag sy'n myn'd â'm meddwl
Fil o weithiau yn yr awr ;
Trais a gorchest sy ar fy ysbryd,
Cryf yw'm gelyn, minnau'n wan ;
Addfwyn Oen, yn fuan brysia,
Cod fi o'r pydew hwn i'r lan.—Amen.

199

W.

mp 1 DYN dyeithr ydwyf yma,
Draw mae'm genedigol wlad—
Draw i'r moroedd mawr tymmestlog,
Ac o fewn i'r Ganaan rad :
'Stormydd blin o demtasiynau
'Nghurodd i fel hyn mor bell ;
cr Tyred, ddeheu wynt pereiddiaf,
Chwyth fi i'r baradwys well.

mf 2 Ac er gwaethaf grym y tònau
Sydd yn curo o bob tu,
Dof trwy'r 'stormydd, dof trwy'r gwyntoedd,
Rywbryd i'r baradwys fry ;
f Gair fy Nuw sy'n drech na'r moroedd,
Gair fy Nuw sy'n drech na'r don ;
Mi anturia'r oll a feddwyf
Bythoedd i'r addewid hon.—Amen.

ST. CYPRIAN. 10 an. J. Stainer.



GRIDDFANIAD. 10 au. Morris Davies.



200

W. J.

mp 1 MAE Sïon wan yn gríddfan dan y groes,
Yn dysgwyl gwawr ar lawr dan lawer loes;
Bywhâ dy waith, ni phéry 'nhaith yn hir;
p 'Rwy'n ofni'r bedd cyn gwel'd dy wedd, yn wir.

mf 2 Addewid sydd o hŷfryd ddydd i dd'od,
O fan i fan yn rhyfedd dan y rhod;
cr Sancteiddrwydd fydd i'r Árglwydd ym mhob lle,
A dedwydd ddydd gan wên ei wyneb E'.

mp 3 Mae brodyr im' a thádau aeth ym mlaen,
Fu yn y byd yn nyfnder dwr a thân;
mf Maent heddyw'n iach, heb ófni pla na phoen
Yn Salem fry yn moli'r addfwyn Oen.—Amen.

201

W.

mf 1 AT orsedd gras mi áf i ddweyd fy nghwyn;
Bydd im', O Dduw, yn Dad a cheidwad mwyn
mp O cadw fi o rwydau'r gelyn cas,
Dan gysgod nawdd dy annherfynol ras.

mp 2 Mae'n nhŷ fy Nuw le táwel llawn o hedd,
Dymunwn fyw yn hwn nes myn'd i'm bedd,
cr Ym mhlith y plant a géisiant ddwyfol ddysg;
Rheolau'r Gair a gerir yn eu mysg.

mf 3 Mae yma laeth a gwín, yn faeth i'r gwan,
A'r dyfroedd byw wna'r dua'i liw yn lán;
f O deued pawb i 'mófyn am eu lle
Yn Sïon wiw i ddysgu gwaith y ne'.—Amen.

DINIWEIDRWYDD. 8.7.8.7. D. Alaw Gymreig.



202

H. a N.

mp 1 O EUOGRWYDD fel mynyddau !
O, feddyliau llawn o fraw !
Ofni bod yn fyr o bwysau
Yn y glorian ddydd a ddaw :
Mae fy amser bron â darfod,
A fy mhechod ger fy mron ;
Arglwydd, dyro dy adnabod
Yn y brofedigaeth hon.

mp 2 Y mae ofnau a thywyllwch
O fy amgylch y pryd hyn ;
Arglwydd, dyro brawf o'th heddwch,
Gwawria arnaf yn y glyn :
or Dangos imi'r "Enw Newydd,"
Bywyd gyda Christ yn Nuw ;
Rho dy Ysbryd yn arweinydd
Yn yr angeu—digon yw.

mf 3 Tra mae'r galon yn llesmeirio,
Mi orweddaf wrth dy droed ;
Mae dy air i'm cynnorthwyo
Yn yr awr gyfynga' 'rioed ;
A dy gedyrn addewidion
I'm cysuro y pryd hyn ;
Mae pob llawnder yn y Person
A groeshoeliwyd ar y bryn.—Amen.

203

H.

mf 1 PAN oedd Sinai yn mellteu,
A'i tharanau'n rhwygo'r nen—
Cwmwl tanllyd ei melltithion
Ar ymrwygo uwch fy mhen—
Nef a daiar yn fy ngwrthod,
A'm cydwybod fel y ddraig—
Cefais loches rhag y dymmestl
Yn nhawelwch holltau'r graig.

2 Dyma'r fan y gwnaf fy noddfa,
Yma llecha'm henaid gwan,
Pan fo'r gwynt a'r tònau'n curo,
Holltau'r graig yw'r unig fan ;
Rhued byd ac uffern greulawn
Yn eu llid i'm herbyn mwy,
Minnau'n holltau'r graig a ganaf,
Ac nid ofnaf mo'nynt hwy.

mp 3 Ac yn nydd y farn ofnadwy,
Pan y ffy'r mynyddau mawr,
cr Ac y syrthia ser y nefoedd
Megys ffigys îr i lawr,
f A'r elfenau'n cydymdoddi,
Gwres yn berwi tònau'r aig,
Dewrion fyrdd yn bloeddio'n chwerw,
ff Canaf fi yn holltau'r graig.—Amen.

BETHEL. 9.8.9.8. D. Alaw Gymreig.



204

E. V.

mf 1 TRUGAREDD a ddug o dir estron
Y truan afradlon i'w fro,
Pan ydoedd ar drengu o eisieu,
Ym mhell o'i chyffiniau ar ffo:
Trugaredd â modrwy addurnodd
Yr adyn na haeddodd un hedd;
Trugaredd i'r tŷ a'i gwahoddodd,
Trugaredd arlwyodd y wledd.

2 Trugaredd sy'n galw y gelyn
Ystyfnig a chyndyn a chas,
At orsedd y nefoedd i blygu,
A chanu i'r Iesu a'i ras:
Trugaredd yw testyn y nefoedd,
Trugaredd wnaeth luoedd yn lân,
Trugaredd yw gwledd y pechadur,
Ei obaith, ei gysur, a'i gân.—Amen.

205

T. J.

mf 1 O ARWAIN fy enaid i'r dyfroedd—
Y dyfroedd sy'n afon mor bur,
Y dyfroedd a dorant fy syched,
Er trymed fy nolur a'm cur;
Y dyfroedd tragwyddol eu tarddiad,
Y dyfroedd heb waelod na thraí,
Y dyfroedd a olchant fy enaid,
Er dued, er amled fy mai.

2 Da iawn i bechadur fod afon
A ylch yr aflanaf yn wyn;
Hi darddodd o'r nefoedd yn gysson,
Hi ffrydiodd ar Galfari fryn;
Hi lifodd i'r anial Cenedlig,
Hi olchodd fil miloedd yn lân;
Hi ylch ei miliynau'n llwyr gànaid
Cyn rhoddi llawr daiar ar dân.

3 O deuwch, O deuwch i'r dyfroedd,
Mae Crist yn ein gwahodd yn gu
I yfed o'r afon redegog
Sy'n tarddu dan riniog y tŷ:
Oddi yno mae'r afon sy'n addas
I loni hardd ddinas ein Duw
Yn deilliaw yn ffrydiau diddiwedd,
O'r ffynnon sy'n beraidd ddwr byw.—
Amen.

VOX DILECTI. M.C.D. J. B. Dykes.





ST. MATTHEW. M.C.D. Dr. Croft.



206

G.

p 1 MI glywais lais yr Iesu'n dweyd,
mf "Tyr'd ataf yr awr hon,
cr Tydi'r blinedig, dod dy ben
I orphwys ar fy mron."
p Neseais at yr Iesu mwyn
Yn flin a thrist fy ngwedd,
cr Gorphwysfa gefais ynddo Ef,
ff Llawenydd pur a hedd.

p 2 Mi glywais lais yr Iesu'n dweyd,
mf "Rwy'n rhoddi'n rhad, O clyw,
cr Ddwr bywiol i'r sychedig rai,
Ymblyga, yf, bydd fyw."
p At Iesu troais, yfais Ddwr
Y Bywyd ddaeth o'r nef;
cr Fe'm disychedodd, cefais nerth,
ff A byw wyf ynddo Ef.

p 3 Mi glywais lais yr Iesu'n dweyd,
mf "Goleuni'r byd wyf Fi;
cr Ond edrych ataf cyfyd gwawr
O ddysglaer ddydd i ti."
p Edrychais at yr Iesu mwy,
cr A'm seren Ddydd yw E',
Fy Haul—yn ei oleuni pur
di Y rhodiaf tua'r ne'.—Amen.

DUKE STREET. M. H. J. Hatton.



JOB (At Emyn 207 yn unig) M. H. Dr. Arne.



TRANQUILITY (At Emyn 208 yn unig). M. H.



207 *E. E.*

f 1 HENFFYCH i Enw Iesu gwiw,
Syrthiwch o'i flaen, angylion Duw;
Rhowch iddo barch, holl deulu'r nef—
cr Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

f 2 Chwi seintiau a merthyron glân,
Mewn gwynfyd fry yn bêr eich cân,
Rhowch iddo glod ag uchel lef—
cr Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

f 3 Chwi saint trwy'r ddaiar oll i gyd,
A brynwyd ganddo Ef mor ddrud,
Cydunwch oll â theulu'r nef—
cr Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

f 4 Doed y Cenedloedd o bob iaith,
Trwy holl derfynau'r ddaiar faith,
I ganu'n llafar iawn eu llef—
cr Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

f 5 O na chaem gyda'r nefol lu
Ymgrymu wrth draed ein Harglwydd fry,
Ac uno'n llon â hwy ein llef—
cr Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.—Amen.

208

DR. W.

mf 1 O! 'R iachawdwriaeth fawr yng Nghrist,
Swn melus hyfryd yw i'm clust:
Balm cryf i'm clwyfau o bob rhyw,
A chysur im' dan ofnau yw.

mf 2 Mae hon yn iachawdwriaeth lawn,
Gwellâd ysbrydol ynddi gawn;
Yr iachawdwriaeth helaeth hon
Sy'n llwyr iachäu holl friwiau'r fron.

mp 3 Mewn bedd o bechod gorwedd bu
Ein henaid wrth ddrws uffern ddu;
Ond codi'r ŷm, trwy ras ein Duw,
I weled nefol ddydd, a byw.

f 4 Aed swn yr iachawdwriaeth fawr
O amgylch ogylch daiar lawr;
A boed i'r nef a'i lluoedd llon
Gyfodi eu llef i seinio hon.—Amen.

ST. SEPULCHRE.

M. H. GEORGE COOPER.



209

W.

mf 1 DAL fi, fy Nuw, dal fi i'r lan,
'N enwedig dal fi lle 'rwy'n wan;
Dal fi yn gryf nes myn'd i maes
O'r byd sy'n llawn o bechod cas.

mf 2 Gwna fi'n gyfoethog ym mhob dawn,
Gwna fi fel halen peraidd iawn;
Gwna fi fel seren oleu, wiw,
'N dysgleirio yn y byd 'rwy'n byw.

cr 3 Dysg fi, mewn gorthrymderau trist,
I bwyso ar f'anwylaf Grist;
f Dysg fi, wrth fyn'd o'r byd i maes,
I gario'r dydd ar angeu glas.

f 4 Dysg fi, fy Nuw, dysg fi pa fodd
I ddweyd a gwneuthur wrth dy fodd;
Dysg fi ryfela â'r ddraig heb goll,
A dysg fi i goncro'm pechod oll.

mf 5 Tra caffwyf rodio'r ddaiar hon,
Rho'th hedd fel afon dan fy mron;
f Ac yn y diwedd, moes dy law
I'm dwyn i mewn i'r nefoedd draw.—
Amen.

210

G.

f 1 YM mlaen, ym mlaen, marchoga'n awr,
Clyw groch Hosanna'r dyrfa fawr;
mp O, addfwyn Iesu, dos ym mlaen
Dros gangau gwŷdd a gwisgoedd taen.

f 2 Ym mlaen, ym mlaen mewn breiniol fri
mp A llariaidd rwysg i'th angeu Di;
O Grist, gorchfyga yn dy rym
Bechodau'r byd ac angeu llym.

f 3 Ym mlaen, ym mlaen, O Frenin mawr,
Mae'r nefoedd oll yn plygu'n awr,
di Gan syllu a rhyfeddu'n fud
Ar dy ddarbodol aberth drud.

f 4 Ym mlaen, ym mlaen mewn rhwysgedd
Mae'r ymdrech olaf yn nesäu; [clau,
mf Y Tad ar berlog orsedd sy
Yn dysgwyl ei Eneiniog fry.

f 5 Ym mlaen, ym mlaen mewn breiniol fri
di A llariaidd rwysg i'th angeu Di:
p Gogwydda'th ben i farwol boen,
f Dring orsedd Duw, ddihalog Oen.—Amen.

BALA. 7.6.7.6. D. Alaw Gymreig.



BERNBURG. 7.6.7.6. D. Alaw Ellmynig.



211

AN.

mf 1 "GWYN fyd y pur o galon,
Can's hwy a welant Dduw;"
Eu corff, fel teml sancteiddlan,
Sy drigfan iddo i fyw;
Can's Crist a ddaeth o'i wirfodd
O blith y nefol lu
I drigo gyda dynion,
A'u dwyn i'r nefoedd fry.

mp 2 O Arglwydd, trwy dy Ysbryd,
Pabella yn ein plith;
Disgyned gras y nefoedd,
Doed arnom fel y gwlith:
cr Rho in' dy bresennoldeb,
Glanhâ'n calonau ni,
Addasa ni'n wastadol
I drigo gyda Thi.—Amen.

212

B. F.

mf 1 CHWI, holl ffordd olion Sïon,
Cewch orphwys cyn bo hir
Lle nad oes un anghydfod,
Na phechod chwaith, na chur :
f Cewch yno hardd gyfarfod
Yng ngwyddfod Brenin nef,
A moli gyda miloedd
Yn ei gynteddoedd Ef.

mf 2 Er bod eich gyrfa'n gorwedd
Trwy anghyfannedd dir,
Fe ŵyr eich Cyfaill cywir
Bob rhan o'ch llwybr hir :
f Ar fyr, eich mwyn Arweinydd
A'ch dwg i fynydd Duw,
Lle mae'r genedlaeth sanctaidd
Dros byth mewn hedd yn byw.

f 3 Cewch wel'd yr holl dduwiolion
Ar fynydd Sïon fry,
Fu gynt yn dra galarus,
Yn orfoleddus lu ;
cr Cydseiniwch â'ch holl allu
Bêr glod i'r Iesu glân,
Yng nghyd â'r dorf anfarwol,
Ar gu dragwyddol gân.—Amen.

BRIDPORT. 8.7.8.7.4.7. J. A. Lloyd, 1847.



213

A. G.

f 1 WELE'N sefyll rhwng y myrtwydd
Wrthddrych teilwng o fy mryd ;
Er o'r braidd yr wy'n adnabod
Ei fod uwchlaw gwrthddrychau'r byd :
cr Henffych foreu
Caf ei weled heb un llen.

mf 2 Rhosyn Saron yw ei enw,
Gwyn a gwridog, hardd ei bryd ;
Ar ddeng mil y mae'n rhagori
O wrthddrychau pena'r byd :
f Ffrynd pechadur,
Dyma'r Llywydd ar y môr.

mf 3 Beth sydd imi mwy a wnelwyf
Ag eilunod gwael y llawr ?
Tystio'r wyf nad yw eu cwmni
I'w gymharu â'm Iesu mawr :
f O am aros
Yn ei gariad ddydd iau f'oes.—Amen.

214

W.

mp 1 'RWY'N dy garu, er na'th welais—
Mae dy gariad fel y tân ;
Nis gall nwydau cryfaf natur
Sefyll mymrym o dy flaen :
mf Fflam angerddol
Ddifa'm sorod rywbryd yw.

mf 2 Tyred, hyfryd foreu tawel,
Tyred, hapus ddedwydd ddydd,
Pan bo'r dorau pres yn agor—
Carcharorion mwy yn rhydd :
cr Rho arwyddion
O fod hyny yn nesâu.

mp 3 Aed y nos derfysglyd heibio,
Doed y bore cyn bo hir
Pan y caffo'm henaid wledda
Yn y Ganaan oleu, glir,
cr Gyda myrddiwn
O'i rai ffyddlawn anwyl Ef.—Amen.

215

W.

mf 1 GWEL'D dy gariad anorchfygol,
Gwel'd dy chwerw angeu loes,
Gwel'd dy ofal maith diflino
Ata'i'n gysson yn fy oes,
f Sydd yn dofi
Grym fy nwydau cryfa'u rhyw.

mp 2 O na welwn ddydd yn gwawrio—
Boreu hyfryd tawel iawn—
Haul yn codi heb un ewmwl,
Felly'n machlud **y prydnawn** ;
cr Un diwrnod
Goleu, eglur, boed fy oes.

mp 3 Heb euogrwydd dudew, tywyll,
Na dim nwydau ffiaidd, croes,
Nac un pleser sy'n cyfnewid
Goleu ddydd yn dywell nos ;
cr Ti a minnau—
Dyna geisiaf tra b'wyf byw.

f 4 Digon, digon fyddai hyny,
Dim ond gwel'd dy wyneb-pryd,
A chael f' ysbryd llesg i ddringo
Fry ym mhell uwch swn y byd,
I ardaloedd
Nad oes teimlo beth yw poen.—**Amen.**

GAERWEN. 8.7.8.7. D. Alaw Americanaidd.



HYFRYDOL. 8.7.8.7. D. H. R. Pritchard.



216

A. G.

mf 1 RHWYGA'R tew gymylau duon
Guddiant wedd dy wyneb gwiw;
Nid oes bleser a'm dyddana
Ond yn unig Ti, fy Nuw;
Môr didrai o bob trugaredd
Yw dy iachawdwriaeth lawn,
Lifodd allan mewn bendithion
Ar Galfaria un prydnawn.

2 Ffrydiau tawel, byw, rhedegog,
O dan riniog tŷ fy Nuw,
Sydd yn llanw ac yn llifo
O fendithion o bob rhyw:
Dyfroedd gloew fel y grisial,
I olchi'r euog, nerthu'r gwan;
Ac a gana'r Ethiop duaf
Fel yr eira yn y man.

3 O am yfed yma beunydd
O ffrydiau'r iachawdwriaeth fawr,
Nes fy nghwbl ddisychedu
Am ddarfodedig bethau'r llawr;
Byw gan ddysgwyl am fy Arglwydd,
Bod pan ddelo'n effro iawn,
I agoryd iddo'n ebrwydd,
A mwynhau ei ddelw'n llawn.—Amen.

217

W.

mf 1 O LLEFARA, addfwyn Iesu,
Mae dy eiriau fel y gwin,
Oll yn dwyn i mewn dangnefedd
Ag sydd o anfeidrol rin;
Mae holl leisiau'r greadigaeth,
Holl ddeniadau cnawd a byd,
Wrth dy lais hyfrydaf tawel
di Yn dystewi a myn'd yn fud.

mf 2 Mae dy lais yn rhoi dystawrwydd
Ar holl ddwndwr gwag y byd,
Gan lonyddu pob rhyw derfysg
Fago nwydau croes yng nghyd:
Y mae'r gwynt yn troi i'r deheu,
Ac mae'r hin yn dawel iawn,
Pan fo'm Duw'n cyhoeddi heddwch,
Er mor arw fu'r prydnawn.— Amen.

218

W. A.

mp 1 ARGLWYDD, gad im' dawel orphwys
Dan gysgodau'r palmwydd clyd,
Lle'r eistedda'r pererinion
Ar eu ffordd i'r nefol fyd;
cr Lle'r adroddant dy ffyddlondeb
Iddynt yn yr anial cras,
Nes anghofio'u cyfyngderau
Wrth foliannu nerth dy ras.

mf 2 O mor hoff yw cwmni'r brodyr
Sydd â'u gwyneb tua'r wlad,
Heb un tafod yn gwenieitho,
Heb un fron yn meithrin brad;
Gwlith y nefoedd ar eu profiad,
Adsain hyder yn eu hiaith;
Teimlant hiraeth am eu cartref,
Carant son am ben eu taith.

mf 3 Arglwydd, dal ni nes myn'd adref,
Nid yw'r llwybr eto'n faith;
Gwened heulwen ar ein henaid,
Wrth nesäu at ben y daith;
cr Doed y nefol awel dyner
I'n cyfarfod yn y glyn,
Nes in' deimlo'n traed yn sengu
Ar uchelder Sïon fryn.—Amen.

Cyffredinol.

GLANYRAFON.

2.8.8.8.8.8.

Alaw Gymreig, allan o Aberth Moliant.
J. A. Lloyd.



DORCAS.

2.8.8.8.8.8.

Alaw Gymreig.



219

AN.

mf 1 BRAINT, braint
Yw cael cymdeithas gyda'r saint,
Na welodd neb erioed ei maint;
Ni ddaw un haint byth iddynt hwy:
Y mae'r gymdeithas yma'n gref
f Ond yn y nef hi fydd yn fwy.

f 2 Fe gân
Y gwaredigion, fawr a mân,
Dragwyddol glod i'w Prynwr glân;
Pan ddelo'r tân i losgi'r tir
Cânt godi eu penau a llawenhau,
Eu poenus wae ä heibio'n wir.

mf 3 Daeth trwy
Ein Iesu glân a'i farwol glwy'
Fendithion fyrdd, daw eto fwy;
f Mae ynddo faith ddiderfyn 'stôr;
Ni gawsom rai defnynau i lawr;
Beth am yr awr cawn fyn'd i'r môr?

f 4 Gwledd, gwledd
O fywyd a thragwyddol hedd
Sydd yn y byd tu draw i'r bedd;
Ond hardd fydd gwedd y dyrfa i gyd
Sy'n byw ar haeddiant gwaed yr Oen,
O swn y boen sydd yn y byd.—Amen.

220

AN.

mf 1 DAW dydd
I'r carcharorion fyn'd yn rhydd
O'u holl gadwynau tynion sydd;
Mor felus fydd eu canu hwy
cr Am ddyoddefaint addfwyn Oen,
Bydd hyfryd son heb ddiwedd mwy.

mf 2 Y rhai'n
A wisgir oll â lliain main;
Telynau gânt o beraidd sain,
cr I ganu anthem faith o glod
I'r Hwn fydd yn teyrnasu mwy,
Am farwol glwy', tra'r nef yn bod.

mf 3 Fe ddaw
Yr hyfryd foreu, mae gerllaw,
Bydd pawb â'i delyn yn ei law,
cr Heb ofn na braw, yng nghwmni'r Oen,
Yn canu i dragwyddoldeb maith,
Ar ben y daith, heb friw na phoen.—Amen.

CHENIES. 7.6.7.6. D. T. R. MATTHEWS.



JABES. 7.6.7.6. D. Alaw Gymreig.



221

AN.

mf 1 PA Dduw ym mhlith y duwiau
Sydd debyg i'n Duw ni?
Mae'n hoffi maddeu'n beiau,
Mae'n hoffi gwrando'n cri;
f Nid byth y deil eiddigedd,
Gwell ganddo drugarhau;
Er maint ein hannheilyngdod,
Mae'i gariad yn parhau.

mf 2 Gwyn fyd y rhai dilеodd
Eu camwedd oll i gyd,
Gwyn fyd y rhai maddeuodd
Eu pechod yn y byd:
f Gwyn fyd y rhai sancteiddiwyd,
A olchwyd ar y llawr;
Fe'u codir i'r gogoniant
Drwy haeddiant Iesu mawr.—Amen.

222

D. W.

mf 1 AM Graig yr iachawdwriaeth,
Fy enaid egwan, cân,
Y sylfaen fawr dragwyddol,
A'r hyfryd Gonglfaen ;
f Fy noddfa rhag ystormydd,
A'm cysgod rhag y gwres ;
Mae'n ganmil mwy rhagorol
Na chedyrn furiau pres.

mf 2 O, Graig yr iachawdwriaeth !
Lle mae ffynnonau byw,
A'r afon loew, ddysglaer—
Llawenydd dinas Dduw ;
cr Mae ynddi fêl ddigonedd
A bara ar ein rhan,
A gwin i loni'r ysbryd,
A llaeth i faethu'r gwan.

f 3 Y Graig nas gall gelynion,
Pe baent o rif y dail,
Ddim dringo dros ei muriau,
Na chloddio dan ei sail ;
ff Crist yw fy Nghraig dragwyddol,
Lle cefais guddio'm pen ;
Clod iddo ar ei filfed,
Fy enaid, cân, Amen.—Amen.

223

C. W.

mf 1 MAE Crist a'i w'radwyddiadau,
A'i groesau o bob rhyw,
Yn ddigon imi farw,
Yn ddigon imi fyw ;
f Can's yn ei groes mae coron,
Ac yn ei wawd mae bri,
A thrysor yn ei gariad
Sydd fwy na'n daiar ni.

mf 2 Rho brofi grym ei gariad,
Sydd anmherfynol fôr,
I'm tynu tua'r bywyd,
Fy Nuw a'm cadarn Ior :
f Goleuni Haul Cyfiawnder,
A'i nefol hyfryd wres,
A ddwg fy ysbryd egwan
I'r nefoedd wen yn nes.—Amen.

224

AN.

mf 1 FE ddwedodd Anghrediniaeth,
Do, wrthyf lawer gwaith,
Am beidio blino'r Athraw—
Mai ofer fyddai'm gwaith :
cr Af at ei orsedd eto,
Er dued yw fy lliw ;
Pwy wyr na chaf drugaredd !
Un rhyfedd iawn yw Duw.

mf 2 Os gwelir fi, bechadur,
Ryw ddydd ar ben fy nhaith,
Rhyfeddol fydd y canu
A newydd fydd yr iaith—
f Yn seinio buddugoliaeth
Am iachawdwriaeth lawn,
Heb ofni colli'r frwydyr
Y boreu na'r prydnawn.—Amen.

LOVELY. 6.6.6.6.8.8. J. D. Edwards. Cyng. M. W. Griffith, Mus.Bac.



JUBILEE. 6.6.6.6.8.8. F. C. Chattock.



225 *L. G.*

mf 1 EIN Pen Conglfaen yw Crist,
A'n hunig Sylfaen gref;
Ein saint o'n daiar drist
A lanwant nef y nef:
f Ei gariad mawr yw'n gobaith cu
Am ras yn awr a gwynfyd fry.

f 2 Am hyny, iddo Ef
Rhown foliant yn gytûn,
A chyd-ddyrchafwn lef
Mewn mawl i'r Tri yn Un:
Cyhoeddi wnawn mewn llawen gân
Ogoniant llawn ei Enw glân.

mf 3 Bydd yma, O, ein Duw,
Gogwydda'th sanctaidd glust,
Ein haddunedau clyw,
A phob ochenaid drist;
Mewn cawod flith i'r gwan a gwael,
Dyhidla wlith dy fendith hael.

mf 4 O am gael gras y nef
Yn gymhorth ar ein taith,
A gorphwys arno Ef
Nes gorphen oll ein gwaith;
A d'od o'r saint yn deg eu gwedd
I dawel fraint gorphwysfa hedd.—Amen.

226

W.

f 1 YMGRYMED pawb i lawr
I Enw'r addfwyn Oen,
Yr Enw mwyaf mawr
Erioed a glywyd son:
ff Y clod a'r mawl, y parch a'r bri,
Fo byth i Enw'n Harglwydd ni.

mf 2 Mae Enw'r addfwyn Oen
Yn llawer gwell na'r byd,
A lluoedd maith y nef
Sy'n rhoddi arno'u bryd:
f Ei ddawn a'i ras a'i gariad drud
Sy'n llanw'r nef, yn llanw'r byd.

f 3 Cyduned nef a llawr,
A phob creadur byw,
I foli gyda ni
Iachawdwr dynol ryw:
Yr Oen fu farw yn ein lle,
ff Clodfored pawb ei Enw E'.

f 4 I'r gogledd, dwyrain, de,
Ac i'r gorllewin faith,
Yr elo'i Enw E'
Yn glodfawr ym mhob iaith:
Am glwyfau'r Oen, a'i gariad rhad,
ff Boed sain clodforedd ym mhob gwlad.—Amen.

LLANBEBLIG. 6.6.4.6.6.6.4. Alaw Gymreig.



227

P. J.

p 1 GWNES addunedau fil
I gadw'r llwybr cul,
Ond methu'r wy' ;
cr Preswylydd mawr y berth,
Chwanega Di fy nerth
I ddringo'r creigiau serth
Heb flino mwy.

p 2 Gelynion lawer mil
Sy oddeutu'r llwybr cul,
A minnau'n wan ;
cr Dal fi â'th nerthol law
Rhag crwydro yma a thraw ;
Yn mhob rhyw drallod ddaw,
Bydd ar fy rhan.

mp 3 Er nad wyf fi ond gwan,
Os deil fy Nuw fi'r lan,
Ni'm maeddir ddim :
f Mae nerth fy Ior yn fwy
Na'u holl fyddinoedd hwy—
Ni roddant imi glwy',
Er maint eu grym.—Amen.

228

W.

mf 1 OTYRED, Arglwydd mawr,
Dyhidla o'r nef i lawr
Gawodydd pur ;
Fel byddo i'r egin grawn,
Foreuddydd a phrydnawn,
cr I darddu'n beraidd iawn
O'r anial dir.

mp 2 O Brynwr mawr y byd,
Tyr'd bellach, mae'n llawn bryd—
Mae yn brydnawn ;
mf Gad ini wel'd dy ras
Ar frys yn tori i maes
Dros wyneb daiar las,
Yn genllif llawn.

mf 3 Arosaf ddydd a nos
Byth bellach dan dy groes,
I'th bur fwynhau ;
f Mi wn mai'r taliad hyn,
Wnaed ar Galfaria fryn,
A'm càna oll yn wyn
Oddiwrth fy mai.

mf 4 Yn nyfnder dwr a thân,
Calfaria fydd fy nghân—
Calfaria mwy ;
f Y bryn ordeiniodd Duw
Yn nhragwyddoldeb yw
I godi'r marw'n fyw
di Trwy farwol glwy'.—Amen.

229

W

mf 1 IACHAWDWR dynol ryw,
Tydi yn unig yw
Fy Mugail da ;
Mae angeu'r groes yn llawn
O bob rhinweddol ddawn,
A ffrwythau melus iawn :
Rhai'n a'm iachâ.

2 'Does dim a leddfa'm poen
Ond gwaed yr addfwyn Oen—
Pur waed fy Nuw ;
Mae'i Hun yn fwy na'r byd,
A'r trysor sy ynddo i gyd,
A thecach yw ei bryd
Na dynol ryw.

3 Mae torf aneirif fawr
Yn ddysglaer fel y wawr
'Nawr yn y nef,
Trwy ganol gwawd a llid,
Gwrthwynebiadau byd,
Ac angeu glas yng nghyd,
A'i carodd Ef.

4 Ni thâl pleserau'r byd,
Na phob teganau 'nghyd,
Ddim i'm boddhau ;
Y gwrthddrych mwya' erioed,
O gariad ac o glod,
Sydd uwch neu is y rhod,
Wyf yn fwynhau.—Amen.

230

H. a N.

mf 1 BOED moliant Iesu mawr
Yn llenwi nef a llawr,
Am angeu'r groes;
Cymmerodd natur dyn,
Daeth Ef i'r byd ei Hun,
Gwnaeth gymmod dros bob un,
Trwy farwol loes.

2 Mae'r Hwn fu farw'n fyw
Trwy'r gwaed rhinweddol gwiw,
Yn eiriol fry:
Trugaredd nef yn awr
Ddwg iachawdwriaeth fawr
I lwythau daiar lawr,
A heddwch cu.

3 Ac am fod Iesu'n fyw,
Dwg bawb o feibion Duw
I deyrnas nef:
cr Preswylferch Sion, cân
I'th briod diwahân,
Abertha foliant glân
I'w Enw Ef.

f 4 Cydunwn gyda'r côr
Sydd wrth orseddfainc Ior
Heb gur na phoen;
Mae torf ar ben eu taith,
O bob rhyw lwyth ac iaith,
Yn canu moliant maith,
Teilwng yw'r Oen.—Amen.

AUGUSTINE. M. B. J. S. Bach.



231

P. J.

mf 1 MAE'R iachawdwriaeth rad
Yn ddigon i bob rhai;
Agorwyd ffynnon er glanhâd
Pob pechod cas a bai.

2 Daw tyrfa rif y gwlith
Yn iach trwy rin y gwaed;
Pwy ŵyr na byddaf yn eu plith,
Yn lân o'm pen i'm traed?

3 Er lleted yw fy mhla,
Er dyfned yw fy mriw,
Y Balm o Gilead a'm iachâ—
Mae Crist yn Feddyg gwiw.

p 4 Dan bwys euogrwydd du,
Edrychaf tua'r groes,
cr Lle llifodd gwaed fy Mhriod cu—
f Anfeidrol iawn a roes.—Amen.

232

E. R.

mf 1 YN nodded gras y nef
Wynebwn ar y byd;
Nid ofnwn ei drallodion ef,
Na'i demtasiynau i gyd.

2 Er maint ei lafur blin,
A'i aml ofidiau maith,
Fe leddfa Duw yr arw hin,
Ac ysgafnhâ y gwaith.

mp 3 Yn haeddiant gwaed y groes
Wynebwn orsedd Duw;
mf Er amled yw pechodau oes
Cawn yn ei gysgod fyw.

4 Yng nghwmni Iesu Grist
Wynebwn angeu prudd;
f Try Ef y nos-gysgodau trist
Yn hyfryd foreu ddydd.

p 5 Wynebwn ar y bedd
Ond cael yr Iesu'n rhan,
mf Mewn gobaith deffro ar ei wedd,
A d'od yn iach i'r lan.—Amen.

BALLERMA. M. C. ROBERT SIMPSON.



FRENCH. M. C. Sallwyr Ysgotaidd.



233

W.

f 1 MAE'R iachawdwriaeth fel y môr,
Yn chwyddo byth i'r lan ;
Mae ynddi ddigon, digon byth
I'r truan ac i'r gwan.

mf 2 'Does ynddi ddiffyg byth yn bod,
Trysorau gras sy'n llawn,
Er maint yr yfed a'r glanhau
O foreu hyd brydnawn.

mf 3 Mae ynddi drugareddau hael
I'w cael yn ddinacâd,
A phob bendithion ynddi'n 'stôr
Tragwyddol eu parhâd.

f 4 'Ddiffygiad ddim, er c'yd fy nhaith,
Tra pery gras y nef ;
Ac er cyn lleied yw fy ngrym,
Mae digon ynddo Ef.—Amen.

234

W.

f 1 IESU, difyrwch f'enaid drud
Yw edrych ar dy wedd ;
Mae llythyrenau'th Enw pur
Yn fywyd ac yn hedd.

mp 2 O dan dy aden dawel, glyd,
'Rwyf yn dymuno byw ;
Heb ymbleseru byth mewn dim
Ond cariad at fy Nuw.

mf 3 Melusach yw na'r diliau mêl
Un munyd o'th fwynhau ;
Ac nid oes genyf bleser sydd,
Ond hwnw, yn parhau.

f 4 A phan y syrthio ser y nen,
Fel ffigys îr i'r llawr,
Bydd fy nyddanwch y pryd hyn
Oll ynot, Iesu mawr.

mf 5 Meddianned Ef â'i ddwyfol ras
Fy holl serchiadau'n un ;
Na chaed o fewn fy ysbryd fod
Neb ond fy Iesu ei Hun.—Amen.

235

W.

mf 1 IESU yw tegwch mawr y byd,
A thegwch pena'r nef ;
Mae pob prydferthwch sydd o werth
Yn trigo ynddo Ef.

mf 2 Os edrych wnaf i'r dwyrain draw,
Os edrych wnaf i'r de,
Yn mhlith a fu, neu ynte ddaw,
'Does debyg iddo Fe.

mp 3 Fe roes ei ddwylaw pur ar led,
Fe wisgodd goron ddrain,
Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn,
Fel hyfryd liain main.

mf 4 Esgyn a wnaeth i eutrych ne'
I eiriol dros y gwan ;
Fy enaid innau dyn Efe
I'w fynwes yn y man.

f 5 Ac yna caf fod gydag Ef
Pan êl y byd ar dân,
Ac edrych yn ei hyfryd wedd
Mil harddach nag o'r blaen.—Amen.

TALLIS'S ORDINAL.

M. C. TALLIS.



236

JS. H.

f 1 CLODFORWCH Enw Mab Duw Ion,
Angylion gwynion gwawr ;
cr O deuwch, a choronwch Ef
Yn Llywydd nef a llawr.

f 2 Seraphiaid nef, pob un â'i dant,
Dan ganu moliant mawr,
cr O deuwch, a choronwch Ef
Yn Llywydd nef a llawr.

mp 3 Ei chwerwaf angeu, byth na bo
I'w saint anghofio'r awr ;
cr O deuwch, a choronwch Ef
Yn Llywydd nef a llawr.

f 4 Pob llwyth ac iaith, hil Adda i gyd
Trwy'r holl gwmpasfyd mawr,
ff O deuwch, a choronwch Ef
Yn Llywydd nef a llawr.—Amen.

237

R. E.

f 1 RHOWN glod a mawl i'r Iesu mad,
Mewn Haleluia lân ;
mf Dyfnderoedd maith ei gariad rhad
Sydd hyfryd destyn cân.

mf 2 O pwy all beidio rhoddi clod
Yn rhwydd i'r addfwyn Oen ?
'Does derfyn byth i'w fawl i fod,
Caiff glod yn bêr ddi-boen.

mp 3 Dros waelion rai o ddynol ryw
Bu farw'r cyfiawn Un ;
cr Rhyfeddwn byth ei aberth gwiw—
O'i fodd fe roes ei Hun.

f 4 Teilwng yw'r Oen yn nef y nef
O bob rhyw barch a bri ;
Ei ras a'i Enw hawddgar Ef
A lanwo'n daiar ni.—Amen.

238

AN.

f 1 WELE dy Frenin, Sïon fwyn,
Yn dyfod oddi fry :
Crechwena, ferch, a derbyn Ef
Yn llon mewn clodydd cu.

p 2 Mae'n d'od at garcharorion gwael,
O'u rhwymau i'w rhyddhau :
Y bythol byrth a'r dorau pres
Sy'n agor iddo'n glau.

mf 3 Y galon ddrylliog a iachâ
Yn hylwydd ac yn hael ;
A chyflawn yw o bob rhyw ras
I gyfoethogi'r gwael.

f 4 Mewn sain Hosanna, Frenin Hedd,
Mawr groesaw iti fydd ;
Y nef ar gân ddadseinia'th glod
Yn wastad nos a dydd.—Amen.

ARENIG. M. S. BREIGEL. Cyng. J. H. ROBERTS, Mus.Bac.



239

E. P.

p 1 NA thro dy wyneb, Arglwydd glân,
Oddiwrth un truan agwedd
Y sydd o flaen dy borth yn awr
Mewn cystudd mawr yn gorwedd.

mp 2 Na alw mo'nof ger dy fron
I roddi union gyfrif ;
Yr wy'n cydnabod, fy Nuw hael,
Y bywyd gwael sydd genyf.

mf 3 Felly y deuaf at dy borth
I ddysgwyl cymhorth ddigon,
Sef dy drugaredd i lanhau
Fy holl weliau bryntion.

mf 4 Trugaredd, Arglwydd, heb ddim mwy
Yw'r cyfan wyf yn geisio ;
Trugaredd yw fy newis lwydd—
di Trugaredd, Arglwydd, dyro.—Amen.

240

E. P.

mp 1 ERGLYW, O Dduw, fy llefain i,
Ac ar fy ngweddi gwrando ;
Rhof lef o eitha'r ddaiar gron,
A'm calon yn llesmeirio.

mf 2 Dwg fi i dalgraig uwch na mi,
Ac iddi bydd i'm derbyn ;
Can's craig o obaith, tŵr di-fost,
Im' fuost rhag y gelyn.

mf 3 O fewn dy babell y bydd byth
Fy nhrigfan ddilyth, ddedwydd ;
cr A'm holl ymddiried a fyn fod
Yng nghysgod dy adenydd.—Amen.

MARTYRDOM. M. C.





241

E. E.

mp 1 AT Un a wrendy weddi'r gwan
'Rwyf yn dychafu'm cri :
Ym mhob cyfyngder, ing, a phoen,
p O Dduw, na wrthod fi.

mp 2 Er mor annheilwng o fwynhau
Dy bresennoldeb Di,
A haeddu 'mwrw o ger dy fron,
p O Dduw, na wrthod fi.

mp 3 Pan fo'm cydnabod is y nen
Yn cefnu arna'i'n rhi',
A chân a chyfaill yn pelläu,
p O Dduw, na wrthod fi.

p 4 Er mwyn dy grog a'th angeu drud
Ar fynydd Calfari,
A'th ddwys eiriolaeth yn y nef,
O Dduw, na wrthod fi.

p 5 Pan yn gwynebu ymchwydd yr
Iorddonen ddofn ei lli',
A theithio'n unig trwy y glyn,
O Dduw, na wrthod fi.

mp 6 A 'phan y deui yr ail waith
cr Mewn mawredd, parch, a bri,
I farnu'r byw a'r meirw 'nghyd,
p O Dduw, na wrthod fi.—Amen.

242

E. E.

mf 1 AR fôr tymmestlog teithio'r wyf
I fyd sydd well i fyw,
Gan wenu ar ei 'stormydd oll—
p Fy Nhad sydd wrth y llyw.

mf 2 Drwy leoedd geirwon enbyd iawn,
A rhwystrau o bob rhyw,
Y'm dygwyd eisioes ar fy nhaith—
p Fy Nhad sydd wrth y llyw.

mf 3 Er cael fy nhaflu o don i don,
Nes ofni bron cael byw,
Diangol ydwyf hyd yn hyn—
p Fy Nhad sydd wrth y llyw.

mf 4 Ac os oes 'stormydd mwy yn ol,
Yng nghadw gan fy Nuw,
Wynebaf arnynt oll yn hyf—
p Fy Nhad sydd wrth y llyw.

mf 5 A phan fo'u hymchwydd yn cryfhau,
Fy angor sicr yw,
Y dof yn ddiogel trwyddynt oll—
p Fy Nhad sydd wrth y llyw.

mf 6 I mewn i'r porthladd tawel, clyd,
O swn y 'storm a'i chlyw,
Y caf fynediad llon ryw ddydd—
p Fy Nhad sydd wrth y llyw.—Amen.

243

W.

mf 1 AWN, bechaduriaid, at y dwr
A darddodd ar y bryn ;
Ac ni gawn yfed byth heb drai
O'r ffrydiau gloewon hyn.

2 Mae yma drugareddau rhad
I'r tlawd a'r llariaidd rai,
A rhyw fendithion maith yn 'stôr
Sydd fythol yn parhau.

3 Er maint fy llygredd o bob rhyw,
Er cymmaint yw eu rhif,
Ac er fy nwydau cyndyn, chwith,
Sy'n para byth yn gryf :

4 Af at yr orsedd fel yr wyf—
Anfeidrol orsedd gras,
Dadguddiaf yno'm ffaidd glwyf,
A'm holl archollion cas.—Amen.

244

AN.

f 1 CYDUNED y nefolaidd gôr
A llwythau dynol ryw,
I ganu'n llon â llafar lef,
Mai cariad ydyw Duw.

mf 2 Eglura gwirioneddau'i Air,
Ei drugareddau gwiw,
Ac angeu Crist dros euog ddyn,
f Mai cariad ydyw Duw.

mf 3 Gwel'd gwael bechadur yn y nef,
O ! 'r fath ryfeddod yw !
A ddengys trwy'r trigfanau fry
f Mai cariad ydyw Duw.

mf 4 Fy enaid clwyfus, na lesgâ,
Mae modd i wella'th friw ;
Mae achos da i ddweyd bob dydd
f Mai cariad ydyw Duw.—Amen.

ABERHONDDU. M.B.C. IEUAN GWYLLT, 1858.



245

E. P.

mp 1 TRUGAREDD dod i mi,
Duw, o'th ddaioni tyner ;
Ac ymaith tyn f' anwiredd mau
O'th drugareddau lawer.

p 2 Ag isop golch fi'n lân,
Ni byddaf aflan mwyach ;
Byddaf o'm golchi, wedi hyn
Fel eira gwyn, neu wynach.

mp 3 Duw, crea galon bur—
Dod imi gysur beunydd ;
I fyw yn well tra yn y byd,
Dod ynof ysbryd newydd.

mp 4 Na fwrw fi mewn gwg
Yn llwyr o'th olwg allan ;
Na chymmer chwaith dy Ysbryd Glân
Oddiwrthyf, druan egwan.

mf 5 Aberthau Duw yn wir
Yw ysbryd pur drylliedig ;
Ac ni ddirmygi, O Dduw Ion,
Y galon gystuddiedig.—Amen.

246

AN.

mp 1 EI fywyd pur i lawr
Roes Iesu mawr grasusol ;
Mewn chwerw loes y bu Mab Duw,
I ni gael byw'n dragwyddol.

p 2 O gwelwn ffrydiau gwaed
O'i draed a'i ddwylaw tirion !
pp Pan hoeliwyd Ef ar 'ldirfawr grog,
A'i ben dan bigog goron.

p 3 Mewn ing a gwaedlyd chwys
Bu'n gogoneddus Geidwad ;
cr Ond ni ddiffoddodd angeu llym
Dragwyddol rym ei gariad.

mf 4 O'r archoll dan ei fron
Y tarddodd ffynnon fywiol :
cr Hon sydd ddigonol i lanhau
Ein mawrion glwyfau marwol.—Amen.

HORBURY. 6.4.6.4.6.6.4. J. B. Dykes.



247

E. R. J.

mf 1 NES atat, O fy Nuw—
Nes at fy Nuw:
p Boed croesau fil o'm blaen,
Ond im' gael byw
cr Uwch byd, fy ngweddi yw,
Nes atat, O fy Nuw—
di Nes at fy Nuw.

mf 2 Er fel pererin fod
Ar ddyrys daith,
Trwy'r nos heb le i'm pen
Ond careg laith;
Mewn breuddwyd gad im' fyw
di Nes atat, O fy Nuw—
p Nes at fy Nuw.

mf 3 Er bod y llwybrau'n serth
O'r byd i'r nef,
cr Trwy ras i fyny'r af
Yn llon fy llef;
Dan wên yr engyl gwiw,
di Nes atat, O fy Nuw—
p Nes at fy Nuw.

mf 4 O'm cwsg os codi gaf
A'm bron yn friw,
O'm calon gareg gwnaf
Fethel i'm Duw,
Trwy'm gwae i mi gael byw
di Nes atat, O fy Nuw—
p Nes at fy Nuw.

f 5 Yn llon os hedeg wnaf
Trwy'r wybren fry,
cr Uwch haul, y lloer, a'r ser,
I'r nefol lu,
'R un gân am byth, O clyw,
di Nes atat, O fy Nuw—
mp Nes at fy Nuw.—Amen.

HUDDERSFIELD (neu SOVEREIGNTY). 8au. 6llin.



PRESTON. 8au. 6llin. BISHOP JENNER.





248

AN.

f 1 DUW mawr y rhyfeddodau maith,
Rhyfeddol yw pob rhan o'th waith ;
mp Ond dwyfol ras mwy rhyfedd yw
Na'th holl weithredoedd o bob rhyw :
f Pa Dduw sy'n maddeu fel Tydi
Yn rhad ein holl bechodau ni ?

mp 2 O maddeu'm holl gamweddau mawr,
Ac arbed waelaidd lwch y llawr ;
Hyn yw dy nefol oruwch nod,
Ac ni chaiff arall ran o'r clod :
f Pa Dduw sy'n maddeu fel Tydi
Yn rhad ein holl bechodau ni ?

mf 3 Rhyfeddol yw'th drugaredd hael,
A'th gariad pur i'n natûr wael ;
Yn agor ffynnon i'n glanhau,
A'n golchi'n bur oddiwrth ein bai :
f Pa Dduw sy'n maddeu fel Tydi
Yn rhad ein holl bechodau ni ?

4 O boed i'r gras anfeidrol gwiw,
A'r gwyrthiau mawr o gariad Duw,
cr Orlenwi'r ddaiar faith â'th glod,
Hyd nefoedd fry, tra'r byd yn bod :
ff Pa Dduw sy'n maddeu fel Tydi
Yn rhad ein holl bechodau ni ?—Amen.

TROYTE.

8.8.8.4

A. H. D. TROYTE.



249

An.

mf 1 FY Nuw, fy Nhad, tra'r wyf o hyd
Yn crwydro 'mhell ar ffordd y byd,
O dysg fi ddweyd yn isel fryd,
p "Dy 'wyllys Di."

mp 2 Os tywyll fo fy nghyfrau i,
Na foed im' rwgnach, Iesu cu,
Ond dweyd yn dawel fel Tydi,
p "Dy 'wyllys Di."

mp 3 Os newydd fedd a'm gwna fi'n brudd,
Er dyfod dagrau ar fy ngrudd,
Fy ngweddi ostyngedig fydd,
p "Dy 'wyllys Di."

mp 4 Os rhaid im' roi yn ol i Ti
Y goreu beth sydd genyf fi,
Mi geisiaf ddweyd er hyn yn hy,
p "Dy 'wyllys Di."

cr 5 Adfywia'm hysbryd i bob dydd,
A dyro im' oleuni ffydd,
Fel gallwyf ddweyd â chalon rydd,
p "Dy 'wyllys Di."

mp 6 O boed im' gael ond gwel'd dy wedd,
A phrofi grym Glân Ysbryd hedd,
f A chanu wnaf ar lan y bedd,
"Dy 'wyllys Di."—Amen.

LLANGEITHO. 7.6.7.6.7.8.7.6. Alaw Gymreig.



250

W.

mp 1 LLAWN o ofid, llawn o wae,
A llawn euogrwydd du,
Byth y byddaf yn parhau
Heb gael dy gwmni cu :
mf Golwg unwaith ar dy wedd
A'm cod i'r lan o'r pydew mawr ;
O fy Nuw, nac oeda'n hwy,
f Rho'r olwg i mi'n awr.

mp 2 Gwel y truan, gwel y tlawd,
Yn gorwedd wrth dy draed ;
O Samariad, bydd yn frawd,
Adfera im' iachâd ;
mf Dyro olew yn fy mriw,
Wyf bechadur gwael fy llun ;
f Ac nis gall fyth, fyth fy nwyn
Ond d' allu Di dy Hun.

mp 3 'Mofyn am orphwysfa glyd,
Heb gwrdd â 'stormydd mwy,
Lloches nid oes yn y byd
At hyn ond yn dy glwy' ;
cr Tro fy ngolwg at y fan
Y llaesa'm hofnau oll a'm braw ;
mf Na ddychrynwyf byth i wel'd
Y boreu ddydd a ddaw.—Amen.

DISGWYLIAD. 8.7.8.7.4.7. Alaw Lydawig.



LUTTERWORTH. 8.7.8.7.4.7.



251

W.

mp 1 RHO gydwybod wedi ei chànu'n
Beraidd yn y dwyfol waed—
Cnawd a natur wedi eu maeddu,
Clwyfau wedi cael iachâd ;
cr Minnau'n aros
Yn fy ninas foreu a hwyr.

mp 2 Heddwch perffaith yw dy gwmni,
Mae llawenydd ar dy dde ;
Ond i Ti fod yn bresennol,
Pobpeth sydd yn llanw'u lle :
cr Ni ddaw tristwch
I'th gyfeillach tra bo nef.

p 3 O dystëwch, derfysglyd dònau,
Tra b'wy'n gwrando llais y nef ;
Swn mwy hoff, a sain mwy hyfryd,
Glywir yn ei eiriau Ef :
F'enaid, gwrando
Lais tangnefedd pur a hedd.—Amen.

252

W.

mp 1 DYSGWYL wyf ar hyd yr hirnos,
Dysgwyl am y boreu ddydd ;
Dysgwyl clywed pyrth yn agor,
A chadwynau'n myn'd yn rhydd :
mf O na wawriai
Boreu hyfryd jubili.

mp 2 Dattod, Arglwydd, fy nghadwynau,
Rho fy enaid gwan yn rhydd ;
Tyn fi'n awr o'r pydew tywyll
I gael gweled goleu'r dydd :
mf Seren foreu,
Cyfod dros y bryniau draw.

mp 3 Daw, fe ddaw y wawr wen oleu,
Nes bo'r cwmwl du yn ffoi,
Tarth a niwl yn cyd-ddiflanu
Ag oedd wedi cydgrynoi :
f Dyma'r oriau
'Rwy'n eu gweled draw trwy ffydd.—
Amen.

253

W.

mp 1 IESU, gwyddost fy nghystuddiau,
'Rwyt yn rhifo pob yr un ;
Pob rhyw w'radwydd, pob rhyw groesau,
Fe'u dyoddefaist hwynt dy Hun :
f Dal fi fyny,
Man bo 'meichiau'n fwyaf trwm.

mp 2 Cofia'th boenau ar Galfaria,
Cofia iti gario'r groes,
Cofia gur yr hoelion llymion,
Cofia'th chwerw angeu loes ;
cr Rho im' heddwch,
Rho im' nefoedd er eu mwyn.

mf 3 Er dy fod Di heddyw'n eistedd
Yng ngogoniant nef ŷ nef,
Mewn goleuni mor ddysgleiried
Na ellir nesu ato ef,
'Rwyt yn edrych
Ar d' anwylaf yn y byd.—Amen.

ROUSSEAU. 8.7.8.7. D. J. J. Rousseau.



BAVARIA. 8.7.8.7. D. W. C. T. & C. Book. Mendelssohn.



254

W.

mp 1 ETO unwaith mi ddyrchafaf
Un ochenaid tua'r nef,
Ac a wylaf ddagrau'n hidl
Am ei bresennoldeb Ef:
mf Pwy a ŵyr na chaf fy ngwrando
Gan Dywysog mawr y nen,
Ac na ddaw fy nymuniadau
Trist, hiraethlawn, oll i ben?

mf 2 Fel y rhed llifogydd mawrion,
Fel y chwyth yr awel gref,
Felly bydded fy ngriddfanau
Yn dyrchafu tua'r nef:

cr Gwn, fy Nuw, nas gelli attal,
Gwn nas gelli roi nacâd
O un fendith is y nefoedd
Ag sydd imi er iachâd.

mf 3 Mae ystormydd mewn naturiaeth,
Ca'dd goreuon byd y rhai'n—
Cafodd seintiau a merthyron,
Cafodd Iesu goron ddrain:
cr Mae cydwybod fo mewn terfysg,
Mae ysbrydoedd fo mewn poen,
Wedi chwilio o gylch, o gwmpas,
Yn llettya 'nghilwyfau'r Oen.—Amen.

255

E. V.

mf 1 O FY Iesu bendigedig,
Unig gwmni f'enaid gwan,
Ym mhob adfyd a thrallodau
Dal fy ysbryd llesg i'r lan :
p Tra y'm teflir yma ac acw
Ar anwadal dònau'r byd,
mf Cymhorth rho i ddal fy ngafael
Ynot Ti sy'r Un o hyd.

mp 2 Rhof fy nhroed y fan a fynwyf
Ar sigledig bethau'r byd,
Ysgwyd mae y tir o danaf,
Darnau'n cwympo i lawr o hyd ;
Ond os caf fy nhroed i sengu,
Yn y dymmestl fawr a'm chwyth,
mf Ar dragwyddol Graig yr Oesoedd,
f Dyna fan na syfla byth.—Amen.

CAERGYBI. 8.8.8.6. J. D. Roberts, 1883.

256

H. M.

p 1 OLL fel yr wyf, heb ddadleu iawn,
Ond rhin dy waed yn haeddiant llawn,
A'th fod yn galw'n dyner iawn,
cr Oen Duw, yr wyf yn d'od.

p 2 Oll fel yr wyf, er 'stormydd lu,
Ymladdau aml ammheuaeth ddu,
Ac ofnau mawrion ar bob tu,
cr Oen Duw, yr wyf yn d'od.

p 3 Oll fel yr wyf, yn dlawd a dall,
I dderbyn genyt Ti heb ball
Ras, golwg, ac iachâd di-wall,
cr Oen Duw, yr wyf yn d'od.

p 4 Oll fel yr wyf, i'm croesaw rhydd
Faddeuant rhad, sancteiddiad ffydd,
Gan bwyso ar dy air mewn ffydd,
cr Oen Duw, yr wyf yn d'od.

mp 5 Oll fel yr wyf, dy gariad mawr
A dorodd rwystrau fyrdd i lawr ;
I fod yn eiddo i Ti'n awr,
cr Oen Duw, yr wyf yn d'od.

mp 6 Oll fel yr wyf, i brofi hyd,
cr Lled, uchder, dyfnder cariad drud,
f Dros ddaiar lawr, a nef yng nghyd,
Oen Duw, yr wyf yn d'od.—Amen.

STEPHANOS. 8.5.8.3. SIR H. W. BAKER.



257

E. R.

mp 1 AI lluddedig wyt ac egwan?
Gwrandaw, geilw Crist—
mf "Tyred ataf, cei orphwysfa,
p Enaid trist."

mf 2 A oes ganddo nodau i'm harwain
Dan fy nghur a'm loes?
p "Yn ei ddwylaw, traed, ac ystlys,
Clwyfau'r groes."

mf 3 Ar ei ael Ef megys Brenin
Welir coron gain?
"Gwelir coron—coron diau,
p Ond o ddrain."

mf 4 Os caf afael arno a'i ddilyn,
Beth yw'r wobr yn awr?
p "Gofid mynych, mynych ddagrau,
cr Llafur mawr."

mf 5 Os af gydag Ef trwy'r cyfan,
Beth geir wedi hyn?
f "Diwedd gofid, diwedd llafur,
Croesi'r glyn."

mf 6 Os gofynaf iddo'm derbyn,
Ai fy ngwrthod wna?
f "Cyn y'th wrthyd, nef a daiar
p Heibio ä."

f 7 Gwedi'r canlyn, glynu, ymdrech,
Rydd Ef wobr ryw ddydd?
ff "Ini cwmwl mawr o dystion
Etyb, Rhydd."—Amen.

ST. ANDREW'S. 8au 8llin. DR. LOWELL MASON.





258

J. W.

f 1 PWY welaf o Edom yn d'od,
Mil harddach na thoriad y wawr,
Yn sathru dan wadn ei droed
Elynion yn lluoedd i'r llawr ;
mp Ei wisg wedi ei lliwio gan waed,
Ei saethau a'i gleddyf yn llym ;
f Ei harddwch yn llanw'r holl wlad,
Yn ymdaith yn amlder ei rym ?

mf 2 Wrth weled y fyddin mor fawr,
Dan arfau yn llawnion o lid,
Yn llanw holl wyneb y llawr,
Y bobl giliasant i gyd ;
Gadawyd fi'n unig, heb ail,
I sefyll yng ngwyneb fy nghas,
Gelynion mor amled a'r dail
Yn llanw holl gyrau y maes.

mf 3 Mi godais i fyny fy llaw,
cr Ymleddais, ennillais y dydd ;
Fy holl waredigion a ddaw,
A'm caethion a roddir yn rhydd ;
f Ennillais fath gonewest trwy waed,
Mae genyf lywodraeth mor fawr,
ff Hyd eithaf trigfanau fy Nhad,
Mae'n cyrhaedd o'r nefoedd i'r llawr.—
Amen.

DRESDEN. 8.7.8.7.7.7. NEANDER.



259

E. E.

mf 1 YMAE Un uwchlaw pawb ereill
Drwy'r greadigaeth fawr i gyd,
Sydd yn haeddu ei alw'n Gyfaill,
Ac a bery'r un o hyd :
Brawd a anwyd ini yw,
Erbyn c'ledi o bob rhyw.

2 Nis gall neithder ffordd nac amser
Oeri dim o'i gariad Ef ;
Mae ei fynwes byth yn dyner,
A'i gymdeithas byth yn gref :
Nis gall dyfroedd angau llym
Ddiffodd ei angerddol rym.

3 Pan fo pawb yn cefnu arnom
Yn y dyffryn tywyll du—
Pan fo pob daiarol undeb
Yn ymddattod o bob tu,
Saif E'n ffyddlon y pryd hyn,
Ac a'n dwg yn iach trwy'r glyn.

4 A phan ymddangoso eilwaith
Yng ngogoniant mawr ei Dad,
Gyda'i holl angylion sanctaidd,
Mewn anrhydedd a mawrhâd,
Fe geir gwel'd mai'r un fydd Ef,
Er myn'd heibio'r byd a'r nef.—Amen.

JOANNA. 11.11.11.11. Alaw Gymreig.



260

M. R.

f 1 O GARIAD, O gariad, anfeidrol ei faint,
Fod llwch mor annheilwng yn cael y fath fraint;
Cael heddwch cydwybod, a'i chlirio drwy'r gwaed,
A chorff y farwolaeth, sef llygredd, dan draed.

mf 2 Nis gallai'r holl foroedd byth olchi fy mriw,
Na gwaed y creaduriaid er amled eu rhyw;
Ond gwaed y Messïah a'i gwella'n ddiboen:
Rhyfeddol yw rhinwedd marwolaeth yr Oen.

f 3 Cydganed y ddaiar a'r nefoedd yng nghyd
Ogoniant tragwyddol i Brynwr y byd;
Molianned pob enaid fy Arglwydd ar gân,
Am achub anhydyn bentewyn o'r tân.

cr 4 Mae'r jubil dragwyddol yn awr wrth y drws,
Fe gododd yr heulwen, ni gawsom y tlws;
ff Daw gogledd a dwyrain, gorllewin a de,
Yn lluoedd i foli Tywysog y ne'.—Amen.

ROCK OF AGES. 7au. 6llin. Richard Redhead.





WELLS. 7au. 6llin. BORTNIANSKY.



261

M. D.

p 1 GRAIG yr Oesoedd, ynot Ti,
Holltwyd erof, cuddier fi ;
Bywiol ffrwd o ddwfr a gwaed
O dy ystlys friw a gaed—
Oll o'm pla i'm gwir iachäu,
Difa'i rym, a'm llwyr lanhau.

2 Nid fy llafur, nid fy nghur,
All foddloni'r gyfraith bur ;
Pe bai'm sel yn dân dilyth,
Pe bai'm dagrau'n llifo byth,
Ni wnant oll am bechod iawn—
Ti dy Hun yw'm Ceidwad llawn.

3 Haeddiant genyf fi nid oes—
Dlawd yn glynu wrth dy groes ;
Genyt Ti mae gwisg i'r noeth,
Gras i wneyd y ffol yn ddoeth ;
Ffynnon rad i'r aflan ryw—
Golch fi'n hon fel byddwyf byw.

p 4 Tra b'wy'n tynu egwan ffun,
pp Yn awr angeu, olaf hun—
p Yn y byd ysbrydol draw,
Yn y fanwl farn a ddaw—
di Graig yr Oesoedd, ynot Ti,
pp Holltwyd erof cuddier fi.—Amen.

MANCHESTER. M. C. DR. WAINWRIGHT.



262

P. J.

mf 1 DARPARWYD iachawdwriaeth rad,
Ddigonol i bob rhai ;
Agorwyd ffynnon er glanhâd
Pob pechod cas a bai.

mf 2 Gorphenwyd ar Galfaria fryn
Yr iachawdwriaeth fawr ;
f Cyhoedder y newyddion hyn
O gwmpas daiar lawr.

mf 3 Mae wyneb iachawdwriaeth gras
Ar holl drigolion byd ;
f Doed dynol ryw i brofi blas
A rhinwedd hon i gyd.—Amen.

263

AN.

mf 1 MAE ffordd gyfreithlon at y Tad
I bechaduriaid trist ;
A gwenu mae Trugaredd rad
Ar bawb sy'n ffoi at Grist.

mf 2 Fe dalodd Iesu berffaith iawn
Ar fynydd Calfari ;
Mae cymmod a maddeuant llawn
Yng ngwaed yr Oen i ni.

f 3 Fe ddaeth ein Meichiau mawr yn rhydd,
Clodforwn Frenin hedd ;
Cyfododd Ef y trydydd dydd
Yn fyw i'r lan o'r bedd.

mf 4 Esgynodd trosom at y Tad,
Ac eiriol yw ei waith :
f Cyn hir fe'n dwg o'r anial wlad
Yn iach i ben ein taith.—Amen.

264

W.

1 MAE pyrth y nef o led y pen,
Mi welaf fôr o waed.
Lle gallaf fi, 'r ffieiddiaf ddyn
Yn hollol gael iachâd.

2 Mae'r orsedd fawr yn awr yn rhydd,
Gwrandewir llais y gwan ;
Wel, cyfod bellach, f'enaid prudd,
Anadla tua'r lan.

3 Wel, anfon eirchion aml rif
I mewn i byrth y nef ;
Gwrandewir pob amddifad gri
Yn union ganddo Ef.

4 Myfi anturia'n awr ym mlaen,
Heb alwad is y ne',
Ond fod perffeithrwydd mawr y groes
Yn ateb yn fy lle.

5 Calfaria fryn yw'r unig sail
Adeilaf arno mwy ;
A gwraidd fy nghysur fyth gaiff fod
Mewn dwyfol farwol glwy'.—Amen.

ST. AGNES. M. C. J. B. DYKES.



265

An.

mf 1 FY Nuw, mi'th garaf, nid er mwyn
Cael myn'd i'r nefoedd fry,
Ac nid rhag ofn y poen a'r braw
Sydd byth yn uffern ddu.

mp 2 O Iesu glân, cofleidiaist fi
Ar chwerw bren y groes,
p Dyoddefaist yno ddirfawr warth,
Ac aml, aml loes.

p 3 Y drain, a'r hoel, a'r bicell fain,
A fu dy gyfran Di,
Ac angeu llym—i gyd mewn serch
At elyn fel myfi.

mp 4 A pham na'th garaf finnau Di
A chariad calon bur?
mf Nid er cael myn'd i'r nefoedd wen,
Na dychryn uffern dir.

mf 5 Nid er im' dderbyn dim yn ol,
Nac ennill gwobr fry;
f Ond fel y ceraist Ti fyfi,
O, anwyl Iesu cu.—Amen.

NASHVILLE. 8au. 6llin.



266

E. P.

mf 1 CHWI, weision Duw, molwch yr Ion,
Molwch ei Enw â llafar dôn;
Bendigaid fo ei Enw Ef:
f O godiad haul hyd fachlud dydd
Mawr Enw'r Ion moliannus fydd
Yn y byd hwn ac yn y nef.

mf 2 Dyrchafodd Duw uwch yr holl fyd,
A'i foliant aeth uwch nef i gyd;
Pwy sy'n gyffelyb i'n Duw ni?
f Yr Hwn a breswyl yn y nef,
I'r ddaiar hon darostwng Ef,
Gwel Ef ein cam, clyw Ef ein cri.

f 3 Efe sy'n codi'r tlawd o'r llwch,
A'r rheidus o'i flinderau trwch,
I'w gosod uwch penaethiaid byd:
I'r ammhlantadwy plant a rydd,
Hil deg a llwyddiant iddynt fydd,
ff Am hyn moliennwch Dduw i gyd.—
Amen.

267

W.

mf 1 YN angeu Crist caed haeddiant drud
I faddeu holl gamweddau'r byd,
O flaen yr orsedd buraf sydd:
Nis gall euogrwydd yno ddim,
Fe gyll melltithion Sinai'u grym,
Trugaredd rad a garia'r dydd.

p 2 Caf yno'n ddedwydd dawel fyw
Uwch brad gelynion o bob rhyw,
O swn y drafferth, a phob gwae;
cr A threulio tragwyddoldeb mwy
I ganu am ei ddwyfol glwy',
f Mewn anthem fythol i barhau.

mf 3 Y penaf drysor heddyw yw,
O fewn y nefoedd, gwaed fy Nuw—
Holl sylwedd y caniadau i gyd!
A dyna'r gwaed a roddodd iawn
I ddwyfol ddigder, perffaith lawn—
Fy hedd a'm cysur yn y byd.

4 Am iddo farw ar y bryn,
Ca'dd f'enaid bach ei gànu'n wyn,
A'i dynu o'i gadwynau'n rhydd:
Wel, bellach, dan ei haeddiant Ef,
Fel cysgod cedrwydden gref,
Gorphwysaf mwy yng ngwres y dydd.—
Amen.

LLANGOEDMOR. 8au. 6llin. Alaw Gymreig.



268

M. R.

f 1 GWNAED concwest ar Galfaria fryn,
Am dani canodd myrdd cyn hyn,
Fe faeddwyd uffern fawr i gyd ;
Fe brynwyd gwael golledig ddyn,
Fe wnaed y ddwyblaid ddig yn un
p A gwaed Iachawdwr mawr y byd.

f 2 Wel, dyma'r Cyfaill goreu gaed,
Mae'n ganmil gwell na mam na thad ;
Ym mhob caledi ffyddlon yw :
Mae'n medru maddeu a chuddio bai,
Ac o'i wir fodd yn trugarhau
Wrth bechaduriaid gwaetha'u rhyw.

vf 3 Ei haeddiant mawr anfeidrol Ef,
A lwyr foddlonodd nef y nef,
A geidw'm henaid yn ddi-gryn ;
cr Yng ngwres y dydd a'r 'stormydd mawr
Efe a'm daliodd hyd yn awr,
ff Gogoniant byth i Geidwad dyn.—Amen.

269

W.

mf 1 NIS gall angylion nef y nef,
Fynegu maint ei gariad Ef ;
Mae angeu'r groes yn drech na'u dawn
f Bydd canu uwch am Galfari,
Na glywodd yr angylion fry,
Pan ddelo Salem bur yn llawn.

mf 2 Rhyw ddyfais o anfeidrol faint
Oedd cariad Iesu at ei saint,
Agorwyd ffordd i ganol nef ;
f Cariad heb gymhar iddo'r un,
A noiodd yn ei waed ei hun,
Trwy angeu, oedd ei gariad Ef.

f 3 Boed oesoedd meithion, fwy na mwy,
Heb rif, heb ddarfod arnynt hwy,
I ganu am ei ddirfawr boen :
cr Na thawed tafod yn y byd,
Na dim o fewn y nef i gyd,
A son am goncwest addfwyn Oen.—
Amen.

ST. BRIDE. M. B. Dr. Howard.



270

J. E.

p 1 AI am fy meiau 1
Dyoddefodd Iesu mawr,
cr Pan ddaeth yng ngrym ei gariad Ef
O entrych nef i lawr?

mf 2 Cyflawnai'r gyfraith bur,
Cyfiawnder gafodd iawn;
f A'r ddyled fawr, er cymmaint oedd,
A dalodd Ef yn llawn.

p 3 Dyoddefodd angeu loes
Yn ufudd ar y bryn;
mf A'i waed a ylch yr Ethiop du
Yn lân fel eira gwyn.

mf 4 Bu'n angeu i'n hangeu ni
Wrth farw ar y pren;
cr A thrwy ei waed y dygir llu
Trwy angeu i'r nefoedd wen.

mf 5 Pan grymodd Ef ei ben,
Wrth farw yn ein lle,
Agorodd ffordd pan rwygai'r llen
I bur drigfanau'r ne'.

f 6 Gorchfygodd uffern ddu,
Gwnaeth ben y sarff yn friw;
cr O'r carchar caeth y dygir llu,
Trwy ras, i deulu Duw.—Amen.

ST. MICHAEL.

M. B.



271

D. TS.

mf 1 NIS gallai gwaed yr holl
Aberthau i gyd o'r bron
Roi heddwch i'r gydwybod ddu,
Na golchi bryntni hon.

mp 2 Ond Crist, y nefol Oen,
A ddug bechodau'r byd:
p Ei aberth Ef a'i waed sydd fwy
Na phwysau'r rhai'n i gyd.

mf 3 Af ato fel yr wyf
I 'mofyn am iachâd;
A'm holl bechodau addef wnaf
Yn isel wrth ei draed.

mf 4 Mae gobaith f'enaid gwan,
Fy hyder, a fy ffydd,
Yn gwir ymorphwys ar ei waed
Am lwyr lanhâd ryw ddydd.

f 5 Gwnaeth Iesu gymmod llawn,
Dyoddefodd angeu loes:
cr Y clod didrai, y mawl dilyth,
Fo byth am waed y groes.—Amen.

272

AN.

mf 1 MI welaf afon bur
O ddyfroedd dysglaer iawn;
Mae fel y grisial gloew, clir,
Foreuddydd a phrydnawn.

2 Mae hon yn tarddu i maes
O dan orseddfainc Duw;
Hi gàna fel yr eira gwyn
Yr Ethiop dua'i liw.

3 Mae mil o filoedd maith
Ar ben eu taith yn llon
Yn moli'r Oen yng ngwlad yr hedd
Am ryfedd rinwedd hon.

4 Rhed ffrydiau'r afon lân
Ym mlaen trwy'r anial mawr;
'Does dim a ddichon rwystro'i thro
Nes llenwo wyneb llawr.

5 Daw coelgrefyddau'r byd
I lawr ryw bryd o'r bron,
A myrdd i waeddi, "Maddeu'n rhad!"
Trwy ryfedd rinwedd hon.—Amen.

LLANRHAIADR. M.B.D. Wynalaw.



273

W. a G. R.

f 1 MI gana' am waed yr Oen,
Er maint yw'm poen a'm pla ;
Ni cheisia' 'ngwyneb calon ddu,
Ond Iesu, 'r Meddyg da ;
mf Fy mlino ge's gan hon,
A'i throion chwerwon chwith,
f Ond dyma'm sail i am lanhâd—
Y cariad bery byth.

f 2 Byth boed maddeuant rhad,
Trwy werthfawr waed yr Oen,
Yn destyn moliant ym mhob man
I mi sydd dan fy mhoen ;
cr Yr anthem faith ei hyd
Fo i gyd am Galfari,
A'r iachawdwriaeth fawr ei dawn
Ddaeth un prydnawn i ni.

f 3 Dangosir im' bob awr
Gan amgylchiadau'r byd
Mai cyfnewidiol ydyw dyn,
Ond Duw sy'r un o hyd :
Trwy ei gynnorthwy Ef,
Sy'n noddfa gref i'r gwan,
Caf finnau dd'od, 'mhen gronyn bach,
O'r tònau'n iach i'r lan.—Amen.

274

W.

mf 1 BLANT ffyddlon Sïon, dewch,
A llawenhëwch i gyd ;
Ym mlaen â chwi fel milwyr da,
Yn llon er gwaetha'r llid :
O ! hyfryd ddedwydd awr,
Messiah mawr a gaed ;
f Henffych i'r dydd a'r boreu daeth
Yr iachawdwriaeth rad.

p 2 Er ini golli'r hedd
Yn y Baradwys wiw,
A bod yn fyr o gadw'r fraint—
Myn'd dan ddigofaint Duw—
Ni gawsom Had y Wraig
Yn gadarn graig i'n traed ;
f Henffych i'r dydd a'r boreu daeth
Yr iachawdwriaeth rad.

f 3 O llawenhëwch yn llon,
Chwi ddedwydd ffyddlon lu ;
Mae'r oruchafiaeth wedi d'od
Trwy Grist ein priod cu :
Er cyfeiliorni'n hir,
Cawn dd'od i dir ein gwlad ;
ff Henffych i'r dydd a'r boreu daeth
Yr iachawdwriaeth rad.—Amen.

AURELIA. 7.6.7.6. D. Dr. Wesley.





275

W.

f 1 MI ganaf tra bo anadl
O fewn y ffroenau hyn,
Am gariad Iesu'n dyoddef
Ar ben Calfaria fryn ;
Am goron ddrain blethedig,
A'r hoelion garwa'u rhyw,
I gànu'm henaid euog
Fel eira gwyn ei liw.

f 2 Mae yma fôr o gysur
Yn llifo i fy rhan ;
Er bod holl rwydau Satan
Yn erbyn f'enaid gwan,
Bwriadwyd oll eu tori—
A'r bwriad ddaw i ben,
Mor siwr a'r bwriad hwnw
O farw ar y pren.

f 3 Nac ammheu mwy, gredadyn,
Bu'r Iesu yn dy le
Yn talu i lawr dy ddyled
Rhwng daiar fawr a'r ne' :
mf Fe brynodd Ef dy enaid
A'r aberth mwyaf drud ;
A ball Ef un drugaredd
Sydd eisieu yn y byd ?—Amen.

276

W.

f 1 PWY ddyry im' falm o Gilead—
Maddeuant pur a hedd,
Nes gwneyd i'm henaid edrych,
Heb ofni, ar y bedd,
A dianc ar wasgfeuon
Euogrwydd creulawn, cry' ?
p 'Does neb ond Ef a hoeliwyd
Ar fynydd Calfari.

mp 2 Yn angeu'r groes yn unig
Mae'm iachawdwriaeth lawn,
Ac am y groes mi ganaf
O foreu hyd brydnawn :
mf 'Does ond yr aberth hwnw
Wnaed ar Galfaria fryn
f A'm crea oll o newydd,
A'm càna oll yn wyn.

f 3 Am angeu'r groes bydd canu
I dragwyddoldeb maith ;
Ond im' gael teimlo'i rinwedd,
'R wyf bron ar ben fy nhaith :
Fy nefoèdd yw ei deimlo,
A'i deimlo'n uniawn sydd
Yn troi pob rhyw dywyllwch
O'm mewn yn oleu ddydd.—Amen.

277

HEBER.

mf 1 O GREENLAND oer, fynyddig,
O draethau India fawr,
Lle treigla dyfroedd Affrig
Èu tywod aur i lawr ;
O lawer gwlad ddyfradwy,
O lanau'r palmwydd gwyrdd,
Erfyniant ein cynnorthwy
Rhag coelgrefyddau fyrdd.

2 Er bod mewn pell ynysoedd
Awelon pêr yn hael,
A hyfryd eu hardaloedd,
di A dim ond dyn yn wael,
mp Yn ofer gwelir yno
Fendithion Duw ar daen—
p Y bobloedd, mewn dallineb,
Addolant bren a maen.

mf 3 A fydd i ni, oleuwyd
Trwy rad y nefoedd fry,
Nacäu goleuni'r bywyd
I'r sawl mewn t'wyllwch sy ?
ff Achubiaeth, O achubiaeth,
Dadganer dros y llawr,
Nes dysgo pob cenedlaeth
Adnabod Iesu mawr.

f 4 Ewch, wyntoedd, ewch â'r newydd,
A chwithau, foroedd mawr,
Nes bo'i ogonawl gynnydd
Yn llenwi daiar lawr ;
cr A boed i'r Oen fu'n gwaedu
Dros feiau'r byd yn rhad,
ff Mewn mawredd i deyrnasu
Ar bob llwyth, iaith, a gwlad.—
Amen.

PWLLHELI. 7.6.7.6. D. JOHN FRANCIS.



278

J. T.

mf 1 'RWYF yma dan y tònau
Yn gruddfan lawer awr,
Yn ofni colli'm golwg
Ar y Messïah mawr :
cr Ar fyr daw dydd caf nofio
I mewn i'm tawel hedd ;
f Ni cholla'm golwg arno
Yr ochor draw i'r bedd.

mf 2 Fe dderfydd son am ryfel,
Fe dderfydd cario'r groes,
Fe dderfydd dyddiau galar,
Fe dderfydd poenau oes ;
cr Fe dderfydd temtasiynau,
Fe dderfydd dyddiau gwae,
f Fe dderfydd tywallt dagrau,
Daw amser llawenhau.

mp 3 Mae f'enaid yn hiraethu
Am gael fy rhoddi'n rhydd,
A myned at fy mrodyr
Sydd wedi cael y dydd ;
cr Ar ddysglaer wedd fy Mhriod,
Heb drallod, briw, na phoen ;
Lle pery'r gân yn beraidd
di Am rinwedd gwaed yr Oen.—Amen.

279

R. W.

mf 1 CALFARIA gaiff ei gofio
Pan losgo'r ddaiar lawr,
A'r iawn a roes yr Iesu
Gaiff ei ryfeddu'n fawr :
f Rhyw dyrfa lân ddiflino
A seiniant "Iddo Ef,"
Calfaria fydd y testyn
Ar delyn aur y nef.

mf 2 Calfaria gaiff ei gofio
Pan d'wyllo haul y nen,
A threulio maith flynyddau
Y byd a'i oesau i ben ;
f Rhyw lawen haleluia
Am ben Calfaria fydd,
Pryd hyn bydd plant y tònau
Dros byth o'u rhwymau'n rhydd.

mf 3 Calfaria ni anghofir
Tra gwelir ol y gwaed
Yn clirio'r holl gysgodau,
Trwy'r gwyrthiau mawr a gaed :
f Calfaria ydyw'r anthem
Gan luoedd Salem lân,
A phoenau'r gwaith gorphenol
Fydd eu tragwyddol gân.—Amen

PILGRIMS. 11.10.11.10.9.11. H. SMART.



280

E. R.

mf 1 FY enaid clyw, angylaidd dôn yn chwyddo
Dros ddaiar werdd, a gwyneb maith y don ;
O ! 'r melus wir mae yn ei beraidd gludo
Am fywyd gwell ar ol y fuchedd hon :
p Engyl yr Iesu, (*cr*) engyl y wawr,
f Adref sy'n galw (*p*) llesg bererinion llawr.

mf 2 Awn, awn ym mlaen, parhau y maent i ganu,
p "Tyr'd, enaid llwfr, yr Iesu'n galw sydd ;"
cr Trwy ei Efengyl, adref cais ein denu
O wlad y nos i wlad yr hanner dydd :
p Engyl yr Iesu, (*cr*) engyl y wawr,
f Adref sy'n galw (*p*) llesg bererinion llawr.

p 3 Draw, draw ym mhell, fel clychau'r hwyr yn seinio,
Llais Iesu adsain o gylch môr a thir :
Eneidiau llwythog wrth y miloedd eto,
cr Hoff Fugail, ddychwel atat cyn bo hir :
p Engyl yr Iesu, (*cr*) engyl y wawr,
f Adref sy'n galw (*p*) llesg bererinion llawr.

mf 4 Ceir gorphwys, ceir, fe dderfydd blinder bywyd,
Teg wawria'r dydd, ä heibio'r hirnos ddu ;
cr Pob dyrys daith derfyna 'nghroesaw hyfryd
f Y nef o'r diwedd—cartre'r galon gu :
p Engyl yr Iesu, (*cr*) engyl y wawr,
f Adref sy'n galw llesg bererinion llawr.—Amen.

LUX BENIGNA. 10.4.10.4.10.10. J. B. Dykes.



SANDON. 10.4.10.4.10.10. C. H. Purday.



281

T. B. Ll. B.

mf 1 TYR'D, Oleu gwyn, trwy gylch tywyllwch du.
Bydd o fy mlaen ;
p Mae'n nos, a minnau 'mhell o'm cartref cu,
Bydd o fy mlaen :
cr Goleua i'm traed, ni cheisiaf weled rhyw
Bell draw o'm blaen—(*p*) un cam, a digon yw.

mf 2 Nid dyma gynt fy nheimlad na fy nghri,
Bydd o fy mlaen ;
Yn ffyrdd fy nghalon rhodiwn, (*p*) ond bydd Di
Yn awr o'm blaen :
cr Er gwaethaf ofn, mwynhawn wag oleu'r byd
A'i falchder ffol ; (*p*) O maddeu'm beiau i gyd.

Cyffredinol.

mf 3 Dy nerth a'm daliodd c'yd, digonol yw,
I'm harwain dos
Dros waun a chors, llifeiriant, craig, a rhiw,
p Nes cilia'r nos :
cr Mae'n gwawrio, gwena draw yn siriol iach
Rai garwn gynt, (*p*) ond gollais ennyd bach.—Amen.

ST. OSWALD. 8.7.8.7. J. B. Dykes.



282

E. R.

f 1 TRWY nos galar ac ammheuon
Teithia pererinion lu,
Ant dan ganu cerddi Sïon
Tua gwlad addewid fry.

mf 2 Trwy'r tywyllwch gwyn ddysgleirio
Mae'r Arweiniol Oleu draw ;
Gwasga brawd law brawd gan deithio
Drwy y nos heb ofn na braw.

cr 3 Un yw goleu presennoldeb
Duw i'r gwaredigol lu,
Yn dysgleirio ar eu gwyneb,
A gwasgaru dychryn du.

f 4 Un yw amcan taith yr anial,
Bywiol ffydd un hefyd yw ;
Un y taer ddysgwyliad dyfal,
Un y gobaith ddyry Duw.

ff 5 Un yw'r anthem gân y miloedd
O un galon ac un llef ;
di Un yw'r ymdrech a'r peryglon,
Un yr ymdaith tua'r nef.

f 6 Un yw'r llawen orfoleddu
Ar y lan tu draw i'r bedd ;
Lle teyrnasa'r Un anfeidrol
Dad, mewn cariad byth a hedd.

mf 7 Awn ym mlaen, hoff bererinion,
Awn ym mlaen â'r groes o'n tu,
Drwy y gwarth a'r cur nes caffom
p Orphwys dan ei chysgod cu.

f 8 Buan daw yr awr i ddeffro,
Buan egyr pyrth y bedd ;
ff Yna gwasgar y cysgodau,
Derfydd nos, daw boreu hedd.—Amen.

BELMONT. M. C. S. Webbe.



283

W.

mf 1 'RWY'N nofio tua chartre'm Ner,
Rhwng tònau maith 'rwy'n byw,
Yn ddyn heb neges dan y ser
Ond 'mofyn am ei Dduw.

p 2 Mae'r gwyntoedd yn fy nghuro'n ol,
A mi nid wyf ond gwan;
O cymmer, Iesu, fi'n dy gôl,
Yn fuan dwg fi i'r lan.

p 3 Na'd fi ar aswy nac ar dde
I gilio o dy flaen,
cr Ond dilyn llwybrau Brenin ne'
Trwy ganol dwr a thân.

mf 4 O gwna i'm calon redeg trwy
Oll atat Ti dy Hun;
Na bo difyrwch genyf mwy
Mewn daiar, da, na dyn.

mf 5 A phan bo'n curo f'enaid gwan
Elynion rif y ser,
cr Dyrchafa'm hysbryd llesg i'r lan
I fynwes bur fy Ner.—Amen.

284

W.

mf 1 PLANT ydym eto dan ein hoed
Yn dysgwyl ein hystâd;
Mae'r etifeddiaeth ini'n d'od
Wrth destament ein Tad.

2 Na ddigalonwn er ein bod
Yn awr mewn anial wlad;
Mae'r etifeddiaeth ini'n d'od
Wrth destament ein Tad.

3 Gorthrymder geir o dan y rhod,
Ond byr fydd ei barhâd;
Mae'r etifeddiaeth ini'n d'od
Wrth destament ein Tad.—Amen

ST. PETER. M. C. A. R. Reinagle.



ST. STEPHEN. M. C. W. Jones.



285

D. M.

mf 1 MAE brodyr imi aeth ym mlaen
Yn holliach a chytûn;
cr Deng mil o filoedd yw eu cân,
Er hyn nid yw ond un.

mf 2 Mae pawb o'r brodyr yno'n un,
Heb neb yn tynu'n groes,
Yn moli'r Duwdod yn y Dyn,
p A chofio angeu loes.

mf 3 Ni theimlir yno unrhyw boen,
Na chwyno gan un clwy',
cr Ond pawb mewn hwyl yn moli'r Oen
I dragwyddoldeb mwy.

mf 4 Daw'r holl dduwiolion yno 'nghyd,
Yn dyrfa hardd heb ri',
f A'u holl gadwynau'n chwilfriw mân,
A'u cân am Galfari.—Amen.

286

W.

p 1 PERERIN wyf mewn anial dir,
Yn crwydro yma a thraw,
cr Ac yn rhyw ddysgwyl bob yr awr
Fod tŷ fy Nhad gerllaw.

mf 2 'Rwy'n edrych dros y bryniau pell
Am danat, Iesu mawr;
p O tyr'd f'Anwylyd, mae'n hwyrhau,
A'm haul bron myn'd i lawr.

mf 3 Tyr'd, Ysbryd Sanctaidd, ledia'r ffordd,
Bydd imi'n niwl a thân;
Ni cherdda'i'n gywir hanner cam
Oni byddi o fy mlaen.

p 4 Mi wyraf weithiau ar y dde,
Ac ar yr aswy law;
cr Am hyny, arwain, gam a cham,
Fi i'r Baradwys draw.

mf 5 Mae hiraeth arnaf am y wlad
Lle mae torfëydd diri'
f Yn canu'r anthem i barhau
Am angeu Calfari.—Amen.

SAWLEY. M. C.



287 *E. R.*

f 1 O DDUW, ein cymhorth ym mhob oes,
A'n gobaith tra fo byd ;
Ein cysgod dan bob tymmestl groes,
A'n bythol noddfa glyd.

mp 2 Dan gysgod dy orseddfa bu
Preswylfa'th saint mewn hedd ;
f Digonol yw dy fraich o'n tu,
A golwg ar dy wedd.

mf 3 Cyn llunio ffurf un hanfod byw,
Na gosod seiliau byd,
f O dragwyddoldeb Ti wyt Dduw,
Parhëi yr un o hyd.

p 4 Mil o flynyddoedd yn dy ŵydd
Fel doe yn cilio sydd,
Neu foreu wyliadwriaeth fer
Yn darfod gyda'r dydd.

pp 5 Dwg amser fel llifeiriant cryf
O'i flaen holl oesau llawr ;
Yn anghof ânt, fel breuddwyd brau,
Ddiflana gyda'r wawr.

ff 6 O Dduw, ein cymhorth ym mhob oes,
A'n gobaith tra bo byd,
Bydd Geidwad ini dan bob croes,
A'n bythol noddfa glyd.—Amen.

REALMS OF GLORY. 8.7.8.7.4.7. Dr. John Naylor.





NEWBURY. 8.7.8.7.4.7. C. W. Gluck, 1714—1787.
Cyng. gan J. H. Roberts, Mus.Bac.



288

W.

mf 1 MAE fy enaid yn ehedeg
Ar adenydd ysgafn ffydd,
Ac yn syllu trwy'r eangder
Uchel, maith, at bethau fydd ;
cr 'Nawr mi welaf
Wlad o hedd yn agosäu.

mp 2 Rhwng cymylau duon, tywyll,
Gwelaf draw yr hyfryd wlad ;
Mae fy ffydd yn llefain allan,
Dacw o'r diwedd dŷ fy Nhad ;
mf Digon, digon !
Mi anghofia'm gwae a'm poen.

mf 3 O gwasgerwch, dew gymylau,
I'r addewid rhoddwch le ;
Nid i'r ddaiar hon y'm ganwyd,
Tragwyddoldeb yw fy lle :
'Nol tywyllwch,
f Cod o'r diwedd foreu wawr.—Amen.

289

W.

mp 1 ARGLWYDD, arwain trwy'r anialwch
Fi bererin gwael ei wedd,
Nad oes ynof nerth na bywyd,
Fel yn gorwedd yn y bedd ;
cr Hollalluog
Ydyw'r Un a'm cwyd i'r lan.

mf 2 Colofn dân rho'r nos i'm harwain,
A rho'r golofn niwl y dydd ;
Dal fi pan f'wy'n teithio'r manau
Geirwon yn fy ffordd y sydd ;
cr Rho im' fanna,
Fel na bo im' lwfrhau.

mf 3 Agor y ffynnonau melus
Sydd yn tarddu o'r Graig i maes ;
'Rhyd yr anial mawr canlyned
Afon iachawdwriaeth gras ;
cr Rho im' hyny,
Dim i mi ond dy fwynhau.

mp 4 Pan bwy'n myned trwy'r Iorddonen,
Angeu creulon yn ei rym,
Aethost trwyddi gynt dy Hunan,
cr Pam yr ofnaf bellach ddim ?
f Buddugoliaeth,
Gwna im' waeddi yn y llif.—Amen.

NEARER HOME.

M.B.D. J. Woodbury.



HOPE.

M.B.D. T. Price.



290

W.

mf 1 MAE'R manna wedi ei gael
Mewn dyrys anial dir ;
Ymborthi gawn, ond myn'd ym mlaen,
Ar ffrwythau'r Ganaan bur :
Mae yno sypiau grawn,
Yn llawn o fewn y lle ;
O, Ffrynd troseddwyr, moes dy law,
A thyn fi draw i dre'.

2 Y manna pur ar g'oedd—
Dyferion nefoedd fry,
Sydd yn dyhidlo, foreu a nawn,
Yn beraidd iawn i ni :
Y diliau hyfryd hyn,
Gawn brofi yn y man ;
Afonydd gloew felus win,
O nefol rin i'n rhan.

3 Fe nertha hyn ein traed
Fyn'd tua gwlad ein Duw,
Na bo'r gelynion i'n gwanhau,
Na'n llwfrhau tra'n fyw ;
Ond hwylio yn ein hynt,
Gyda'r deheuwynt clir ;
A chyn gostynga haul brydnawn,
Meddiannu gawn y tir.—Amen.

291

W.

p 1 FY ngweddi, dos i'r nef,
Yn union at fy Nuw,
mf A dywed wrtho Ef yn daer,
p "Atolwg, Arglwydd, clyw !
Yn ol dy addewid wych
Dwg fi i'th nefoedd wen ;
Yn Salem fry par'tô fy lle,
f Mewn llys o fewn i'r llen."

mf 2 Mae'm brodyr uwch y nen
Yn canu ar ben eu taith ;
A minnau oedais lawer awr
Ar siwrnai fawr a maith ;
cr Ond bellach tyn fi'n ddwys,
Ar Grist dod bwys fy mhen ;
f Yn Salem fry par'tô fy lle,
Mewn llys o fewn i'r llen.

mf 3 'Rwy'n gwel'd yr oriau'n hir
I fod o dir fy ngwlad ;
cr Bryd deuaf at fy mrodyr fry,
Sy'n canu'n nhŷ fy Nhad ?
Gael gorphen ar fy ngwaith,
A'm dyrys daith is nen ;
f Yn Salem fry par'tô fy lle,
Mewn llys o fewn i'r llen.—Amen.

Y BUGAIL DA. 5.5.9.



292

H. a N.

mf 1 MEWN 'stormydd diri',
Mor felus i ni
p Yw cofio mai'r Iesu yw'n Bugail.

p 2 Pa fugail mor fwyn,
Mor hoffus o'i ŵyn,
A defaid ei braidd, ag yw'r Iesu ?

mp 3 Gofala Efe
Na chwyth o un lle
Un awel wenwynig i'w drygu.

mf 4 Mae gwyntoedd y byd,
A'i 'stormydd i gyd,
Oll wedi'u tymmeru gan Iesu.

mf 5 Fe gymmer yr ŵyn
I'w fynwes i'w dwyn,
Ac araf arweinia'r mamogiaid.

mf 6 Nid oes unrhyw flaidd
Yn unman a faidd
Niweidio yr oenig distadlaf.

f 7 Mewn 'stormydd diri',
Mor felus i ni
p Yw cofio mai'r Iesu yw'n Bugail.—Amen

WYDDGRUG. 8.7.8.7.6.7. J. A. Lloyd.



293

D. J.

f 1 WELE, cawsom y Messïah,
Cyfaill gwerthfawroca' erioed ;
Darfu Moses a'r prophwydi
Ddweyd am dano cyn ei dd'od :
Iesu yw, gwir Fab Duw,
Ffrynd a Phrynwr dynol ryw !

p 2 Hwn yw'r Oen ar ben Calfaria
Aeth i'r lladdfa yn ein lle ;
Swm ein dyled fawr fe'i talodd,
Ac a groesodd filiau'r ne' :
mf Trwy ei waed ini caed
Bythol heddwch a rhyddhâd.

mf 3 Dyma Gyfaill haedda'i garu,
A'i glodfori'n fwy nag un,
Am brynu'n bywyd, talu'n dyled,
A'n glanhau â'i waed ei hun :
f Frodyr, dewch, llawenhewch,
Diolchwch iddo, byth na thewch.—
Amen.

294

T. L.

mf 1 MAWR oedd Iesu'n nhragwyddoldeb,
Mawr yn gwisgo natur dyn,
Mawr yn marw ar Galfaria,
Mawr yn maeddu angeu'i hun ;
f Hynod fawr yw E'n awr,
Brenin nef a daiar lawr.

mf 2 Mawr yw'r Iesu yn ei berson,
Mawr fel Duw, a mawr fel dyn,
Mawr ei degwch a'i hawddgarwch,
Gwyn a gwridog, hardd ei lun :
Mawr yw Ef, yn y nef,
Ar ei orsedd gadarn gref.

mf 3 Mawr yw'r Iesu yn ei swyddau, E. R.
Mawr fel Archoffeiriad glân,
Mawr fel Prophwyd, mawr fel Brenin,
Mawr fel Bugail o fy mlaen :
cr Mawr oedd gwaith ingol daith,
f Lleinw'i glod y nefoedd faith.

f 4 Mawr yw'r Iesu, medd pob angel,
A phob sant trwy'r nefoedd wiw ;
Mawr, medd calon pob credadyn
Sy ar y ddaiar lawr yn byw :
cr Mawr ei fri—unwn ni
I'w fawrhau am Galfari.—Amen.

DOLGELLY. 6.6.6.6.8.8. Alaw Gymreig. O'r Llyfr Tonau Cynulleidfaol.



295

D. C.

mf 1 I FYNY at fy Nuw,
Fy enaid, cod dy lef,
Heibio'r angylaidd lu,
I eithaf nef y nef:
Gostwng dy glust o'r bryniau fry—
p O Arglwydd grasol, cofia fi.

mf 2 'Rwyf yma'n wael fy ngwedd,
Yn euog ac yn wan;
Gelynion creulawn sy
O'm hamgylch ym mhob man;
Bydd imi'n blaid i goncro'r llu—
p O Arglwydd grasol, cofia fi.

f 3 Yng ngwyneb uffern ddu,
Ac angeu mawr ei rym,
Rho imi nerth wrth raid—
Bydd Di yn gyfaill im';
di Yn nyfroedd yr Iorddonen ddu,
p O Arglwydd grasol, cofia fi.—Amen.

296

AN.

mf 1 Y NEFOEDD uwch fy mhen
A dduodd fel y nos,
Heb haul na lleuad wen,
Nac unrhyw seren dlos;
f A llym gyflawnder oddi fry
Yn saethu mellt o'r cwmwl du.

mf 2 Er nad yw'm cnawd ond gwellt,
Na'm hesgyrn ddim ond clai,
cr Mi ganaf yn y mellt,
Maddeuodd Duw fy mai;
f Mae Craig yr Oesoedd dan fy nhraed,
A'r mellt yn diffodd yn y gwaed.—Amen.

CHRISTCHURCH. 6.6.6.6.8.8. CHARLES STEGGALL, MUS.D.



ALUN. 6.6.6.6.8.8. J. A. LLOYD, 1856.



297

W.

f 1 MAE lluoedd maith ym mlaen,
'Nawr o'u carcharau'n rhydd,
A gorfoleddu maent,
Oll wedi cario'r dydd :
cr I'r lan, i'r lan diangasant hwy,
Yn ol eu traed y sangwn mwy.

mf 2 Cawn lanio i mewn i fysg
Y rhai y clywsom son
Gànasant bawb ei wisg
Yn nwyfol waed yr Oen ;
f A gwledda'n llon, heb ddiwedd **mwy,**
Yn bur yn eu cwmpeini hwy.

mf 3 Cawn wel'd yr addfwyn Oen,
Fu farw ar y bryn,
Yn medi ffrwyth ei boen
Yn hyfryd y pryd hyn :
f Bydd myrdd heb rif yn canu 'nghyd
I'r Hwn fu farw dros y byd.

mf 4 Fe genir coron ddrain
p Wrth ganu gwaed y groes ;
Fe gofir picell fain
Wrth gofio angeu loes ;
f Fe seinia'r holl dorfëydd yn un
Bob rhan o boenau Mab y Dyn.—Amen.

MONTGOMERY. 11au. STANLEY.



298 W.

mf 1 MAE'M hymdaith dros fryniau i'r gwledydd tu draw,
Mae'n dianc o'm golwg bob ardal ger llaw ;
'Rwy'n gwel'd trwy addewid, lawn sicr a drud,
Y tiroedd bwrcaswyd cyn seiliad y byd.

2 Os melus oedd dechreu, mwy melus yr hedd
Pa nesaf cyrhaeddom i ardal y bedd ;
Mae angeu, mae pechod, o'u bron yn gwanhau,
I diroedd y bywyd â ni'n agosäu.

3 Mae enw f'Anwylyd mor anwyl, mor fawr,
Hyfrydwch y nefoedd, hyfrydwch y llawr ;
Ni dderfydd ei garu, ni dderfydd ei glod,
Pan na byddo seren yn uchder y rhod.—Amen.

Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb.

MOAB. 6.5.6.5.6.6.6.5. Ieuan Gwyllt, 1869.



299

E. E.

p 1 AR lan Iorddonen ddofn
'Rwy'n oedi'n nychlyd,
Mewn blys myn'd trwy, ac ofn
Ei 'stormydd enbyd:
mf O na bai modd i mi
Ysgoi ei hymchwydd hi,
f A hedfan uwch ei lli'
I'r Ganaan hyfryd.

p 2 Wrth gofio grym y dwr,
A'i thònog gefnlli',
A'r mynych rymus wr
A suddodd ynddi,
Mae braw ar f'enaid gwan
Mai boddi fydd fy rhan
cr Cyn cyrhaedd tawel lan
p Bro y goleuni.

mf 3 Ond pan y gwelwyf draw,
Ar fynydd Sïon,
Yn iach, heb boen na braw,
Fy hen gyfeillion,
cr Paham yr ofnaf mwy?
Y Duw a'u daliodd hwy
f A'm dyga innau drwy
Ei dyfroedd dyfnion.—Amen.

BURFORD. M. C.



300

E. E.

mf 1 'RWYN sefyll ar dymmestlog lan
Yr hen Iorddonen ddu,
Gan syllu'n ddwys, mewn hiraeth clau,
Ar fryniau'r Ganaan fry.

mp 2 'Rwy'n tybio gwelaf eil-liw gwan
O'i glanau bythol wyrdd,
Lle'r hongia sypiau grawnwin pur
Ar goed anfarwol fyrdd.

p 3 Ni theimlir yno chwerw loes,
A marw ni bydd mwy :
pp Awelon peraidd, balmaidd, byw,
cr Sy'n treiddio'r ardal trwy.

mp 4 Ac yno y mwynhëir, heb nos,
Un anfachludol ddydd,
mf Heb haul na lloer, ond Duw ei Hun
Ei dysglaer Haul a fydd.

*f.*5 O ! ardal hyfryd, lle ni ddaw
Un gofid byth nac aeth ;
cr Lle ffrydia perffaith wynfyd pur
Fel llif o fêl a llaeth.—Amen.

SAXONY. M. S. German.



301

E. P.

mp 1 O DANGOS im', fy Arglwydd Ner
Pa amser y diweddaf
Rifedi'm dyddiau, a pha hyd
O fewn y byd y byddaf.

mf 2 Gwnaethost fy nyddiau fel lled llaw,
I'm bywyd daw byr ddiwedd ;
Diau yn d' olwg Di, O Dduw,
Fod pob dyn byw yn wagedd.

mf 3 Ymdeithydd wyf, a'm heinioes sydd
O ddydd i ddydd yn darfod :
p O, paid â mi, gad im' gryfhau
Cyn im' nesáu i'r beddrod.—Amen.

Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb.

ST. LUKE. M. H. JOHANN FRIEDRICH LAMPE, 1746.



BRYNTEG. M. H. J. A. LLOYD.



302

AN.

mf 1 MAE byd o sylwedd i barhau,
Ac oriau sobor yn nesäu,
mp Pan ddelo Angeu, brenin braw,
I roddi arnaf bwys ei law.

mp 2 Pan ddelo'r oriau hyn i ben,
I adael pobpeth is y nen ;
Pan gefno pob rhyw gyfaill cu,
p Iesu, pryd hyny cofia fi.

mf 3 Os yn y dyffryn tywyll, du,
Caf wedd dy wyneb, Iesu cu,
Tawela dychryniadau'r bedd,
Try angeu imi'n felus hedd.

f 4 I blith y dorf ddysgleiriaf draw,
O dwg fy enaid ddydd a ddaw
I uno gyda'r lluoedd llon
Mewn pêr ganiadau ger dy fron.—Amen.

303

W.

mf 1 BETH dâl im' roi fy serch a'm bryd
Ar ddim a welais yn y byd ?
cr Da, daiar, dyn, pa gysur yw
p Y dydd y dêl digofaint Duw ?

Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb.

mp 2 Pan bwy'n wynebu angeu du,
Bydd pawb yn cefnu arnaf fi ;
Pryd hyn pwy gynnal f'enaid gwan
I dd'od o'r anial fyd i'r lan ?

mp 3 I'r dywell wlad pan fyddwy'n myn'd,
Yr Iesu fydd fy ffyddlon Ffrynd :
cr Pa frawd, pa chwaer, pa gyfaill gwell
A'm hebrwng i'r ardaloedd pell ?

p 4 Pam carai'r byd a'i wagedd mwy ?
Hyd angeu'n brin y deuant hwy :
mf Gwell imi garu'r Ffrynd a ddaw
Yn angeu i 'maflyd yn fy llaw.—Amen.

CALVARY. 8.7.8.7.4.7. STANLEY.



304

R. E.

mf 1 COFIWN beunydd yn ein bywyd—
Tragwyddoldeb maith sy'n ol ;
Dwys sefyllfa ddigyfnewid,
Heb un arall ar ei hol :
cr Cyn myn'd yno,
O am iachawdwriaeth rad.

mf 2 Tragwyddoldeb sy'n cloi i fyny
Uffern dan arswydus len ;
Tragwyddoldeb sy'n coroni
p Gwynfyd pur y nefoedd wen :
f Tragwyddoldeb
Fyddo'n wastad yn fy mryd.

mf 3 Tragwyddoldeb sydd eangfor,
Heb un terfyn iddo'n bod ;
Nid oes modd lleihau ei drysor—
Oesau newydd byth yn d'od :
p Iesu grasol,
Bydd i mi'n dragwyddol ran.—Amen.

305

W.

mf 1 WELE'n dyfod ar y cwmwl,
'R Hwn fu farw ar y pren ;
Myrdd myrddiynau o angylion
Sy'n amgylchu'i orsedd wen :
f Haleluia !
Iesu a deyrnasa byth.

mf 2 Dacw'r Barnwr yn ei gerbyd,
Udgyrn fyrdd yn canu o'i flaen ;
Cydymgasgla'r meirw cysglyd
Oll ger bron ei orsedd lân :
f Haleluia !
Dyma ddydd gogoniant Crist.

f 3 Gorfoledda y ffyddloniaid,
A'u llawenydd fydd yn llawn ;
Dyma'n Prynwr mawr bendigaid,
A'u Gwaredwr anwyl iawn :
ff Haleluia !
Byddant mwyach gydag Ef.—Amen.

Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb.

GEIRIONYDD. 6.6.8.6.8.6.8.8.6. D. Lewis.



306

E. E.

mp 1 O DDUW, rho im' dy hedd,
A gǫlwg ar dy wedd,
A maddeu'n awr fy meiau mawr,
di Cyn 'r elwy' lawr i'r bedd :
mf Ond im' gael hyn, nid ofna'i'r glyn,
Na cholyn angeu'n hwy ;
f Dof yn dy law i'r ochr draw,
Heb friw na braw, ryw ddydd a ddaw,
Uwch law pob loes a chlwy'.

mp 2 Mae'm rhedfa is y rhod
Yn nesu at y nod—
cr I'm hymdaith hon, is awyr gron,
di Mae diwedd bron â d'od :
Fy mhabell frau sydd yn llesgäu,
Ac yn gwanhau o hyd ;
Ac yn y man daw'r amser pan
Bydd f'enaid gwan yn fywiol ran
Mewn annherfynol fyd.—Amen.

Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb.

ANDALUSIA. 6.6.8.6.8.6.8.8.6. W. Roberts.


mp 1. O Dduw! O Dduw! O Dduw, rho im' dy hedd, A go - lwg ar dy wedd,
A mad l - eu'n awr fy mei - au..... mawr, Cyn 'r el - wy' lawr i'r bedd, Cyn
dim.
'r el - wy' lawr i'r bedd. mf Ond im'..... gael hyn..... nid ofn - a'i'r
Ond im' gael hyn nid
glyn, Na chol - yn ang - eu'n hwy; Dof yn dy law i'r o - chr draw,
f
ofn - ai'r glyn
Heb friw na braw, rhyw ddydd a ddaw, Uwch law, uwch law.... pob loes a chlwy'.
Yr ail bennill.
2. Mae'm rhed-fa, Mae'm rhed-fa, Mae'm
A . men.

Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb.

CAERLLYNGOED. 7.6.7.6. D. S. Lloyd.



BABEL. 7.6.7.6. D. Tref. gan J. H. Roberts, Mus.Bac., Cantab.



307

M. R.

mp 1 Y MADAW wnaf â'r babell
'Rwy'n trigo ynddi'n awr ;
Colofnau'r tŷ ddattodir—
Fe'u cwympir oll i lawr ;
cr A pob gwahanglwyf ymaith,
Glân fuddugoliaeth mwy ;
f 'Rwy'n canu wrth gofio'r boreu
Na welir arnaf glwy'.

mf 2 Ar fyr caf rodio llwybr
Na ddeuaf byth yn ol ;
mp Mi rof ffarwel tragwyddol
I'r byd a'i lwybrau ffol ;
cr Dedwyddwch maith diddarfod
Sydd uchod i barhau :
f O f'enaid, dechreu ganu—
Mae'r amser yn nesäu.

mp 3 Fe dderfydd imi bechu—
Iachëir yn lân fy nghlwy' ;
cr Ond byth ni dderfydd canu
Am faddeu pechod mwy :
f Caf gorff yr hen farwolaeth
I lawr—ni chyfyd byth,
A gwledd ar fynydd Sïon,
Dragwyddol, bur, ddilyth.—Amen.

308

AN.

mf 1 Y GWR fu ar Galfaria
A welir, ddydd a ddaw,
Yn eistedd ar ei orsedd
A'r glorian yn ei law ;
A phawb a gesglir ato
I'w pwyso ger ei fron :
cr O f'enaid, cais dduwioldeb
A dry y glorian hon.

mf 2 Yn amser y cynauaf,
Ar ddiwedd hyn o fyd,
Fe gesglir yn ysgubau
Yr efrau oll i gyd ;
A bwrir hwy'n ddirmygus
I ganol ffwrn o dân ;
A'r gwenith i'r ysgubor,
Oll wedi eu nithio'n lân.—Amen.

309

AN

mf 1 BYDD myrdd o ryfeddodau,
Ar doriad boreu wawr,
Pan ddelo plant y tònau
Yn iach o'r cystudd mawr ;
f Oll yn eu gynau gwynion,
Ac ar eu newydd wedd,
Yn debyg oll i'w Harglwydd
Yn d'od i'r lan o'r bedd.

mf 2 Daw dydd o brysur bwyso
Ar grefydd cyn bo hir ;
Ceir gwel'd pwy sydd â sylwedd,
A phwy sydd heb y gwir :
cr O Dduw, rho im' adnabod
Ar f' ysbryd ol dy law,
f Can's dyna'r unig ddelw
Arddelir ddydd a ddaw.—Amen.

RHYDDID. 7.6.7.6. D.



310

GR.

mf 1 AM Graig i adeiladu,
Fy enaid, chwilia'n ddwys,
Y sylfaen fawr safadwy
I roddi arni'th bwys ;
cr Bydd melus yn yr afon
Gael Craig a'm deil i'r lan,
Pan fyddo pob rhyw 'stormydd
Yn curo f'enaid gwan.

p 2 Y Graig yw'm noddfa dawel
Dymunwn ganmol hon,
Pan byddwy'n rhoddi ffarwel
Am byth i'r ddaiar gron ;
cr O fewn y Graig nid ofnaf
Elynion gwaetha'u gwedd,
f O fewn y Graig mi ganaf
Yng ngwyneb pyrth y bedd.—Amen.

Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb.

SOUTHWELL. M. B.



311

W. E.

p 1 AI marw raid i mi,
A rhoi'r corff hwn i lawr?
cr A raid i'm henaid ofnus ffoi
p I dragwyddoldeb mawr?

p 2 Beth ddaw o honof fi
'Nol gadael daiar lawr?
cr Tragwyddol wae neu hedd dilyth
A fydd fy rhan ryw awr!

mf 3 Deffroir fy nghysglyd lwch
Pan seinio udgorn Duw;
Y byd ar dân a'r nef yn ffoi
Rhag Barnwr meirw a byw.

p 4 Mewn galar ai mewn hedd
Caf godi o'r bedd i'r lan?
Pa un mewn gwynfyd ai mewn poen
Bydd fy nhragwyddol ran?

mf 5 Ni chrewyd f'enaid drud
I fyn'd i'r bythol boen,
Can's dros bechodau'r euog fyd
p Bu farw'r addfwyn Oen.

mp 6 O am gael treulio f'oes
Er clod i'm Harglwydd mawr;
mf A rhodio'n isel gyda Duw
Tra byddwyf ar y llawr.—Amen.

ST. NICHOLAS. 6.4.6.4.6.6.6.4.



312

AN.

mf 1 NA wyled teulu Duw
Ar ol y saint,
Maent gyda'r Iesu'n fyw,
Mawr yw eu braint;

f 'Does yno neb yn glaf,
Mae yno'n haf o hyd,
Yng nghwmni'r addfwyn Oen,
O boen y byd.

Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb.

mf 2 Tu draw i'r afon ddu
Mae tŷ fy Nhad,
'Nol croesi at y lan
Mae'r Ganaan wlad ;
Er garwed ydyw'r glyn,
Mae yn y dyffryn du
Oleuni dysglaer mawr
Yn awr i ni.

mf 3 Pan genir udgorn Duw
Gan angel nef,
Y meirw oll ddeffröir
Gan nerth y llef :
f Ceir concwest ar y bedd,
Ar greulawn wedd a grym,
A bloeddio, Angeu, p'le
Mae'th golyn llym ?—Amen.

CAERNARFON 8au. 8llin. DR. PARRY.



Hefyd ST. ANDREW, 258.

313

AN.

mf 1 ADENYDD colomen, *pe cawn*,
Mi grwydrwn, *mi hedwn* ym mhell ;
I gopa bryn Nebo *mi awn*
I weled *ardaloedd* sydd well ;
A'm golwg tu arall i'r dwr,
Mi dreuliwn fy nyddiau i ben,
f Dan ganu wrth gofio *y Gwr*
p Fu farw *dan hoelion* ar bren.

mf 2 'Rwy'n nesu at ochr *y dwr*,
Bron gadael *yr anial* yn lân ;
Fy ngobaith yw concwest *y Gwr*
A rydiodd *yr afon* o'm blaen :
Fe dreiglwyd y maen oedd dan sel,
Cyfododd y Cadarn i'r lan ;
f Fe'i caraf, a deued *a ddêl ;*
Mae'n Gyfaill *i'r truan* a'r gwan.—Amen.

314

T. J.

mf 1 MI wn fod fy Mhrynwr *yn fyw*,
A'm prynodd *â thaliad* mor ddrud ;
Fe saif ar y ddaiar, *gwir yw*,
Yn niwedd *holl oesoedd* y byd :
cr Er ised, er gwaeled fy ngwedd,
Teyrnasu mae'm Prynwr a'm Brawd ;
Ac er fy malurio'n *y bedd*,
f Ca'i weled *Ef eto'n* fy nghnawd.

mf 2 Boed arno fy ngolwg *bob dydd*,
A'i aberth *anfeidrol* ei werth ;
Gwir Awdwr, Perffeithiwr *fy ffydd*,
Fe'm cynnal *ar lwybrau* blin serth :
cr Fy enaid, ymestyn ym mlaen,
Na orphwys nes cyrhaedd y tir—
f Y Ganaan dragwyddol *ei chân*,
Y Sabbath *hyfrydol* yn wir.—Amen.

Y geiriau mewn llythyrenau *Italaidd* i'w hail-adrodd.

Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb.

STUTGARDT. 8.7.8.7.



315

E. E.

mp 1 MAE'M cyfeillion adre'n myned
O fy mlaen o un i un,
Gan fy ngadael yn amddifad,
Fel pererin wrtho'i hun.

cr 2 Wedi bod yn hir gyd-deithio
Yn yr anial dyrys, maith,
Gormod iddynt oedd fy ngado
Bron ar derfyn eitha'r daith.

mf 3 Wedi dianc uwch gelynion,
Croesau a gofidiau fyrdd,
Maent hwy'n awr yn gwisgo'r goron,
Ac yn cario'r palmwydd gwyrdd.

cr 4 Byddaf yn dych'mygu weithiau
Fry eu gwel'd yn Salem lân,
Ac y clywaf ar rai prydiau
Adsain odlau pêr eu cân.

f 5 Ond mae'r amser bron â dyfod
Y caf uno gyda hwy
Yn un peraidd gôr diddarfod
Uwchlaw ofn ymadael mwy.—Amen.

DYFRDWY. M.S. JOHN JEFFREYS.



316

W.

p 1 OS yw'n gofidiau yn y byd
I bara hyd y diwedd,
mf O fewn y nef fe dderfydd hyn,
Troir tristwch yn orfoledd.

mf 2 Pa fwyaf gawn o wres y dydd,
Mwy yno fydd ein moliant;
Cawn, yn lle'n cystudd byr a'n crwys,
Dragwyddol bwys gogoniant.

mf 3 Nid oedwn mwy nes dringo'n llawn
I'r man y cawn breswylio:
I'r lan i ben y tawel fryn
Mae miloedd yn dysgleirio.

p 4 F'enaid blinedig yn eu plith
Yn dawel byth gaiff orphwys;
mf 'Nol teithio 'ngwres yr haul a'r dydd,
Mor felus fydd Paradwys.

mf 5 Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron
Holl chwerwon ddyfroedd Mara;
Pryd hyn y try pob chwerw nant
Yn win i blant Jehofah.—Amen.

Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb.

317

AN.

mf 1 OS caf gysuron ar fy nhaith,
Fy melus waith fydd moli;
Fy noniau oll, o galon rwydd,
I'm Harglwydd gânt eu rhoddi.

mp 2 Ond os caf gystudd drwy fy oes,
A dwyn fy nghroes mewn galar,
Heb ddim ond gofid ar bob cam,
Gwna fi yn amyneddgar.

p 3 Os fel blodeuyn gwywo wnaf
Yn nechreu haf fy mywyd,
Cymhwysa f'enaid trwy dy ras
I deyrnas bythol wynfyd.

mf 4 Os hir fy nhaith, rho im' dy hedd,
Nes myn'd i'r bedd i orphwys;
f Ac yna seiniaf gyda'th blant
Dy foliant ym Mharadwys.—**Amen.**

Hefyd y canlynol:—

Byr yma yw ein bywyd (**322**).
Cofia, f' enaid, cyn it' dreulio (**397**).
Yn y dyfroedd mawr a'r tònau (**398**).
Mor ddedwydd yw y rhai trwy ffydd (**399**).
Derfydd imi deithio'r (**400**).
Paham y wylwn am y rhai (**401**).

Y Hefoedd.

DEVIZES. M. C.



318

E. E.

mp 1 MAE'N hyfryd meddwl ambell dro,
Wrth deithio anial le,
cr Ar ol ein holl flinderau dwys,
p Cawn orphwys yn y ne'.

mp 2 Pan ar ddiffygio gan y daith,
A lludded maith y lle,
cr Mor hoff yw gwybod wedi hyn
p Cawn orphwys yn y ne'.

mp 3 'Nol teimlo archoll llawer saeth
A phrofedigaeth gref,
A dyoddef gwres y dydd a'i bwys,
Cawn orphwys yn y nef.

p 4 Er colli ein cyfeillion hoff
Yn yr Iorddonen gref,
cr Mae'n felus meddwl—eto 'nghyd
f Cawn gwrddyd yn y nef.

mf 5 Cymhwyser ni drwy'r Ysbryd Glân,
A'i rasol ddoniau Ef,
Nes delom, fel t'wysenau llawn,
Yn addfed iawn i'r nef.—Amen.

319

W

mf 1 MAE pererinion draw o'm blaen
Yn canu'r anthem bur,
Ac heddyw'n edrych fel o bell
Ar dd'rysni'r anial dir.

mf 2 Maent yn rhyfeddu'r dwyfol ras
A'u nerthodd ar eu taith,
A chanu cariad addfwyn Oen
Ffyddlonaf, yw eu gwaith.

f 3 O nertha finnau i edrych draw
Heb wyro o un tu,
Nes imi gyrhaedd mewn i byrth
Caersalem newydd fry.

f 4 Rho delyn euraidd yn ein llaw,
Ac yn ein hysbryd ‘lân;
Ac ym mheryglon anial dir
Erfyniau pur a chân.—Amen.

CLUNY. 7.6.7.6. D. Av dwr (?). O'r Church Psalter and Hymn Book.



320

J. W.

mf 1 Y LAN Gaersalem newydd
A'i dysglaer, berlog byrth
Ni syflir yn dragywydd,
Un maen o'r mur ni syrth ;
Ei sail yw Craig yr Oesoedd,
A'i themel yw Duw ei hun :
I hon y dwg breninoedd
Eu teyrnged yn gytûn.

mf 2 Ei theg heolydd euraidd
A rodia seintiau fyrdd,
Yn ei hawelon balmaidd
Y chwery'r palmwydd gwyrdd :
f Lle tardd ffynnonau gwynfyd,
Tragwyddol hedd a hoen ;
Grisialaidd ddyfroedd bywyd
O orsedd Duw a'r Oen.

mf 3 Y ddinas fawr ysplenydd
Lle trig nefolion glân,
Neuaddau y llawenydd,
Diderfyn wledd a chân :
Dan gysgod Pren y Bywyd,
Yn dwyn ei "ddeuddeg ffrwyth,"
A'i ddail yn rhoddi iechyd
I bob rhyw iaith a llwyth.

mf 4 Y lân Gaersalem newydd,
p Sy'n d'od o'r nef i lawr,
mf Oleua yr holl wledydd,
A leinw'r ddaiar fawr :
f I'w phyrth daw'r holl genedloedd
A'u mawl dros dir a thon,
A Brenin y breninoedd
Deyrnasa byth yn hon.—Amen.

321

H. H.

mf 1 O! DYRFA fawr ysbrydol,
O! anllygredig lu,
Eu gynau'n wyn a olchwyd
p Yng ngwaed eu Prynwr cu:
Diflanodd eu holl ofnau,
Darfyddodd gwarth y groes;
f Pob galar a phob cystudd
Am byth oddiwrthynt ffoes.

mf 2 Ni welir un o honynt
Byth mwy yn glaf a gwan;
Llawenydd a gorfoledd
O'r diwedd ddaeth i'w rhan:
f Y Brenin a'u harweinia
I'w ddinas hardd ei Hun,
A'i ddelw ogoneddus
A ddygir gan bob un.

f 3 Mewn anfarwoldeb byddant
Oll gyda'u Prynwr mwy,
Yn canu am ei gariad,
A rhin ei farwol glwy';
ff O Angeu, p'le mae'th golyn?
A'th fuddugoliaeth, Fedd?
Diangol ŷnt o'ch gafael
Mewn bywyd pur a hedd.—Amen.

ST. ALPHEGE. 7.6.7.6. DR. GAUNTLETT.



322

E. R.

p 1 BYR yma yw ein bywyd;
Byr ofal, ysgafn gur;
cr Ond yno bythol wynfyd,
Diddagrau fywyd pur.

mf 2 Ad-daliad gwynfydedig!
Byr lafur, uchel fraint!
I'r euog a'r lluddedig,
Gorphwysfa gyda'r saint.

mf 3 Rhaid yma gario'r cleddyf,
Ond gwisgo'r goron draw,
A'r palmwydd gwyrdd a'r llawryf
Buddugol ym mhob llaw.

mf 4 Ond fe gawn weled yno
Hoff Wrthddrych mawr ein ffydd;
A'r sawl a gredant ynddo
Fwynhânt ei wên ddi-ludd.

cr 5 Fe wawria boreu tirion
A chwal pob cysgod du;
f Dysgleiria'i ffyddlon weision
Fel ser y nef yn llu.

ff 6 Ein Duw, ein Rhan, a'n Llywydd,
Yn llawnder pur ei ras,
Gawn foli mewn llawenydd
Parhäus â newydd flas.—Amen.

EWING. 7.6.7.6. D. EGBOB EWING.



323

E. R.

mp 1 AM danat, gartref nefol,
Y gwylia'm llygaid i;
p Wrth wel'd dy enw swynol
Tywalltant ddagrau'n lli';
cr Son am dy gain drigfanau
Sydd falm i'm calon friw;
Ac olew-win i'm clwyfau,
A hedd a bywyd yw.

mf 2 O! unig, un breswylfod,
Paradwys gwynfyd pur,
Lle na cheir poen na thrallod,
Ond gwenau fyth heb gur!
f Yr Oen yw dy ogoniant,
Dy fawl yw Crist a'i groes;
Y gwaredigion ganant
Ei glod o oes i oes.

f 3 Dy gaerau sydd o jaspis,
Dy heol o aur pur;
Topasion gwych a sardius
Ddysgleiriant ar dy fur;
Diadfail yw'th ragfuriau
O berlau, haen ar haen;
ff Dy feini yw dy seintiau,
A Christ y gongl-faen.

mf 4 Di-lan yw môr dy wynfyd,
Di-fachlud haul yw'th ddydd;
p Ffynnonell nerth a bywyd
I'r llesg bererin prudd:
cr Ar Graig yr Oesoedd codir
Dy sanctaidd dyrau ban;
f A llawryf y gorchfygwr
A'i goron yw dy ran.—Amen.

324

E. R.

mf 1 O SALEM, euraidd ddinas,
O fêl a llaeth yn lli';
Myfyrio ar dy urddas
Lesmeiria'm calon i:
Pwy all ddyfalu'r mwyniant
I'n haros yno sydd,
Dysgleirdeb dy ogoniant,
A'i wynfyd pur di-ludd?

f 2 Llawn yw trigfanau Sïon
O orfoleddus gân;
A dysglaer gan angylion
A llu merthyri glân:
O'i mewn mae Brenin Sïon—
Ceir gwel'd ei wedd o hyd;
A gwledda'r gwaredigion
Oll ar ei fwrdd yng nghyd.

mf 3 Yn hon mae gorsedd Dafydd,
Ac yno byth mewn hedd
f Mae udgorn-floedd llawenydd
A melus gân y wledd:
ff A'r rhai fu yn gorchfygu
O dan eu Cadben mawr;
A'u gwisgoedd, wedi'u cànu,
Ddysgleiriant fel y wawr.

mf 4 O! gartref-wlad anwylgu,
Preswylfod teulu Duw,
Pob calon sy'n hiraethu
Am ynot fyth gael byw:
p O dwg ni, Iesu grasol,
I'r hen orphwysfa lân,
cr I foli yn dragwyddol
Y Drindod ddiwahân.—Amen.

HEN DDARBI.

9.8.9.8. D.

Alaw Gymreig.
Cyng. D. JENKINS, Mus.Bac.



CRUG-Y-BAR.

9.8.9.8. D.

Alaw Gymreig.
J. CLEDAU WILLIAMS.



ELLIOTT. 9.8.9.8. D. JOHN ELLIS, 1810. SIR JOHN GOSS.



325

P. J.

mf 1 DAW miloedd ar ddarfod am danynt
O hen wlad Assyria cyn hir,
Preswylwyr yr Aipht ac Ethiopia,
At Grist y Gwaredwr yn wir :
f Cyflawnir y prophwydoliaethau,
Daw'r holl addewidion i ben,
Fe dynir myrddiynau at Iesu
Ddyrchafwyd rhwng daiar a nen.

f 2 Yr holl freniniaethau a dreulir,
A'r ddelw falurir i lawr ;
Y gareg a leinw'r holl wledydd—
Ei chynnydd fel mynydd fydd mawr :
cr Ceir gweled cenedloedd y ddaiar
Yn dyfod o bedwar cwr byd—
Ymofyn y ffordd tua Sïon
Y byddo ei drigolion i gyd.—Amen.

326

D. C.

mf 1 O FRYNIAU Caersalem ceir gweled
Holl daith yr anialwch i gyd ;
Pryd hyny daw troion yr yrfa
Yn felus i lanw ein bryd :
Cawn edrych ar 'stormydd ac ofnau,
Ac angeu dychrynllyd a'r bedd,
A ninnau'n ddiangol o'u cyrhaedd
Yn nofio mewn cariad a hedd.

f 2 Cawn esgyn o'r dyrys anialwch
I'r beraidd Baradwys i fyw ;
p Ein henaid lluddedig gaiff orphwys
Yn dawel ar fynwes ein Duw :
cr Diangfa dragwyddol geir yno
di Ar bechod, ar gystudd, a phoen ;
f A gwledda i oesoedd diderfyn
Ar gariad annhraethol yr Oen.—Amen.

PARADWYS. M. N.



327 *A. J.*

p 1 PARADWYS, O! Baradwys wen,
Pwy na hiraethai fod
Yn gorphwys yn dy lenyrch teg,
Mewn purdeb uwch y rhod?
f Lle mae y dyrfa fawr
Yn y goleuni gwiw,
Yn ddysglaer fel y wawr,
Ym mhresennoldeb Duw.

p 2 Paradwys, O! Baradwys wen,
Heneiddio mae y byd;
O! na chawn deimlo'r cariad pur
Sy'n dal ei wres o hyd!
p Lle mae y dyrfa fawr, &c.

p 3 Paradwys, O! Baradwys wen,
'Rwy'n flin ar fyd o wae,
Mewn hiraeth mawr am weled gwedd
Fy Iesu fel y mae:
f Lle mae y dyrfa fawr, &c.

p 4 Paradwys, O! Baradwys wen,
Heb bechod, O! na bawn;
Chwi seintiau glân y nefol gôr,
Eich purdeb, O! na chawn:
f Lle mae y dyrfa fawr, &c.

p 5 Paradwys, O! Baradwys wen,
Dymunwn groesi'r lli'
Yn llaw fy Mrawd, i wel'd y lle
A barotow'd i mi:
f Lle mae y dyrfa fawr, &c.

mf 6 Paradwys, O! Baradwys wen,
Dy gariad, Iesu cu,
A'm dygo'n ddiogel ar fy nhaith
I'r lân orphwysfa fry:
f Lle mae y dyrfa fawr
Yn y goleuni gwiw,
Yn ddysglaer fel y wawr,
Ym mhresennoldeb Duw.
Amen.

ST. GARMON. 8.7.8.7.4.7. E. M. Price.



328

IS.

mf 1 GWEL, uwchlaw cymylau amser,
O fy enaid, gwel y tir
Lle mae'r awel fyth yn dyner,
Lle mae'r wybren fyth yn glir ;
cr Ddedwydd dyrfa
Sydd yn nofio yn ei hedd.

mf 2 Ynddi tardd ffynnonau bywyd,
Trwyddi llif afonydd hedd,
I ddyfrhau ei bröydd hyfryd,
Ac i anfarwoli'i gwedd :
cr Iachawdwriaeth
Ar ei glan anadlir mwy.

mf 3 Troir awelon glyn marwolaeth
Oll yn hedd tu yma i'r fan,
Trydd holl ocheneidiau hiraeth
Yn anthemau ar y lan :
cr Syrth y deigryn
Olaf i'r Iorddonen ddu.

mf 4 Mae fy nghalon brudd yn llanw
O orfoledd dan fy mron,
Yn y gobaith am feddiannu'r
Etifeddiaeth ddwyfol hon :
f Hapus dyrfa
Sydd â'u gwyneb tua'r wlad.—Amen.

329

W.

mf 1 NID oes gofid na therfysgoedd,
Nid oes achwyn o un rhyw,
Nid oes drallod, poen, na galar,
O fewn trigfan bur fy Nuw :
f Cariad perffaith
Sydd yn llenwi'r hyfryd wlad.

mp 2 Ni ddaw cwmwl du terfysglyd,
Ni ddaw anghrediniaeth mwy,
Ni ddaw yno ofni marw,
Byth i roddi imi glwy' :
cr Môr diwaelod
Fydd pleserau pur y nef.

mf 3 Yno caf fi ddweyd yr hanes
Fel y daethym, eiddil gwan,
Trwy afonydd, a thros greigiau
Dyrys anial maith i'r lan :
cr Iesu ei Hunan
Gaiff y clod trwy eitha'r nef.—Amen.

TRIUMPH. 8.7.8.7.4.7. Dr. Gauntlett.



Y DELYN AUR. 8.7.8.7.4.7. Alaw Gymreig.



330

W.

mf 1 DECHREU canu, dechreu canmol,
Ym mhen mil o oesoedd maith,
Iesu bydd y pererinion
Hyfryd, draw ar ben eu taith :
cr Ni bydd diwedd
Byth ar swn y delyn aur.

mf 2 Nid oes yno gofio beiau—
Dim ond llawn faddeuant rhad ;
p Cofio'r groes a grym y cariad,
A rhinweddau maith y gwaed :
Darfu ofni,
cr Daeth llawenydd yn ei le.

mf 3 Yno mae fy holl drysorau,
A fy nhlysau gwych eu rhyw ;
mp Yno mae f' addfwynaf Iesu,
p Yno mae fy Nhad yn byw :
cr O ardaloedd !
Yno mi gaf finnau dd'od.

mf 4 Mi gaf wledd ar ryfeddodau
Sydd yn natur Duw ei Hun,
Ac ymborthi ar ddysgleirdeb
Crëwr nef mewn natur dyn :
f Mi gaf yno
Fwy mewn awr nag yma byth.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

Y mae gwlad sydd well na hon (**433**).

Cymmun.

DINIWEIDRWYDD. 8.7.8.7. D. Alaw Gymreig.



331

N.

mf 1 GYDA'R saint anturiais nesu
Dan fy maich at allor Duw,
Bwrdd i borthi'r tlawd newynog,
Bwrdd i nerthu'r egwan yw ;
Cefais yno megys gyffwrdd
Corff drylliedig Iesu glân,
Yn y fan fe doddai'm calon
Fel y cwyr o flaen y tân.

p 2 O fy Iesu bendigedig,
Golwg iawn ar waed dy groes
Sydd yn toddi'r mawr galedwch
Sy'n diffrwytho dyddiau f' oes
mp Gad, O gad im', dirion Arglwydd,
Fyw a marw yn dy hedd ;
cr Bydd Di oll yn oll i'm hanaid,
Yma a thu draw i'r bedd.—Amen.

DEERHURST. 8.7.8.7. D. J. LANGRAN.



332

An.

f 1 HALELUIA, mawl i'r Iesu
Ar orseddfainc nef y nef;
Haleluia buddugoliaeth
Fyth sy'n eiddo iddo Ef:
cr Clywch ganiadau hyfryd Sïon
Yn taranu megys lli'
Trwy'r holl wledydd, Gwaed yr Iesu,
Gwaed y groes, a'n prynodd ni.

mf 2 Haleluia, ni'n gadewaist
Yn amddifad ar y llawr;
Haleluia, yn y canol
Ffydd a'th genfydd yma'n awr;
di Er i'r cwmwl ar Olewwydd
p Guddio'th anwyl wedd a'th bryd,
mf Byth y cofiwn "Wele'r ydwyf
Gyda chwi hyd ddiwedd byd."

mf 3 Haleluia, Bara'r engyl,
Ymborth nefol, ynot sydd;
Haleluia, ffy y truan
Atat Ti o ddydd i ddydd:
p Eiriol drosof, O fy Mhrynwr,
Cyfaill pechaduriaid, clyw;
Lle y daw, dros fôr o risial,
Pêr alawon meibion Duw.

f 4 Haleluia, mawl i'r Iesu
Ar orseddfainc nef y nef;
Haleluia, buddugoliaeth
Fyth sy'n eiddo iddo Ef:
cr Clywch ganiadau hyfryd Sïon
Yn taranu megys lli',
Trwy'r holl wledydd, Gwaed yr Iesu,
p Gwaed y groes, a'n prynodd ni.—Amen

NAVARRE. 10au. GOUDIMEL.





333

JS. H.

mf 1 AGORWYD teml yr Arglwydd yn y nef,
A gwelwyd arch ei lân gyfammod Ef;
Holl ryfeddodau person Crist, a'i waith,
A welir yno i dragwyddoldeb maith.

mf 2 Cyfiawnder Duw sydd yno'n ddysglaer iawn,
A'r gyfraith bur bob iot o honi'n llawn;
Ond i bechadur, melus yw y sain
Fod trugareddfa hefyd rhwng y rhai'n.

f 3 Y tanllyd gledd, fu'n effro iawn cyn hyn,
Taranau a mellt ofnadwy Sinai fryn,
mp Sy'n awr yn dawel yn yr Arch ddi-lyth,
Y gair "Gorphenwyd" a'u tawelodd byth.

mp 4 Maẹ'r Archoffeiriad yn taenellu'r gwaed,
Mewn gwisgoedd sanctaidd, llaesion, hyd ei draed,
O fewn y llen, sancteiddiaf lys y nef,
Ac enwau'r llwythau ar ei ddwyfron Ef.

f 5 Priodoliaethau'r nefoedd yn gytûn
Sydd yno'n gwenu ar golledig ddyn;
Mae hedd yn awr o'r nef i'r llawr yn lli',
A noddfa gref o fewn y nef i ni.

f 6 Crist ydyw'r Arch a'r Drugareddfa rad;
Yn Enw hwn anturiwn at y Tad;
Fe wrendy gwyn pechadur, heb ei ladd,
Fe gymmer blaid yr enaid isel radd.—
Amen.

334

E. R.

p 1 ADDOLWN Di, Iachawdwr, yma'n gudd,
I'th eglur weled, agor lygad Ffydd,
Nes gallwn ni, a blygwn wrth dy draed,
Ymborthi ar dy ddirgel gorff a'th waed.

mf 2 Diolchus gof o'i werthfawr angeu Ef,
Y Bara bywiol ddaeth i lawr o'r nef;
Ar hwn ymborthed ein heneidiau byth,
A Thi, O Grist, addolwn yn ddi-lyth.

3 Tragwyddol Fab y Tad, y ffynnon gaed
p I olchi'r aflan, pura ni â'th waed; [hâwn
cr Cryfhâ ein ffydd a'n gobaith, nes mwyn.
Yr hedd a'r gobaith ynot Ti sy'n llawn.

p 4 O Grist, dan len y gwelwn eiliw gwan
O'th wyddfod yma—buan boed ein rhan
cr Dy weled Di heb len, a chael mwynhâd
f O'th bresennoldeb byth yn nhŷ y Tad.—
Amen.

335

J. E.

mp 1 MAE haeddiant mawr rhinweddol waed fy Nuw
Yn llawer mwy na'r pechod gwaetha'i ryw;
Ceir maddeu myrdd o'r beiau mwyaf gaed,
p A'r euog brwnt ei gànu yn y gwaed.

mf 2 O'm pen i'm traed annhraethol aflan wyf,
Nid oes lanhâd ond yn ei farwol glwyf:
mp Y ffynnon hon agorwyd ar y bryn,
Er dued wyf, a'm gylch yn hyfryd wyn.

mf 3 Wrth daro'r graig, daeth allan ddyfroedd
Ein dilyn mae trwy'r dyrys anial dir; [clir,
Cawn lawenhau wrth yfed dyfroedd byw,
A'n golchi'n lân, a'n dwyn i fynwes Duw.

mf 4 Efe yw'r iawn am ein pechodau ni;
p Ei ddryllio wnaed ar fynydd Calfari:
Ein dyled fawr a dalwyd yno'n llawn,
f A'r llyfrau oll a groeswyd un prydnawn.

f 5 Ni ganwn byth am haeddiant dwyfol waed,
Ein codi wnaeth, a'n gosod ar ein traed;
Gorchfygodd holl nerth angeu yn ein lle,
Gan agor ffordd yn rhwydd i deyrnas ne'.
—Amen.

CAERLLYNGOED. 7.6.7.6. D. S. Lloyd.



336

R. E.

mp 1 Y GWAED, y gwaed a lifodd
Ar groesbren un prydnawn,
Haeddiannau hwnw roddodd
I'r gyfraith daliad llawn :
cr Y gwaed, y gwaed a olcha
Bechadur du yn wyn ;
Dadseiniwn Haleluia
Am waed Calfaria fryn.

mp 2 Y gwaed, y gwaed a egyr
Holl ddorau'r nefoedd lon ;
Y gwaed, y gwaed rydd gysur
Dan holl gurfëydd y fron :
cr Ar fryniau anfarwoldeb,
Draw yn y nefol wlad,
f Fy nghân i dragwyddoldeb
Gaiff fod, Y gwaed, y gwaed !—Amen.

337

E. R.

mf 1 MAE'R gwaed dywalltodd Iesu
Ar ben Calfaria fryn,
Hyd byth yn dal i gànu
Yr cuog du yn wyn ;
Fe ylch y llestri aflan
Ddifwynodd gnawd a byd,
Fel llestri aur ac arian
Yn eiddo Duw i gyd.

mp 2 Glanhâ ni, Arglwydd grasol,
Oddiwrth y byd a'i flas ;
Ac i'th wasanaeth dwyfol
Gwna ni yn llestri gras ;
cr Defnyddiol yn ein bywyd,
Awyddus i dy waith,
A pharod oll i'r gwynfyd
'Nol cyrhaedd pen y daith.—Amen.

MARY. M. S. J. A. Lloyd.



338

W.

mf 1 WEL, dyma wledd, gwledd ein Duw Ion,
O basgedigion breision,
A gwin puredig, yn ddidrai,
I lawenhau y cleifion.

mf 2 Gwledd ydyw hon, gyfoethog, hael,
Heb ddiwedd i'w gael arni ;
O pwy na ddeuai 'mlaen yn rhwydd
I wledd yr Arglwydd Iesu !

p 3 Os claf, os gwan, os tlawd o hedd,
O dewch i'r wledd yn fuan ;
cr Dewch â'ch hachwynion o bob rhyw,
Fe'u hateb Duw ei Hunan.

mf 4 Cewch yma wel'd eich Arglwydd mawr
Yn rhoi i lawr yn hollol
Ei Hun i angeu, angeu'r groes,
Yn ufudd dros ei bobol.

mf 5 Mi gofiaf eiriau'm Harglwydd hael,
Prydnawn cyn cael ei hoelio ;
I fwyta'i swper, minnau ddof
Ym mlaen er cof am dano.

mp 6 Cawn fwyta'i gnawd, O ryfedd rad !
p Ac yfed gwaed yr Iesu :
cr Pa fodd gall ein calonau lai
Na'i wir fawrhau a'i garu ?—Amen.

339

R. J.

mf 1 O ! DEWCH i'r dyfroedd—dyma'r dydd ;
Yr Arglwydd sydd yn galw :
Tragwyddol ras yr Arglwydd Ior
Sydd fe. y môr yn llanw.

mf 2 Heb werth nac arian, dewch yn awr,
Mae gwinoedd mawr trugaredd
A'i wyneb ar yr euog rai—
Maddeuant a'i ymgeledd.

cr 3 O dewch, a phrynwch win a llaeth,
Mae yma faeth rhagorol :
Cewch loew win, heb aur na gwerth,
Mae ynddo nerth tragwyddol.

4 Bwytëwch—mae'r aberth wedi ei ladd,
Y ddeddf a ga'dd anrhydedd ;
Ac i bechadur euog, gwael,
Mae modd i gael ymgeledd.

f 5 Mae'r wledd yn barod—O bwytëwch,
A llawenhëwch yn Sïon ;
Tragwyddol hedd i blant y llwch—
O yfwch ei melusion.—Amen.

TWRGWYN. 7.3.7.3.7.7.7.3.7.3. Alaw Gymreig.



340

An.

mf 1 MYFI'R pechadur penaf,
Fel yr wyf,
Wynebaf i Galfaria
Fel yr wyf ;
cr Nid oes o fewn i'r hollfyd
Ond hwn i gadw'm bywyd :
Yng nghanol môr o adfyd,
Fel yr wyf—
f Mi ganaf gân f' Anwylyd,
Fel yr wyf.

mf 2 Mae'r Oen fu ar Galfaria
Wrth fy modd ;
Efengyl a'i thrysorau
Wrth fy modd ;
cr Mae llwybrau ei orch'mynion,
A grym ei addewidion,
f A hyfryd wleddoedd Sïon,
Wrth fy modd ;
A chwmni'r pererinion
Wrth fy modd.—Amen.

341

W.

mf 1 CAED trefn i faddeu pechod
Yn yr iawn :
Mae iachawdwriaeth barod
Yn yr iawn :
Mae'r ddeddf o dan ei choron,
cr Cyfiawnder yn dweyd, "Digon,"
A'r Tad yn gwaeddi, "Boddlon,"
Yn yr iawn ;
f "A diolch byth," medd Sïon,
"Am yr iawn."

mf 2 Yn awr, hen deulu'r gollfarn,
Llawenhawn ;
Rhoed cymhorth ar Un cadarn—
Llawenhawn :
f Mae heddyw alwad ato,
Mae bythol fywyd ynddo ;
Ni chollir neb a gredo—
Llawenhawn ;
Gan lwyr ymroddi iddo—
Llawenhawn.—Amen.

CAERSALEM. 8.7.8.7.4.7. Alaw Gymreig.



CAPEL Y DDOL. 8.7.8.7.4.7. J. D. Jones, 1827—1870.



342

D.

mf 1 GALFARIA trof fy wyneb,
Ar Galfaria gwyn fy myd ;
Y mae gras ac anfarwoldeb
Yn dyferu drosto i gyd :
cr Pen Calfaria,
Yno, f'enaid, gwna dy nyth.

mp 2 Yno clywaf yn yr awel
p Gerddi'r nef yn d'od i lawr,
Ddysgwyd wrth afonydd Babel,
Gynt yng ngwlad y cystudd mawr :
f Pen Calfaria
Gydia'r ddaiar wrth y nef.

mp 3 Pan yn nyffryn cysgod angau,
Pan yn griddfan dan fy mhwn,
Mae Calfaria'n ddigymylau,
Dwyfol ddydd fedyddia hwn ;
cr Pen Calfaria
Weddnewidiodd croes fy Nuw

p 4 Bu ei ben dan gwmwl unwaith,
Cwmwl o ddigofaint llawn ;
cr Ond am byth diflanodd ymaith
O flaen haul digonol iawn :
mf Pen Calfaria
Ni ddaw nos i'w gopa mwy.

mf 5 Dringo'r mynydd ar fy ngliniau
Geisiaf, heb ddiffygio byth ;
cr Tremiaf trwy gawodydd dagrau
Ar y groes yn union syth :
f Pen Calfaria
Dry fy nagrau'n ffrwd o hedd.—Amen.

BRYN CALFARIA. 8.7.8.7.4.7. **W. Owen (Prysgol).**



343

W.

mf 1 GWAED y groes sy'n codi i fyny
'R eiddil yn goncwerwr mawr ;
Gwaed y groes sydd yn darostwng
Cawri cedyrn fyrdd i lawr :
cr Gad im' deimlo
Awel o Galfaria fryn.

mf 2 Gwaed y groes a ddygodd heddwch
I elynol euog rai ;
Gwaed y groes yw sail fy ngobaith
Am faddeuant o bob bai ;
f Pob daioni
Ddaeth i ni trwy waed y groes.

mp 3 Ymddiriedaf yn dy allu,
Mawr yw'r gwaith a wnest erioed ;
cr Cefaist angeu, cefaist uffern,
Cefaist Satan dan dy droed :
f Pen Calfaria,
Nac aed hwnw byth o'm cof.

f 4 Cofio am farwolaeth Iesu,
O mor hyfryd ydyw'r gwaith ;
Dechreu yma ar y ddaiar,
Para i dragwyddoldeb maith :
ff Haleluia,
Dyma iachawdwriaeth lawn.—Amen.

Cymmun.

SWABIA. M. B. Alaw Ellmynig.



344

J. T.

mf 1 O CHWI eneidiau byw,
Mawrhëwch Fab Duw yng nghyd;
Y bara ddaeth o'r nefoedd yw,
Rhoi bywyd mae i'r byd.

mf 2 Y llo pasgedig rhad—
Gwledd y newynog rai,
Y manna ddaeth o dŷ ein Tad
Yw'r Iesu yn ddi-lai.

mf 3 Mae Duw'n arlwyo bwrdd
Yn yr anialwch blin
I'w blant—y man lle bônt yn cwrdd
Daw hefyd yno'i Hun.

f 4 Gyfeillion, O bwytëwch,
Mae i chwi ffordd sydd faith;
mp Can's gwledd o gariad yma gewch
I'ch lloni ar eich taith.

mp 5 Cnawd Crist sy fwyd yn wir,
A'i waed Ef, diod yw;
f Cawn wledda beunydd cyn bo hir
Yn llawen gyda Duw.—Amen.

ST. PETER. M. C. A. R. Reinagle.



345

P.

mp 1 YN ol ei rasol ordinhâd,
At Iesu'n isel af;
cr Myfyriaf ar ei gariad rhad,
A'i gynhes gofio wnaf.

p 2 Tydi yn marw, minnau'n fyw,
Tydi â'th waed yn lli',
cr O! werthfawr aberth Oen fy Nûw,
Rhaid imi'th gofio Di

p 3 Cymmeraist ffiol llid y Tad,
Tro'ist hòno'n win i mi;
cr O pwy na charai mewn mwynhâd
p Fel hyn dy gofio Di?

p 4 Y corff fu drosof dan y cur,
Boed fara i'm henaid i;
cr A'th waed fo mwy fy niod bur—
Fel hyn y'th gofiaf Di —Amen.

DUKE STREET.

M. H. J. Hatton.



346

D. J.

mf 1 LLEFWCH, genadon Duw, o hyd,
p O ! wele waed Iachawdwr byd ;
cr Cymhellwch bawb dd'od ato Fe—
f Mae'r Iesu'n dweyd fod eto le.

mf 2 Chwi rai newynog, tlawd, nesëwch,
O amgylch bwrdd Messiah dewch ;
Gwrandëwch ei lais a'i alwad E'—
f Mae'r Iesu'n dweyd fod eto le.

mf 3 Brysiwch, eneidiau gwael tlch gwedd,
Hwn ydyw dydd Efengyl hedd :
Pob peth a'ch geilw ato Fe—.
f Mae'r Iesu'n dweyd fod eto le.

f 4 I Dad y trugareddau i gyd
Rhown foliant, holl drigolion byd ;
ff Llu'r nef, moliennwch Ëf ar gân,
Y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.—Amen.

GROESWEN.

8.7.8.7.6.7. J. Ambrose Lloyd.



347

W.

mf 1 DEUWCH, hil syrthiedig Adda,
Daeth y Jubil fawr o hedd ;
Galwad sydd ar bawb o'r enw
I fwynhau tragwyddol wledd :
f Bwrdd yn llawn yma gawn
O foreuddydd hyd brydnawn.

mf 2 Ceisiwch wisgoedd y briodas—
Gwisgoedd hyfryd hardd eu lliw ;
Nid oes enw teilwng arnynt
Ond cyfiawnder pur fy Nuw :
f Lliain main ydyw'r rhai'n
Sydd yn cuddio pob rhyw 'staen.

f 3 Dyma wledd y cewch ddanteithion,
Yma cewch faddeuant rhad ;
Yma cewch chwi brofi cariad—
Hedd yn nofio yn y gwaed :
cr Dewch yn awr, dyrfa fawr,
Ac eisteddwch yma i lawr.

mf 4 Yma cewch chwi wel'd y ffynnon—
p Dwr a gwaed yn afon fawr,
O'r archo'lion wnaeth y bicell
Ar Galfaria'n d'od i lawr :
cr Cewch lanhâd ac iachâd ;
Cewch eich beiau dan eich traed.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

Pa dafod dyn all draethu'n llawn **(45)**.
Am Iesu Grist a'i farwol gliwy' **(62)**.
Mae'r gwaed a redodd ar y groes **(77)**.
Dyma Geidwad i'r colledig **(195)**.
Oll fel yr wyf, heb ddadleu fawn **(256)**.
Nis gallai gwaed yr holl **(271)**.
Mae'r manna wedi ei gael **(290)**.

Bedydd.

MELCOMBE. M. H. S. Webbe.



348

AN.

mf 1 DERBYNIWYD gynt gan Fab y Dyn
Blant bach i'w freichiau Ef ei Hun;
f "Ac na waharddwch hwynt," medd Ef,
"Can's eiddynt hwy yw teyrnas nef."

mf 2 O, na ryfygwn ninnau'n awr
I wrthod siampl Iesu mawr;
f Pwy gauai ddrws ei Eglwys Ef.
A'r Iesu'n agor drws y nef?

mf 3 Am ras i gyd bydd melus gân
Aneirif wedi'u golchi'n lân
Oddiwrth holl niwed Eden ardd,
Fry yng Nghaersalem fawr yn hardd.—
Amen.

BUGAIL ISRAEL. 8.7.8.7. T. Price.



349

M. D.

mp 1 BUGAIL Israel sydd ofalus
Am ei dyner anwyl wŷn;
cr Mae'n eu galw yn groesawus,
Ac yn eu cofleidio'n fwyn.

mf 2 "Gadewch iddynt ddyfod ataf,
Ac na rwystrwch hwynt," medd Ef;
Etifeddiaeth lân hyfrytaf
I'r fath rai yw teyrnas nef.

mf 3 Deuwn, Arglwydd, â'n rhai bychain,
A chyflwynwn hwynt i Ti;
Eiddot mwyach ni cin hunain,
A'n hiliogaeth gyda ni.

f 4 Dewch, blant bychain, dewch at Iesu,
Ceisiwch wyneb Brenin nef;
Hoff eich gweled yn dynesu
I'ch bendithio ganddo Ef.—Amen.

BROOKLYN. M. C. Havergal.





350

D. J.

mf 1 AGORWYD ffynnon i'n glanhau
Gan Iesu, Brenin nef ;
A'i ffrydiau olcha ffwrdd ein bai
Trwy rym ei gariad Ef.

mf 2 Llawenydd sydd i ddynol ryw
Oherwydd agor hon ;
Mae lle i minnau lawenhau,
Fod imi groesaw llon.

mf 3 Mae llais y nef yn galw'n awr
Drueiniaid, fawr a mân,
I ddyfod iddi ar y llawr,
I'w golchi oll yn lân.

mp 4 'Rwy'n d'od, 'rwy'n d'od, fy Arglwydd
I 'mofyn am y gwaed : [Dduw,
p O golch yn lân y dua'i liw
Sy'n dysgwyl wrth dy draed.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

O arwain fy enaid i'r dyfroedd (205).
Awn, bechaduriaid, at y dwr (243).
Mi welaf afon bur (272).
Bedyddier ni, yn fawr a mân (429).

Bedydd rhai mewn Oed.

PILGRIMAGE. 8.7.8.7.4.7. Sir G. Elvey.



351

E. V.

mf 1 O ! NEWYDDION melus odiacth,
Ddaeth o wefus Cariad pur,
At yr enaid fyddo'n gwaeddi
p "Beth a wnaf ?"
cr dan galed gur :
Cred yn Iesu,
Ac mewn dwr bedyddier di.

mf 2 O ! gyd-gladdiad gogoneddus,
Adyn edifeiriol trist
Yn arddangos yn ei Fedydd
Ei gyd-gladdiad gyda Christ,
A'i gyfodiad—
Codiad er adferiad fydd.

mf 3 Fel yr arch drosglwyddai Noah
Gynt o'r hen i'r newydd fyd,
Dengys Bedydd y crediniwr
Droi ei gyflwr yntau i gyd ;
cr Nid yw mwyach
O'r byd hwn, ond oddi fry.

mf 4 Felly, os cyd-gyfodasom
Gyda'n Harglwydd Iesu Grist,
Nac argeisiwn bethau isod—
p Ffrwythau pechod, trallod trist :
cr Beth sydd gymmaint
Neu'r un faint a'r enw fry ?—Amen.

Confirmasiwn.

MELCOMBE. M. H. S. Webbe.



ROCKINGHAM. M. H. Dr. Miller.



352

P. J.

1 CYSSEGRWN flaenffrwyth dyddiau'n hoes
I garu'r Hwn fu ar y groes ;
Mae mwy o bleser yn ei waith
Na dim a fedd y ddaiar faith.

2 Cael bod yn foreu dan yr iau
Sydd ganmil gwell na phleser gau ;
Mae ffyrdd doethineb oll i gyd
Yn gysur ac yn hedd o hyd.

3 Y plant a wasanaethant Grist
Gânt ddianc byth rhag uffern drist ;
Mae myrdd o ie'nctyd yn y nef
Yn berlau yn ei goron Ef.

4 O, na threuliaswn yn ddi-goll
O dan iau Crist fy mebyd oll !
Mae'r Hwn a'm prynodd ar y groes
Yn deilwng o bob awr o'm hoes.—Amen.

353

D. C.

1 O IESU mawr, rho'th anian bur
I eiddil gwan mewn anial dir,
I'w nerthu trwy'r holl rwystrau sy
Ar ddyrys daith i'r Ganaan fry.

2 Pob gras sydd yn yr Eglwys fawr,
Fry yn y nef neu ar y llawr—
Caf feddu'r oll—eu meddu'n un—
Wrth feddu d' anian Di dy Hun.

3 Mi lyna'n dawel wrth dy draed,
Mi ganaf am rinweddau'th waed,
Mi garia'r groes, mi nofia'r don,
Ond cael dy anian dan fy mron.—Amen.

EDEYRNION. 8.7.8.7.4.7. Alaw Gymreig.
Cyng. J. D. Jones (o lyfr Tanymarian.)



354

W. J.

mf 1 TYRED, Ysbryd Glân sancteiddiol,
Dyro'r nefol wlith i lawr,
Fel bo'r egin gwan ar gynnydd
Wedi'r holl ystormydd mawr :
mf Pam y gwywa'r
Egin gwan gan faint y gwres ?

mf 2 Chwythed y deheuwynt nefol,
Deued yr awelon pur,
I wasgaru peraroglau
Siön dros yr amial dir :
Myrr a chassia
f Pen Calfaria lanwo'r wlad.—Amen.

WYDDGRUG. 8.7.8.7.6.7. J. A. Llovd.



355

W.

mf 1 NA'D fi adeiladu'n ysgafn
Ar un sylfaen is y ne',
Na chymmeryd craig i orphwys
Tu yma i angeu yn dy le :
f Ti, fy Nuw, tra b'wyf byw,
Gaiff fod fy ngorphwysfa wiw

mf 2 Dyma'r maen sydd yn y gongl,
Dyma'r gareg werthfawr, bur,
Gloddiwyd allan yn y bryniau—
Bryniau tragwyddoldeb dir :
cr Nid oes le, is y ne',
I adeiladu ond Efe.

mf 3 Byth ni dderfydd canu am dano,
Byth ni dderfydd am ei glod ;
p Tra fo caru, pery canu—
Caru sydd heb ddechreu'n bod :
cr Nefoedd fry'n gysson sy
Oll yn canu i'm Harglwydd cu.

mf 4 Minnau'r gwaela' o bechaduriaid,
Yn y diwedd rof fy nhroed
Ar y graig sydd yn y moroedd—
Craig gadarnaf fu erioed :
f Ceidw hon, rhag pob ton,
Ofnau ffwrdd o dan fy mron.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

Tyr'd, Ysbryd Glân, i'n c'lonau ni (133). Tyr'd, Ysbryd Glân, tragwyddol Dduw (134).
O anfon Di yr Ysbryd Glân (136).

ST. ALPHEGE. 7.6.7.6. Dr. Gauntlett.



356

AN.

mf 1 Y LLAIS fu gynt yn Eden,
Ym moreu oes y byd,
Y llais bendithiol hwnw,
Mae'n para byth o hyd.

2 Yng nglân briodas eto
Mae'r sanctaidd Un yn Dri
Yn rhoddi bendith nefol
Yn rasol oddi fry.

3 Ac yma y dangosir
Yr undeb rhyfedd sy
Rhwng Priod Crist, yr Eglwys,
A'i Phen nefolaidd cu.

p 4 Bydd yma, O Dad nefol,
A dyro Di'r ferch hon,
Fel Efa ro'ist i Adda,
Fyth yn ymgeledd llon.

p 5 Bydd yma, Fab y Forwyn,
I uno'u dwylaw'n awr,
Fel yr ymunwyd ynot
Ddwy natur, Arglwydd mawr.

p 6 Bydd yma, Ysbryd Sanctaidd,
Rho iddynt galon iawn,
'Nol fel mae priod Iesu
O'th nefol ddawn yn llawn.

mf 7 O rho dy aden drostynt,
Bendithia hwy ill dau;
Wrth allor lân yr Eglwys
Pâr iddynt lawenhau.

8 A phan ddêl pen yr yrfa,
Dwg hwynt i wledd yr Oen,
Yng nghyda'r Briod nefol,
Lle ni ddaw cur na phoen.—Amen.

ST. HILARY. 8.7.8.7. D. GANTREB.



357

E. R.

mp 1 ANFON, Arglwydd, i'th gynauaf
Weithwyr o'th ddewisiad llawn,
Rhai o fuchedd lân, sancteiddiaf,
Rhai o ddoniau'r nef yn llawn ;
cr Rhai yn weinidogion cymhwys,
A bugeiliaid ffyddlon gaed,
I ofalu am yr Eglwys
Brynodd Crist â'i briod waed.

mp 2 Dyro iddynt deimlo'u breintiau—
Casglu perlau yn y byd ;
cr Dangos iddynt werth eneidiau
Yng ngoleuni'r angeu drud ;
Rho amynedd, rho ddoethineb,
Dyro ostyngeiddrwydd llawn,
Rho ddiwydrwydd a ffyddlondeb
I gyflawnu'r gwaith yn iawn.

mf 3 Uno maent, y llu o dystion—
Tystion pwysig angeu'r groes ;
cr Rho'r dystiolaeth yn eu calon,
Ar eu gwefus, yn eu moes :
f Rhodio byddont mewn goleuni
Yng nghymdeithas Iesu Grist,
Gyda'r praidd nes rhoddi cyfri'—
Cyfrif llawen nid yn drist.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

I Ti, O Dduw, y gweddai parch (371).

CAERNARFON. 11 au. Alaw Eglwysig.



358

S. R.

mf 1 O BLENTYN y nefoedd, paham mae dy fron
Mor ofnus wrth weled gwyllt ymchwydd y don?
Mae'r dyfnder du tywyll yn rhuo, gwir yw;
cr Ond diogel yw'th fywyd, mae'th Dad wrth y llyw.

mf 2 Daw'n fuan orfoledd diddiwedd i'th ran;
Draw'n dysgwyl mae'th geraint oddeutu y lan:
Y dysglaer lys acw, dy hoff gartref yw;
cr Mae Canaan yn ymyl, a'th Dad wrth y llyw.

f 3 Cwyd bellach dy hwyliau, mae'r awel o'th du,
'Rwyt bron myn'd i fynwes dy fwyn Brynwr cu:
cr Mae'th angor yn ddiogel, a'th Gadben yn fyw,
Mae'th gwch wrth y porthladd, a'th Dad wrth y llyw.—Amen.

BECCLES. M. S. Hen Alaw Ellmynig, Cyng. 1627.



359

AN.

mf 1 DA iawn i wr yw dwyn yr iau,
Ac ufuddhau yn forau,
A chanlyn Crist, gan godi'r groes,
Yng ngrym ei oes a'i ddyddiau.

mf 2 Gan fod y nos yn agosäu,
A'r oes mor frau a phrysur,
Paham y safwn yn ddi-gudd
Ar hyd y dydd yn segur?

f 3 Ffyrdd crefydd sydd yn hyfryd iawn,
A'i llwybrau'n llawn o heddwch;
Ein tywys wnant drwy'r anial dir
I wlad y gwir ddedwyddwch.—Amen.

DYFFRYN CLWYD. 7.6.7.6. D. Wynalaw.



360

J. H.

mf 1 NA roddwch fiodau'ch dyddiau
I geisio pethau gwael;
Mae yn yr Ysgrythyrau
Drysorau gwell i'w cael;
Dadguddir yma'n helaeth
Rad iachawdwriaeth Duw;
Cael profi hon yw'r elw
I farw ac i fyw.

2 Ymroddwch yn ddi-ballu
Am 'nabod Iesu Grist,
A chwilio'r Ysgrythyrau,
Cyn delo'r dyddiau trist:
Mae'r trysor gwerthfawrocaf
I'w gael ym maes y Gair;
Rhan dda, yr hon ni ddygir—
Y rhan ddewisodd Mair.—Amen.

EDEN. M. H. Dr. Lowell Mason.
Cyng. J. H. Roberts, Mus. Bac.



361

E. E.

mf 1 O DEWCH, ieuenctyd hoff, yn awr
I arddel Enw Iesu mawr :
Mae Duw yn galw ar eich ol—
Fod tragwyddoldeb maith yn ol.

mf 2 Nid yw pleserau pena'r byd
Ond twyll a gwagedd oll i gyd :
Mor fyr yw mwyniant pechod ffol
Wrth dragwyddoldeb maith sy'n ol.

mp 3 Pa beth i chwi, heb Dduw a'i hedd,
Fydd harddwch corff na thegwch gwedd,
Pan ddelo'r alwad ddwys i'ch nol
I'r tragwyddoldeb maith sy'n ol ?

mf 4 Cyssegrwch heddyw flodau'ch oes
p I'r Hwn fu farw ar y groes,
f A chwi gewch orphwys yn ei gôl
Yn nhragwyddoldeb maith sy'n ol.—
Amen.

ERNAN. M. H. Dr. Lowell Mason.



SAMSON. M. H. Handel.



362

P. J.

mf 1 O FILWYR ieuainc, dewch i gyd
Yn erbyn Satan, cnawd, a byd:
Os dewch dan faner Crist, yn wir
Cewch ranu'r ysbail cyn bo hir.

2 Mae'r ieuainc yn aberthau byw—
Yn gymmeradwy iawn gan Dduw;
A llawen gan angylion nef
Wel'd plant o dan ei faner Ef.

3 O cofiwch eich Creawdwr mawr,
A rhowch eich hunain iddo'n awr:
Mae'n caru plant—a mebyd yw
Yr amser hoffaf gan ein Duw.

4 Mae gan Dduw winllan yn y byd; [bryd
Dewch, gweithiwch ynddi, mae'n llawn
Ar fyr cawn orphwys fry mewn hedd,
A'n galw i'r dragwyddol wledd.—Amen.

Hefyd y canlynol:—

Mewn 'stormydd diri' **(292)**.
Filwyr ffyddlon Iesu **(380)**.
Coronau gwych y ddaiar **(381)**.
Ti'r hwn fendithiast fychain blant **(387)**.

Amser Trallod.

LONDON NEW. M. C.



363

L. E.

p 1 TRWY ddirgel ffyrdd mae'r uchel Ior
Yn dwyn ei waith i ben;
Ei ystafelloedd sy'n y môr,
Mae'n marchog gwynt y nen.

2 Yng nghudd mewn dwfn fwngloddiau pur
Doethineb wir ddi-wall,
Trysori mae fwriadau clir—
Cyflawnir hwy'n ddi-ball.

3 Y saint un niwed fyth ni chânt;
Cymylau dua'r nen
Sy'n llawn trugaredd—gwlawio wnant
Fendithion ar eu pen.

4 Na farna Dduw â'th reswm noeth,
Ond cred ei addewid rad:
Tu cefn i len rhagluniaeth ddoeth
Mae'n cuddio gwyneb Tad.

5 Bwriadau dyfnion arfaeth gras
Ar fyr addfeda'n llawn:
Gall fod y blodau'n chwerw eu blas,
Ond melus fydd y grawn.

6 Ond gwyro mae dychymmyg dyn,
Heb gymhorth dwyfol ffydd;
Gadawn i Dduw esbonio'i Hun—
Fe dry y nos yn ddydd.—Amen.

364

W.

mp 1 YN nyfnder profedigaeth ddu,
Dos d' Hunan o fy mlaen;
Ond imi gael bod gyda Thi,
Nid ofnaf ddwr na thân.

2 At wedd dy wyneb nid yw ddim
Drysorau maith y llawr;
Mae hanner gair o'th eneu'n fwy
Ei rym nag uffern fawr.

p 3 Mae angeu, bedd, ac uffern ddu
Yn hongian wrth dy groes;
Mil o elynion goncraist Ti
Trwy ddyoddef angeu loes.

mf 4 Dy allu yw fy nerth a'm grym,
Yn d' allu byddaf byw;
di 'Rwy'n wan, 'rwy'n llesg, ni allaf ddim
Un mynyd heb fy Nuw.—Amen.

BADEN. M. S. German.



365

W.

f 1 YM mynwes glyd yr anwyl Oen
Heb friw na phoen, 'rwy'n llechu ;
Ac oddi fewn ei glwyfau cu
Mae f'enaid i'n cartrefu.

mf 2 Nid llygad wel, na chlust a glyw,
Nac un dyn byw ddychymmyg
p Y tawel hedd rydd Duw bob dydd
I'r rhai sydd ddewisedig.

mf 3 Er bod yn hir mewn anial fan,
Yn 'mofyn am orphwysfa,
O'r diwedd daethym—ryfedd fraint—
I'r man mae'r saint yn gwledda.

mf 4 Mi wn y dwg fi i deyrnas nef,
Ar ben fy mhererindod ;
Ac yno byth mewn tawel fan
Caf eistedd dan ei gysgod.

f 5 Caf fwyta ffrwythau prenau plan
Ar hyd glan afon bywyd ;
Tragwyddol Sabbath gyda'r Oen,
Heb friw na phoen na gofid.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

O Ior, preswylydd mawr y berth **(168)**.
Fy Nuw, fy Nhad, tra'r wyf o hyd **(249)**.
Iesu, gwyddost fy nghystuddiau **(253)**.
Ai lluddedig wyt ac egwan ? **(257)**.
Os yw'n gofidiau yn y byd **(316)**.
Os caf gysuron ar fy nhaith **(317)**.
Nid oes gofid na therfysgoedd **(329)**.

Diolchgarwch.

ELY. M. S.



366

AN.

f 1 CLODFORAF Enw Brenin nef,
Mae ynddo Ef bob digon ;
Digon o nerth i'm henaid gwan,
Pan fyddwyf dan drallodion.

2 Mae digon o drugaredd hael
I'r truan gwael ei gyflwr ;
Digon i lenwi iawnder Duw,
A chadw'n fyw droseddwr.

3 Mae digon o lawenydd pur
A chysur mewn gofidion ;
Digon o iechyd rhag pob cur,
Pob clwyf a dolur calon.

4 Digon o rinwedd yn parhau
I lwyr lanhau halogrwydd ;
A digon o ogoniant maith
I'm gwneyd yn berffaith ddedwydd.—
Amen.

367

E. P.

f 1 DIOLCHAF fi, â chalon rwydd,
I'r Arglwydd bob amserau ;
Ei foliant Ef, a'i wir fawrhâd,
Fo'n wastad yn fy ngenau.

mf 2 Wele y truan a roes lef,
A Duw o'r nef yn gwrando ;
Ac a'i gwaredodd o'i holl ddrwg,
A'i waedd oedd amlwg iddo.

mf 3 Angel ein Duw a dry yn gylch
O amgylch pawb a'i hofnant ;
Ceidw Ef hwynt, a llawer gwell
Na chastell yw eu gwarant.

f 4 O profwch, gwelwch ddäed yw
Yr Arglwydd byw i'r eiddo ;
A gwyn ei fyd pob dyn a gred
Roi ei ymddiried ynddo.—Amen.

Casgliad.

ELIZABETH. M. S.

R. H. PRITCHARD.
Cyng. gan W. J. HUGHES.

368

S. R.

mf 1 GWYN fyd y galon bur lle mae
Grasusau yn teyrnasu ;
Cariad yw'r penaf o'r rhai hyn,
A chariad sy'n ei nerthu.

2 Gwybodaeth faith ni thâl hi ddim,
Na phoenau llym na doniau ;
Er ymladd, pechod garia'r dydd,
Os cariad fydd yn eisiau.

3 Hwn ydyw'r gras yn fyw a fydd
Pan dderfydd ffydd a gobaith ;
A hwn a dery'r peraidd daut
Yng ngwlad gogoniant eilwaith.—Amen.

ABRIDGE. M. C. ISAAC SMITH.



369

AN.

mf 1 AR dyner drugareddau Duw,
Yr ŷm yn byw bob awr,
A dangos hyny ddylem ni
Trwy waith haelioni mawr.

mf 2 Clodforwn ras yr Iesu doeth,
Hwn oedd gyfoethog iawn;
mp Daeth Ef yn dlawd, mewn isel fri,
I'n cyfoethogi'n llawn.

mf 3 Dilynwn ninnau'r unrhyw ras,
Mae'n urddas ini'r fraint;
Cysuron gwerthfawr sydd i'w cael
Wrth roddi'n hael i'r saint.

mf 4 Yr hwn sy'n hau yn helaeth iawn
A fed yn llawn ryw ddydd;
Caiff wobrwy pur tu draw i'r bedd,
Gorfoledd iddo fydd.—Amen.

Elusengarwch.

ALMSGIVING. 8.8.8.4. J. B. DYKES.



370

G.

f 1 O ARGLWYDD nef, tir, môr, a'u llu,
I Ti bo mawl pob enaid cu ;
Pa fath gydnabod wnawn i Ti
A roddaist oll ?

mf 2 Tywyniad haul, ac awel bur,
Y blodau hardd, a ffrwyth ein tir,
Traethu dy gariad maent yn wir,
A roddaist oll.

3 Am gartref clyd, a hawddfyd mawr,
Ac am bob bendith daiar lawr,
cr Haeddiannol wyt o'n clod bob awr,
A roddaist oll.

p 4 Am faddeu bai, am garu'n rhad,
Am foddion gras, am nefol wlad,
cr Pa beth rown it', O dirion Dad
A roddaist oll ?

mf 5 Pa echwyn bynag rown i Ti,
cr Yn ddengmil telir 'nol i ni ;
f Yn awr yn llawen rhown i Ti
A roddaist oll.

mf 6 O'th dadol law derbyniwn ni
Fendithion bywyd fyrdd heb ri' ;
p O am gael byth fyw gyda Thi
A roddaist oll.—Amen.

Diolchgarwch am y Cynauaf.

SABBATH (neu PENLLYN). M. S. JOHN WILLIAMS.



371

R. J.

f 1 I TI, O Dduw, y gweddai parch—
Gwna pobpeth arch dy orsedd ;
Ti biau'r haul, y gwlaw, a'r gwlith,
A'r fendith fawr ei rhinwedd.

mf 2 Ti sy'n addfedu cnwd y maes—
Tydi, o'th ras, sy'n trefnu
Pob dydd o'r tymmor oll a'i rin,
A hyfryd hin i gasglu.

f 3 Am haul a lleuad, gwynt a gwres,
Am wlaw yn gynhes canwn ;
Am borthi pob creadur byw,
Yr Arglwydd Dduw addolwn.

mf 4 Mor ogoneddus, Arglwydd Dduw,
A rhyfedd yw'th ddaioni !
Ein dyddiau breuol gânt o'r bron
A'th roddion eu coroni.

f 5 Am ffrwythau hael y flwyddyn hon,
A'th fawrion drugareddau,
Moliannu'th Enw mawr a wnawn,
Gan iawn ddefnyddio'n breintiau.—Amen.

Diolchgarwch am y Cynauaf.

GWLADYS (neu ST. CELYNIN). 6.6.6.6.8.8. Alaw Gymreig.



372

AN.

f 1 MAWR ddyled arnom sydd
I foli Ior y nef,
Wrth wel'd o ddydd i ddydd
Mor dirion ydyw Ef :
cr Efe yw'n craig, ein tŵr, a'n maeth,
Y ffwyddyn hon ein cofio wnaeth.

f 2 Nis gall tafodau byw
Holl ddynol ryw yn un,
Fyth ddadgan gymmaint yw
Ei gariad Ef at ddyn :
cr Efe sy'n darpar, ar ei ran,
Ei nerth a'i fywyd ym mhob man.

f 3 O cydfoliannwn Dduw
Am bob trugaredd rad,
Gan wel'd dirioned yw
Ei ofal am ein gwlad :
ff O boed i'n henaid dduwiol ddawn
I foli Duw ag ysbryd iawn.—Amen.

FRENCH. M. C. Sallwyr Ysgotaidd.



373

P.

mp 1 O ARGLWYDD Ior, nawdd dynol ryw,
Wyt nerth i weiniaid gwael,
Pa beth yw dyn i Ti, O Dduw,
Ei gofio ef mor hael !

mf 2 Er bygwth barn am feiau'n gwlad,
Rhoist in' ymwared clau ;
O bydded dy fendithion rhad
Yn foddion i'n gwellâu.

mp 3 Mae'th drugareddau yn ddi-ball
Yn llanw'r ddaiar faith ;
cr Nid oes na dyn na dawn a all
Eu dweyd na'u rhifo chwaith.

f 4 Yr Hwn sy'n gwrando gweddi dyn
Annheilwng is y nef,
Yr Hwn sy'n para byth yr un,
Clodforwn, molwn Ef.—Amen.

Diolchgarwch am y Cynauaf.

ST. STEPHEN. M. C. W. JONES.



ST. AGNES. M. C. J. B. DYKES.



374

H. C.

f 1 AM gael cynauaf yn ei bryd,
Dyrchafwn foliant byw ;
Fe gyfoethogwyd meusydd hyd
p Gan fendith afon Duw.

mf 2 O ffynnon glir haelioni'r nef
Y tardd yn hardd a byw ;
Ac am ei fawr ddaioni Ef
p Y dywed afon Duw.

mf 3 I'w glanau yn sychedig iawn,
Daw natur wan a gwyw ;
Gwneir celloedd gweigion Eisieu'n llawn
p Gan olud afon Duw.

mf 4 O hon yr yf gronynau'r llawr
A'r egin o bob rhyw ;
Nid ydyw gemog wlith y wawr
p Ond dafnau afon Duw.

mf 5 O mor ddeniadol yw ei gwedd
Gan swyn o ddwyfol ryw ;
Pelydra heulwen gras a hedd
p Ar dònau afon Duw.

mf 6 Pryd hau a medi geir o hyd—
Bendithion dynol ryw ;
A gwenau'r nef, holl oesau'r byd,
p Trwy dawel afon Duw.—Amen.

TRIUMPH. 8.7.8.7.4.7. DR. GAUNTLETT.



CAERSALEM. 8.7.8.7.4.7. Alaw Gymreig.



375

E. E.

mf 1 CYDFOLIANNWN Dduw, ein Ceidwad,
Rhoddwn iddo barch a bri;
Taena drosom aden cariad,
Ei rad rodd yw'n bywyd ni:
cr Caed cynauaf
O law hael ddaionus Duw.

mf 2 Gyda'i rad feunyddiol roddion,
Porthi mae ein bywyd brau;
Boed y geneu gyda'r galon
Yn ei ganmol a'i fawrhau:
cr Dyrchwn foliant
Âm ein hymborth i Dduw nef.

f 3 Treulio rhoddion Duw bendigaid
Er ei glod y bôm bob un ;
Cael ei ras i borthi'r enaid,
Rydd ddyddanwch pur i ddyn :
Rhydd ddyddanwch
Na ddaw terfyn arno byth.—Amen.

376

D. E.

mf 1 CORON hardd roist ar y flwyddyn,
Coron o ddaioni llawn,
Mor amrywiol yw'r bendithion
Ynddi yn cyfarfod gawn ;
cr Delw'r nefoedd
Yn ymddangos arni sydd.

mf 2 Ti ddyferaist frasder maethlon
Ar ein daiar, dirion Dad,
Cnwd ein meusydd alwai arnom
I'th glodfori trwy y wlad ;
cr O na roddem,
Fel y dylem, glod i'th ras.

mf 3 Ymwregysu wnaeth ein bryniau
A hyfrydwch pur yng nghyd,
Bloeddia'r holl ddyffrynoedd prydferth
O dan orchudd tew o ŷd ;
cr Gan roi moliant
I dy Enw mawr dy Hun.—Amen.

ALMA. 8.7.8.7.4.7.



377

D.

mf 1 O ! GYFOETHOG Dduw Rhagluniaeth,
O ! drugarog Geidwad dyn,
Y mae hanfod pob bodolaeth
Wrth dy Enw byth yng nglŷn ;
Ti dy Hunan
All ddigoni gwaith dy law.

2 Holl angenion creadigaeth
Foddir yn dy wên erioed ;
Bywyd yn ei lawn amrywiaeth
Dyf yn ol dy ddwyfol droed ;
Mae dy lwybrau
Yn dyferu gan fwynhâd.

3 Pob creadur, am ddyddanwch,
Atat Ti gyfeiria'i lef,
O fwystfilod yr anialwch
Hyd yr angel yn y nef ;
Ni fu prinder
Ar dy lwybrau Di erioed.

4 Mae cyflawnder dy ddaioni
Yn addurno'r bryniau pell ;
Nefol addurn yn cysgodi
Swyn a bywyd gwlad sydd well ;
Mae dy lwybrau
Yn ymgolli yn y nef.—Amen.

Diolchgarwch am y Cynauaf.

MORIAH. 8.7.8.7. D. Alaw Gymreig.



378

D.

f 1 MAE grasusau heb eu haeddu
Ar ein bwrdd o hyd yn llawn,
A chysuron yn dyferu
Ar ein llwybrau—llawenhäwn ;
Nid oes brinder yn ein dilyn,
cr Y mae môr tu cefn i'r ffrwd ;
Duw sydd yn coroni'r flwyddyn,
Ac Efe'n bendithio'i chnwd.

mf 2 Coed y maes a gurant ddwylaw,
Bloeddiant ganu dau eu llwyth ;
A fydd calon dyn yn ddystaw
Wrth fwynhau y grasol ffrwyth ?

cr Mae cangenau ffrwythlawn natur
Yn ymgrymu tua'r llawr,
Ac yn dysgu i bechadur
Gofio Duw Rhagluniaeth fawr.

mf 3 Nid y ddaiar fu'n cynllunio
Coron hardd y flwyddyn hir ;
Cariad dwyfol sy'n dysgleirio
Ym mhob perl o honi'n wir :
f Tyfodd gobaith blwyddyn newydd
Gyda'r grawn, a digon yw ;
Na foed ein telynau'n llonydd,
Canwn ac addolwn Dduw.—Amen.

MEIRIONYDD. 7.6.7.6. D. Alaw Gymreig



Diolchgarwch am y Cynauaf.

OXWICH. 7.6.7.6. D. T. R. Matthews, 1826.



379

AN.

f 1 I DAD y trugareddau
Rhown foliant oll yng nghyd
Am amryw ffrwythau'r ddaiar
A roddwyd in' mewn pryd:
Diolchwn o'n calonau
Am iddo'n cofio'n awr,
A gwylio'n rhagluniaethol
Am danom, lwch y llawr.

p 2 Tydi, O Dduw, sy'n porthi
Y creaduriaid oll,
Oddiwrthyt maent yn dysgwyl
Eu lluniaeth yn ddi-goll:
mf Addefwn ninnau'th gariad
A'th ofal dros y byd,
A mawl fo i'r Hwn a'n prynodd
di A'i waed a'i angeu drud.

f 3 O nertha ni i rodio
Yn deilwng, Arglwydd Dduw,
O'th ras a'th drugareddau,
Tra yma bôm yn byw;
di A phan bôm yn ymadael,
'Rol cyrhaedd pen ein taith,
cr O gad i ni dy foli
f Yn nhragwyddoldeb maith.—Amen.

Hefyd y canlynol:—

I'r Arglwydd cenwch lafar glod (154).
Chwi, weision Duw, molwch yr Ion (266).
Nyni sy'n troi y meusydd (427).
Chwi ddiolchgar bobl, deweh (428).

Gorymdeithiol.

ST. GERTRUDE. 6.5., 12 llin. ARTHUR SULLIVAN.
O'r *Hymnary*, trwy ganiatad Mri. NOVELLO.



380 *J. J.*

f 1 FILWYR ffyddlon Iesu,
'Mlaen, ym mlaen â chwi ;
Baner goch Calfaria,
Dyna'n baner ni :
Iesu yw'r Cadfridog
Ar y fyddin gref
Sydd yn llu banerog
Yn ei ganlyn Ef.
Filwyr ffyddlon Iesu,
'Mlaen, ym mlaen â chwi ;
Baner goch Calfaria,
Dyna'n baner ni.

mf 2 Trem ar groes y faner
Yrr y gelyn draw ;
'Mlaen, ym mlaen, gan hyny,
Buddugoliaeth ddaw ;
f Crynu hyd ei seiliau
Oll mae uffern dân,
Wrth ein gwrando'n bloeddio'r
Haleluia lân.
ff Filwyr ffyddlon, &c.

f 3 Cadarn yw gorymdaith
Byddin ar ei hynt ;
Felly ninnau'n dilyn
Oi y tadau gynt :
Byw yr ŷm gan ochel
Athrawiaethol bla,
Byw mewn cariad perffaith,
Byw mewn gobaith da.
ff Filwyr ffyddlon, &c.

f 4 Derfydd am ogoniant
Sefydliadau dyn ;
Eglwys gadarn Iesu
Erys byth yr un :
Mae addewid bendant
Na wna uffern fawr,
Gwaetha'i holl gynddaredd,
Dynu hon i lawr.
ff Filwyr ffyddlon, &c.

f 5 'Mlaen, ym mlaen, gymdeithion,
Unwch oll â ni ;
Bloeddiwch fuddugoliaeth
Berffaith gyda'r llu :
Dynion ac angylion
Sanctaidd yn y nef
Ganant yn dragwyddol
Anthem iddo Ef.
ff Filwyr ffyddlon, &c.—Amen.

CHENIES. 7.6.7.6. D. T. R. MATTHEWS.



381 H. C.

mf 1 CORONAU gwych y ddaiar—
Gorseddau mawr eu bri—
Ddiflanant, O mor gynnar,
Fel ewyn gwyn y lli';
Ond coron milwyr Iesu,
A gorsedd plentyn nef,
f Saif, er i'r haul dywyllu,
A siglo o'r ddaiar gref.

f 2 O, awn ym mlaen yn wrol,
Ar ol y dêdwydd lu
Ragflaenodd yn orchfygol
Drwy byrth y ddinas fry;
Mae sain eu pêr anthemau
Yn dianc dros y don,
Awn, awn drwy anhawsderau
I blith y dyrfa lon.

f 3 Ym mlaen, chwi filwyr ffyddlon,
Mae Duw yn galw'n awr,
A byddin y gelynion
A'i rhif fel gwlith y wawr;
cr Ond nerthoedd dwyfol Iesu
Sy'n ddigon ar ein rhan,
A thrwy y groes gorchfygu
Yn llwyr wnawn yn y man.

f 4 Mae Eglwys Dduw fel byddin
Yn ysgog ar ei thaith,
Cymdeithas rad ei Brenin
Sy'n goron ar ei gwaith;
ff Un ydyw'r dyrfa addas,
Un Arglwydd iddi sydd,
Un cariad trwy'r gymdeithas,
Un gobaith ac un ffydd.—Amen.

ST. ANN. M. C.



382 *W. M. R.*

f 1 MAB Duw i ryfel allan ddaw
I ennill teyrnas nef,
Ei waedgoch faner chwifia draw,
Pwy una â'i osgordd Ef?

mf 2 Y neb a yf o'i gwpan loes,
f A'i phoen yn nerth y nef,
p Gan yma dawel ddwyn ei groes,
f Hwn a'i dilyna Ef.

mf 3 Y merthyr cyntaf trwy y llen
Edrychai'n graff i'r nef,
Gan weled Iesu uwch y nen,
cr Hwn a'i dilynodd Ef.

di 4 Fel yntau, pan yn nyfnder loes
Marwolaeth, codai lef
mf Dros ei elynion creulon, croes,
f Hwn a'i dilynodd Ef.

f 5 Y deuddeg sant, praidd bychan glân,
Dan ysbrydoliaeth gref,
A dystient trwy y groes a'r tân
Eu gobaith ynddo Ef.

f 6 I wyneb cleddyf treiswyr llym,
A safn y llew a'i lef,
p Ac angau yn ei rwysg a'i rym,
f Y canlynasant Ef.

7 Ardderchog lu, hynafgwyr, plant,
Gwyryfon pur eu llef,
O amgylch gorsedd Iesu gânt
Ei felus foli Ef.

f 8 Dringasant hwy y rhiwiau serth,
mf Mewn llafur llawn i'r nef;
p O Arglwydd, dod i ninnau nerth
I'w ffyddiog ddilyn Ef.—Amen.

Hefyd y canlynol:—
Dau garlo'r groes ym mlaen yr awn (430).

Cyssegriad neu Ail-agoriad Eglwys.



383

E. R.

p 1 O DDUW, preswylio'r ydwyt Ti
Y tragwyddoldeb mawr;
Pa beth yw'r tŷ gyfodwn ni
I'th Enw ar y llawr?

mp 2 Ond eto Ti addewaist fod
Lle byddo dau neu dri
Yn cydymgynnull er dy glod,
Ac yn dy Enw Di.

mf 3 Par fod pregethiad Crist a'i groes,
O fewn i'r Eglwys hon,
Yn eglur seinio i bob oes
Tra safo daiar gron.

mf 4 Yn llenwi'th sacramentau bydd
A'th bresennoldeb cu,
Yn nefol faeth, yn wystlon ffydd
I bawb o deulu'th dŷ.

mp 5 Trwy bob ysbrydol ordinhâd
p O fôr y cariad fry,
O tywallt dy fendithion rhad
Ar bawb o fewn dy dŷ.

f 6 Y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân,
Y dadguddiedig Dri
Yn Un, mewn gweddi byth a chân,
O'i mewn addolwn ni.—Amen.

Cyssegriad neu Ail-agoriad Eglwys.

GLAN ABER. 8.7 8.7.4.7 JOHN LLOYD.



384

R. E.

mf 1 WELE dŷ a adeiladwyd
I dy Enw, Arglwydd Dduw ;
Lle i son am Un a hoeliwyd
Ar y bryn, i ni gael byw ;
Lle i'th foli,
Ac i alw am dy ras.

mf 2 Triged yma dy ogoniant,
Ac na chuddia mwy dy wedd,
mp Rho i'th saint ysbrydol fwyniant,
Rho i bechaduriaid hedd ;
Caed angylion
Destyn canu yma o hyd.

p 3 Mewn dystawrwydd a ffrwythlondeb
Aed yr Eglwys hon ym mlaen,
Mewn athrawiaeth yn ei phurdeb,
Tra bo yma faen ar faen :
cr Ein gogoniant,
Aros ynddi, aros byth.—Amen.

LLEDROD. M. H. Alaw Gymreig.



WAREHAM. M. H. KNAPP.





385

AN.

mp 1 BYWHA dy waith, O Arglwydd mawr,
Rho'th bresennoldeb yma'n awr ;
Ar allor aur yr Eglwys lân,
er O cynneu Di dy nefol dân.

mp 2 Bywhâ dy waith—ymwel drachefn
A'th osodedig ddwyfol drefn,
Yr hon a gedwaist yn y byd
er Yn golofn gref drwy'r oesau i gyd.

mf 3 Yr un yw hon o oes i oes,
Er gwaethaf llid pob gelyn croes ;
O'r Apostolion hyd yn awr
Gwrthsafodd hon bob tywydd mawr.

mf 4 Yr un yw hon, ei nefol fraint
Yw cael ei galw'n Fam y Saint :
Mae'n gwylio'r plant pan ar eu taith,
A'i gweddi yw, Bywhâ dy waith.

f 5 Un corff, un bedydd, ac un ffydd,
Un Arglwydd ac un Ysbryd sydd,
Un ffordd o ras i ben ein taith—
p O Arglwydd Ior, bywhâ dy waith.—Amen.

SABBATH (neu **PENLLYN**). M. S. JOHN WILLIAMS.



386

B. F. a W. E.

mf 1 MOR deg yw'th bebyll di, O Dduw,
Mor hawddgar yw'th gynteddoedd,
Nid oes fath gu balasau gwych
Tu yma i entrych nefoedd.

mf 2 Preswylfa hardd y Brenin mawr
Yw Sïon werthfawr hylwydd ;
f Ac yno bydd ei orsedd lân
A'i drigfan yn dragywydd.

mf 3 Y rhai o dan dy gysgod, Ion,
Yn gysson a arosant ;
Dan lewyrchiadau'th wyneb-pryd,
Y rhai'n fel ŷd adfywiant.

mf 4 Blodeuant, tyfant tua'r nen,
Fel y winwydden ffrwythlon ;
A bydd eu harogl wrth eu trin
Mor bêr a gwin Lebanon.

mf 5 Fe leda'u gwraidd mewn daiar fras
Wrth afon gras y bywyd ;
Eu ceinciau gerdd a'u tegwch fydd
Fel olewwydd yn hyfryd.—Amen.

Hefyd y canlynol :—

Un sylfaen fawr yr Eglwys (423).

Agoriad Ysgol.

ST. ALBAN. M. C.



387

E. R.

mf 1 TI'R hwn fendithiast fychain blant,
Gan eu cofleidio'n fwyn,
Ddywedaist wrth dy ddysgybl gynt
Am borthi'r ieuainc ŵyn.

mf 2 Tra crwydra'r praidd anialwch byd,
Yn aml eu cur a'u cwyn,
Trwy'u taith beryglus ar ei hyd,
Rhaid yw bugeilio'r ŵyn.

p 3 Ti Athraw Da, 'r hwn ar y llawr
A ddysgaist gynt mor fwyn,
cr Doethineb moes i ninnau'n awr
I ddysgu'r ieuainc ŵyn.

p 4 Ti Fugail Da, 'r hwn ar y groes
Oddefaist er eu mwyn,
cr Bydd gyda ninnau trwy ein hoes
Yn hoff fugeilio'th ŵyn.—Amen

Cenadol.

MARINERS. 8.7.8.7.4.7.



Cenadol.



LAUS ANIMÆ. 8.7.8.7,4.7. W. J. H.



388

W.

f 1 DUW, teyrnasa ar y ddaiar,
O'r gorllewin pell i'r de ;
Cymmer feddiant o'r ardaloedd
Pellaf, t'wyllaf is y ne' :
cr Haul Cyfiawnder,
ff Llanw'r ddaiar fawr â'th ras.

f 2 Taened gweinidogion bywyd
Iachawdwriaeth Iesu ar led ;
Cluded moroedd addewidion
Drosodd draw i'r rhai di-gred :
cr Aed Efengyl
Ar adenydd dwyfol wynt.

f 3 Doed preswylwyr yr anialwch,
Doed trigolion bro a bryn,
Doed y rhai sydd ar y cefnfor
I garu'r iachawdwriaeth hyn,
ff Nes bo adsain
Moliant yn amgylchu'r byd.—Amen.

389

J. W.

mp 1 DROS y bryniau tywyll, niwlog,
Yn dawel, f'enaid, edrych draw
Addewidion sydd i esgor
Ar ryw ddyddiau braf gerllaw ;
cr Nefol Jubil,
Gad im' wel'd y bore wawr.

mf 2 Doed yr Indiaid, doed barbariaid,
Doed y negro du yn llu,
Oll i ganu am y goncwest
Unwaith gaed ar Galfari ;
cr Swn y frwydr
Dreiddio i gonglau pella'r byd.

f 3 Gwawria, gwawria, hyfryd foreu
Ar ddiderfyn fagddu fawr,
Nes bo bloedd yr euraidd udgorn
Yn dadseinio nen a llawr—
cr Holl derfynau
Tir Immanuel i gyd.—Amen.

LLANFAIR. 7.4.7.4. D. Alaw Gymreig. Cyng. T. Jones.



390

E. E.

mf 1 CANED nef a daiar lawr,
Fe gaed ffynnon
I olchi pechaduriaid mawr
Yn glaer-wynion ;
f Yn y ffynnon gyda hwy
Minnau ymolcha',
Ac mi ganaf fyth tra b'wyf
Haleluia.

mf 2 Hedd a chariad ar y groes
Darddodd allan ;
Iesu yn nyfnder angeu loes
Faeddodd Satan :
Er ei glwyfo dan ei fron,
Fe orchfygodd ;
Cenir am y frwydr hon
Yn oes oesoedd.

f 3 Byth fe genir am y gwaed
Gliriodd feiau,
p Ac am y goncwest fawr a gaed
Ar Galfaria :
mf Gan ei fyn'd i lawr i'r bedd,
A chyfodi,
Gwelir miloedd ar ei wedd
Yn ei foli.—Amen.

391

AN.

mf 1 AED Efengyl gras ar led
Drwy'r holl wledydd ;
Plygu wnelo'r rhai di-gred
I Fab Dafydd ;
Doed trigolion dai'r a nef,
O un galon,
I ddweyd mai teilwng ydyw Ef
I gael y goron.

mf 2 Crist fydd Llywydd nef a llawr
Yn oes oesoedd ;
Ar ei orsedd fry mae'n awr,
Uwch y nefoedd ;
Eiriol mae ger bron y Tad,
Yn ddiflino,
Ac yn dadleu gwerth ei waed,
Diolch iddo.

mf 3 Moliant Iesu wnawn o hyd
Ei gyhoeddi,
Nes daw holl deyrnasoedd byd
I'w was'naethu ;
f Uned lluoedd nef a llawr
I'w fendithio,
Uchel ganwn ninnau'n awr
Foliant iddo.—Amen.

WILTSHIRE. M. C. Sir G. Smart.



Cenadol.



392

AN.

1 LLEWYRCHED pur oleuni'r nef
Dros wyneb daiar faith,
Ac aed Ffengyl Iesu gwiw
At bob rhyw lwyth ac iaith.

2 Doed deheu, gogledd, dwyrain faith,
Gorllewin o un fryd,
I edrych ar brydferthwch gwaith
Iachawdwr mawr y byd.

3 Mae trwst cerbydau Jubil fwyn
Y mil blynyddoedd hedd
Ym mron â d'od i gyrhaedd clyw
Merch Sion wael ei gwedd.—Amen.

Hefyd y canlynol:—

O Greenland oer, fynyddig (277). O Arglwydd, galw eto (406).

Undeb yr Eglwys.

393

D. J.

f 1 CYDUNED seintiau daiar lawr
A thyrfa fawr y nef
I ganu clodydd Iesu mawr,
di Un ydynt ynddo Ef.

f 2 Un teulu dedwydd sydd gan Dduw,
Un Eglwys fyw sy'n bod;
Mae rhan o fewn y nefol lys,
di Rhan arall is y rhod.

f 3 Un fyddin enwog ydynt oll,
O dan awdurdod Ior:
Aeth adref fyrdd trwy'r dyfroedd maith,
p 'R ŷm ni ar lan y môr.

mf 4 Ehedeg i'r anfarwol fyd
Mae miloedd bob rhyw awr:
'R ŷm ninnau'n myned ddydd a nos
I'r tragwyddoldeb mawr.

p 5 O am gael uno gyda'r llu
Gyrchasant at y nod,
cr Ac ar adenydd cariad cu
Ehedeg uwch y rhod.—Amen.

FFIGYSBREN (neu CLOD). 10au. W. C. T. & C. Book. Alaw Gymreig.



394

E. J.

mf 1 MAE Eglwys Dduw trwy'r ddai'r a'r nef yn un,
Y meirw a'r byw â'u cydsain yn gytûn;
f "Teilwng yw'r Oen," medd seintiau yn y nef,
"Teilwng yw'r Oen," yw'n llafar ninnau a'n llef.

mf 2 Darfydded son am bob ymryson mwy—
Partïol farn, a rhagfarn, lawr â hwy;
mp Doed ysbryd hedd, tangnefedd yn eu lle,
A chariad pur, o'r Cariad sy'n y ne'.

mf 3 Dechreued sain seraphiaid yn y nef
Ddadseinio'n llu ger bron ei orsedd Ef;
cr Cyweirient eu telynau oll yn un,
I ganu clod y Duwdod yn y dyn.

mp 4 Doed teulu'r nef ar fôr o wydr clir
cr Sy'n sefyll ger ei fron mewn gwisgoedd pur;
f Doed plant y llawr a phlant Paradwys fry
I ganu 'nghyd wir glod i'r Iesu cu.—Amen.

395

A. G.

mf 1 GWNA fi fel pren planedig, O fy Nuw,
Yn ir ar lan afonydd dyfroedd byw;
A'i wraidd ar led, a'i ddail heb wywo mwy,
Yn ffrwytho dan gawodydd dwyfol glwy'.

2 Fel byddwyf byw, yng nghanol pob rhyw bla,
Dan gysgod clyd adenydd Iesu da;
A'm tegwch gwir, fel olewydden wiw,
O blaniad teg daionus Ysbryd Duw.

3 Ac yno caf, mewn haf, dragwyddol ddydd,
Y palmwydd teg, a'r goron brydferth sydd
Yng nghadw gan yr Iesu pur i'w saint,
Mewn dysglaer fyd; O nefol freiniol fraint!—Amen.

Hefyd y canlynol:—

Un ydyw'r Eglwys oll (422).

Wrth ymadael.

ALLELUIA DULCE CARMEN. 8.7.8.7.4.7. M. Haydn.



MARINERS. 8.7.8.7.4.7.



396

W. G.

mp 1 DAN dy feudith, wrth ymadael,
Y dymunem, Arglwydd, fod ;
cr Llanwa'n c'lonau oll â'th gariad,
A'n geneuau oll â'th glod :
mp Dy dangnefedd
Dyro ini yn barhäus.

mf 2 Am Efengyl gras a'i breintiau
Rhoddwn ddiolch byth i Ti ;
Boed i waith dy Ysbryd Sanctaidd
Byth gynnyddu ynom ni :
I'r gwirionedd
Gwna ni'n ffyddlon tra bôm byw.

mf 3 Yna, pan y delo'r alwad
Ini fyn'd o'r ddaiar hon,
Dwg ein henaid o bob trallod,
I gael gorphwys ger dy fron :
ff Haleluia,
Yno canwn yn ddi-baid.—Amen.

Claddedigaeth.

EIFIONYDD.

8.7.8.7. D.

J. A. Lloyd (o Aberth Moliant).



ELWY.

8.7.8.7. D.

Alaw Gymreig.
Cyng. D. Jenkins, Mus.Bac.



397

W.

p 1 COFIA, f'enaid, cyn it' dreulio
D' oriau gwerthfawr yn y byd,
Cyn it' hedeg ffwrdd oddiyma,
P'un a gest ti'r trysor drud :
Ym mha ardal bydd dy letty ?
Fath bryd hyny fydd dy wedd ?
P'un ai llawen ai cystuddiol
Fyddi'r ochor draw i'r bedd ?

mp 2 Mae'm cyfeillion wedi myned
Draw yn lluoedd o fy mlaen,
Rhai fu'n teithio dyffryn Bacca
Gyda mi i Salem lân :
cr Yn y dyffryn tywyll garw,
Ffydd i'r lan a'u daliodd hwy ;
mf Mae'r addewid lawn i minnau,
Pam yr ofna'm henaid mwy ?—Amen.

398

D. W.

mf 1 YN y dyfroedd mawr a'r tònau
Nid oes neb a ddeil fy mhen
Ond fy anwyl Briod Iesu
A fu farw ar y pren ;
f Cyfaill yw yn afon angeu
Ddeil fy mhen yn uwch na'r don,
Golwg arno wna i mi ganu
Yn yr afon ddofn hon.

mf 2 O anfeidrol rym y cariad !
Anorchfygol ydyw'r gras!
Digyfnewid yw'r addewid,
Pery byth o hyn i maes !
f Hyn yw'm hangor ar y cefnfor,
Na chyfnewid meddwl Duw :
Fe addawodd na chawn farw,
Yng nghlwyfau'r Oen y cawn i fyw.—
Amen.

PENNANT. M. C. J. Ambrose Lloyd, Ieu.



ABRIDGE. M. C. Isaac Smith.



399

E. E.

mf 1 MOR ddedwydd yw y rhai trwy ffydd
Sy'n myn'd o blith y byw ;
Eu henwau'n perarogli sydd,
p A'u hun mor beraidd yw.

mp 2 Ar ol eu holl flinderau dwys,
Gorphwyso maent mewn hedd,
Ym mhell o swn y byd a'i bwys,
p Heb boen yn llwch y bedd.

mf 3 Llais un gorthrymydd byth ni ddaw
I'w deffro i wylo mwy ;
cr Na phrofedigaeth lem, na chroes—
p Un loes ni theimlant hwy.—Amen.

HYDER. 8.7.8.7.4.7. R. Ellis.



400

AN.

mp 1 DERFYDD imi deithio'r ddaiar,
Tragwyddoldeb sydd gerllaw;
Ni chaf aros, ni chaf orphwys,
Nes im' fyn'd i'r ochr draw:
cr O Iachawdwr,
Paid â'm gadael yn y glyn.

mp 2 Pan fo dyfroedd oer marwolaeth
O fy amgylch yn crynoi,
Pwy a ddeil fy mhen i fyny?
Pwy a wna i'm hofnau ffoi?
cr Neb ond Iesu,
Gwenaf yno yn ei law.—Amen.

RESIGNATION. M. H. E. Miller, Mus. Doc.
Cyng. J. H. Roberts, Mus. Bac.



401

E. E.

mf 1 PAHAM y wylwn am y rhai
Sydd wedi cyrhaedd fry heb fraw?
Yn rhydd oddiwrth bob poen a bai,
cr Maent eto'n fyw yr ochr draw.

p 2 Yn ymchwydd yr Iorddonen ddu,
cr Yr Archoffeiriad oedd gerllaw
I ddal eu pen, a'u dwyn yn hy,
Drwy'i hymchwydd oll i'r ochr draw.

p 3 Os rhoed eu cyrff i'r ddaiar ddu,
I orphwys hyd y farn a ddaw,
cr Ehedodd eu heneidiau fry:
Maent eto'n fyw yr ochr draw.

Claddedigaeth.

p 4 Ac os yw'r llysiau ar eu bedd
Yn gwywo, er y gwlith a'r gwlaw,
cr Y palmwydd gwyrdd a gariant hwy,
Ni wywant byth yr ochr draw.

mf 5 Pan y cyrhaeddom Salem fry,
A heirdd gynteddau'r nef uwchlaw,
cr Cawn yno wel'd ein brodyr cu,
Maent eto'n fyw yr ochr draw.—Amen.

Hefyd y canlynol:—

Iachawdwr dynol ryw (229). Boed moliant Iesu mawr (230).
Ychydig ſlwyddau'n hwy (434).
Hefyd yr Emynau ar Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb (299–317).

Y Merthyron a'r Saint.

HENGWRT. 7.6.7.6. D. M. W. Griffiths, Mus.Bac.



402

T. J.

mf 1 ER myn'd trwy fflam a dyfroedd,
Medd gair yr Iesu glân,
Ni'th foddir gan y moroedd,
Ni'th losgir gan y tân:
f Fe rydd lawn waredigaeth
I'w eiddo cyn bo hir;
Cânt seinio iachawdwriaeth
O fewn i'r nefol dir.

mf 2 Mae cwmwl mawr o dystion
Yn iach yr ochr draw,
I'n Harglwydd a fu'n ffyddlon
Ym myd y poen a'r braw:
cr Yn ol eu traed dilynwn
Trwy dir y blinder maith;
Ar air ein Harglwydd pwyswn
Nes d'od i ben ein taith.

p 3 Os rhaid yw bod mewn gofid
Dros ennyd yn y byd,
Ceir gorphwys yn dragwyddol
O fewn i'r nefoedd glyd:
cr Ni chanlyn unrhyw elyn
I'r wlad tu draw i'r bedd;
'Does yno ond llawenydd,
A chariad byth, a hedd.—Amen.

Hefyd y canlynol:—

Mae Sïon wan yn griddfan dan y groes (200).
Mae lluoedd maith ym mlaen (297).
Mae pererinion draw o'm blaen (319).
O! dyrfa fawr ysbrydol (321).
Arglwydd, Ti sydd yn cyssylltu (424).
Wele dorf y gwaredigion (425).
Pwy yw'r rhai n, fel ser y nefoedd (426).
Am fod fy Iesu'n fyw (436).

Dydd St. Andreas.

ST. DAVID. M. C.



403 E. R.

mf 1 Y MAE cenadon nef yng nghyd
Yn dangos i bob oes
Oen Duw yn dwyn pechodau'r byd,
p Trwy iawn ei waedlyd groes.

p 2 Moes, Arglwydd, nerth i ufuddhau
I alwad gras y nef,
A chanlyn Iesu, a mwynhau
Ei hoff gymdeithas Ef.

pp 3 O! am gael treulio un prydnawn
Yng ngwyddfod Crist a'i glyw,
cr Nes, fel Andreas, dd'od i'w lawn
Adnabod Ef yn Dduw.

mf 4 Diddymai hyny'n serch a'n bryd
Oddiwrth holl bethau'r llawr,
Fel byth na charem yn y byd
Ddim ond y Ceidwad mawr.

f 5 Gwahoddwn ato chwaer a brawd,
A chân a chyfaill cu,
Croesawa Ef y gwael a thlawd
I'w ddedwydd gartref fry.—Amen.

Dydd St. Thomas.

CAERSALEM. 8.7.8.7.4.7. Alaw Gymreig.



Dydd St. Thomas.

404

E. R.

mf 1 TRWY ammheuon, pryder, ofnau,
Mae ein llwybrau o bob tu,
Rhwng y bedd, yr adgyfodiad,
A'r esgyniad dedwydd fry ;
p Arglwydd, dyro
cr Ffydd i'n cynnal ar y daith.

p 2 Dyro ffydd i gyflawn gredu
Tystion sydd, o oes i oes,
cr Gwedi dal i dystiolaethu
Heb un bwlch am Grist a'i groes ;
mf Gweinidogaeth,
Sacramentau Eglwys Dduw.

mf 3 Macnt yn dangos ini'r clwyfau
Yn ei ddwylaw Ef a'i draed ;
Dangos archoll ddofn ei ystlys—
Dangos ini'r dwfr a gwaed ;
f A dywedant,
"Na fydd anghredadyn mwy."

f 4 Clywir adsain yn y pellder,
Swn caniadau'r Eglwys fawr,
Megys adsain "dyfroedd lawer,"
Trwy yr oesau'n d'od i lawr ;
ff Unwn ninnau
Yn yr ogoneddus gân.

f 5 Buan chwelir pob ammheuon,
Ffydd yn olwg ini drydd ;
Gyda'r saint ar fynydd Sion
Gobaith yn fwynhâd a fydd ;
ff Cenir yno
Uwch pob poen ac ofnau mwy.—**Amen.**

Hefyd y canlynol :—

Fe ddwededd Anghrediniaeth **(224)**.

Dydd St. Paul.

MANNHEIM. 8.7.8.7.4.7. Alaw Ellmynig.



405

W.

mf 1 DISGYN, Iesu, o'th gynteddoedd,
Lle mae moroedd mawr o hedd,
mp Gwel bechadur sydd yn gorwedd
Ar ymylon oer y bedd ;
cr Rho im' brofi
Pethau nad adnabu'r byd.

mf 2 Rho oleuni, rho ddoethineb,
Rho dangnefedd fo'n parhau,
Rho lawenydd heb ddim diwedd,
Rho faddeuant am bob bai ;
p Triged d' Ysbryd
Yn ei deml dan fy mron.

mf 3 Ynot mae fy iachawdwriaeth,
Onide mi lwfrhawn,
Ac mae'r poenau a ddyoddefaist
Ar Galfaria'n berffaith iawn
cr Dros bechodau
Pechaduriaid dua'u lliw.

mf 4 Yn y ffynnon hon agorwyd,
Yn dy ystlys ar y pren,
'Rwyf fi'n d'od, â'm gwisg yn aflan,
Idd ei chànu'n awr yn wen :
f Mi ddof allan
Fel yr eira ar y bryn.—**Amen.**

Dydd St. Paul.

PWLLHELI. 7.6.7.6. D. JOHN FRANCIS.



406 D. J.

mf 1 O ARGLWYDD, galw eto
Fyrddiynau ar dy ol,
A dryllia'r holl gadwynau
Sy'n dal eneidiau'n ol ;
A galw hwynt o'r dwyrain,
Gorllewin, gogledd, de,
f I'th Eglwys yn ddi-attal,
Mae digon eto o le.

mf 2 Daw miloedd o rai aflan
I 'mofyn am y gwaed
A lifodd ar Galfaria
I olchi'r duaf gaed ;

cr Er cymmaint ag a olchwyd
Sydd yn y nef yn awr,
Mae'r ffynnon fel y grisial
Yng ngwlad y cystudd mawr.

f 3 Daw caethion duon India,
Anwariaid gwledydd pell,
I blygu'n llu i'r Iesu,
Gan geisio gwlad sydd well,
mp A'r dagrau ar eu gruddiau
p Wrth gofio angeu loes,
cr Gan ddechreu canu'n beraidd
Am rinwedd gwaed y groes.—Amen.

Cyflwyniad Crist yn y Deml.

FRENCH. M. C. Sallwyr Ysgotaidd.



Cyflwyniad Crist yn y Deml.

407

E. R.

mp 1 BU ryfedd gweled Brenin nef
Ym mreichiau morwyn dlawd;
cr Yn nheml ei Dad cyflwynai Ef
Yn Faban yn y cnawd.

mf 2 Daeth gydag Ef awelon byw
O dir Paradwys fry,
Fel blaen-dywalltiad Ysbryd Duw
Ar bawb o fewn y tŷ.

f 3 Ym Mherson Crist dynoliaeth fawr
Gyflwynwyd oll i Dduw
Fel plant, i'w meithrin ar y llawr,
Ac iddo sanctaidd fyw.

p 4 O Arglwydd grasol, caniatâ
Ein llwyr gyflwyno ni,
mp A phur galonau, ufudd, da,
Trwy'r Iesu hwn i Ti.—Amen.

Dydd Gwyl St. Matthias.

ABERDEEN. M. S. R. Brown-Borthwick.



408

E. R.

f 1 YNG ngweinidogaeth Eglwys Grist
Agorir athrist fylchau;
Syrth ambell un i rwyd y Fall,
Ac arall syrth yn angau.

f 2 I lenwi'r bylchau dewis raid
Fugeiliaid fo o galon
Yn caru Crist—mawrhau ei waith,
A rhodio'n berffaith gysson.

p 3 O Arglwydd, chwiliwr calon dyn,
I'th waith dy Hun tuedda
cr Y rhai ddewisaist, arnynt hwy
Dy Ysbryd mwy tywallta.

pp 4 O cadw'th Eglwys byth, a chau
Ei drws rhag gau athrawon,
cr A llywodraether hi heb baid
Gan wir fugeiliaid ffyddlon.—Amen.

Cyfarchiad Mair Wyryf Fendigedig.

ST. BERNARD. M. C. L. G. Hayne.



409

W. M.

mp 1 O TYWALLT i'n calonau ni
Dy ras o'r nef i lawr,
Fel gallom, megys plant i Ti,
Dy garu, Arglwydd mawr.

mf 2 Fe ddaeth y newydd da i ddyn
Trwy eneu angel nef,
Y deuai d' anwyl Fab dy Hun
Yn un â'i natur ef.

pp 3 Er mwyn ei ddyoddefaint drud
A'r groes fu'n ei dristäu,
p Dysg ini farw 'nawr i'r byd
A'i holl fwynderau brau.

mf 4 Trwy rinwedd ei anfeidrol gur,
Dwg ni ym mlaen i'r nef,
cr I fywyd gogoneddus, pur
Ei adgyfodiad Ef.—Amen.

Dydd St. Marc.

CEMMAES. M. S. J. Williams.

410

B. F.

mf 1 GWYN fyd y dyn a gred yn Nuw,
Efe gaiff fyw'n dragwyddol ;
Ei hyder sanctaidd cadarn sydd
Fel mynydd Sïon siriol

mf 2 Tragwyddol fraich trugaredd gu
Sy'n amgylchynu'i enaid ;
O law y Tad nid ä ar goll
Fyth un o'r holl ffyddloniaid.

3 Pe syrthiai braisg golofnau'r byd,
A'r bryniau i gyd i'r eigion,
f Saif Eglwys Dduw, ni sigla daru
O gadarn sylfaen Sïon.—Amen.

Dydd Gwyl St. Phylip a St. Jago.

MORAVIA (neu TYTHERTON). M. B. L. West.



411

N.

mf 1 AGORWYD ffordd i'r nef
Gan Iesu ar y pren ;
p A Thi dy Hunan, Iesu mawr,
Yw'r ffordd i'r nefoedd wen.

mf 2 Gwirionedd ydyw'r ffordd
I'n traed crwydredig ni :
A'r pur Wirionedd perffaith hwn,
p Fy Iesu, ydwyt Ti.

mf 3 Mae'r ffordd i'w theithio'n iawn
Yn fywyd i bob un ;
p A thithau, Iesu grasol, byth
Yw'r bywyd hwn dy Hun.

f 4 Rho ras i rodio'r ffordd
Yn union lwybrau'r gwir,
Gan deithio yn ol traed y praidd
Nes inyn'd i'r nefol dir.

f 5 Rho ras i rodio'r ffordd,
Nid dan arweiniad dyn ;
Yn ol dy draed tywyser fi,
Dy gamrau Di dy Hun.—Amen.

Dydd St. Barnabas.

IRISH. M. C. J. Smith.



412

W. M.

mp 1 O ARGLWYDD Dduw, pob gras a dawn
Sydd yn d' alluog law,
Ac o'th gyflawnder perffaith, llawn,
Pob rhodd ddaionus ddaw.

mf 2 I Fab dyddanwch rhoddaist Ti
Ragorol ddoniau'r nef,
Ac fel apostol mawr ei fri,
A'th Ysbryd gwisgaist ef.

p 3 Na ad i ninnau, Arglwydd mawr,
Fel gwan anddifaid gwael,
cr Fod yn ddiffygiol yma'n awr
O ddoniau'th Ysbryd hael.

p 4 O caniatâ dy ras i ni,
A'th fywiol nerth bob pryd,
cr I iawn ddefnyddio'th ddoniau Di,
f I'th foliant yn y byd.—Amen.

Dydd St. Joan Fedyddiwr.

EDEYRNION. 8.7.8.7.4.7. Alaw Gymreig. Cyng. J. D. Jones (o lyfr Tanymarian.)



413

D. J.

mf 1 DEUWCH, bechaduriaid tlodion,
Clwyfus, cleifion o bob rhyw,
Crist sydd barod i'ch gwaredu—
Llawn tosturi yw Mab Duw:
Nac ammheuwch,
Abl ac ewyllysgar yw.

mp 2 Rai angenus, dewch a chroesaw
I gael rhoddion Duw yn rhad;
Cewch faddeuant a thangnefedd,
A phob gras yn ddinacâd:
cr Dewch heb arian,
Prynwch berlau'r nefol wlad.

mp 3 Dewch, flinderog a thrwmlwythog,
Trwy y cwymp ga'dd farwol friw;
Dewch at Iesu tra mae'n galw,
Ganddo cewch orphwysfa wiw:
cr Pechaduriaid,
f Nid rhai cyfiawn, eilw Duw.—Amen.

Dydd St. Pedr.

DISMISSION. 8.7 8.7. D. S. Webbe.



Dydd St. Pedr.



414

GO.

mf 1 O! AM deimlo'th gariad, Iesu.
Yn ein cymhell at dy waith,
Cariad cryf i gadw'th eiriau,
Nes terfyno angeu'n taith ;
cr Cariad fwrio ofnau allan,
Drygau cedyrn rhagddo'n ffoi,
f Fel nas medro gallu'r fagddu
Beri ini'n ol i droi.

mf 2 Ennyn ynom ffiam angerddol
O rywogaeth nefol dân,
Fel y gallom ddweyd yn hylwydd,
"Gwyddost bobpeth, Arglwydd glân :
cr Gwyddost ein bod yn dy garu ;"
O, am fedru caru'n fwy,
f Caru fel trigolion gwynfyd,
Caru'n hyfryd megys hwy.—Amen.

Dydd St. Iago.

ABERDEEN. M. S. R. Brown-Borthwick.



415

W. M.

mf 1 O DDUW trugarog, rhoddaist ras
I'th ffyddlawn was Sant Iago
I adaw'r oll, a'i geraint cu,
Pan alwodd Iesu arno.

mf 2 Heb ammheu dim, dilynai'n glau,
Gan ufuddhau yn ebrwydd
I rasol rym trugarog lais
A dwyfol gais ei Arglwydd.

mp 3 O nertha ninnau o lawn fryd
Roi'r cnawd a'r byd i fyny,
A phobpeth arall is y nen,
Yn llawen er mwyn Iesu.

p 4 O gwna ni'n barod trwy ein hoes,
Er pwysau'r groes, i'w ddilyn ;
cr Ac ar ein taith ein nerth a'n cân
mf A fo dy lân orchymmyn.—Amen.

Dydd St. Bartholomeus.

VERONA. 8.7.8.7.4.7. Alaw Eidalaidd.
Cyng. J. H. Roberts, Mus.Bac., Cantab.



416

W.

mf 1 CHWILIO am danat, addfwyn Arglwydd,
Mae fy enaid yma a thraw ;
Teimlo 'mod yn berffaith ddedwydd
Pan y byddi Di gerllaw :
f Gwedd dy wyneb
Yw fy mywyd yn y byd.

mp 2 Boed fy nghalon iti'n deml,
Boed fy ysbryd iti'n nyth ;
Ac o fewn y drigfan yma,
Aros, Iesu, aros byth :
cr Gwledd wastadol
Fydd dy bresennoldeb im'.

mp 3 Yn y ffwrnes danllyd, greulon,
Os Tydi a ddaw ym mlaen,
mf 'Does ond heddwch, a mwyneidd-dra,
A thiriondeb yn y tân :
cr Gwên dy gariad
Wna bob cystudd yn ddi-rym.

p 4 Ti wy'n 'mofyn—Arglwydd, tyred,
Yn mhob trallod bydd gerllaw ;
mp Dilyn fi, 'rwyn'n ofni yma—
Dilyn fi, 'rwy'n ofni draw :
cr Dan dy aden
f Mi edrycha' 'ngwyneb llu.—Amen.

Dydd St. Matthew Efengylwr.

TREFAES. M. S. D. Lewis, Llanrhystyd.



Dydd St. Matthew Efengylwr.



417

N.

mf 1 PA beth yw cyfoeth druta'r byd,
Ei aur i gyd a'i arian,
Ond gwagedd a gorthrymder blin,
Pe'u ceid i'w trin yn gyfan?

mf 2 Mwy golud dirmyg Crist a'i groes,
Er mynych loes a chleisiau,
Na thrysor byd, ei barch, a'i glod,
A sorod ei bleserau.

mf 3 Mae'r groes i'r Cristion, er yn wan,
A'i dyodde', 'n gan' dedwyddach
Na mwyniant pura'r cnawd a'r byd—
Hon yw fy mywyd mwyach.

f 4 Er holl ddeniadau'r byd a'r cnawd,
Ac er eu gwawd, mi godaf
Wrth alwad Crist, ac ar ei ol
Ei lwybrau grasol rhodiaf.

mp 5 Drwy ras dilynaf, dan y groes,
Ar hyd fy oes, fy Iesu;
cr Caf goron yn ei lle cyn hir
Yn nefol dir y canu.—Amen.

Dydd St. Mihangel a'r holl Angylion.

LYMINGTON. 7.6.7.6. D. R. Jackson.



418

W.

mf 1 ANGYLION doent yn gysson,
Rifedi gwlith y wawr,
Rhoent eu coronau euraidd
O flaen y fainc i lawr;
f Chwareuent eu telynau
Yng nghyd â'r saint yn un,
Fyth, fyth ni chanant ddigon
Am Dduwdod yn y dyn.

f 2 O! foroedd o ddoethineb
Oedd yn y Duwdod mawr,
Pan yn cyfranu ei gariad
I bryfed gwael y llawr,
A gwneuthur i'w drugaredd,
A'i dostur maith yng nghyd,
I redeg megys afon
Lifeiriol dros y byd!

f 3 O! gariad heb ei gymhar!
A thyna'r testyn sy
Yn llanw holl ganiadau
'R angylaidd, sanctaidd lu:
cr Anfeidrol ras rhyfeddol!
Pe mud y byddai dyn,
Dadseiniai'r holl greadigaeth
Yn ddiau trwyddi'n un.—Amen.

Dydd St. Mihangel a'r holl Angylion.

BYZANTIUM. M. C. JACKSON.



419

E. R.

mf 1 ANGYLION dysglaer rif y ser
Amgylchant orsedd nef,
Gan ddydd a nos foliannu Ner.
A'i wasanaethu Ef.

f 2 Castellant hefyd nos a dydd
O gylch rhai bychain Duw,
Gan warchod etifeddion ffydd,
A'u nerthu iddo i fyw.

f 3 I'r cyfiawn niwed byth ni ddaw
Ar ffordd yr anial maith,
Symmuda gwersyll Duw gerllaw
I'w gadw ar ei daith.

f 4 Dyrchafwn, gydag engyl nef,
Ein mawl parhaus i Dduw:
Fel hwythau gwasanaethwn Ef
Tra byddom yma'n byw.

mp 5 Y llen sydd rhyngom, tynir hon,
A buan cawn yng nghyd
f Foliannu Duw â lleisiau llon
Mewn rhyw ddedwyddach byd.—Amen.

Dydd St. Luc Efengylwr.

ROCKINGHAM. M. H. DR. MILLER.



Dydd St. Luc Efengylwr.

420

W.

mf 1 O IESU mawr, y Meddyg gwell,
Gobaith yr holl ynysoedd pell,
Dysg fi i seinio maes dy glod,
Mai digyfnewid wyt erioed.

p 2 O, hoelia'm meddwl, ddydd a nos,
Crwydredig, wrth dy nefol groes;
A phlana'm hysbryd yn y tir
Sy'n llifo o lawenydd pur:

mp 3 Fel bo fy nwydau drwg yn lân
Yn cael eu difa â'r nefol dân;
A chariad yn melusu'r groes,
Trwy olwg ar dy farwol loes.

p 4 Ti fuost farw, rhyfedd yw!
Er mwyn d' elynion i gael byw;
Derbyn i'th gôl, a rho ryddhâd
I'r sawl a brynaist â dy waed.

f 5 Fe gaiff dy Enw anwyl glod,
Pan ddarffo i'r ddai'r a'r nefoedd fod,
Am achub un mor wael ei lun
Nad all'sai ei achub ond dy Hun.—Amen.

MARTYRDOM.

M. C.



421

E. V.

p 1 OS ydwyf wael fy llun a'm lliw,
Os nad yw'm briw'n gwellâu,
cr Af at y Meddyg mawr ei fri,
Sy'n gadarn i iachâu.

p 2 O'm pen i'm traed, 'rwy'n glwyfus oll,
Pob archoll yn dyfnhau:
cr Neb ond y Meddyg da i mi,
Sy'n gadarn i iachâu.

p 3 Os wyf heb rym i ddim sydd dda,
Dan bwys fy mhla'n llesgâu,
cr Rhydd Iesu gryfder i'r di-rym,
Mae'n gadarn i iachâu.

mp 4 O ddydd i ddydd, caf nerth i ddal,
cr Mae'i ras yn amlhau:
f Am hyn, nid anobeithiaf ddim,
Mae'n gadarn i iachâu.—Amen.

Dydd St. Simon a St. Judas.

BEVAN. 6.6.6.6.8.8. Sir J. Goss, Mus.Doc.



422

P. J.

mf 1 UN ydyw'r Eglwys oll
Trwy'r byd a'r nefoedd wen,
A gwelir hi'n ddigoll
Ar ddelw Crist, ei Phen:
f Hardd iawn fydd gwedd y dyrfa fawr
Pan ddelo'r saint o lwch y llawr.

mf 2 Un Corff, un Ysbryd sydd,
Un Arglwydd i'r holl saint,
Un Bedydd ac un ffydd,
Un gobaith, er pob haint:
p Er bod yn fynych yma'n drist,
mf Cânt gyd-deyrnasu gyda Christ.

f 3 Dadseiniant byth trwy'r nef
Rinweddau angeu loes;
Cydganant, "Iddo Ef"
Heb neb yn tynu'n groes:
cr Bydd pawb o'r brodyr yno'n un,
Yn moli'r Duwdod yn y dyn.

mp 4 O, boed i'th Ysbryd, Ior,
Ein selio hyd y dydd
Daw'r saint o dir a môr,
A'u rhwymau oll yn rhydd:
f Cawn yna ganu gyda hwy,
Dragwyddol glod am farwol glwy'.—Amen.

AURELIA. 7.6.7.6. D. Dr. Wesley.

Dydd St. Simon a St. Judas.



423

A. J.

f 1 UN sylfaen fawr yr Eglwys,
Yr Arglwydd Iesu yw ;
Ei greadigaeth newydd
Trwy ddwfr, â gair fy Nuw ;
Ei briodasferch sanctaidd
di O'r nef i'w cheisio daeth,
p A'i waed ei Hun fe'i prynodd,
A'i bywyd ennill wnaeth.

mf 2 Fe'i planwyd trwy'r holl wledydd,
Ond *un* er hyn i gyd,
Ei sel, *un* ffydd, *un* Arglwydd,
Un Bedydd dros y byd ;
Un Enw glân folianna,
Un ymborth ynddi gawn,
Gan gyrchu at *un* gobaith
O ddoniau'r nef yn llawn.

mp 3 Er yma'n nod i ddirmyg,
A'i phen dan lawer ton,
Gan sismau yn rhwygedig,
Heresiau'n clwyfo'i bron ;
cr Ond gweddi gwylwyr Sïon
Ddyrchafa'n gryf—"Pa hyd?"
p A byr fydd nos wylofain,
f Gorfoledd leinw'r byd.

mf 4 Yng nghanol gorthrymderau,
A thwrf y rhyfel mawr,
Hiraethu mae am weled
Tangnefedd ar y llawr ;
cr Nes troir ei ffydd yn olwg
I loni ei llygaid prudd,
f A'r Eglwys orfoleddus
p Mewn hedd yng ngwlad y dydd.

mf 5 Ond yma mae mewn undeb
A Duw, y Tri yn Un,
p Mewn dirgel hardd gymmundeb
A seintiau'r nef yng nglŷn :
cr O! deulu glân a dedwydd,
O Arglwydd, nertha ni
f I esgyn gyda'r Iesu
I'th bresennoldeb Di.—Amen.

Gwyl yr holl Saint.

ELWY. 8.7.8.7. D. Alaw Gymreig. Cyng. D. Jenkins, Mus.Bac.



DEERHURST. 8.7.8.7. D. J. Langran.



424

AN.

mf 1 ARGLWYDD, Ti sydd yn cyssylltu
D' etholedig blant yng nghyd,
Yn nirgelaidd gorff yr Iesu,
Yng nghymmundeb nefol fryd.
p Caniatâ, O Dduw, i ninnau
Ras i ganlyn ol dy saint,
Mewn duwioldeb pur hyd angau,
Fel y caffom ran o'u braint.

mf 2 Draw maent hwy mewn nefol fwyniant
Gyda Thi, heb loes na chlwy',
Mewn llawenydd a gogoniant,
Lle na allant farw mwy:
cr Nertha ni i'th garu'n wastad
Tra'n ymdeithio ar y llawr,
Nes y delom ar dy alwad
I lawenydd nefoedd fawr.—Amen.

425

W. M.

mf 1 WELE dorf y gwaredigion
Wedi d'od i Sïon lân,
Tyrfa na all neb eu rhifo,
Heddyw yn eu gynau glân;
Sefyll byth ger bron yr orsedd
Y mae teulu'r nefoedd wen;
Hyfryd balmwydd yn eu dwylaw,
Pawb â'i goron ar ei ben.

f 2 Seintiau fry, chwarewch eich tannau
Ym mhêr seiniau'r nef o hyd;
Molwch ar eich uchel fanau
'R Hwn fu'n dyoddef dros y byd;
Iachawdwriaeth gafwyd trwyddo,
Dygodd ini hedd di-lyth;
Clod yr Hwn a faeddodd angeu
Caned ser y boreu byth.

3 Nesaf at y dorf a olchwyd
Gwelir dysglaer engyl nef,
Heirdd gerubiaid a seraphiaid
Yn ei ogoneddu Ef:
Syrthiant oll ar eu gwynebau,
Ac ymgrymant ger ei fron;
Canu byth mewn pêr emynau
A fydd gwaith y lluoedd llon.

f 4 Seiniant oll—Amen, boed felly—
Byth i'r Iesu byddo clod;
Y gogoniant, nerth, a'r mawredd,
A'r anrhydedd iddo boed:
mp "Teilwng ydyw'r Oen a laddwyd,"
Byth heb dewi meddant hwy;
"Teilwng ydyw," seiniwn ninnau
p Brynwyd trwy ei farwol glwy'.—Amen.

Gwyl yr Holl Saint.

BLAENCEFN. 8.7.8.7.4.7. John Thomas, Llanwrtyd. O Gemau Mawl, D. Jenkins, Mus.Bac.



426

An.

f 1 PWY yw'r rhai'n, fel ser y nefoedd,
Sydd gerbron gorseddfainc Duw,
Mewn ardderchog euraidd wisgoedd,
Yn cydseinio clodydd gwiw?
ff Haleluia
Yw eu gorfoleddus gân.

mf 2 Dyma'r rhai a ddaethant allan
Trwy y byd, o'r cystudd mawr;
Gwae a gofid fu eu cyfran
Cyn cael gwynfyd uwch y llawr;
Ond fe'u golchwyd
Oll yn lân yng ngwaed yr Oen.

p 3 Arglwydd, cynnorthwya ninnau
Mwy i ddilyn ol eu traed,
Nes cyrhaeddom, gyda'th seintiau,
Wir ddedwyddwch trwy dy waed;
cr Yno canwn
Mewn gorfoledd gyda hwy.—Amen.

Cynauaf.

WIR PFLÜGEN. 7.6.7.6.7.6.7.6.6.6.8.4.





427

An.

mf 1 NYNI sy'n troi y meusydd,
Nyni sy'n hau yr had,
Ond Duw sy'n rhoi y cynnydd—
Gwres a chafodau mad ;
Er meithrin y dywysen
Fe ddenfyn wynt a gwlaw,
Y tes a'r oerni hefyd—
Pob peth oddiwrtho ddaw.
f Rhoddion rhad a gwerthfawr
O'r nef sy'n d'od i lawr ;
ff I Ti, O Dad, diolchwn am
Dy gariad mawr.

mf 2 Efe yn unig greodd
Y pethau mân a mawr,
'Fe ro'dd ei lun i'r rhosyn
A blodau heirdd y llawr ;
'Fe lywia lwybrau'r gwyntoedd,
Y tònau'n ufudd sydd :
'Fe bortha adar nefoedd,
I ni ein bara rhydd.
f Rhoddion rhad, &c.

mf 3 I Ti, O Dad, diolchwn
Am roddion da diri',
Am amser hau a medi,
Am fwyd ac iechyd cu :
O derbyn yma ein hoffrwm—
Ein diolch rodd i Ti ;
Y rhodd sy wrth fodd dy galon—
Ein hufudd galon ni.
f Rhoddion rhad, &c.—**Amen.**

ST. GEORGE. 7au. 8llin. SIR GEORGE ELVET.



428

An.

f 1 CHWI ddiolchgar bobl, dewch,
Mewn sain moliant llawenhëwch ;
Caed y cnwd mewn addas hin,
Cyn ystormydd gauaf blin :
mf Duw ofalodd yn ddi-baid
I gyflenwi eich holl raid :
f Dewch, O dewch i'w deml lân,
Cyd-ddyrchefwch iddo gân.

mf 2 Maes i godi ffrwyth i Dduw,
Clod, a mawl, a diolch gwiw,
Ydyw'r ddaiar—ynddi mae
Yd ac efrau wedi'u hau :
cr Pan addfedo'r had ar awr
Ddwys yr adgyfodiad mawr,
p Arglwydd bywyd, gad i ni
Fod yn sanctaidd gnwd i Ti.

mf 3 Gwyddom oll y daw y dydd
Y cymmerir plant y ffydd
Adref, ac y bwrir draw
p Bob aflendid, trais, a braw :
Y prysura'r angel-lu
I losgi'r efrau'n uffern ddu ;
f Ond y ffrwythlawn ŷd, yr Ior
Gasgla mewn i'w nefol 'stôr.

mf 4 Clyw, O Dduw trugaredd, clyw
Fawl dy weision, gweddus yw ;
cr Casgla Di dy saint yng nghyd
Rhag y Diafol, cnawd, a byd ;
f Boed in' bawb yn nheml nef
Dy foliannu ag un llef ;
ff Boed i fyrdd o engyl glân
Ganu'n awr y ddiolch-gân.—Amen.

Bedydd.

GLASFRYN. M. S. HUGH ROBERTS.



429

T. J.

mf 1 BEDYDDIER ni, yn fawr a mân,
A'r Ysbryd Glan a'i rasau;
Boed arnom, er glanhâd a maeth,
Ei helaeth dywalltiadau.

mf 2 Rhoist in' dy ordinhadau, Ior,
Yn wystlon trysor nefol;
p Rho ini, o'th gyfammod hedd,
Fwynhau eu sylwedd grasol.

f 3 Mae Bedydd dwfr yn dyst i ni,
Aeth i drueni halog,
Fod Tri yn Un, Jehofah glân,
Yn golchi'r aflan euog.—Amen.

Gorymdeithiol.

430

S. R.

mf 1 DAN gario'r groes ym mlaen yr awn
I'r wlad sy'n llawn hyfrydwch;
Cawn yno daflu'r groes i ffwrdd,
A siriol gwrdd mewn heddwch.

mp 2 Fe gydymdeimla ein Ceidwad cu
A'r rhai sydd dani'n griddfan:
Fe gariodd Ef ei groes cyn hyn
I ben y bryn ei Hunan.

mp 3 Ac yno'i fywyd pur a roes
Ar bren y groes yn bridwerth;
O'i wirfodd marw wnaeth ei Hun
Dros waelaf ddyn yn aberth.

mf 4 Os croesau fyrdd a rhwystrau sy
Yn awr i deulu Sïon,
f Pan dderfydd dyddiau'r freuol oes,
Fe dry y groes yn goron.—Amen.

Dros rai ar y Môr.

MELITA. 8 au. 6 llin. J. B. Dykes.



431

E. R.

mf 1 EIN Tad tragwyddol, gadarn Ior,
Dy fraich sy'n rhwymo tònau'r môr;
A chau â dorau'r eigion maith
O fewn ei lydan wely llaith :
p cr O clyw ein gweddi, Arglwydd Ior,
di Dros bawb mewn perygl ar y môr.

mf 2 O Grist, pan ferwai'r môr fel pair,
p A'i derfysg peidiai wrth dy air,
cr Ti gerddaist orwyllt frig y don,
di A hunaist Ti yn ymchwydd hon :
p cr O clyw ein gweddi, Arglwydd Ior,
di Dros bawb mewn perygl ar y môr.

mf 3 O Ysbryd Glân, dy edyn fu
'N cysgodi dros y dyfnder du,
Gan ddofi bâr ei lidiog wedd,
A chreu o'i derfysg (*p*) hyfryd hedd :
p cr O clyw ein cri, cysgoda'n Hior,
di Dros bawb mewn perygl ar y môr.

mf 4 O Drindod gras, a chariad pur,
Ein brodyr cadw dan bob cur ;
Amddiffyn hwy tra'n hwylio'r aig
Rhag gelyn, tân, ystorm, a chraig :
cr A'th foliant glân, O gadarn Ior,
f Ddyrchefir byth ar dir a môr.—Amen.

Dros rai ar y Môr.

ST. AELRED. 8.8.8.3. J. B. Dykes.



DINAS NODDFA. 8.8.8.3. W. M. Roberts, Wrexham. (I'r casgliad hwn.)



432 *E. R.*

f 1 DROS arw fôr, mewn chwerw hin,
Mordwyo wnai'r dysgyblion trist ;
di Ond dan y lidiog dymmestl flin
pp Hurai Crist.

mp 2 Trallodus oedd eu hofnus fron,
cr Dyrchafent arno uchel gri,
p A'u cwch ar suddo yn y don,
pp "Cadw ni."

f 3 Cyfodai Crist, ceryddai'r môr
A'r gwynt : (*dim*) dystawent wrth ei lef,
cr Galwasant arno fel eu Hior :
Clybu Ef.

mf 4 Pan rua môr, pan ddua nef,
Ac egwan arch dy Eglwys Di,
Ar suddo, Arglwydd, gwrando'n llef,
pp "Cadw ni."

mf 5 Ym mhob cyfyngder, nos a dydd,
mp Dan bob rhyw loes a chroes a chri ;
p Yn angeu, yn y farn a fydd,
pp "Cadw ni."—Amen.

Y Refoedd.

GWALCHMAI. 7.4.7.4. D. J. D. Jones.



433 AN.

f 1 Y MAE gwlad sydd well na hon,
Mil rhagorach ;
Ynddi y mae pawb yn llon,
Neb yn afiach :
Y mae mwy o wedd yr Ion
Nag sydd yma,
Hefyd mil melusach son
Am Galfaria.

mf 2 Nid oes angeu, nid oes loes,
Yn 'r uchelder,
Ond gwiw ffrwythau gwaed y groes
Yn eu llawnder ;
Moli'r Iesu gyda blas
Yn ddiflino,
Am oludoedd mawr ei ras :
Hyn sydd yno.

mf 3 Tyn ym mlaen, fy enaid cu,
A'th holl egni,
Tua'r Ganaan nefol fry,
Yn nerth Iesu :
Fe fydd gyda thi bob cam
O dy siwrnai,
Nes y delot yn ddi-nam
I'r nef oleu.—Amen.

Breuolder Bywyd.

CHALVEY. M.B.D. L. G. Hayne.



Breuolder Bywyd.

434 *E. R.*

mp 1 YCHYDIG fiwyddau'n hwy,
A daw ein dydd i ben ;
p A byddwn ninnau 'mhlith y llu
Sy'n awr tu draw i'r llen.
O Arglwydd, parotô (*cr*)
Fi erbyn delo'r awr ;
O golch fi yn dy werthfawr waed,
p A maddeu'm beiau mawr.

mf 2 Ar fyr machluda haul
Ein dydd yng ngwlad y poen,
A byddwn lle na fachlud Haul—
Goleuni Duw a'r Oen.
p O Arglwydd, parotô (*cr*)
Fi erbyn delo'r awr ;
O golch fi yn dy werthfawr waed,
p A maddeu'm beiau mawr.

mf 3 Ychydig 'stormydd mwy
A'n cyffwrdd ar ein taith,
cr A byddwn ni mewn gwlad lle nad
Oes môr na 'stormydd chwaith.
p O Arglwydd, parotô (*cr*)
Fi erbyn delo'r awr ;
O golch fi yn dy werthfawr waed,
p A maddeu'm beiau mawr.

mp 4 Ychydig ymdrech mwy,
A griddfan dan y groes ;
p Ychydig golli dagrau'n hwy,
cr A byddwn uwch pob loes.
p O Arglwydd, parotô (*cr*)
Fi erbyn delo'r awr ;
O golch fi yn dy werthfawr waed,
p A maddeu'm beiau mawr.

mf 5 Ychydig ennyd, a
Daw Crist yn ol o'r nef :
p Bu farw drosom—(*f*) ninnau gawn
Deyrnasu gydag Ef.
p O Arglwydd, parotô (*cr*)
Fi erbyn delo'r awr ;
O golch fi yn dy werthfawr waed,
p A maddeu'm beiau mawr.—Amen.

Sancteiddiad Bywyd.

MALVERN. 6.6.4.6.6.6.4.



435 AN.

mf 1 MAE pechod o bob gradd
Yn llwyr am gael fy lladd,
A minnau'n wan :
cr O estyn fraich i'th was,
Dangos d' effeithiol ras ;
O'r tiroedd anial cras
Dwg fi i'r lan.

mf 2 Ond atat mae fy nghri—
'Does arall ond Tydi
All fy nglanhau :
cr Mwy haeddiant dwyfol waed
Na'r pechod mwyaf gaed,
A chryfach cariad rhad
Na grym fy mai.

mf 3 Ac er nad wyf ond gwan,
Os deli fi i'r lan,
Ni'm maeddir ddim :
cr Mae nerth dy fraich yn fwy
Na'u holl fyddinoedd hwy
Sy'n rhoddi imi glwy',
Er maint eu grym.

mp 4 O ffynnon werthfawr rad !
p Yr afon fawr o waed
Ar Galfari—
cr Dylifa i lawr i'r byd,
A chudd fy meiau i gyd
f Yn nyfnder cariad drud
Dy haeddiant cu.—Amen.

Diogelwch y Saint.

LEONI. 6.6.8.4. Alaw Hebraig.



436 J. T.

vf 1 AM fod fy Iesu'n fyw,
Byw hefyd fydd ei saint ;
Er gorfod dyoddef poen a briw,
Mawr yw eu braint ;
f Bydd melus glanio draw,
'Nol bod o don i don ;
Ac mi rof ffarwel maes o law
I'r ddaiar hon.

mf 2 Pan af i ben fy nhaith
Tiwy afon ddofn y glyn—
Y dydd yr ofnais lawer gwaith
Ei wel'd cyn hyn—
f Fe wel fy enaid gwan
Yr Iesu'n benaf Gwr
Yn sefyll yno ar ei glan
I hollti'r dwr !

f 3 Ac yna gwyn fy myd
Tu draw i'r byd a'r bedd ;
Caf yno fyw dan foli o hyd
Mewn hawddfyd hedd,
Yng nghwmni'r nefol Oen,
Heb son am bechod mwy,
Ond canu am ei ddirfawr boen
Byth gyda hwy !—Amen.

Mawl yr Oen.

REFUGE. 7.7.8.7. J. D. Jones.



Mawl yr Oen.



437

D. C.

f 1 HOSANNA, Haleluia,
I'r Oen fu ar Galfaria!
Gorphenwyd iachawdwriaeth dyn,
Efe ei Hun yw'r noddfa:
cr Tragwyddol ddiolch iddo
Am faddeu a thosturio;
ff Anfeidrol fraint i lwch y llawr
Fod croeso'n awr dd'od ato.

mf 2 Mae'n achub hyd yr eithaf
Y pechaduriaid mwyaf;
Fe drefnwyd ffordd i gadw dyn
Gan Dri yn Un Jehofah;
cr Anturiwn ninnau arno,
Mae'r Iesu'n achub eto,
f A chroeso i bechaduriaid mawr
Bob mynyd awr dd'od ato.

f 3 O llanwed iachawdwriaeth,
Fel môr didrai yn helaeth;
Derbynied pell ynysoedd byd
I gyd y feddyginiaeth:
cr Mae'r Brenin ar ei orsedd
Yn cynnyg, o'i drugaredd,
I bechaduriaid tlodion, gwael,
Dd'od ato i gael ymgeledd.—Amen.

DIOLCH AM YR EFENGYL.

Alaw Gymreig.
Cyng. gan J. H. Roberts, Mus.Bac.


1. Di - olch i Ti, yr Holl-all - u - og Dduw. Am yr Ef - eng - yl, Am yr Ef - eng - yl,
2. Pan oedd - ym ni mewn car-char ty - wyll du, Rhoist in' ol - eu - ni, Rhoist in' ol - eu - ni,
Am yr Ef - eng - yl Sanct - aidd. Hal - e - lu - ia, Hal - e - lu - ia, Hal - e - lu - ia. A - men.
Rhoist in' ol - eu - ni ne - fol.

TREFN Y TESTYNAU.

	Emynau
Boreu	1—6
Sul	7—13
Yr Hwyr	14—19
Adfent	20—34, 214
Nadolig	35—42, 156, 160, 293
St. Stephan a St. Ioan Efengylwr	43—45
Diwedd a Dechreu Blwyddyn	46—51, 287
Yr Ystwyll ..	54—65, 161, 198
Septuagesima	66, 67
Quinquagesima	68, 69
Y Garawys	70—87, 245, 246, 253, 276
Sul y Blodau	210
Y Dyoddefaint ..	89—101
Y Croglith	102—112, 265, 270, 271
Y Pasc	113—124, 193
Y Dyrchafael	125—129
Y Sul gwedi'r Dyrchafael	263, 264
Y Sulgwyn	130—137
Y Drindod	138—142, 164, 182, 191
O flaen Pregeth ..	143, 144
Yr Ysgrythyr Lân ..	145—149
Yr Eglwys	150—153, 184, 200, 422, 423
Hymnau Cyffredinol ..	154—298
Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb	299—317, 202, 203
Y Nefoedd ..	318—330, 433

Hymnau Achlysurol.

	Emynau
Cymmun Bendigaid	331—347, 218, 219, 247
Bedydd ..	348—351, 243, 429
Conffirmasiwn	352—355
Priodas	356
Wythnos y Cydgoriau ..	357
Ieuenctyd	358—362
Mewn Amser Trallod	363—365, 168, 199, 241, 242, 249, 250, 434
Diolchgarwch	366, 367
Casgliad ac Elusengarwch	368—370
Diolchgarwch am y Cynauaf	371—379, 427, 428
Gorymdeithiol ..	380—382, 430
Cyssegriad neu Ail-agoriad Eglwys	383—6
Agoriad Ysgol	387
Cenadol	388—392, 267, 277, 405, 406
Undeb yr Eglwys ..	393—395
Wrth ymadael	396
Claddedigaeth	397—401
Dyddiau Gwyliau y Saint	402—426
Dros rai ar y Môr ..	431, 432
Dechreu Gwasanaeth	157, 166, 169, 173, 180, 201, 209, 217, 228
Diwedd Gwasanaeth	153, 174, 176—178, 184, 186, 197, 216
Gwyl Gymmanfa ..	261, 266, 423
Cymdeithas Gyfeillgar ..	285

ENWAU YR AWDWYR NEU GYFIEITHWYR.

[*Dengys y ffugyrau ar ol yr enwau amser eu genedigaeth a marwolaeth ; dengys seren* (*) *fod yr awdwyr yn fyw ; a dagr* (†) *fod dyddiad eu genedigaeth a marwolaeth yn anhysbys i'r Casglyddion.*]

Ab Ithel	.. Parch. J. Williams, Llanymmawddwy, 1811—1862.
A.G.	.. Mrs. Anne Griffiths, Dolwar Fechan, 1776—1805.
A.J.	.. Parch. J. A. Jackson, Llanelwy, 1845—1875.
An.	.. Anhysbys i'r Casglyddion.
B.F.	.. Parch. Benjamin Francis, Horsley, 1734—1799.
C.E.	.. Parch. Christmas Evans, 1766—1838.
C.W.	.. Casgliad y Wesleyaid.
D.	.. Parch. Evan Rees (*Dyfed*).*
D.C.	.. Parch. David Charles, Caerfyrddin, 1762—1834.
D.E.	.. Casgliad y Parch. Ganon D. Evans, Caernarfon.
D.J.	.. Mr. David Jones o Gaio, 1710—1777.
D. Js.	.. Parch. David Jones, Treborth.†
D.M.	.. Parch. David Morris, Tŵr Gwyn, 1744—1825.
D.S.E.	.. Parch. Ganon D. Silvan Evans.*
Dr. Ph.	.. Parch. Thomas Phillips, 1772—1842.
D.T.	.. Mr. David Thomas (*Dafydd Ddu Eryri*), 1760—1822.
D.W.	.. Mr. David Williams, Llandeilo Fach, 1712—1794.
E.E.	.. Parch. Evan Evans (*Ieuan Glan Geirionydd*),1795–1855.
E.J.	.. Mr. Edward Jones, Maes y Plwm, 1761—1829.
E.L.	.. Tra Pharchedig Ddeon Lewis, Bangor.*
E. Parry	.. Mr. Edward Parry.†
E.P.	.. Hybarch Edmund Prys, 1541—1624.
E.R.	.. Parch. Ellis Roberts (*Elis Wyn o Wyrfai*), 1827—1895.
E.R.J.	.. Parch. E. Rhys James, Llangollen.*
E.V.	.. Mr. Ebenezer Thomas (*Eben Fardd*), 1802—1863.
E.W.	.. Parch. Ellis Wyn o Lasynys, 1671—1734.
G.	.. Parch. J. Williams (*Glanmor*), 1825—1890.
Go.	.. Parch. Joseph Harris (*Gomer*), 1773—1825.
Gr.	.. O'r Casgliad 'Grawn Sypiau Canaan.'
H.	.. Parch. W. Rees (*Hiraethog*), 1802—1883.
H.C.	.. Parch. Hywel Cernyw Williams, Corwen.*
H.H.	.. Mr. Hugh Hughes (*Gethin*).†
H.J.	.. Mr. Hugh Hughes, Maes Glasau.†
H. a N.	.. Hymnau Hen a Newydd.

H.M. .. .. Mr. H. Rowlands (*Henry Myllin*).*
Is. .. .. Parch. William Thomas (*Isiwyn*), 1832—1878.
J.E. .. .. Parch. John Elias, 1772—1841.
J.H. .. .. Parch. John Hughes, Pontrobert, 1775—1841.
J.H.D. .. .. Parch. J. Henry Davies.†
J.J. .. .. Parch. John Jones, Ystradmeurig.*
Js.H. .. .. Parch. James Hughes (*Iago Trichrug*), 1779—1844.
J.Rs. .. .. Parch. John Roberts, Liverpool.†
J.T. .. .. Parch. John Thomas, Rhaiadr Gwy.†
J.W. .. .. Parch. John Williams, Pantycelyn, 1754—1828.
L.E. .. .. Parch. Lewis Edwards, Bala, 1809—1887.
L.G. .. .. Parch. Lewis Gilbertson, Braunston Rectory.*
M.D. .. .. Casgliad Mr. Morris Davies, Bangor.
M.R. .. .. Mr. Morgan Rhys, Caerfyrddin, 1700—1776.
N. .. .. Parch. Morris Williams (*Nicander*), 1811—1874.
P. .. .. Casgliad y Parch. R. Phillips, Ficer Abergele.
P.J. .. .. Mr. Peter Jones (*Pedr Fardd*), 1775—1845.
R.E. .. .. Parch. Roger Edwards, Wyddgrug, 1811—1881.
R.J. .. .. Parch. Richard Jones, Wern, 1772—1832.
R.R. .. .. Mr. Robert Roberts, Rhiwabon.†
R.V. .. .. Mr. Rowland Vychan, Caergai, 1600—1700 (?)
R.W. .. .. Mr. Robert Williams (*Robert ab Gwilym Ddu*), 1767–1850.
S.R. .. .. Casgliad y Parch. Samuel Roberts, Conway.
T.B.Ll.B. .. Parch. T. B. Ll. Browne, Bodfari.†
T.J. .. .. Parch. Thomas Jones, Dinbych, 1756—1820.
T.Ll. .. .. Parch. Thomas Lewis, Talyllychau.†
T.R. .. .. Parch. Thomas Rees, Abertawe.†
W. .. .. Parch. William Williams, Pantycelyn, 1717—1791.
W.A. .. .. Parch. William Ambrose (*Emrys*), 1813—1873.
W.E. .. .. Mr. William Edwards, Bala.†
W.G. .. .. Parch. William Griffiths, Glandwr, 1777—1825.
W.J. .. .. Mr. William Jones, Bala.†
W.M. .. .. Parch. William Morgan (*Penfro*).*
W.M.R. .. .. Parch. W. M. Roberts, Bettws Clun.

W. SPURRELL A'I FAB, ARGRAFFWYR, CAERFYRDDIN.